



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD


This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:


<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>




This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



28915. e. 32.





CANIADAU CALEDFRYN:

YN CYNWYS

AWDLAU, CYWYDDAU, ENGLYNION

A

PHENILLION.

LLANRWST:

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

DROS YR AWDWR.

—
1856.

LIBRARY
10-5-1905
LIBRARY

AT Y DARLLENYDD.

NID all yr awdwr ymffrostio ei fod ef yn perthyn i neb o feirdd adnabyddus Gwynedd na Phowys. Dywedid wrtho fod ei daid o du ei fam, mab Tan yr Onen, Llanefydd, nid yn unig yn hoffi barddoniaeth, ond y byddai yn cyfansoddi ambell ddernyn prydyddol ei hun. Nid oedd ganddo neb o du ei dad ychwaith, am a wŷr ef, yn tueddu dim at lenyddiaeth o unrhyw fath, oddigerth ewythr iddo o frawd ei daid, yr hwn oedd yn ddarlennydd mawr, ac yn cael ei ystyried yn gryn oracl yn ardal Llanrwst, tua phedwar ugain mlynedd yn ol. Nid ydoedd dim neillduol yn ei dad na'i fam i'w dueddu at farddoniaeth; oblegid nid oeddynt yn gwybod fawr am lenyddiaeth, ac yr oeddynt yn llawn trafferth gyda'u masnach a gorchwylion ereill pan oedd ef yn blentyn. Anfonwyd ef i'r ysgol yn Ninbych, oddeutu pedair oed; ac yr oedd yn medru darllen ei Fibl, yn Gymraeg a Saesonaeg, yn saith oed. Dechreuodd amgylchiadau ei rieni, pa fodd bynag, gymylu pan oedd oddeutu naw neu ddeg oed, a daeth hynny ar y ffordd iddo gael yr holl fanteision ysgolawl a fwriadent roi iddo. Y farddoniaeth gyntaf a dynodd ei sylw oedd *Watts' Divine Songs*, Emynau Williams, Pant y Celyn, Emynau Edward Jones, Maes y Plwm, a Salmau Edmund Prys. Byddai yn hoff iawn o ddarllen y llinellau barddonol o ddifyniad Mr. Charles, yn y Geiriadur hefyd; yr oedd efe tuag unarbymtheg oed cyn anturio gwneud dim ar lun penill. Pan y torodd allan gyntaf, ni chafodd ddim cefnogaeth gan nemawr, 'ond yn

hytrach teflid pob rhwystr ar ei ffordd gan rai a dybient eu hunain yn feirdd; ac, yn enwedig, gan amryw o bobl y capel; canys ystyrid prydyddu, pob peth, agos, ond Emynau, yn bechod y pryd hwnw, gan laweroedd.

Yr Eisteddfod gyntaf o bwys y bu yr awdwr ynnddi oedd Eisteddfod Gwrecsam, Medi 1820. Aeth hefyd i Eisteddfod Caerynarfon, Medi 1821, lle y gwnaethwyd ef yn "Fardd wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain."

Yr oedd yr awdwr yn ymgeisydd, ar ol yr Eisteddfod hono, ar y testun "Ymweliad Sior IV. ag Ynys Fon." Ystyriai Dafydd Ddu bedwar cyfansoddiad yn gyfartal ar y testun, ac yr oedd yr awdwr yn un o'r pedwar.

Yn Eisteddfod Gwent, Medi 1822, enillodd ei Englyn ar yr Enfys, yr hyn a'i calonogodd yn fawr i fyned rhagddo. Byth ar ol hyny y mae rhywbeth wedi bod a wnelai ef â barddoniaeth. Enillodd amryw fân wobryon cyn cyhoeddi y *GRAWN AWEN*, yn 1826.

Nid ydyw yr awdwr wedi anghofio yr hyfforddiadau a gafodd yn nghychwyniad ei yrfa gan Mr. R. Owen, Dinbych. Gohebodd lawer, ar ol hyny, â Gutyn Peris, a chyfeillachodd ag Ieuan Glan Geirionydd, Erfyl, Caerlleon, a Mr. J. Jones, Argraffydd y llyfr hwn; i'r rhai y mae yn ddyledus am lawer o awgrymiadau buddiol. Daeth yr awdwr i gydnabyddiaeth â Gutyn Peris, drwy offerynoliaeth Mr. Evan Richardson, Conwy.

Ni chymerodd yr awdwr lwybr i geisio enill poblogrwydd yn ei yrfa farddonol mwy nag yn ei yrfa weinidogaethol. Ni fu efe erioed yn fyr o fynegu ei feddwl yn y naill gylch mwy na'r llall, gan nad beth fyddai y canlyniad. Ni feddai efe neb i udganu o'i flaen na'i ganmol; na neb i'w wthio rhagddo wedi iddo ddyfod i sylw. Cafodd sefyll neu syrthio ar ei wadnau ei hun yn hollol; ac nid bychan oedd y llifeiriant a redai yn ei erbyn yn mhob ystyr yn y cychwyniad. Ac fel y

daeth i fwy o sylw fel bardd a llenor, ychwanegodd y gwrthwynebiadau; a hyny yn llawer am nad ydoedd efe am enill ffafr neb ar draul aberthu egwyddor. Y mae efe wedi datgan ei olygiadau ar lywod-ddysg, ac ar bob peth arall, bob amser, yn ddiogfn; ac os oes rhyw ragoriaeth yn perthyn iddo, y mae efe wedi cyraedd hyny dan ddyweud yn groes i farn y lluaws ar y rhan fwyaf o bethau. Ni wnaeth efe aberth o egwyddor nac o gyfaill erioed er dringo i'r safle y mae y wlad wedi roddi iddo; ac ni arferodd erioed unrhyw ystryw i'w gyraeddyd. Os oes ambell un siomedig yn cenfigenu wrth ei lwyddiant, nid oes ganddo ef ddim help.

Nid ydoedd yr awdwr heb wybod am y llwybr i gyr-aedd hynodrwydd drwy blygu i bob awel; nac heb ddeall y ffordd i fyned yn mlaen drwy wasgu egwyddorion i fewn pan na byddai yn gyfleus eu gwadu yn llwyr; ond y mae efe wedi ymgylmu mor gadarn wrth yr egwyddorion a goledda fel mai gwell ganddo eu harddel yn amlwg, er fod hyny wedi peri niwaid i'w amgylchiadau lawer tro. Ni fuasai efe yn ystyried ei hun yn gwneud cyfiawnder â'r oes, pe cyfansoddasai ei waith heb ynddo ddim oll i fynegu pa beth yw yr awdwr o ran ei syniadau a'i olygiadau ar bethau sydd yn pasio o'i amgylch. Dylai y bardd ddwyn tystiolaeth yn erbyn yr hyn a anghymeradwya yn gystal a dyddanu a difyru.

Gyda golwg ar y **CANIADAU**, yn gyffredinol, nid ydyw yr awdwr yn honi eu bod oll yn wreiddiol, megis, y Disgyniad ar Sinai, Pob peth yn dyweud am Dduw, Pryf y bedd, Colli plentyn, y Gog, Diwedd y cynauaf, y Mud a'r Byddar, Bywyd dyn, Rhyfel a Heddwch, Gogoniant Rhyfel, Heddyw ac Yforu, y Llencyn dall, Dyferynau yr Ysgrifell, Yn y byd gorthrymder a gewch; ond nid ellir edrych arnynt fel cyfieithiadau llythyrenol; canys

arferodd efe ei ryddid gyda hwynt, gan eu tynu goreu y gallo at chwaeth Cymreig. Nid ydyw efe yn ddyledus i ereill ond am un neu ddau o'i gynlluniau. Y mae efe yn dymuno mynegu nad ydyw efe yn ddigon rhyfygus i osod ei weithiau fel safon o'r hyn ydyw barddoniaeth i fod; ond y mae yn hyderu y caiff efe ei le yn mysg ei frodyr awenyddol, ac yn mhob mynwes ddiragfarn. Gall sicrhau y darllenydd na fuasai efe yn cyhoeddi llyfr byth o'i waith oni buasai anogaeth daer ei gyfeillion.

Y mae efe hefyd yn dymuno dychwelyd ei ddiolchgarwch gwresocaf i'w gefnogwyr. Y mae y parodrwydd a ddangosasant i anfon eu henwau fel derbynwyr y gwaith wedi arbed punoedd iddo ef; ac yn brawf eu bod yn chwenych gweled y CANIADAU.

Y mae lluwaws o enwau yn rhestr y tanysgrifwyr na ddysgwylodd yr awdwr am danynt ond a groesawir yn fawr; ac y mae enwau ar ol, efallai, a fuasant yn eu plith, oni buasai rhyw oediad, neu angof; ond pa fodd bynag gweithredwyd ar yr egwyddor wirfoddol yn hollol.

Anfonodd rhai derbynwyr eu henwau am nifer o gopiau, a bydd y rhai hyny yn cael eu dosbarthu, y mae yn debyg, yn mysg rhai a anfonasant eu henwau eu hunain, oni buasai eu bod yn dysgwyl am gael y cyfleusdra o dderbyn y llyfr o law y dosbarthwyr.

Gan nad ydyw barddoniaeth yn taraw chwaeth y lluwaws yn gyffredin, a chan fod pris y CANIADAU yn lled uchel, nid all yr awdwr lai na rhyfeddu iddo gael y fath gefnogaeth yn wyneb can lleied o ymdrech i gasglu enwau derbynwyr.

Coed Llydan, Llanrwst,

Medi 1856.

Y CYNWYSIAD.

AWDLAU.

	TU DAL.
Ar Roddiad y ddeddf ar fynydd Sinai	13
Ar ddrylliad yr Agerddlong Rothsay Castle ..	27
Er coffadwriaeth am y diweddar Barch. Joseph Harris, (<i>Gomer</i>), ac am Ieuan Ddu, ei fab .	51
Ar Ymweliad ei Mawrhydi y Frenines Victoria, â Chymru yn Awst, 1847	67
Ar yr Adgyfodiad	77
Er Coffadwriaeth am y Parch. Walter Davies, M. A. (<i>Gwallter Mechain</i>)	112
Ar Wladgarwch	121

CYWYDDAU.

I'r Parch. David Morgan, Llanfyllin	151
Priodasgerdd Ieuan Gwynedd	153

ENGLYNION.

Ar Ansicrwydd Bywyd, a sicrwydd Marwolaeth	156
Ar warth y Cymro a gywilyddia arddel Iaith ei Wlad	158
Murddyn Taliesin	160
Awenydd	161
I'r adar yn canu yn nghanol Chwefror, 1846 ..	163
Jubili y Fibl Gymdeithas	164
Yr Eira yn Chwefror, 1853	166
Mis Ionawr, 1856	167
Dwfr y Cae Coch, Trefriw, ac ymweliad y Parch. T. Pierce, Le'rpwell, a'r Parch. W. Ambrose, â'r ardal	168
Yr Oferddyn	169
Y Tylod-dy	170
Y Wryf	—
I'r Enfys	—
I Ddinas Mawddwy	171
I'r Flwyddyn newydd	—
I'r Eira yn y flwyddyn 1827	—

	TU DAL.
Morglawdd Tre' Madog, Mehefin 4, 1827 ..	171
Ereill	172
I'r Ogof sydd gerllaw ty y Parch. D. Morgan, Machynlleth	—
Y Wyddfa yn orchuddiedig gan Eira yn niwedd Ebrill, 1835	—
Y diffyg ar y Lleuad, Chwefror 6, 1841 ..	173
Clawdd Offa	—
Eira yn Mai, 1851	—
Y dydd byraf, 1854	—
Y Gelfyddyd o ddarlunio	174
Y gerbydres, (<i>Train</i>)	—
Evan a Sian.. .. .	—
I'r Agerddlong, (<i>Steampacket</i>)	—
Y ddau Sion.. .. .	—
Eira yn Hydref.. .. .	175
Bryn yr Odyn, Llanrwst	—
I ofyn Egan i Ioan Madawg, dros Nai iddo ..	—
Cymru, Cymro, Cymraeg	—
Deildy Mr. E. Jones, Mine Agent, ger Bagillt ..	—
I Smociwr wedi troi y Bibell heibio, yr hwn oedd mewn hiraeth	176
I Amseriadur, (<i>Timepiece</i>)	—
Anrheg i'r Parch. H. Pugh, Mostyn	—
ENGLYNION ANERCHIADOL.	
I John Edwards, Ysw., Dinbych	177
Ymweliad â Chapel Cil Dwrn, ger Llangefni ..	179
Ar ymddangosiad Darlun y Parch. D. Jones, Tre- ffynon	180
Croesawiad i'r Parch. S. Roberts, Llanbrynmair ..	—
Dymuniad am rwyddhynt i Frutas, o Le'rpwell, i Fagillt, 1829	—
Llyfr Dafydd Ionawr	181
Cydnabyddiaeth o ymdrechion diffino O. O. Roberts, Ysw., Bangor	182
I Robert Williams, Oriorydd, Llanrwst	184
Am anrheg o Ffon Gollen i Griffith Jones, Ysw., Glynlleidr, ger Llanrwst	185

	TU DAL.
I Anerch Robert ab Gwilym Ddu	185
I Cadben Richard Prichard, Caerynarfon, am anrheg o ffon o Riga	186
I Griffith Jones, Ysw., Glynlleddr	—
Thomas Cadwaladr, mab Mr. R. Cadwaladr, Garth- en, Rhiwabon	—
Teulu y Gwynyndy, Llanfaircaereinion	187
James Kerfoot Jones, mab Mr. R. Jones, gynt o'r Bee, Abergele	—
Teulu yr Elephant and Castle, Drefnewydd	—
Mrs. Hughes, priod y Parch. R. Hughes, Trallwm, yn chwareu y Piano	—
Merch Mr. E. Stafford Jones, Le'rpwll	188
I Mr. a Mrs. Richards, o Hasting st. Llundain	—
Ar Enedigaeth merch y Parch. J. Roberts, Llan- brynmair	—
I Mr. Owen Jones, Gorwyr y diweddar Mr. J. Thomas, o Bentre'rfoelas, 1847	—
I Mr. H. Thomas, yr hwn sydd yn y swydd o arwain Pregethwyr y Methodistiaid o Lanrwst i Bethel	189
I Mr. R. D. Morgan, Grace Church st. Llundain, ar enedigaeth ei fab	—
R. T. Griffiths, mab G. Griffiths, Ysw., Llundain	—
Englyn a anfonwyd mewn llythyr at Mr. John Foulkes, Graig, Dinbych	—
Croesawiad Arglwydd Dinorben, 1844	—

ENGLYNION PRIODASOL

Priodas y Parch .T. Pierce, Le'rpwll, Mai 4. 1827	190
Y Parch. W. Ambrose, Porth Madog, Gor. 24, 1839	—
— R. Parry, Conwy	191
— R. Williams, (<i>Hwfa Mon</i>)	—
— Evan Evans, Abermaw	192
— T. Edwards, Llanddeiniolen	—
I Mr. J. Williams, Caerynarfon, (<i>Ioan Mai</i>) ..	—
I Ioan Machno	—
I Thomas Williams, Caerynarfon	193
I'r Parch. J. Evans, Llansantffraid, (<i>I. D. Ffraid</i>)	—
Taliesin o Eifion	193

ENGLYNION GALARNADOL.

Y Parch. Samuel Evans, Soar, Merthyr Tydfil ..	194
Y Parch. D. Stephen, Bryn Mawr	—
Y Parch. D. Roberts, Dinbych	195
Ieuan Gwynedd	—
Y Parch. D. Rhys Stephen	197
Richard Jones, Llwyngwriil	199
Y Parch, Moses Parry, Dinbych	200
Cawrdaf	201
Priod y Parch. William Roberts, Blaenau Gwent	—
Miss Eliza Anwyl, Dolgellau, Gorph. 6, 1847	202
Unig ferch R. ab Gwilym Ddu	—
Mab y Parch. Ellis Hughes, Pen y Main ..	203
Mrs. Roberts, Llanbrynmair	204
Mr. G. Williams, Caerynarfon	—
Mrs. Hughes, Trefriw	—
Jane, merch y Parch. T. Pierce, Le'rpwll ..	205
Y diweddar Joseph Jones, Ysw., Caerynarfon ..	—

BEDDERGRYFF.

Y diweddar Barch. John Elias	206
Y Parch. Griffith Hughes, Morganwg	207
Y Parch J. Breese, Caerfyrddin.. ..	—
Gweinidog Ieuanc	—
Mr. Robert Owen, Llanrwst, Pregethwr gyda'r Trefnyddion	208
Mr. John Roberts, Dinbych, y Cantor	—
Priod yr Awdwr	—
Ei mab, Walter Morgan Griffith	—
Mrs. Jones, gweddw y diweddar Barch. T. Jones, Dinbych	209
Mrs. Jones, Abercain, Llanystumdwy	—
Eleanor, gwraig Mr, Richard Thomas, Bethesda, ger Bangor	—
Jane Rowlands, Caerynarfon	210
Anne Williams, Aelod yn y Tabernacl, Llanrwst	—
Gwraig dduwiol	—
Rhieni Mr. Jones, gynt o'r Bee, Abergele ..	—
Merch Ieuanc	—

	T Y DAL.
Merch Mr. E. Griffith, Anglesey House, Caergybi	211
Plant Mr. Dafydd Thomas, Bethesda	—
Chwe' phlentyn, Hugh Rowlands, Caerynarfon	—
Merch Mr. Joseph Parry	212
Dwy Efeilles	—
Tri William	—
Plentyn dwy flwydd oed a foddodd yn afon Saint, Caerynarfon	213
Maban	—
Mr. Griffith, Dinbych, tad Clwydfardd ..	—
Dwy efell R. Roberts, Ysw., North and South Wales Bank, Drefnewydd	—
Mab Mr. Elias Roberts, Coedmor	214
Tad y Parch. T. Roberts, Newmarket	—
Gwr a Gwraig	—
Eliza bach	—
Ar fedd gwr Ieuane yn Llanbeblig	—
Gwraig a fu farw, o'r Frechwen, ar enedigaeth dyn bychan	215
Dyn Ieuane	—
Mam a'i dau blentyn	—
Gwraig Rinweddol	—
Geneth	—
Gwr a Gwraig	216
Arall	—
Arall	—
Arall	—
Cristion dyfal	—

CANIADAU RHYDDION.

Y Gwanwyn	217
Y Gog	219
Y Blodau	220
Y Ddeilen ddiweddfaf	222
Diwedd y Cynhauaf	223
Y Bedd	224
Pryf y Bedd	227
Colli Plentyn	229
Dyferynau yr Ysgrifell	230

	TU DAL.
Bywyd Dyn	231
Amser	—
Yr Olygfa yn yr Heol	—
Y Mud a'r Byddar	240
Gogoniant y Filwriaeth	241
Yr Aderyn Symudol	244
Cwyn Dafydd Evans, Caerynarfon	247
Y Wenol	250
Anwyhodaeth	—
Heddwch a Rhyfel	251
Y Cyferbyniad rhwng Maes y Gwaed a Chartref	—
Heddyw ac yforu	252
Sel heb Wybodaeth	253
Y Llencyn Dall.. .. .	855
Anerch i Mrs. Jones, a Miss Eliza Evans, Maes Teg, Morganwg, 1855	256
Dagrau yn Sychu	—
CANIADAU CREFYDDOL.	
Sylwedd y Cysgodau	257
Y Disgyniad ar Sinai	259
Pob peth yn llefaru am Dduw	261
Dyoddefaint Crist	262
Yn y byd gorthrymder a gewch	263
Gwaed yr Oen	264
Cariad Duw	—
Y Cynauaf, 1831	265
Eto	—
Penillion.. .. .	266
Am Drugareddau Tymhorol ac Ysbrydol	268
Emyn Angladdol gwraig Rinweddol	269
Ty yr Hir Gartref	270
Cyflymdra Amser	—
MARWNADAU.	
Galareb a gyfansoddwyd ar farwolaeth y diweddar Barch. Christmas Evans	271
Marwolaeth Mr. John Huxley	279
Galareb Cadben W. Hughes, Caerynarfon	282
TRAETHAWD.	
Pa beth yw Barddoniaeth	285

CANIADAU CALEDFRYN,

&c.

A W D L

AR "RODDIAD Y DDEDDF AR FYNYDD SINAI."

Testun Eisteddfod Aberhonddu, 1826.

Ys, ar ol i'r Israeliaid,—drwy law Ner,
A'i wir hoffder wel'd boddi'r Aifftiaid,
Rhoes iddynt rhag troseddu
Ei berffaith, lân gyfraith gu.

Mewn rhyfedd fawredd na fu—un o'i ail;
Ni all neb ei draethu;
Wrth gofio hwn, dwthwn du,
Wyf fel un ar ddiflanu!

Amlygwyd, gwelwyd, llu o argoelion
O wyrth ei law enwog ar gerth elynion;
Anfonodd, rhoddodd amryw geryddon,
Rai gorhelaeth, ar wlad Phar'o greulon,
Taranau, mellt terwynion,—llu mewn bar,
O blâau anwar a heintiau blinion.

Er diogel ddwyn ei garedigion,
 Yn ofalus, o'i erwin afaelion,
 Gwnae'r môr a'i donau fel muriau mawrion,
 Gael prif-ffordd sych i'w ddewiswych weision;
 Ac yn llawr dyfnfawr y don,—er ei rym,
 Ffrwynai y croewlym offeryn creulon.

A holl gerbydau gorau y gwron
 A lwyr rwystrwyd pan ddaeth i lawr estron,
 A'i feirch nerthawg, carlamawg, gorlymion,
 Caent tan wylltio'u cau'n y tonau heilltion;
 A'i lu drwy allu yr Iôn—ddymchwelwyd,
 Hwy oll a rwygwyd yn ngorlli'r eigion!

Ond Israel ddiwael a ddaeth
 I'r lan er ei elyniaeth,
 O dan nodded Iôn addien
 Eu pur Gynaliwr a'u Pen;
 A bwriodd ef bob bore,
 I'r rhai'n oll, fara o'r ne'
 A thynodd, heb waith anian,
 Eu dwr o ganol craig dân!

I'w golwg, un bwy gilydd,
 Ar y daith am lawer dydd,
 Trwy'i wyrthiau, diau, daeth—gallu ein Rhi
 I'r goleuni fel Duw Rhagluniaeth.

Ond, yn awr, gwel'd ei fawredd,
 A geir mewn newydd-deg wedd.

Dacw Moesen fêl enau,
 Hynaws wr, at Dduw'n nesâu:

Draw i Sinai dros enyd—i ufudd
 Ofyn cyfarwyddyd,
 A chalon i ddychwelyd,
 Yn nerth Iôn a'i wyrth o hyd.

Wele, ca'dd hardd angel cu,
 Lyw enwog, i'w ragflaenu ;
 Canfyddaf, gwelaf e'n gain
 Ar doriad gwawr y dwyrain,
 Un bore, wyneb araul,
 A'i ddrych mor loewaidd a'r haul,
 Yn sefyll uwch gwersyll gwych
 Yr Israelwyr siriolwch,
 Yn ddidawl, gan ddywedyd,
 “ Israel, deg Israel i gyd,
 “ Sylwa ar Foses wiwlon,
 “ Heddyw, daeth o wydd dy Iôn,
 “ A mât wrandawriad rho di
 “ I'w dirion genadwri.”

Ebai Moesen, addien wr,
 Eu rhingyll a'u cyfryngwr,
 “ Fel hyn, fe haeddai'i fawlhâu,
 “ Y dywed Duw y duwiau,
 “ Rhais uwch tonau cau'r Môr Coch,
 “ Adenydd eryr danoch,
 “ A'r Aifftiaid, mewn llaid a lli',
 “ A faeddwyd, nes llwyr foddi.

“ Os yn wastad
 “ Bydd eich rhodiad
 “ Yn fy nghariad

} a fy ngeiriau,

“ Duw bendigaidd	}	fyddaf finau.
“ Ichwi'n ddibaid		
“ O fodd f'enaidd		
“ Fy mreniniaeth	}	annghyffredin,
“ A'm cenedlaeth,		
“ Offeiriadaeth		
“ Gewch, yn ddiau,	}	diwael, iesin.”
“ Fod drwy'ch oesau		
“ Ie,'n dlysau		

Yn sŵn ei bêr eiriau, hwythau aethan'
 Yn llon eu henaidd, oll o un anian ;
 Arwydd ddewisol a gydroddasan'
 O'u cydsyniad â galwad Iôn gwiwlan ;
 O wiwserch ymroddasan',—heb ballu
 I'w wasanaethu yn gyson, weithian.

A Moesen, wr cymwysaf,
 Trwy arch ddwyfol, nerthol Naf,

Wedi clywed	}	heddyw, ymo ;
Eu hadduned		
Archai'r mwynwas	}	ymsanteiddio.
Hwynt i addas		

“ O achos mae'n rhaid ichwi,
 Ebr ef, mewn harddwch a bri
 “ Dd'od heb gysgod, bob gwr
 “ O flaen eich Dwyfol Luniwr.”

Arbenig yw'r derbynriad
 Ro'nt i'w eirchion mwynion, mād :
 Wele y fam hoff wiwlwys,
 Gu a doeth â golwg dwys,

Yn ail ddweyd yn fanylach
Er eu budd, i'w holl rai bach.

Dyweda, “ Fy mhlant didwn,
“ Ein Duw Iôr, sy gynor gwn,
“ A wysiodd ei holl weision,
“ Gwir, fryd, i dd'od ger ei fron.

“ Rai anwyl, na ddychrynwch,—hwn ydyw
“ Hynodawl Dduw'r heddwch,
“ Creawdydd, hoff Lywydd fflwch,
“ Yr haul a'r sêr a welwch.”

“ A dyma Dduw y duwiau
“ Ranai ddwr y môr yn ddau,
“ Can ei droi, acw'n y drin,
“ Yn fedd i Phar'o a'i fyddin;
“ Pan ydoedd lluoedd hyll iawn
“ Y cwerylus lew creulawn,
“ A'u chwant am gael eich lladd chwi,
“ Yn ddinerth, newydd eni,
“ O'i ras hawddgar, dyma'r Duw
“ A ffrwynodd Phar'o annuw!”

Dacw Moesen wedi cymwyso—holl
Israel hardd yn gyfrdo;
Wele hwynt, ar ei ol o,
Y trydydd dydd yn troedio.

Dug hwynt lon, wrolion rai,
Drwy sà'n i odre Sinai,
Ebr ef wrthynt oll, ger bron,
“ Na ddeuwch mewn modd eon.

“ O flaen eich Dwyfol Ynad,
 “ Fel rhai fyddo'n gwylltio i gâd,
 “ Rhag i'w lid mawr, enfawr o,
 “ Yn astrus, eich dinystrio.”

Wele ar Sinai olwg
 Ddychrynlyd. O, enbyd ŵg!

Saetha cochwawr fellt tramawr, trymion,
 Wylt ac aruthr lym folltau geirwon,
 Taranau rüant draw'n orëon
 Yn y cymylau, tâu tewion,
 A'r ddaiar hygar hon,—drwy'r cynyrfiadau,
 Dan fawr iasau, ar fyn'd yn friwsion!

Cymylau erchyll, tywyll tewion
 Yn duo'r haul a'n daiar wiwlon,
 Y lleuad a'r holl sêr têt, tirion,
 Ant o'r golwg hwnt i argelion;
 Yn dyrch drwy entyrch yr Iôn—mwg Sina,
 Yr hawg, eheda i Gaergwydion.

Gan rym tân a'i eirian wawl,
 O wylt anian felltenawl,
 Poethodd, mae'i gopa, weithian,
 Yr un dull a ffwrn o dân;
 Herwydd yr Arglwydd eirian
 Yn ei gerbyd glwysbryd, glân
 O ganol y nef geinwawr,
 Ei lys, a ddeuodd i lawr!
 Dan ei draed e wnaed yn wych
 Urddwaith anfeidrol harddwych,
 A'i ryfedd agwedd, yn wir,
 Sy hoffach na main Saphir,

A drych ei ddysgleirdeb draw
 Yn enbydol danbeidiaw,
 Liwiau hynod, ysplenydd,
 Yn loewach, decach na'r dydd!

Ag iawn addurniant, disgynodd arno,
 A'r engyl glân yn gwiwlan deg eilio
 Mawl gorhaeddawl, â'r delyn aur iddo,
 Hyd y laswybr a hithau'n adleisio,
 O'u hachos y nef ucho—drwy'r asur,
 Hardd ddinas eglur, oedd drwyddi'n siglo!

Wele'r rhif engyl rhyfedd
 Mewn nefolbryd, danllyd wedd,
 Miliwnau mewn melynaur,
 Gŵeis gwych yn eu gwisg o aur,
 Yn osgorddion, geinion gôr,
 Gogoniant eu gwiw gynor,
 Goleurwydd ymddysgleiriant,
 Goleuo'r ne'n eglur wnant;
 Ant ar ei arch trwy y wybr,
 Rai hoewon, yn dra ewybr,
 Yn gynt, i wneud eu teg waith,
 Na mellt ar gyflym wylltdaith:
 A! bydd y mynydd hwn, mwy,
 Yn nodawl le ofnadwy.

Och! mae, yn awr, synfawr sŵn,
 A chynwrf drwy erch annwn,
 Wele rhyw ddrych anwiwlan,
 Dychrynlyd, enbyd o dân
 Efo rhwysg, yn esgyn fry,
 I'r wybren o'r pair obry;

Uwch ORION myn'd tan chwarae,
Drwy'r nen, fel mellten y mae!

Ac ynddo'r diafol gelydol ini,
Dduwawr agwedd, sy'n ymgynddeiriogi,
A'i äang araith, y mae'n cyngori,
Amryw fagad i gydymarfogi,
Er ynull, drwy drueni,—blant dynion,
Acw i'w dñnion erchyll gadwyni.

Meddai ef yn y modd hwn,
“ Cydunwch holl gâd annwn,
“ Dorf wech, i rwystro drwy fâr,
“ Y Duw wnaeth nef a daiar.

“ Dygwn ein gwaith melldigaid,
“ Ar gynydd, beunydd, heb baid,
“ Awn yn mlaen, fy mileiniaid—drwy dwyllo,
“ I wenwyno pob perchen enaid.

“ Os deddfau, 'n ddiau, rydd Iôn,
“ Yn nwylaw annuwiolion,
“ A'u dwyn i'w credu unwaith,
“ Myn'd o'r byd wna'n henbyd waith;
“ Yn iach wedi i bechadur
“ Ddyrchafu neu barchu'n bur,
“ Hynodol ordeiniadau
“ Uffernol, gwageddol, gau.

“ Caiff coed Affrig yn dewfrig hyd wiwfron,
“ Neu ar y maesydd dyfu'n rymusion,
“ Yn lle eu tori, braidd, fel gwellt hirion,
“ Beunydd, yn danwydd i losgi dynion;
“ Ni esyd plant truenusion—mewn bedd,
“ Famau i orwedd, yn fyw efo'u meirwon.

“ Llongau nofiant yn llengau yn afon
 “ Y Ganges lwyswawr, fâd orawr dirion,
 “ Yn lle gweled, er archoll i galon,
 “ Hyd ei gwyneb, y babanod gweinion ;
 “ Treiglo, a pheidio, gaiff hon—a gwranddo
 “ Acw’u mawr wylo na llyncu marwolion!

“ Seinia’r nen, gan lawen haleluia,
 “ Orwiw diriondeg, crwydriaid yr India,
 “ Trwy hyfawl lwyddiant e orfoledda
 “ Y gwael gaethion wrth gofio Golgotha;
 “ I’w ddilyn, neb ni addola,—y gwyr,
 “ Mwy îs awyr, ond Crist y Messia!

“ Gan hyny, os felly fydd,
 “ Drwg waeau, yn dragywydd,
 “ A saif uwch fy nheyrnas i
 “ Am ddeiliaid i’ m haddoli;
 “ Deuwch ellyllon duwawr,
 “ I daro â mellt Iôr mawr,
 “ Ei Israel, ei hynawsryw
 “ Fendigaid, pob enaid byw!”

Ar hyn, ein Duw eirianwawr,
 Yrai y mellt a’u grym mawr,
 Yn anwar drwy’r lân wiwnef,
 Nes fflaglu enynu y nef;
 A’i daranau drwy hoewnerth
 Rüent mewn twrf, cynwrf certh;
 O weled hyn fe giliodd
 Diafol uffernol, a ffôdd
 O wÿdd Iôr, lywydd eirian,
 I’w le du, gwely o dân;

Methai y Satan annuw
A dal yn ngŵyddfod ein Duw!

A sain yr udgorn dwys, oedd
Ofnadwy,—cryf iawn ydoedd;
Ei adlais a'i hynodlef,
Grynai holl gaerau y nef;
Ac ar arch Iôn, dirion dwr,
Nesai Moesen hynawswr,

O flaen ei ddwyfol wyneb,—i edrych
Ar anfeidrol burdeb,
Neu wel'd ei bresenoldeb,
Yn awr, a'i fawredd uwch neb.

Crynai, fe laesai'i ddwy lîn,
Ger ei fron, gywir Frenin:
Ni allai neb syllu, 'n awr,
Ar ei wyneb eirianwawr,
Wedi d'od o ŵyddfod Iôn,
Eilwaith, at Israel wiwlon.

O'r cwmwl tewddwl a'i tôdd,
Fy Iôr, fel hyn lefarodd,
“ Myfi yw, heb unrhyw ball,
“ Dy Ner, ac nid un arall,
“ Mewn bri, a'th ddug di yn dèr,
“ O'r Aifft drwy ddirfawr hoffder;
“ Fy mawredd, burwedd, drwy ball,
“ Na ddyro i dduw arall.
“ Nac arfer, na chymer chwaith
“ Fy eur enw'n ofer unwaith.
“ Arbenig barch rho, beunydd,
“ Eithaf teg, i'r seithfed dydd.

“ Mawredd hyglod dyro di
 “ Ar ran dy fwyn riëni.
 “ Dan warth, na ddwg fywyd neb.
 “ Hyd einioes, na wna odineb
 “ Yn wastad, lladrad, hyll wedd,
 “ Na chynwys i'th wech anedd.
 “ Tystiolaeth ddrwg, na ddwg, ddyn,
 “ Air diles, ar dy elyn.
 “ Na chynwys flys i chwenych
 “ Gwas undyn, asyn neu ych,
 “ Y rywiog, lwys, hardd wraig lon
 “ A fedd, na dim o'i foddion.”

Dyma gyfraith berffaith, bur,
 Hon ytoedd yn ein natur,
 Cyn cwmp ein tad, wiwfad wr,
 Uchelwych gynrychiolwr;
 A hon a rôdd Ner addas
 I ni drwy Foesen ei was,
 Ar gerig, yn rhagorawl,
 Yn ngwÿdd meibion gwynion gwawl;
 I hon er pob gofyniad
 Y rhoes ein Meichiai fawrhâd.

Iawn a roddodd i'w Dad dan arwyddion
 O'i wg a'i soriant, yn ddigysuron,
 Ufudd e'i gwelwyd, o fodd ei galon,
 Dawel Iesu, yn y celyd loesion;
 Mawrhai gyfraith faith fy Iôn—yn hollawl,
 Ein Ner haeddianawl dros anwir ddynion!

Nid oes un dyn, bryfyn brau,
 Ddengys chwerwedd ei angau,

Na mawr werth ei aberth ef,
 Eirianwych Iôr y wiwnef;
 Mae'n ddyfnfor, na fu môr mwy,
 Oludoedd anchwiliadwy;
 Ar bwys gwerth yr aberth hwn
 Fe welir amryw filiwn,
 Yn lân, yn ngwlad goleuni,
 Dan nawdd yr Iôn ein Duw ni.

Arogl ei enw a ladd ddrwg elyniaeth
 Twyllodrus, enbydus anwybodaeth,
 Fe'i dyrchefir drwy fâd oruchafiaeth
 Heibio gwenwyn echrydus baganiaeth;
 E faluria 'i filwriaeth,—yn ddarnau,
 Waelion ddelwau, hên eilunaddoliaeth!

O'r braidd na chlywwn bêr sŵn hosanna,
 Hoff arwyrain, plant bach Caffararia,
 O'r anialwch, gyda'r wî anwyla',
 A gwawr iachus, yn moli'r Gorucha';
 Uwch y nen gorddyrchu wna—hyfryd sain
 Eu cu lef firain am Iawn Calfaria!!

Fy Iôr pan ddóe i lefaru—wnae i Sinai
 Mewn swm mawr ddirgrynu;
 Ebrwydd aeth, drwy y wybr ddu,
 Wyllt dân gan goch felltenu!

A! daeth yn syndod, weithian,—ac arswyd
 Trwy'r gweryll yn gyfan,
 O ddeillio 'i lais gwrdd allan,
 O niwl tew, o ganol tân!

Teimlodd, a gwelodd pob gwr
 Fawr angen am Gyfryngwr;
 Gwaeddent, "Moesen, Moesen, mwy
 " A redo i'r ddirfawr adwy,
 " Rhag i Naf ein rhwygo ni—yn ei fâr,
 " Rai euog, anwar llawn drygioni!"

Purdeb ei hanfod hynod ei hunan,
 A'i ddyrnod ar bechod, mawr a bychan
 Yn dra hollol, osoda Iôr allan,
 Efo hardd arwydd o'i fawerdd eirian;
 Yn ngolwg tewfwg y tân—rhag purdeb
 Ei ddwyfol wyneb, y bobl ddiflanan'!

Yn syn, yn eu dychryn du,
 Tan gur enaid, tan grynu,
 Ciliant, dynesant yn ol,
 Nesant rhag y tân ysol.

Weithian, hyn effeithio wna—yn dreiddiog
 Acw ar gribog greig Arabia,
 Yr anial a gryna—Paran enbyd
 I lawr o'i blegyd a lwyr blyga!

Yr holl fynyddau, diau, ymdöant,
 Yn awr, â chaddug, eu penau orchuddiant;
 Cedyrn daiar, rai anwar, ddychrynant;
 Tò nau y moroedd, hwnt ni ymwriant;
 Rhag llef, gorseddlef Duw Sant,—pob elfen,
 Luon addien a gydymfonyddant!

Cryndod astrus, aethus sy weithion,
 Drwy holl allu gwlad yr elyllon,

Gyrodd llais, adlais Iôn—mewn dychryndod,
Orn i waelod yr uffernolion!

Er ei fâr, mae'r llew anwar yn llonydd
Yn y goedwig, o dan ei wasgawdwydd;
Cryna ei galon, greulon gwerylydd,
Rhag ofn llais rhyfeddol, dwyfol Dofydd;
Dychryndod, syndod sydd—ar fwystfilod
Anwar, a milod ar benau'r moelydd!

A'r adar pêr, goreudeg,
Hyfrydlon gantorion teg,
Synant, ni eiliant, yn awr,
Gerddi'n y goedwig gwyrddwawr;
Newidiodd rywfodd bob rhan
O wyneb hawddgar ANIAN.

A W D L
AR
DDRYLLIAD Y ROTHSAÏ CASTLE.

CRITICISM.

THE Rev. Thomas Richards, Llangynniw, stated that there were nineteen compositions on this subject, some of which were considered much superior to the others. Their merits were all stated in a letter which had been addressed to the secretary, by the Rev. Walter Davies, which he would read:—

Penmaen Dovey, Aug. 1, 1832.

MY DEAR SIR,—You will recollect that I marked the several Odes you gave me for inspection with a *number* upon each, as I happened to take them in succession. These numbers are for the sake of future reference, and are no indexes whatever of the *merits* or *demerits* of the respective compositions, I have in my own mind, reluctantly, formed some idea *which* might be considered the *first* Ode, and which the *second*; but I can scarcely be positive on the subject, where so many write well. I have noticed only one line containing “*Twyll cynghanedd*” in the whole *eight* or *nine* Odes.

As many as I read, I have classed thus:—

- | | | |
|------------|---|--|
| 1st Class. | } | No. 1, by “Un a gar fyw yn Nglan y Môr.” |
| | | 7, by “Seiriol Wyn o Ben Mon.” |
| 2d Class. | } | 3, by “Seiriol.” |
| | | 5, by “L—d Byron.” |
| | | 8, by “Junius.” |
| 3d Class. | } | 2, by “Seiriol.” |
| | | 4, by “Pererin Glan Menai.” |
| | | 9, by “Gwawdrydd Godrist” |

It is observable that several stanzas and passages in the Odes of the 2d, and even of the 3d class are equal, if not superior to any

in those of the 1st class ; but I consider Nos. 1 and 7, *upon the whole*, to have been more uniformly successful in their compositions. I wish the gentlemen of the committee, and their secretary, would take the opportunity of reading over attentively the *two* Odes, Nos. 1 and 7, and thereby to form their opinion which of the two deserves the *first* prize, and the other to take the second. There are *three* more, and even *six*, who deserve some remuneration for their loss of time, from the liberality of the President, Vice-presidents, and Committee.

The writer of the Ode, No. 1, begins it oddly, and ends abruptly. He seems to be master of his subject ; not only notes explanatory, but also commas, colons, periods, accents, &c., are beneath his notice. He seems to think that his composition does not require such helps and tinsel trappings ; and, indeed, I think he is right. It must be an ordinary piece that requires many marginal illustrations. His prosody is correct and smooth, and yet so connected as the best written prose, without the interpolation of any unnecessary words. He seems to have been hard pressed as to time, otherwise he might have added a better conclusion to his Ode. In this respect, in the opinion of many, he may be inferior to numbers of his competitors. He ends abruptly, by offering a few lines of incense to a kind Providence, which saved the few who escaped the wreck ; and a stanza of four lines, the meanest by far in the whole Ode, intended as a compliment to Sir R. B. W. Bulkeley for his prompt and humane exertions in saving the lives and property of the remnant of the deplorable wreck. There are writers among the candidates, who have spent a great portion of their odes in complimenting the president, but this was not the subject laid before the public for competition. The subject was simply this—*The "Wreck of the Rothsay Castle."* The writer No. 1, followed his subject closely to the conclusion : that was *The Wreck* ; and his description of it is majestically terrific. Indeed, many of his rivals equal him in this ; but they have introduced topics not required by the subject proposed to them.

No. 1 begins oddly, as observed before, by upbraiding the sea for its deceitful appearance during its "*gwen dey*" upon a fine morning. He then abruptly introduces the catastrophe of the *Rothsay Castle*, without naming the vessel—The pleasing anticipations of the strange passengers, coming to enjoy the rural and picturesque sceneries of *Gwynedd*—their hilarity and conviviality

anticipated during their excursions—the several objects to be admired—the salubrious air of Mona and Arvonian—its effects upon invalids—Menai Bridge—a fine description of it—its usefulness, compared with the former Ferry of Porthaethwy—the Marquis of Anglesey's column—its history—Waterloo field—ruins of castles—rocks—cataracts—mines—Snowdon—a sun-rise view from its summit. Natives of Wales on the *Rothsay* steamer, returning from England, after many years absence, to their once "sweet homes"—their anticipations of meeting once more their dearest friends—and enjoying the scenes of their youthful mirth and pastimes. These, trusting themselves on board of the *Rothsay*, full of the most exhilarating sensations—preparations for sailing—description of the steam apparatus—the musical band on board. —

But oh!—the storm—the storm—its violence—the horrors of it terrifically described—steam ineffectual—the sun, moon, and stars hide themselves in thick darkness from observing the woeful sight—nothing apparent to the distressed passengers, but the jaws of death yawning upon them from between the rolling surges—the cries of the passengers, though loud in the extreme, far less audible than the roar of the tempest—steam annihilated—the dreadful catastrophe at its height—the sea taking full possession of its prey—some fine touches of pathos—respecting parents and their infant children—an apostrophe to the ocean to save one newly born—the cries of the distressed re-echoed from the rocks of Priestholme and Orme's Head; but both the one and the other, overpowered by the shriller roars of the two contending and furious elements—Providence interposeth, and saveth a few—an ejaculation of praise to the Ruler of the winds and waves—an encomium of four lines on the humane and active conduct of Sir R. B. W. Bulkeley, and the Mona men, in saving lives and property.

I remain, dear Sir, yours sincerely,

WALTER DAVIES.

The Secretary, the second judge on this subject, addressed the meeting and said, that after the very learned judgment of the Rev. Walter Davies, it would be presumptuous in him to occupy much of their time. In accordance with the recommendation of the Rev. Gentleman, and in compliance with the wishes of the committee, he had carefully perused the two best Odes on this subject, and he

was of opinion, that the one-singed "*Un a gar fyw yn Nglan y Mor*," excels. This poem is one of the finest bursts of poetic genius, and one of the most striking ebullitions of the Welsh *awen*, which had ever fallen under his observation. The author had, it is true, lingered much too long in the description of scenery, and other irrelevant matter, but the softness and beauty of every line, amply make up for these digressions. He might instance, among a variety of others of these adventitious beauties, the ascent to the top of Snowdon.

When he comes to the more immediate part of his subject, the wreck, he treats upon it with a masterly, glowing, and eloquent grandeur. The flight of his ideas knows no bounds, and the vigour of his language is unrivalled.

The Secretary announced that the second prize was awarded to Mr. Griffith Williams, of Llandegai (Gutyn Peris).

The Rev. John Blackwell said, that though this composition was adjudged to take the second prize, it was of very great merit, and was second only because it had been excelled by one of the first compositions they had in the language.

BEIRNIADAETH.



SYLWEDD y llythyr blaenorol, o eiddo y Parch. Walter Davies, a ymddangosodd yn *Gymraeg*, yn y 'Gwyllydydd', am Ionawr, 1833, fel y canlyn:—

“Ar gymhelliad gohebydd caredig, yr wyf yn anfon i chwi dreigleithiad o'm llythyr at ysgrifenydd Cymmrodorion Gwynedd cyn Eisteddfod Beaumaris. Gan nad ydyw y llythyr cyhoedd-edig yn y Newyddiadur yn fy meddiant, nis gallaf ond casglu ynghyd rai o'r côf-nodau ysgrifenedig sydd genyf, ac os ymddangosant yn helaethach neu yn brinach, bydded hyny yn faddeuol.

“ATHRYLITHIAWG GYMRO.—Cofus genych i mi ddynodi yr Awdlau ar golled y *Rothsay Castle*, bob un â rhifyn, fel y damweiniodd i mi osod fy llaw arnynt, a gwyddoch nad yw y rhifau hyny yn argoelion rhagoriaeth na gwaeledd; gwyddoch hefyd na bu yr Awdlau ond ychydig oriau dros y pedair ar hugain dan fy sylwad, cyn ichwi eu llogellu yn ol o Lan yr Iw i Lan yr Etwy: ond yn hyny o ysbaid, penderfynais fod yr Awdlau rhif. 1, a rhif. 7, yn rhagori ar y lleill. Pa un o'r ddwy a gyfrifir yn oreu, gadawaf i farn yr Ysgrifenydd a'i gyd-reithwyr dysgedig.

“Y mae rhif. 1, [sef awdwr yr awdl hon] yn dechreu ei Awdl yn farddonawl, gan senwi y môr am ei hudedd dau-wynebawg—y boreu mor llyfn ei wyneb â môr tawdd Solomon, a'r prydnewn mor erchyll glogyrnawg ag an-nrhefn ei hun, cyn i'r Peryf mawr erchi Trefn, a Threfn a fu.

“Gwedi crybwyll chwilfriwiad llong, gan feddwl y *Rothsay Castle*, ond heb ei henwi, y canlyn dychymmygiad o barotoadau y mordwyaid—eu helwch yn blaen-olygu rhwyddbynt cysurus—Dieithriaid yn addaw iddynt eu hunain y mwynhâd o ymweled â cheinion a rhyfeddodau Môn ac Arfon—Darluniadau o'r gwrthrychau penaf—Pont ar Fenai, a'i rhagoriaeth ar hen fadau serfyll Porthaethwy—Colofn Ardalydd Môn—ei golled o'i aelod wrth

ennill buddugoliaeth Waterloo—Mwynder Cymdeithas—Hyfrydwch dystawrwydd allan o gynhwrf a dwndwr eu caerdrefydd masnachol—Iechineb awelon a gloywon ddyfroedd Eryri, er hybu anhwyliant y corph a'r meddwl—Creigiau diffwys—Mynyddoedd cribog, rheieidr—Mwngloddiau—Taith foreuol i ben Clogwyn Carnedd y Wyddfa—Meithder y terfyngylech—Prydferthwch y Dwyrain ar godiad yr haul, &c.—Teimladau y Cymry cynhenid yn dychwelyd o Loegr i ail olygu bröydd eu genedigaeth—chwar-eufäau eu mebyd—ac i fwynhau o newydd gymdeithas y rhai a gerynt fwyaf—Eu rhagddarpariadau i'r daith—Eu cyfleadoll ar glawr yr Agerddlong—Peirianau yr agerdd—Y Cydgor Alawon. eu sain mal clych yn entrych nen—Cychwyn y fordwyaeth—Ond Och! y dymhestl yn codi—ei chynnyddiad anfeidrol—darluniad o'i herchyllod—y goleuadau wybrenol yn ymwisgo â mantelli o dywyllwch rhag bod yn dystion o'r canlyniad—boddiad yr agerdd—ei ebwch diwedaf—Rhuad y gwynt a'r môr, mewn cyd-gor dychrynadwy, yn fwy croch drimilwaith nag ysgrechiadau y truenusion a diaspedain craig lefain Gogarth a Seiriol—Dim yugolwg y dychrynedigion ond ymddyfaliad o safn-rwth yr angeu yn ysgyrnygu arnynt oddirhwng agenau diffwys y tonau mynyddig—Y môr mewn cyfiawn feddiant o'r llong a'r llwyth—O'r Wtwb!—Gwaeddiadau calon-dreiddiol rhieni a phlant—Erfyniad ar y môr i arbed bywyd un newydd ei eni—Moddion diangfa i'r gweddill oedd i'w gael—Ar ddarnau o'r Castell drylliedig.

“Dywedwyd am yr Awdl hon, i'w hawdwr ei diweddu yn swta. Gwir yw hyny; a gwir hefyd iddo ganlyn ei destyn i'r diwedd: pan orphenodd ei destyn, efe a ddiweddodd ei Awdl, yr hon sydd yn farddonawl yn ei dychymmygiad, rheolaidd, rhwydd, a llithrig yn ei chynganeddiad, a phur oddiwrth y gwrthuni cyffredin a'r sothach o *eiriau llanw*. Gwir arall, y gallasai efe dacluso ei Awdl ag ambell nod ac acan, ond ni ddarfu hyny, fel y gwelir wrth ei ddull yn ysgrifenu ei ffug-enw. Efallai mai ei dyb ydyw—“nad rhaid i Arthur wrth ffyn baglau.

AWDL AR DDRYLLIAD

YR

AGERLONG ROTHSA Y CASTLE,

GERLLAW BEAUMARIS, AWST, 17, 1831.*

—o—

Testun Eisteddfod Freninol Beaumaris yn y Flwyddyn 1832.

—o—

WYLLT wênwr hallt ei waneg
Llawn o dwyll yw ei wên deg;
Llyfn iawn ydyw, heddyw, heb
Arw dòn ar hyd ei wyneb;
Y dòn flin, erwin, orwyllt,
Effro'i naws, gyffröai'n wyllt,
Nes ydoedd yn arswydaw
Pob bron, llenwi pawb â braw,
Sy heddyw, mewn naws addien,
Yn lle cyffro'n gwisgo gwên;—
Och! ffalsder, digter y dòn,
A'i dinystr ar feib dynion.

* Barnwyd yr Awdl hon yn fuddygol, a derbyniodd yr Awdwr y wobr o 20p., a'r tlws cadeiriol; ac yn ychwanegol at hyny, dlws cydroddedig gan ei Huchelder Breninol y Duchess of Kent, a'r Princess Victoria, pryd hyny, eithr yn bresenol, Brenines Prydain Fawr.

O! 'r waedd oedd ddoe, a'r weddi,—o ganol

Y gwynwawr groch weilgi ;

Wyn fôr, rhoes i niferi,

Wely llaith, yn mol y lli'!

Llon oeddynt tybiynt gael taith,

A mwyniant teg am unwaith ;

A gwel'd, y llestri yn gwau,

Hyd wyneb gwyrddion dônau,

Heb ofni gwynt, heb ofn gwg,

Na gwaelod môr na'i gilwg ;

Cael iach daith, gwibdaith, deg wedd,

Drwy ganol rhandir Gwynedd,

I ganfod teg wynfyd hon,

A'i glwyswawr fryniau gleision :

Tynu anadl, tan wenu,

Heb flinder neu dosder du,

Mewn iachus, haelionus le ;

Awyr bur hwyr a bore ;

A chael cyn eu dychweliad,

Wel'd ceinion glwysion ein gwlad.

A byw 'n llawen ar ben bwrdd ;

Mordeithio neu rodio'r ardd ;

Taith ddestl, heb dymestl, heb dwrdd,

I fynu hyd Fenai hardd.

Neu gerdded drwy'r coed gwyrddion,

Lwyni heirdd, ar lanau hon,

I wrando ar gywreindeg

Gerdd lon y cantorion teg,

Sy'n plethawl, doniawl gyd wau

Yn nghanol y canghenau ;

A rhodio llawer adeg,
Drwy'r Morfa,* rodianfa deg.

Lle i dawel ymneillduo—o boen
Twrf y byd a'i gyffro ;
Yr harddaf, hyfrydaf fro
Is haulwen, i'w phreswyllo.

Niferi fydd o fawrion,
Yn llu, yn tynu at hon.

Pigion enwog, goludog y gwledydd,
Erioed, a lanwant yr ardal lonydd ;
Yno cyd-wleddant,—yfant yn ufydd
Awyr ei Menai o'r môr a'r mynydd ;
Ymlwybrant, rhodiant, yn rhydd—drwy'r wlad dda,
Yn iach eu gwala, yn mreichiau'u gilydd.

Llawer gwr fy'n llwyr gurio—yn ei bryd,
Nes oedd bron diffygio,
Ddaeth i hon, hyfrydlon fro,
A rhôdd iachâd llwyr iddo.

Rhydd ei thiroedd, lleoedd llon,
Deg olwg gŵyd y galon ;
Hyd drumau hon, ceir tremyn
Ar siriawl wawr SEIRIOL wyn,
A GOGARTH fawr, freinfawr frig,
Graig o adail grogedig ;
Y cydiol greig fel cadwyn
Gan y wlad o Gonwy i Ly'n.

* Beaumaris.

Eu banawg, uchel benau — yn saethu
 Yn syth i'r cymylau ;—
 Y mae yn werth i'n gael mwynhau—gwibdaith,
 I lwybro unwaith hyd ael ei bryniau.

Er gweled harddfawr golofn,
 Dra destl ein gwladwr di ofn ;
 Drych rydd edrych ar hon,
 A golwg draidd i galon.

Darluniad o'r elyniaeth—trywel oedd
 Yn Waterloo ddiffaeth ;
 A'r dystryw, ddystryw na ddaeth,
 Un o'i ail, ar ddynoliaeth,

Cofir trwm loesau, rhwygiadau ergydion,
 Mwg a niwl tramawr magnelau trymion :
 Mawrwyh garlamiad y meirch gorlymion ;
 Y drylliad ar fagad o arfogion ;—
 Ac aberth mawr, mawr lew Môn,—cael dyrnod
 Nes tori'i aelod yn nystryw'i alon.—

Cestyll rhyfedd Gwynedd gain,
 A'i chaerydd sy dra chywraïn ;—

A'r gadarn Bont grogedig,—i fyned
 Dros Fenai chwyddedig ;
 Heb ofyn dim,—heb ofn dig
 Rhuadwy'r môr berwedig.

Uchelgamp i'r croch weilgi—yw syflyd
 Ei saflawr na'i meini ;
 Deil tra bo mawr, lasfawr li'
 Uthr dòn, yn rhuthro dani.

Yn lle'r cychod oedd yn bod, a'r badau,
 Y rhai, gan ddyrnod, a rwygai'n ddarnau,

Wele drosglwyddiad rhad, wrth bob rheidiau,
 O gyraedd dinystr y garw-wedd dônau,
 A bloeddiog, groch gabledau—porthweision,
 A gwaedd eon eu dieffig weddiau!

A dynion a'u meirch danynt
 Ar garlam, garlam drwy'r gwynt;
 Nid ofnant y deifr dyfnion;
 Llonant, pan y teithiant hon;
 Degau o gerbydau'r bôn,
 Uwch agwrdd ddyfngrych eigion.

Yn rhedeg yn rhuadwy,—a chroesi
 Echrysawl ryferthwy;
 O olwg! a fu olwg fwy
 Nodedig a chlodadwy?

Mae twrf olwynion chwyrnion a charnau,
 Y meirch nerthawl, trinawl fel taranau;
 Cywirlym ydynt y carlamiadau
 Geir goruwch danedd yr egr groch dônau;
 Danynt, yn y gwynt yn gwau,—drwy ei phyrth,
 Wele lu engyrth, yn hwyliaw o longau.—

Bawb un ddull, myn'd bob yn ddau
 Hyd lenyddl pysgodlynau;
 A sylwi ar risialwawr
 Gloew ddwfr glân, a'i wiwlan wawr;
 Dwr o'i yfed, yr afiach,
 Gwan ei wedd a ddwg yn iach;—
 Lle mae'r pysg yn cymysg wau,
 Mor lon, mewn amryw luniau.

A gweled, gyda'u gilydd,—ugeiniau
 O agenawg greigydd;

A'r rhaiadr ar raiadr rydd,
Dwrw gwyllt drwy y gelltydd.

Bistyllia, ffrystia'n dra ffrom;
Chwyrna wrth edrych arnom;—

Cael rhoi gwib hyd grib y graig,
Iach aelgref, yr uchelgraig;
Chwilio'i chau fŵngloddiau glân,
A'i chelloedd yn wych allan;
Dringo'r Wyddfa, gopa gwyn,
A chware ar ei choryn;
Lle'r nifwl, gwmwl teg yw,
Cam i wlad cwmwl ydyw;
Ceir yma olygfa lon
Ar ddirfawr froydd Arfon.

Gwelir o'r cwr bwygilydd—i lawer
O luoedd o wledydd;
A'r haul mad, ar doriad dydd,
Yn agoryd ei gaerydd.

Ei dêr wynebpryd eirian,
Aur liw, wrth ddringo i'r lan,
A'i wrid, yn ymlid y nos, ●
O'i ddorau yn ddiaros.

Ceir yno deimlo'r gwyn darth,
Sydd heibiau'n nofiaw mewn nerth;
Chwalu bydd, drwy'r uchel barth,
Uwch creigiau, uwch cymau certh.—

Rhai ereill oedd am forwrio—o Loegr,
I'w hên wlad i rodio;

Yr oeddynt, drwyddynt, am dro,—ar frig tòn,
Yn llawn o galon, hawdd gallwn goelio;

Cysuron hen gofion gynt,
Yn ddiau, 'n mlaen a ddeuynt.

Oeddynt yn ymawyddu—am weled
Moelydd hawddgar Cymru;
Gwel'd rhiant, gwel'd ceraint cu,
A gwyneb pawb yn gwenu.

Cofio'r gwyn ddyffryn a'r ddôl,
Y llenyrch heirdd meillionol,
Y fron wech, y glasfryn hardd,
Lle tyf blodau, fathau fyrdd;
Y doreithiog, enwog ardd
Lad ei gwawr, y deildy gwyRDD.

A'r dyddan le roed iddynt,
Ochrawg wedd, i chware gynt,
Yn rhyddion, cyn cyrhaeddyd
Tan bwys helyntion y byd;
Oeddynt yn cofio addysg
Tad a mam dinam, a'u dysg.

A hallt alar yr holl deulu—y dydd
Y deddynt o Gymru,
A'r trymion ofidion fu,
Trwy'u henaid, yn trywanu.

Cyn rhoi'n olau, amlygiadau,
O'u bwriadau i fyn'd o'u brodir,
A throi, weithion, ar daith ëon,
Trwy y wendon, i estron-dir,

Anhawdd iawn oedd, yn ddinam,
Dyweyd am hyn, wrth dad a mam.

Troi draw, ag wylaw o galon,—yn rhwydd,
Yr oeddynt ddeigr heilltion;
A'u gruddiau teg, lliwdeg, llon,
Un ffunud a dwy ffynon.

Fel yr hwyliant, colli tremynt,
Yno 'r oeddynt, arni'n raddol;
A chaddug llwyd, gorchuddiol—ar drumau,
Aeliau ei bryniau, a niwl wybrenol.

O'u golwg hi a giliodd,
Y niwl tew â'i law a'i tôdd.

Dysgwyliant, tybient, gael taith,—a dychwel
I'w gwlad iachus eilwaith;—
Heb baid, eu llygaid yn llaith,
Am eu hardal, drwy'u mordaith.

Rhoddi eu hyder, yn bur ddioedi,
Yn yr agerddlong, y nofiai'r gwyrddli',
Ac yna meddwl, meddwl am iddi
Rwygo 'i wyn gesig, a'u brigau'n gwysi,
A'u dwyn i'r lan, ar hyd anwar li',—heb
Orn trychineb na môr yn trochioni.

Nid oedid,—rhoddid yn rhydd,
Olew ar ei hechelydd;
Ffrystio gwneud corff o eiriasdan,
A pharotoi 'i hoffer tân.

Yr agerdd yn dyrwygo,—yn bybyr,
Drwy'i bibell dan ruo,

Poeri'n wyllt o'r pair wnai o,
A chyffröwyllt groch ffrio.

Gwedi, yn nghanol godwrdd,
I bawb ddyfod ar ei bwrdd,
Acw chwanog gychwynynt,
Fawr lu hardd, i'r farwol hynt,
O Lynlleifiad i'r wlad lon,
Diriondeg drwy y wendon.—
Llwyth gwerthfawr o drysawr drud
Anhefelydd,—prif olud;
Heb feddwl, heb feddwl fawr
Am y drom ystorm dramawr,
A'r greulon, annhirion nos
Erwin, oedd yn eu haros.

Yn ddir, ydoedd ei rhodau,—drwy agerdd
Yn dyrwygaw'r tônau;
Dyrchodd ei mwg yn dorchau,
Hyd y nen, yn dew dan wau.

Hwythau y peroriaethwyr,
Drwy ainc, rhoddent gainc i'r gwyr
Tybient y meiddient â'u mawl,
Yn ei chastell, gorchestawl,
Herio'r môr a'i rym mawrwyllt,
Ac eigion y wendon wyllt;
Ond Och! y garw siom du
Ddeuai arnynt i ddyrnu;
Eu holl obaith ymaith ai,
Fel iâ unnos diflanai;
Y môr ffrochwyllt, orwyllt wedd,
A'i ddwr yn llawn cynddaredd;

Twrrw a dinystr ei donau
A'u trem hyll yn cyd-drymhâu.

Crychferwai, ymrwygai y mawr eigion,
Ewynai'i aflonydd dônau'n flinion ;
Unwedd a 'mwriawl fynyddau mawrion,
Och! oedd ei grothawg, fawr chwydd hagr, weithion ;
Ymluchiai, taflai pob tòn—hyd y sêr,
Yn eu gorwyllter, eu dagrau heilltion.

E ddeuai eilwaith yn nerthol ddyli',
O entrych hoewnef, gan wyllt drochioni,
Nes rhwygo y safngerth, aelgerth weilgi
Anferthawl, a'i ddreigiawl gynddeiriogi ;
Y llong yn mherfedd y lli'—ymsiglodd,
A tharanodd pob peth ei thrueni.

Duw, arwr y gorddyfnderoedd,
A'i enwog lais, yn galw oedd,
Ei filoedd i ryfela ;
Ni welid pelydr haulwen,
Y ne'n ddu, bygddu uwch ben ;
Twrf corwynt, drowynt o draw,
Yn yr awyr yn rhuaw.

Dan chwiban da'i allan o'i 'stafellau,
A heriai fydoedd, drwy'i gynhyrfiadau ;
A Duw a roddodd, lacâd i raddau,
I ffrwyn gadwynog y ffyrnig dônau ;
Rhuthrodd, fe ddyrnodd y ddau—'sglyfaethgar,
Drwy'u bâr anwar, nes duo'r wybrenau!

A'r ROTHSAY, hithau ar hynt,
I dir angau, 'n myn'd rhyngynt.

Weithiau i frig dig y dòn—y dringai,
 Drwy angawl ymdrechion,
 Wed'yn lluchid, hyrddid hon
 I'r gwgus ferwawg eigion.

Ymroliodd drwy'r môr heli,—ac eilchwyl
 Golchai yntau drosti;
 Ail ydoedd, yn ei ch'ledi,
 I flewyn llesg o flaen lli'.

Gwibiai'r dyfnfor, gefnfor gwyn,
 Anfoddog fel hurt feddwyn;
 E lynai ei holwynion,
 Eu tro chwai a dagai'r dòn;
 Cryfder yr ager a'i waith,
 A'i hoffer yn ddieffaith;
 Hi droe o'i phwynt yn dra phell,
 Dan ysgwyd ei hun asgell;
 Yna'n ol i hwn eilwaith,
 Yn erbyn y moryn maith,
 Nes syrthiai'i lif, gefnllif gwyn,
 Erch aruthr ar ei choryn:
 Ysigwyd hi, nes agor
 Ochrau ei muriau, i'r môr.

Ac e lanwyd calonau—y dynion,
 Ag ofn dinystr angau;
 Gwel'd ei safn anferth, gerth, gau,
 Yn agor drwy'r gwanegau!

A'r llong ar y garwfor llaith,
 Myn'd waelach, waelach eilwaith.

Tra anhawdd dweyd trueni,—neu helynt,
 Yr olwg oedd arni;

Llu'n ubain, llefain, uwch lli'
Rhyfeddol, bron ar foddi.

Ac ereill yno'n gorwedd—yn gleifion,
Mewn gwylofus dromwedd,
A'u henaid mewn anhunedd,
Yn wael eu gwawr,—gwelw'u gwedd.—

Er i wyr, amryw eiriol,
Yn daer yn awr am droi'n ol;
Er gweled drwy argoelion,
Mai'u lle fyddai dyfrlle'r dòn,
Yn mlaen ae'r llyw mileinig,
Drwy dōrau'r dyfnderau dig.

Treiddio yr oedd bloedd ei gableddau—'r aig,
Wrth regu'r elfenau;
Creulon oedd, ei galon gau,
At enwog lyw y tōnau!

Ei forwyr, yn llafurio—yn ëon,
Mewn awydd cael glanio,
A'r môr a'r gwynt, trymwynt tro,
Annhiriawn yn eu herio.

Baeddent, ymdrechent yn drwm,
A mawr rwysg y mor a'i rym;
Toddi mewn cyni, bob cam,
A phoen dost, heb ffynnu dim:

Y ddryghin fin, aflonydd,
Wedi dal ar hyd y dydd,
Nes oedd yr haul yn soddi,
I'w wely llaith,— bol y lli',

A hwythau, druain, weithion,
 A llef hallt, yn mhell o Fon,
 Ac eirf dinystr, cryf dònau,
 Wyneb certh, yn bywiocâu,
 A llawer, uwch dyfnder du,
 Yn llegach, bron llewygu;
 Y sêr, rhag trymder y tro,
 O'u gŵydd, yn llwyr ymguddio;
 Nid ellent, 'nawr, dyallwn,
 Edrych yn yr hagrddrych hwn;
 Gwel'd grym angau llym gerllaw,
 Mor aethus yn ymrithiaw.—

Dan ysboncio, neidio'n wyllt,
 Yn hir, ar y dòn orwyllt,

Hwy gyraeddent, yn wlybion eu gruddiau,
 I le eu dinystr, drwy lu o dònau;
 Ymagorodd, gor-rythrodd dwfn grothau
 Y dyfroedd yn ganoedd o agenau;
 Gwelid, yn ddigon golau,—ofn bedd llaith,
 Drwy anobaith, yn duo'r wynebau.

Ac ar hyn, twrf gerwinawl—a glywid,
 Nes oedd glewion nerthawl
 Yn syn, mewn dychryn di dawl,
 “*Yn y man annymunawl.*”

Y llong ar draethell angau,—yn gerwin
 Guro'i hun, yn ddrylliau;
 Ydoedd ei thrwm ddyrnodiau
 Gerwin fel daiargrynfaau.

Gan uban, mewn gwan obaith—yn eu ffrwst,
 Deffroes pawb ar unwaith,

Ond uwch na llef, fonllef faith,
Tair mil, oedd y 'storm eilwaith.

Bwriai y cefnllif berwwyn,—tra uchel,
Ei heillt drochion gorwyn;
Ysgubai, rheibiai'r gwyr hyn,
I aneddau'r annoddyn.

Drymed oedd eu caledi!—O!r wyllo,
O!r olwg oedd arni;
Pwy wna ddrych i edrych i
Haner y mawr drueni?

Rhai'n och'neidio, rhai'n gweddio,
Ac yn wylo'n drwm gan alar;
Rhai'n gwallgofi, rhai'n ymroddi
I'w trueni, ddystryw anwar.

Ereill wyr, mewn rhyw hyll wedd,
Tynu'u gwallt yn eu gwylltwedd;

Rhedent mewn cyffroadau,—i geisio
Osgoi iâs oer angau;
A'i eirf hyll, ail ymgryfhau,
Yn ei antur, wnai yntau.

Yn ei wÿn, gwelai'n honaid.
Y paith blwng,—pob peth o'i blaid.

Y nos wedi gorchuddio'r nen,—caddug
Yn cuddio pob seren,
A'r rholfawr, anwar elfen,
A'i bâr yn ffyrnig dros ben.

Anal y llong yn nghanol lli'—hyllig
Yn hellol ddiffoddi;

Llifeiriant yn hyll ferwi,
Rhwng eu chandryll estyll hi.

O le tost! wele y tân
Wedi hollawl fyn'd allan;
A'i holwynion yn glynu
Ar draethfan y *Dutchman* du;
Ac er i'r gwyr oer eu garm,
Chwilio am y gloch alarm,

Er fod ei sŵn hynod hi,
Garw sôn, yn llawn gresyni,
Eto, er rhoddi ateb
Iddyn' nhwy, ni chlywodd neb:
O'r diwedd, uwch deifr duon,
Pallodd dyrnod tafod hon.

Yn awr, y gwelir pob argoelion
Gyda'u gilydd, y gwaeda y galon;
O! pa deimpladau, aethau, weithion,
A feddiana'r fath dorf o ddynion;
Rhai nad ynt, uwch gerwin dòn,—yn gweled,
Un ymwarded, mwy nag i'r meirwon!

Dychryn enaid sy'n dechreu enynu,
Yn ei wylltineb, gan erchyll felltenu,
Drymach, drymach mae angau'n hyll-dremu
Yn eu hwyneb,—a'r môr yn ewynu,
A danedd hallt y dòn ddu—'nawr ydynt,
Oll am danynt yn erchyll ymdynu.

Y tadau tirion, trymion yn tremu
Ar eu haneisor ddinystr yn nesu;
Ymwylltient, a cheisient ymlochesu,
Ow anhap hyllig!—pob peth yn pallu;

Y ne'n ddwl, pob man yn ddu,—a'r halltfor
Garw yn agor dan ysgyrnygu.

Y Fam druan a'i bychan yn beichio,
Yn ei alaeth, a hithau yn wylo,
Heb wybod, ar yr hynod awr hono,
O annedwyddwch, beth i'w wneud iddo;
Er i eglur ddeigr dreiglo—ar ei grudd,
I angau diludd aeth rhwng ei dwylo.

O! fôr cuchiog gwrando gri,
Nodda un, newydd eni,
Rho wiwfad estyniad dydd
I'r hwn sydd bron a soddi.

Eu llwyr annedwydd, erchyll oernadau
A dreiddient, ac a rwygent y creigiau;
Ond sŵn y ddryghin erwin am oriau,
Och! yno, weithion, oedd uwch na hwythau;
Er eu llafur a'u llefau,—eu gwatwar
A wnai'r du, anwar, ddwfn fôr a'i dônau.

Wele rai, gan alar hallt,
Yn ymrwygo, 'n wallgo' wyllt,
Eu llygaid yn danbaid oll,
Troent, ymwibient fel mellt.

Ereill yn gallu ymdyru'n dirion
I alw ar enw eu Duw, lywiwr union;
Yn Iôr gafaelent, gan fwrw'u gofalon,
Ar eu Nêr agwrdd sy'n ffrwyno'r eigion;
Ereill yn suddo'n oerion—mewn trymder,
A hallt flinder i wyllt fol y wendon.

Rhai oedd yn serchog, galonog lynu
 Yn eu gilydd, er ymddiogelu,
 Hyn ni chollent er i'r mor erchyllu,
 Yn y tywyllwch, tra meddent allu ;
 Ond y groch dòn, ddigllon ddu,—yn ddibaid,
 A wasgai'u henaid nes eu gwahanu.

Golchai'r tonau'r ROTHSAY'n ddrylliau,
 A'u hergydïau trwm, rhwygiadol,
 Cipio degau, gyda'r darnau,
 Wnae y tònau annghytunol.

Gwel fabanod mewn dychryndod,
 Hwnt i'r gwaelod ânt o'r golwg;
 Er yn wyneb mor a'i wg—rhag eu lladd,
 Iddynt hir ymladd, ni dd'ont i'r amlwg.

Wele fenyw'n ceisio dal i fynu
 Yn eigion gwyn drochion, gan ymdrechu,
 A nerth anwar y don ar ei thynu
 I'w choluddion,—Ow! dacw hi'n ei chladdu;
 Ni chaiff ei cheraint tra chu—roi i hon fedd,
 Wely oerwedd, nag arno alaru.

Lluoedd ar luoedd â i lawr,
 I'r eigionau tra gwynwawr,
 Er ceisio neidio'n nwydwyllt,
 I frig y don, wendon, wyllt,
 O'u gofid, er cael gafael,
 Yn narnau'r llong, wiblong wael,
 Er hyn, y mor gerwinol
 A'i lawn nerth, a'u taflai'n ol;
 Ond rhai, yn eu hanffawd trwm,
 O un galon yn gwlwm.

Yno daliasant, er eu du loesion,
A'u hynod ddychryndod, uwch oer wendon,
A Rhagluniaeth a'u heurog olwynion,
A'u noddai, a'u dygai'n waredigion;—
Rhow'n fawl, yn hyfawl, i'n Hion—am ei râl,
Orwiw gariad a'i amryw ragorion.

Gair mawr a haeddai gwyr Mon—ereswiw,
A Syr Risiart dirion,
Am eu nawdd—ys hawdd fydd son,
Am danynt tra trem dynion.

AWDL ER COFFADWRIAETH

AM Y

DIWEDDAR BARCH. JOSEPH HARRIS,

(GOMER,)

GOLYGYDD CYSEFIN SEREN GOMER,

AC AM

IEUAN DDU, O LANTAWY, EI FAB.*



AM HARRIS y mae hiraeth,—Ow! ei roi
Yn rhych llygredigaeth;
Athraw ein hoes, llithro wnaeth
O'r golwg i argeliaeth.

Ow, gladdu! un fu'n ei fywyd—hybarch
Heibio i fyrdd, mae'n dristyd:
A!—ti'r bedd, bwytawr y byd,
Aeth a HARRIS i'th weryd.

* Cynnygiodd Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni wobrwy o Ddeg Punt, at yr hyn yr ychwanegodd y Parch. D. R. Stephen, Bum Punt, am yr Awdl oreu er Coffadwriaeth am y diweddar Barch. J. HARRIS, a'i fab IEUAN DDU. Hwn oedd testun y Gadair am y flwyddyn 1838. Y Beirniaid oeddynt Taliesin ab Iolo Morganwg, a Gwilym Cawrdaf. Yngystadluedd wyth o Feirdd galluog a doniolgamp, a rhoddwyd y wobrwy, yn ol penderfyniad unol a diamheuol y Beirniaid, i awdwr yr Awdl uchod. Y mae Mr. Williams, wedi hyny, wedi cyhoeddi llyfr rhagorol ar Farddoniaeth Gymreig, sef y "Drych Barddonol." Un o feibion hoffaf yr Awen, ac un o brif addurniadau Cymru, ydyw. Hir oes, hoen, clod, a dedwyddwch iddo.—*Cyhoeddwy'r Gmeithion Harris.*

Mae'n gorphwys yn y gwys gaeth,
 Ar wely trwm marwolaeth;
 Trig yn ei unig anedd,
 Wedi oer newid ei wedd.

Ei law anwyl, a luniodd—y puraf
 Gampwri, a fferodd;
 Angau traws trwy ing a'i trodd
 Yma i lawr—fe'i maluriodd.

Chwalai binacl uchelwych,
 Chwalai un oedd uwchlaw nych;*
 Yn ei flodau gorau i gyd,
 Y gyrai hwn i'r gweryd,
 Cyn henaint ac anhunedd
 I hacru, neu waelu'i wedd.

E fwriwyd y "saeth farwol"—ar unwaith,
 I'w ranau bywydol;
 Yntau, pan droes y fantol,
 Heb un nerth, i hybu'n ol.†

Angau ei fab a'i ing fu—yn achos
 O'i nych ef nes trengu;

* "Hynod fyddai ei glywed yn achwyn ar anhwyf corfforol gymmaint ag unwaith mewn blwyddyn."—COFIANT HARRIS.

† Gweled ei fab wedi gorfod gadael ei eisteddle yn yr Addoldy oedd y saeth farwol a lynodd yn ei galon gyntaf, am hyn y dywed efe, "Pe buasai bosibl i ryw un fy nghynghori a'm rhybuddio cyn disgyniad y saeth farwol hon ar fy nghalon, buasai lle i obeithio y gallaswn dderbyn y cyngor; ac, mewn canlyniad ochelyd marwoldeb yr ergyd. Ond yn awr, hawddach fyddai i mi symud mynyddoedd allan o'u lleoedd, nâ chyfodi fy nghalon a'm hysbrydoedd i'r un graddau o hyfder a gwroldeb ag o'r blaen."—COFIANT HARRIS.

A! beunydd heb wahanu,
Un oedd ef ag Ieuan Ddu.

HARRIS fawr! hiroes a fydd
I dy waith, y da Ieithydd.

Hir erys i'n gororwyrion,—TRA MOR,
Tra trem haul ar Frython;
Tra iaith, a chlod tafod hon,
Dy enw fawrha dynion.

Yr Omeriaith er ei mawredd,—a'i bri
Boreuol a'i thlysedd,
Oedd agos, gan eiddigedd,
Rhyw rai beilch a llithro i'r bedd.

Dan draed, yn dlawd iawn ei drych,
Cwynfanai, acw'n fynych;
A neb ond yn annyben,
I'w choffâu, a dyrchu'i phen;
Yr Awen fu'n brin o faeth;
Llai nawdd a gai'n llenyddiaeth;

Egin beirdd, rai gwan eu byd,
Yn waelion ac yn wywlyd;
A yr hen feirdd mewn rhan fawr,
Yn salw mewn iselwawr;
Iolo* fawr, ar ael ei fedd,
A Ionawr,† mewn dihinedd;
Gwallter,‡ a'n rhydd Ddafydd§ Ddû,
Heb wyneb i awenu;

* Iolo Morganwg. † Dafydd Ionawr. ‡ Gwallter Mechain.
§ Dafydd Ddu, Eryri.

Gutyn,|| a Nantglyn,* un wedd,
 Rhobert,† a'i ddiarhebedd,
 Puw,‡ Myfyr,§ frodyr o fri,
 Ni wyddent gaent eu noddi:

Y rhai'n oedd wyr rhinweddol,—ac ereill
 Yn caru'r iaith lwysol;
 A cheisient, drwy'u parch oesol,
 Ei chodi i ni yn ol.

Ond bychan, fychan a fu—y nodded
 Gan Foneddion Cymru;
 Yn noeth a gwael, bu'n hiaith gu,
 Trwy angen, yn min trengu.

Yr hudolus, bêr delyn—a hoeliwyd
 Ar helyg y dyfrllyn;
 Eu dagrau hallt, hallt am hyn
 Ddysdylliai'n beirdd, weis dillyn.

Hir auaf ar yr Awen,—a duwch
 Yn dew dros ei gwybren;
 Ni welid dim gan niwlen;
 Mal hir nos, cymylai'r nen.

Pan ydoedd ein pen awdwyr,
 A'n dewraf enwocaf wyr,
 Bron, bron a digaloni
 O herwydd ei hafwydd hi,

|| Gutyn Peris. *Robert Ddu, o Nantglyn. † R. ab Gwilym
 Ddu o Eifion, ‡ W. O. Puw. § Owen Myfyr, &c.

Y rhai hyn, gydag ychydig ereill o rai mwy anhynod, oeddynt
 brif golofnau yr iaith, ac yn ei hamddiffyn yn ngwyneb llawer o
 ddigalondid, cyn codiad y SEREN, ac adgyfodiad yr eisteddfodau
 diweddar.

A'i gâlon yn llon, yn llu
 Calonog yn cilwenu;
 Ac ar bwynt agor ei bedd
 I'w deol yno o'r diwedd;
 Wele'r SEREN* wen drwy wi!
 O geudod niwl ar godi;
 Trwy ei wyll, torai allan,
 A'r niwl oer wasgarai'n lân:
 Ernes a roes o ddiwrnod,
 Mawr ei ddawn ar Gymru i ddod.

Rhoes adgyfodiad i fad ddefodau†
 Y Dywysogaeth, ei dewis seigiau;
 Ac hi a ddygodd ddeg deg o ddegau
 O feirddion, o argelion i'r golau;
 A thynodd ddiffrwyth ddoniau—hen feirddion
 Oedd wyneb lwydion, i ail ddwyn blodau!

Gwnaeth ddarllenwyr, cyfansoddwyr,
 Bâr yn awdwyr, a beirniadon;
 Dwnedyddwyr, cywrain rifwyr,
 Wych anturwyr, a chantorion.

Allan y daeth llu'n ei dydd,—o liwdeg
 Oleuadau newydd;
 Arweiniai drwy'r wybrenydd,
 Draw y rhai'n, a'i phelydr rhydd.

* Yr oedd y dyddiau cyn cyfodiad y SEREN yn rhai o'r dyddiau tywyllaf ar lenoriaeth Gymreig a welwyd erioed; nid oedd ond ambell Fardd, ac ambell Dduwinydd yn y Dywysogaeth, a'allai ysgrifenu Cymraeg yn gywir. Cymharer Cymru yn awr â'r hyn oedd yn flwyddyn 1812.

† Megis yr Eisteddfodau a'r Cymdeithasau Cymreigyddol.

Haul ydoedd i'r Goleuadau, †—a'i gwres
 Bywiog a roddes i bob graddau:
 Grym ei phelydr hydr yn hau—llewyrchiad,
 Neu ddylanwad i'w holl ddalenau.

Unbenes annibynawl
 Ydoedd hi, yn gweini gwawl;
 Yn ei chylch, trogylch, mewn trefn,
 Heb unrhyw wib o annhrefn.

Ei phelydrau'n taflu golau
 I aneddau tra mynyddig;
 Gwaelodion nentydd gwledig,—a chymoedd
 Yn niwl ydoedd, wnae'n oleuedig;
 Cododd ddynion dysgedig—hyd lethrau
 Aelïau y brynïau, lwybrau unig.

Tröai ein bythod tra anobeithiawl,
 Diau, yn neuaddau duwinyddawl;
 Hi fu'n tywysu yr anfanteisiawl
 I lwybrau y gwybodaethau dethawl;
 Hi daenai'n gyffredinawl,—yn eu mysg,
 Ei thirion addysg gwir athronyddawl.

Y llafurwr, gweithiwr, gwan,
 Yr hen wr prin ei arian,

† Ar ol codiad y Seren yr ymddangosodd yr holl gyhoeddiadau
 Misol canlynol:—megis Goleuad Cymru ; y Dysgedydd ; y Gwyl-
 iedydd ; y Cymro ; y Brud a'r Sylwydd ; Lleuad yr Oes ; Greal
 y Bedyddwyr ; yr Efangelydd ; y Sylwedydd ; Tywysog Cymru ;
 y Seren Ogleddol ; y Papur Newydd Cymraeg ; y Gwladgarwr ;
 Croniel yr Oes ; y Diwygiwr , y Brytwn ; yr Haul, &c., &c. ; a'r
 Seren, am flynyddau, yn enwedig, yn nyddiau Mr. HARRIS, oedd,
 y prif oleuad ; canys y pryd hwnw fe'i derbynid yn fwy cyffredinol,
 gan rai o bob enwadau crefyddol.

Arweddai hon, hwyr ei ddydd,
 Yn enwog fel anianydd.
 Brodoriaid Aberdaron,*
 A thalaeth Malldraeth yn Môn,

Oeddynt wedi cyraeddyd—hanesion
 Teyrnasoedd yr hollfyd;
 Rhyfel, a'r blinder hefyd
 Oedd ar bawb o seddau'r byd.

Hyd y rhosydd, tu allan i'r drysau,
 A'r llwybrau creigiog, glogyrnog gernau,
 Gan ryw weithwyr ceid pigion areithiau,
 Gwersi newyddion, gwyr y seneddau;
 Hwyr adroddent hyd wreiddiau—llywod-ddysg,
 Er mwyn addysg nes tanio'r mynyddau!

Diwygiodd weinidogion†—yn eu hiaith,
 Yn eu hyll arferion;
 Deffro'r byd, hefyd, wnae hon,
 I gwnu'r Gymraeg union,

Gyrodd o lawer gorawr,
 Y rhyfedd gymysgedd mawr;
 Mynai mewn bryn a maenol,
 Yr hen iaith i'w bri yn ol.

Rhoi fyw mewn Athrofäwyr,—enynai
 Ein henwog fyfyrwyr;
 Fe ddygodd hon estron wyr,
 Heb lediaith iddi'n bleidwr.

*Lleoedd yn y Gogledd mewn cilfachau tra anghysbell.

† Gweinidogion yr efengyl.

A thywysodd yr holl Gymdeithasau*
 Er rhoi nodded i'r iaith a'i rhinweddau;
 Y rhai'n a fagent, hwy godent gadau
 O areithwyr i drin naturiaethau;
 Rhai o feddianwyr prif ddoniau—ein dydd,
 Hwylt, drwy eu gilydd, ddygent i'r golau.

Iddynt hwy y rhoddent waith,
 Gan anog bechgyn uniaith,
 I loewi'r fywiol Awen
 Hyd gopa y Wyddfa wen.

Torodd allan dân doniau,—ar unwaith,
 Drwy Wynedd a Deau;
 Egin awdwyr, yn gnydau,
 Miwail o hyd yn amlhau.

Hi roddes gyfarwyddyd;
 Yn Athen bert gwnaeth ein byd!

Aml un drwsiwyd o ymyl ein drysau,
 O rai na adwaenid prin eu doniau,
 A'r rhei'ny ydynt yn addurniadau,
 A phrif awdwyr ran dawn a phrofiadau;
 Mewn oes, pe nawdd i'w mwynhau,—ni chawsent,
 Ys, hwy ymroisent, nes marw o eisiau.

HARRIS enwog, mae'n resynol,—it' fyn'd
 I'r dystaw fedd marwol,
 I orwedd mor gynarol,—a thithau
 Yn wr o ddoniau mor haeddianol.

*Y Seren oedd y pif gymhellai i godi y Cymdeithasau Cymreig-
 yddol, a'r cymdeithasau hyn oeddynt yn nodded fawr i awdwyr
 ieuainc.

Er lludded caled, er cur,—ni welaist,
 Prin ol dy fawr lafur,
 Deuodd rhew, duodd yr hin,
 Frig iesin dy fawr gysur.—

Duwinydd na adwaenir
 Un o'i well oedd e'n wir;
 Enwog wr, i drin ei gail,
 Un o'i ail mwy ni welir.

Da oedd cael byw, syw was Iôn,
 Yn nghyraedd ei gynghorion,
 Deall craff, seraff, a sant,
 Ddawn Naf, oedd yn ei feddiant.

Y gwirionedd a agorai i weinion,
 Mwnai a golud mynai o'i galon;
 I'r annuwiawl anogawl gynygion,
 Gyhoeddai'n daeraidd, gwahoddai'n dirion;
 Wrth ei wel'd yn nerth ei Iôn—pan draethai
 Amryw a welwai, crynai marwolion!

Ei araeth oedd ddyferion—aml a glân,
 Mal gwlyth i dduwiolion;
 E giliai ofnau'r galon,
 Wrth ei waith yn traethu hon.

Galarus yw gwylwyr Sïon—o'i ol;
 Wylant ddaagrau heilltion;
 A gloes hir i eglwys Iôn,
 Ei fwrw ef at feirwon.

Oedd heb ei ail, yn ei ddydd byr,
 Yn frawd a chefn i'w frodyr;
 Nid hir fuasai teiroes,
 Idd y fath un, yn un oes.

Athronydd, ieithwr o anian—ydoedd,
 Ni wedir yn unman;
 Ei ddawn dêr oedd yn darian
 A mawr glod i'r Gymraeg lân.

Mor rwysawl, mewn ymryson,—tra anhawdd,
 Y trinaï ddadleuon;
 Twyllhaeriad, a brád ger bron,—a rwygai,
 O herwydd gwelai i wraidd ei galon.

Yn ei oes eiste a wnaeth,—wr gwiwdeg,
 Ar gadair llenoriaeth;
 A'n pigion ddyinion a ddaeth,
 I'w garu am ragoriaeth,

Awdwyr teilwng y pedair talaeth,
 Llawen yrent ffrwyth eu llenoriaeth
 Hynota' i HARRIS yn un toraeth;
 A'n beirddion henion heb wahaniaeth,
 Yn ei ddydd i'r SEREN ddaeth,—mewn llondeb
 I urddo'i hwyneb â'u barddoniaeth.

Drwy'i draethodau campus yntau,
 Y mae doniau trwm, dewinawl;
 Hwyr roddant brawf gwiredawl—o gyneddf
 Llym ei ddileddf allu meddyliawl.

Chwiliai waelodion, chwalai oludoedd,
 Cudd-fanau dyrus Locke a'i ddyfnderoedd;
 Tramwy'r wybren ar aden yr ydoedd,
 Yn llaw Syr Isaac,* fu'n llesâu'r oesoedd,
 E ddeallai am ddulloedd,—a chylchau
 Y mawr beirianau'n mro y wybrenoedd.

* Syr Isaac Newton.

Ai fewn i goluddion dwfn fwngloddiau
 Howe a Gil odiaeth, deg oleuadau,
 A Fuler anwyl, a Phool aur enau,
 A Henry deilwng, lluniwr y diliau,
 Owen* fawledig, Hall† a'i lyfn flodau,
 Ac Edwards‡ nerthol, wrol ei eiriau,
 Efo rhydd anian, gallai 'i fawr ddoniau,
 Fyn'd i waered i blymio'u dyfnderau;
 A nodol amcaniadau—holl lafur,
 Y tirion awdur oedd troi eneidiau:—
 O ryswech, dwyn i'r oesau,—yn gyson,
 Fanau dirgelion trefn Duw i'r golau.

O du rhyddid§ ymadroddai
 Yn nerthol, yn wrol, blaenorai,
 Ergydiai bob rhyw gadwen.

Aml y gwelwyd e'n teimlo o'i galon,
 Wr cyweithas, dros Ryddid i'r caethion,
 Carai esmwytho eu croesau meithion,
 A gwared tywyll Nēgroaid duon,
 Y rhai a faeddid mewn amryw foddion,
 Gan wŷr mileinig, haner melynion;
 Ewropiaid, hagraid egron,—fasnachent,
 Ac a gydhonent gig a gwaed dynion;
 Sigaw trais euogion—y gribddeiliaeth,
 Dileu'u llywodraeth a dal y lladron!

Carai i bob cwr y byd
 Wreiddio mewn hedd a rhyddyd,

* Dr. Owen. † Robert Hall. ‡ Edwards o'r America.

§ Pan y dadleuai o du rhyddid, byddai yn ei elfen; gwnaeth lawer o ymdrechion dros ryddhad y caethion, a thros y Genadaeth, &c.

Heb flinder, nac offeryn
 I ddwyn gwarth ar ddu na gwyn;
 Pob creulonder, trawsder trwm
 Gwarthrudd hen ieuau gorthrwm,
 A gormesiaeth grymusion—fu'n hoffi
 Dur, a chadwyni i drechu dynion,
 Yn hybwyll a wrth'nebodd,
 Yn mhob man, ac yn mhob modd.

Ei egni ydoedd o du'r Genadaeth,
 A gyru diwygwyr, drwy'r gre'digaeth,
 Gyda glân darian yr iechydwriaeth,
 I luon o ddalwyr eilunaddoliaeth;
 I ddeol pob gau-dduwiaeth—oddiar
 Wyneb y ddaiar a rhaib Iuddewiaeth;
 Tynu Mahometaniaeth—yn ddrylliau,
 A darnio delwau cedyrn hudoliaeth;
 Baeddu twyll Pabyddiaeth,—dim gorphwys heb
 Rwbio o'i gwyneb ol pwdr baganiaeth.

Carai anfon dros y crwnfyd,
 I rai beius air y bywyd,
 I'w hadferyd o feirw.

Chwythu'r fflam ddwyfol, ysol yn Asia,
 Nes b'ai 'i heirias yn tanio Siberia,*
 Gwareiddio, a chynyg garddu China;
 Dychwel ardaloedd tiroedd Tartaria;†

* Gwlad äang, yn cynwys y rhan fwyaf gogleddol o ymerodraeth Rwssia yn Asia.

† Gwlad yn Asia; yr hon, a'i chymeryd y ffordd hwyaf, sydd yn cyraedd o'r Môr Dwyreiniol i Fôr Caspia, ac o Corea, China, Hindoostan a Phersia i Rwssia a Siberia.

Yspeilwyr rheibus, epil Arabia,
 Horeb,* Senir,† a thir Abbysinia;‡
 Anfon cynhygiad, o gariad gora,
 Eto i dywyll gynblant§ Iudea;
 Rhoi mwy o lewyrch, ar Hymalayia;||
 Goleu i feirwon ffoi i Galfaria;
 A chael wi! lawen iach haleluia,
 O begwn i begwn, sw'n hosana,
 Am waed a lwyr gymoda—ddu elyn;
 Yr hen bentewyn, f'ai'n dewyn dua'!

Hyny oedd ei amcan ef,—hynodol
 Weinidog Duw'r tangnef;
 Uchel iawn y dyrchai lef,
 Ar ran y byd i'r wiwnef.

Pan oedd fwyaf cyhoeddus,—ran ei ddysg,
 O ran ei ddawn fedrus,
 Yn uchel, ac yn iachus,—mewn elwch,
 A thawelwch yn eitha' hwylus.

A Rhagluniaeth helaeth Iôn,
 Ar y gwr, yn rhoi ei gwen;
 Ei deulu'n gylch, glwysgylch, glân,
 Ger ei law, ragorol un.

Dim arwydd o wlad y meirwon—i'w gwel'd
 Nac och ar ei galon;

* Mynydd yn Asia, yn Arabia garegog, o du'r Gorllewin i fynydd Sina, neu yn hytrach darn arall o'r mynydd hwnw.

† Mynydd a elwid Sirion a Hermon; y mae o du y gogledd ddwyrain i wlad Canaan.

‡ Teyrnas hen iawn, neu ymerodraeth yn Affrica. § Yr Iuddewon.

|| Mynyddoedd uchel, yn Mhenrhyn Gogleddol Hindoostan.

Neb yn llesg, wynebau'n llon,—pob hoenedd,
A sirioledd is awyr wiwlon,*

Dyna'r pryd troe'i hyfryd haf
Yn afrywiog, fawr auaf.
Balch iawn o ddawn Ieuan Ddu
Oedd y gwr;—haeddai'i garu;
Yn ddeheulaw iddaw oedd;
A llygad ei dad ydoedd.

Eginyn ffrwythai'n gynar,—anamyl
Mae nemawr o'i gymhar;
Pêr, olygus imp rhy liwgar,—a glân
Ydoedd Ieuan i dud y ddaiar.

Mawr oedd ef yn more'i ddydd,
Henadur fel toniedydd;

Mydrwr, manylwr, mewn iaith,
Mawrygwr y Gymreigiaith;
Holl hoffder, GOMER i gyd,
O'i febyd, a'i brif obaith.

Ail i dw' y blodeuyn—y gwawriodd;
Agorai mal rhosyn;
Chwa farwol ar ol hyn,—a ddaeth heibio,
Nes ei wywo'n ail i lysieuyn.

* Gellid meddwl fod Mr. HARRIS yn fwy dedwydd o ran ei deimladau oddeutu yr amser y cymerwyd ei anwyl fab yn glaf nag y bu un amser yn ystod ei oes: yr oedd y pryd hwnw mal pe buasai wedi cyrhaeddyd terfyngylch dedwyddwch y fuchedd hon; ond Och, y cyfnewidiad a wnaeth dyfodiad anghroesawgar yr angeu i'r teulu!

Haul ei oes a aeth i lawr—yn barod,
 Ben bore'i fyr dymawr;
 Crinodd, newidiodd ei wawr,
 Yn ei Wanwyn, mewn unawr!

Tywyll aeth Abertawe
 I gyd oll o'i blegid e'.

Yno i wgu ar enwogion,—ys, daeth
 Ystorm angau digllon;
 A dulid ei awelon,
 Chwibanai hwnt uwch ben hon!

Elyn hyll, gafael a wnaeth
 Yn mrigau y Gymreigiaeth;
 Dwrn roes ar gedyrn yr iaith,
 A'r Awenydd ar unwaith.

Iwan ac Ieuan,* deg wedd,—a HARRIS,
 A yrwyd i'r dyfnfedd,
 Y dewrion yn cydorwedd,
 Yn eu rhan bach o'r un bedd!

Dystaw huno maent, heb gyffro,
 Yn llwyr yno oll, ar unwaith;
 Dim cyfeillach rhyngddynt mwyach,
 Na chyfrinach efo'r heniaith.

O, wele! 'nawr, mor wywlyd,
 Yn y bedd yw pigion byd;
 Och, och! o'u genau ni chair,
 Yr un gair, yn y gweryd:

* Peth rhyfedd oedd i gynifer o enwogion orphen eu gyrfa yn Abertawy mor agos i'w gilydd; ac yn ddiweddaf oll, yr Hybareh Christmas Evans a fu farw yno!

Eithr y lwys athrylithr lân,
 Oll, oll a dreuliwyd allan;
 O'i chalon, drwy orchwyledd,
 Awen bur eneinia'u bedd.—
 Troi draw a gadaw y gwyr,
 Yma raid, Ow, fy mrodyr!
 Trwm iawn yw tramwy unwaith,
 Hebio'ch bedd, diwedd y daith;
 Mae ynof, er y meini,
 Fawr chwant gael eich cyfarch chwi;
 Ond ni wn, wed'yn, y iaith,
 A ddeallwch na'r ddulliaith:
 Dyeithr, dyeithr neillduedd
 Eto i bawb yw tŷ y bedd;
 Y tri wr mor ddystaw'r ych,
 Mae'n rhaid mai huno'r ydych.

I ba le'r aeth parabl rhydd,—y doniau
 A danient y gwledydd?
 Y llawn ddystawrwydd llonydd,
 Mwya' is ser yma sydd!

Dir, wedi mado'r ydych,
 Yn llwyr iawn i'r man lle'r ych;
 Ni yrasoch, mae'n resyn,
 Air i neb, o'r graean hyn;
 Dinod, anhyfryd anedd
 I'r byw ei chofio yw'r bedd!
 Pridd oer! mae golwg pruddhau
 Ar ddillad y priddellau:
 Dwf'n borth tywyll, erchyll yw,
 Arswydus, HARRIS ydyw!

Ond daw bore eto bwrir—ymaith
 Rwymau'r angau dyhir ;
 Y marwol byrth gymerir;—ar uchel
 Alwad yr angel, o'i law dringir.

A daw HARRIS o'r dyfnderau,—a'i fab
 O'i fedd heb wendidau;
 Yna ant, ac Iwan yntau—i rydd
 Ardal lonydd yr aur delynau.

Ac una corff ac enaid,—yn gynes,
 Yn y gân fendigaid;
 Gan leisio, pyncio heb baid,
 A chanu heb ochenaid.

A chewch o hyd danllyd wau
 Dinam seraffaidd donau,
 Yn Nghaersalem am lem loes
 Y groes, heb lyfr na grisiau*:

Yma, yn awr, hoffem ni,—wir Hendyl,†
 Wrando'ch cerdd yn odli;
 A chael cip-drem arno'ch chwi,—a'ch cyd-gan
 Wiw, ar y lan mewn pur oleuni.
 Ai nid hoff fa'i genyt ti,—y gorchwyl,
 HARRIS anwyl, o roi gwers ini,

Yn nirgelion Iôn, a'i waith
 Yn y felus nefoliaith!
 A chynllun o'ch awenllef,
 A ffraeth feirniadaeth y Nef;
 Blodau'r rhyfeddodau ddaeth
 I'th olwg yn ei thalaeth;

* Grisïau Cerdd Arwest IEUAN DDU. † Lluosog o Handel.

Pa olwg, pwy a weli,
Yn y llys, wrth d' ystlys di?

Rho hefyd, ddrych o'r rhyfedd—enwogion
Sy'n agos i'r orsedd;
Rho hanes, gwerth, a rhinwedd
Y lân orfoleddus wledd.

A'r eres ddull sy'r awrhon—ar y gwr
Agorodd y ffynon;
A weli ol yr hoelion
Yn nwy law dy anwyl Ion?

Amst 8, 1838.

A W D L

AR YMWELIAD EI MAWRHYDI, Y FRENINES
VICTORIA, A CHYMRU YN AWST, 1847.

THE ARGUMENT.

THE winds and waves are conjured not to be inauspicious to her Majesty and her Royal Consort whilst visiting our shores—The inhabitants of Mona and Arfon full of anxiety with regard to the event—The great guns to give the signal of her approach—All the surrounding hills crowded with spectators waiting with the most exhilarating sensations—The utmost determination evinced to gain an early view of the squadron at a distance—The flags waving on the Castle towers—the multitude moving to and fro on the banks of the Menai—The walls of our turrets filled with gazers congratulating each other—A number of boats and yachts gliding on the Menai—The shades of the trees and bushes lining the sides of the beautiful crystal-like stream—Victoria represented as moving along amidst the waves without any fear or alarm—Armed men not required on the shores to protect her Majesty's person—Her defence is in the warm hearts of the natives—A monarch never more respected by persons of every age and condition—Even the print of her foot held in high estimation—A desire that her paths should be paved with marble, decorated with satin, crimson velvet, and gold—Bands of musicians and harpers invited to fill the air with their melody—A number of ladies, beautiful as Helen, invoked to bear garlands and flowers, and to advance in procession under a thousand triumphal arches—Chariots and horses, their rumbling described, the sparks from the wheels of the chariots, and the hoofs of the horses—Aged females full of astonishment, forgetting their infirmities, shouting and greeting their Queen—A veteran, with his silvery locks, who has been a loyal subject ever since the reign of George III., and

who could unfold many a tale of woe—The times of George III.—The horrors of war exemplified, The peaceful reign of Victoria—The visit will long be remembered and blessed—Nature and art ready to pay homage—The picturesque scenery along the banks of the Menai—Our determination to conspire with nature—The bonfires, and roaring of cannon expected—The times of Edward I.—His cruelty to the Welsh bards—A bard flying for refuge into the caves—The contrast—Our Queen the Queen of peace—An allusion to the Royal medal received by the author, and the medals received by other successful candidates, at the Beaumaris Eisteddfod, in 1832, from their Royal Highnesses the Duchess of Kent, and Princess Victoria—The value the author places upon this token of Royal favour—An allusion to the great and important event of suspending, and ultimately repealing, the corn laws, which clogged the commerce of ages—The kindheartedness of our beloved Queen in listening to the cry of her people—The repeal of obnoxious laws, one of the most brilliant gems in her crown, which event will be commemorated a thousand generation hence—An ejaculation for the prosperity of her offspring, with a desire that they may remain an unbroken chain till the end of time.

A W D L, &c.

DONAU'r môr cydunwch,— ar ein hanwyl
Frenines na wgwch;
Chwi awelon trymion, trwch,
Yn Arfon na chynhyrfwch.

Na roddwch rwystr iddi,
Wynt na môr, tra llwybro'r lli'.

Suwch a rhowch groesawiad—i enwog
Frenines pedeir-gwlad,
Gyda'i gwr,—o gydgariad—ysplenydd,
At dir y moelydd, dd'ont ar ymweliad.

Mae y wlad oddiyma i L'yn,—a Chonwy
Yn chwenych ei derbyn;
Yn Mon deg, p'le mae un dyn,
Na hoffai ei hamddiffyn.

Wele dorf o wlad Arfon,
A gwyr mawr o gyrau Mon,
Cor eirian "Llanciau 'Ryri,"
Golud a nerth ein gwlad ni,
A rhif o deg wyryfon,
Fwyned ynt, ar fin y dòn;
Pawb a'i wên ar ei enau,
Oll un wedd yn llawenhau.

Rhuog anadl twrwr y gynau—mawr,
Fel myrdd o daranau;

Arwyddant i bob graddau,
A'u swm, ei bod yn nesâu.

Ochrau'r bryniau'n llawn i'w cribau
O bersonau mewn brys hynod,
Gan fawr draserch am ei hanerch,
Wych ëonferch hardd, a'i chanfod.

Trwy wydrau, taro i edrych,—wna llengoedd
Ar ei llynges orwych;
Mynant, serch gwneud cais mynych,
O draw wel'd VICTORIA wych.

Aneirif ydyw banerau—costus,
Ein cestyll a'n tyrau;
Torfydd drwy'u gilydd sy'n gwau,—yn ddidor,
Ar làn y môr, mor lawn yw y muriau!

Miloedd sydd ar ymylon
Menai deg yn min y dòn;
Llongau, a rhyw fadau fyrdd,
Ar ei glwyswawr ddwfr glaswyrdd.

A llu o wynebâu a allwn nabod,
Heddyw'n anerch eu gilydd yn hynod;
Acw e wisga'r coed a'u cysgod,
Hir ymylau'r dwfr yma i'w waelod,
A hithau diau yn dod—ger Arfon,
Hyd ochr y wendon, heb ddim dychryndod.

Nid oes eisiau gwyr dan arfau
Ar y glanau, rhag gelynion,
Serch pawb dania at VICTORIA,
Hyn a'i gwylia, yn y galon.

Ni fu'r un yn fwy, erioed,—yn ngolwg
 Ac yn nghalon henoed;
 Cywir yw pawb, câr poboed
 Le ei thrig ac ol ei throed.

Haeddai yma hawddamor,—a rhodio
 Ar hyd llwybrau marmor;
 A chael sain cywrain pob côr—telynol,
 Alawon gwrol, nes siglo'n goror.

Bwriwn gangau ar ei llwybrau,
 A sidanau res a daener;
 Porphor leni, aur a phali,
 'Nawr, heb oedi, na arbeder.

Rhes o bendefigesau—a'u dwylaw
 Yn dwyn dail a blodau,
 O lin Elen, lân aelïau,
 I fyn'd dan fyrdd o fwäau.

Down a grawn o dan eu gwrid,
 A'r aeron, lliw'r myrierid,
 Llawenyched, gwaedded gwyr
 Yn groew nes rhwygo'r awyr.

Boed rhuadau y cerbydau,
 A'r meirch hwythau mor chwai, weithion,
 Yn eu nwyfiant nes bo'r palmant
 Llawn a rychant oll yn wreichion.

Hen wragedd fel rhyw ewigod—gampiant
 O gwmpas, mae'n syndod;
 Hwyr waeddant, mewn rhyfeddod,
 "Ah! Dacw, dacw hi'n dod!"

Uno wna llawer henwr,
 Gwyn ei wallt, yr egwan wr,
 A dalodd barch, fel deiliad,
 A tholl, cyn amser ei thad;
 Un all yw hwn, er ein lles,
 Roi ini lawer hanes;
 Neu dramwy nes caem dremynt
 Ar ysig wedd yr oes gynt:
 Yr ydoedd ei goreudaid
 Yn ein plith yn dŵr o'n plaid.
 Rhyw ddydd blin, blin fel blaenor,
 I feddu sedd gafodd Sior.

A Bona brwydro beunydd—cywain eirf
 Nes cynhyrfu'r gwledydd;
 Dinystr a droes yn danwydd—balasau
 Y gwychaf fanau—gwnai'n goch afonydd!

Esgyrn a gwaed ar wasgar—ar y maes,
 Hyd dorau'r meirch anwar;
 Lluchid peleni llachar—hwy ruthrent,
 Yn hir gordduent 'nol rhwygo'r ddaiar.

 Hedd anwyl, heddyw ini,
 Sy yn ei hoes hynaws hi.

Ei chlod a uchel ledir,—a'i henw
 Drwy'r wlad hon fawrygir;
 Tra Brython, tra thon, tra thir,
 Y dwthwn hwn fendithir.

Mae anian yn dymuno —rhoi iddi
 Yn rhydd iawn bob croeso;
 Daw, ar frys, adar y fro,
 Blysiant gael ateb leisio.

Holl naturiaeth—ein cestyll a'n tyrau,
 Yr haul a'i wyneb heb unrhyw lenau,
 Y gwyrddion ffrithoedd, gerddi ein ffrwythau,
 Y maesydd llawnion, gwynion ugeiniau,
 Arfon greigiawg, agenawg glogwynau,
 Y rhyw adeiniawg, y môr a'i donau,
 Y moelydd a'r cymylau—amneidiant
 Arni hwy wenant—ein parch rown ninau.

Boed y fflamau o'r bonffaglau,
 Ar y bryniau, i'r wybrénydd,
 Mwg magnelau ddyrcho'n dorchau,
 A chymylau uwch y moelydd.

Ar feirddion glewion a'i gledd—bu Iorwerth
 Yn bwrw'i gynddaredd;
 Deuai i Gymru o'r diwedd,
 Hynaws un—Brenines hedd.

Y bardd ar ffo y bu—i'r ogo' lom
 Rhag ei ladd i drengu;
 Heddyw, y ceir prif-feirdd cu,
 Ein cenedl oll yn canu.

Hil Sior ar ein huchel sedd—yn noddiant
 I'n heddyw sy'n eistedd;
 Teyrnasa, trwy hynawsedd,
 Dyna'i chlod, heb dynu'i chledd

Yn lle dinystr lledanu
 I'n beirdd anrhegion y bu;
 E gefais i'w hir gofiaw,
 Gamp dlws yn dlws o'i dwy law;
 Ni leiha tra tyrfa tòn,
 Ei fawredd yn oed f' wyrion.

Yn ei hoes, a'i theyrnasiad,
Ail i wyrth wnaed yn y wlad.

E dynwyd y cadwynau—niweidient
Drafnidiaeth yr oesau;
Treth yr Yd cyhyd fu'n cau—porthladdoedd
Y môr—a dinasoedd mawr dan eisiau.

Ein cwynion, wrth y canoedd,
Yn ei chlust, yn uchel oedd;
Ymwarded o'r camwri
A wnaeth yn helaeth i ni.

Coffeir ei nodded—caiff ei rhinweddau
Mawr drwy ieithoedd yr ymerodraethau,
Byth, byth eu datgan ar lân aur lenau,
Fel yr amlygiad o gariad gorau;
Ar ei hil i barhau—heb ei syflyd,
Mawredd a esyd mewn myrdd o oesau.

Ei holyniaid a lanwer—o duedd
Dawel eu mam dyner;
Mewn hedd eu plant orsedder
I aros,—oes lloer a sêr.

AWDL AR YR ADGYFODIAD.

TESTUN EISTEDDFOD RHUDDLAN,

1850.

—o—

Y MAE yn hysbys i lawer o ddarllenwyr Cymreig fod yr Awdl ganlynol wedi ei chyhoeddi gan Bwyllgor Eisteddfod Rhuddlan, dan yr un clawr â'r Bryddest a gafodd y brif wobr.

Dywed y Beirniaid, “ yr Hybarch Archddiacon Williams, y Parch. J. Jones, (Tegid), a William Jones, Ysw., (Gwrgant),” am yr Awdl fel y canlyn :—

“ Buasai yn dda genym pe buasai cyfansoddiad mor dlws heb anaf arno. Nid ydyw felly. Y mae amryw wallau cynghaneddol ynddo, megis,

“Y glana' 'r hardda ei wrid.”

“Ar ei war modrwy i'w wraidd.”

“Gwawria 'r dedwydd flflwyddiant.”

“A'r byd yn wynfyd a wnant.”

“Wedi i'r saint ri' y ser.”

“Ffynon ac afon yfir,”

a rhai ereill; ond nid ydyw y rhai hyn ond brychau ar yr haul dysglaer. Y maent i'w gweled, ond nid ydynt yn lleihau ei lewyrch.”

Y mae gan yr awdwr gymaint o hyder yn marn y darlennydd deallus, sef, y gwel, ac y barna efe, nad ydyw y llinellau a nodwyd gan y beirniaid yn wallus yn wyneb Rheolau Barddoniaeth, fel nad ydyw yn werth gan yr awdwr geisio dangos i'r beirniaid gywirdeb a difeiusrwydd y llinellau, ond gadawa y mater yn hollol i'w benderfynu gan y beirdd ac ereill sydd yn *deall* Rheolau Barddoniaeth,

CYNWYSIAD.

DYFODIAD pechod i'r byd yn agor y llifddorau i afiechyd, clefydau, heintiau, ac angau—Helaethrwydd llywodraeth angau—Y bydd Adgyfodiad—Yr athrawiaeth yn anhysbys cyn cael datguddiad dwyfol—Natur yr Adgyfodiad—Engraff o hono yn y greadigaeth drychflog, ac yn y greadigaeth lysieuol—Duw yn unig a wŷyr yn mha le y mae defnyddiau y corff a fydd, a pha fath ydynt, ac mai efe yn unig a all ei Adgyfodi—Y cyfnewidiad a wna angau ar y corff—Hau mewn llygredigaeth, mewn anmharch, mewn gwendid, yn gorff anianol—Y corff a fydd a'i ragoroldeb—Y dyn yr un drwy holl droion ei yrfa, yr un yn angau, ac yn yr Adgyfodiad—Crist wedi ymddangos yn y cnawd, ei ddyoddefaint, ei farwolaeth, ei gladdedigaeth, a'i Adgyfodiad—Mai ei Adgyfodiad ef yw sail Adgyfodiad y corff—Yr efengyl yn cael ei phregethu drwy yr holl fyd—Y milfwyddiant—Athrylith, dysg, a golud yn cael eu dwyn at wasanaeth crefydd—Dadfeiliad ar grefydd megis yn nyddiau Noah cyn ymddangosiad y barnwr—Y byd mewn annuwiaeth yn myned yn mlaen yn ei orchwylion gyda bywiogrwydd—Arwyddion disymwth fod diwedd y byd yn nesu—Anian yn clafeiddio ac yn pruddâu—Yr orymdaith o angylion yn dyfed gyda y barnwr, eu bloeddiadau yn seinio drwy yr eangderau nes cyffroi y bydysawd—Dynion yn ffoi oddiwrth eu gwahanol orchwylion—Caniad yr Udgoron yn effeithio nes agor y beddau—Rhanau lawer o'r ddaiar yn orweddleoedd y meirwon—Y dyrfa yn ymddangos o flaen y barnwr—Yr luddew yn ei adnabod—Y Twrc a'r Pagan yn cywilyddio—Enoch ac Elias yn y corff—Darganfyddiad bedd Moses—Y Ganges yn cywilyddio—Brahminiaid yn syrthio i warth—Adda ac Efa yn ymddangos—Noah ac Abel yn cyfodi—Ogof Maes Machpelah yn agor i Abraham a Sarah—Holl wlad Canaan yn ymgynhyrfu drwy lef yr Archangel—Paul yn gweled buddugoliaeth ei ffydd—Job yn ymlawenâu yn ei Brynwr—Newid y'rhai a adewir—Cofarwyddion yn darfod eu gwaith—Yr Ywen hen—Llawenydd y Saint am eu gwardedigaeth—Angau yn trengu—Y ddwy dorf—Mynediad y Saint adref—Y byd ar dân—Y corff a fydd o ran ei ansawdd—Defnydd cân dragywydd y gwardedigion.

AWDL AR YR ADGYFODIAD.



DYGODD pechod farn a malldod,
Yn ei waelod ar ddynoliaeth;
A dygwyd llygredigaeth,—trueni,
Anmhura' weli trwm marwolaeth.

Dwyn i henaint ein heinioes,
A gwanâu wna egin oes;
Heibio'r aeth oes rhai'n y bru;
Hunodd rhai newydd wenu.

Daeth darfodedigaeth dwys,
Heb gur, heb lafur, heb loes,
A dŷn â gwên dan y gwys,
Amryw un yn more 'i oes.

Fe rychai haint y frech wen—â'i wenwyn
Wyneb llawer Elen;
Drwy oes byd, llu mawr dros ben,—gadd angau,
Wedi'r niweidiau fu draw yn Eden.

Yn mhob oes, y mae y byd,—a'i luoedd
Dan ei law bob enyd;
Herlodesau, llanciau llon,
Gwryfon hygar hefyd.

Cardotwr, crefwr o'r cryd,
Neu d'wysog dan draed esyd.

Ef o ddirwanc fu'n agor llifddorau
 Fyrdd i wewyr i foroedd o waeau;
 Gwelaf adwyth ac ol ei glefydau,
 Yn lluchiau dinystr drwy'r lluchedenau;
 Wele 'u harwyddion a'u hol ar ruddiau
 Ydoedd welwlas—'n awr gwynias yw'r genau:
 Mae llu o lidiog finiog elfenau
 Ar hyd yr entyrch lle rhodia 'r heintiau;
 Y geri marwol, ysol ei loesau,
 A drwy y gwledydd, yn ei dreigliadau,
 I ddwyn o'r byd fyrddiynau,—yn llaw Naf,
 Rhed draw i eithaf ymerodraethau.

Y miniog wyllt dwymynau—yn y pen,
 Cryd poeth a'i losgiadau,
 Ysgythrant, ysant oesau—i'r cleidir,
 Unig le noddi 'r holl gelaneddau.

Hynt niweidiol haint y nodau,—yn llym
 Fu'n lladd cenedlaethau;
 Newyn certh, bu hwnw'n cau,
 Ei ddanedd am fyrddiynau.

Drwy gur annedwydd, daiargryniadau,
 Yrodd ynysoedd a hardd ddinasau,
 A'u holl breswylwyr a'r lle bu'r seiliau
 I'w hygar neuaddoedd yn garneddau;
 Rhyw filoedd wysiodd rhyfeloedd oesau
 O wyr ieuengaidd, i safn yr angau;
 Meusydd a gochwyd, fe drochwyd rhychau
 Yd melynawr â gwaed y miliynau;
 E wnaeth i'r wendon hithau—fod yn ddig,
 Rhedai goraddig ddwfn wrid i'w gruddiau.

Llofruddiaethau, hunleiddiadau,
 Eu niferau sydd yn fawrion,
 O ri' y ser, er y son—am Gain ddu,
 Lofrudd cyntaf fu'n nheulu dynolion,
 Yr hwn aeth i dir Nod—mewn gwrthryfel,
 Ie, gwaed Abel ar ei gydwybod,

Gyra i ddwfn-fol gweryd—dylwythog
 Genedlaethau'r hollfyd;
 Hir einioes, fel ber enyd,
 Dirwynia i ben archdeyrn byd.

Hyd anial barthoedd, dynol aberthau,
 Lanwai y ddaiar, gaiff eilun dduwiau;
 A lliwiau araf fwg eu hallorau
 Heb ri' y maesydd, a'r wybr am oesau;
 Rwydded mae pob graddau—mewn dallineb,
 Yn llwybro i wyneb erchyll beirianau.

Pwy a rif ddirif ddewrion—diarfog
 Y dorf o ferthyron?
 Lludw y fawr gyn'leidfa hon,—drwy'r oesoedd,
 Dduai y moroedd afonydd mawrion.

Eto daw i'r saint eu dydd—hwy godant
 O geudod mynwenydydd;
 A gelwir gyda 'u gilydd—ar eu hol,
 Y rhai annuwiol fynu o'r newydd.

Pwy ond ein Naf—pa un dan y nefoedd
 Soniasai eisoes,—ie, 'n oes oesoedd,
 Am i rai meirwon lamu o'r moroedd,
 Ac o weryd, daiarfyd, yn dorfoedd?

Rhoe athronwyr, ymholwyr* eu miloedd,
 Yno i golli, yn ei ddwfn gelloedd,
 Heb obaith gweled eilwaith ardaloedd
 O wir fywyd ar ol eu gyrfaoedd;
 Oes ar ol oes a aeth i oer lysoedd
 Ei briddfan tywyll yn brudd fynteioedd;
 Ni throai yn ol o'i ddyeithr niwloedd
 Neb i dd'wedyd beth yn y bedd ydoedd;
 Llewyrch roes gair Duw 'r lluoedd—ar ei bryd,
 Dyga ef fywyd i'w ogofäoedd.

Onid oes mewn llyndysyn†—a'i feroes,
 Wrth farw 'n ei blisgyn,
 A chodi mor wych wed'yn,
 Eglurhad goleu ar hyn?

Wedi bod enyd a byw,—yn y dail
 Gan fodoli 'n lledfyw,
 Am ryw hyd marw ydyw;
 O fewn ei arch gwyfyn yw.

Yn ei adeg, hwn, wed'yn, —ysiga
 Nes agor ei blisgyn;
 A daw, fel hardd flodeuyn,
 Yn lliwiau 'r ardd, neu 'n llwyr wyn.

Ni ddaw eilwaith i'r ddalen—i fyw 'n ol,
 E fyn wel'd y wybren;
 A myn haul twymyn ei wên—i'w loni,
 Uwch awyr wedi i chware 'i aden.

Yn wyneb hyn mewn anian—pwy a wad
 Y pwnc twy 'r pedryfan,

* Disputers, 1 Cor. i 20. † Caterpillar.

Na ellir ail ddwyn allan
Ddynol hil o'u beddau 'n lân?

Anfeidrol Ion a fedra —eu rhyddhâu
Mor hawdd a chreu Adda;
Dwyn o lwch, bob dyn lecha,
Dan y wybr, ein Duw a wna.

Beth ydyw pob bath o hedyn,—neu bren,
O'r brig hyd y gwreiddyn,
Neu yr allt—neu ir welltyn,
Ddiwedd oes, ond bedd i ddyn.

Ar y dwr, oes ryw aderyn—a nawf,
Neu un 'hed, neu filyn,
Neu basgedig bysgodyn
Na ddwg ryw gyfran o ddyn?

Un fynwent yw'n hafonydd,—y moroedd,—
Tir mawr,—awyr,—coedydd;
Hi dÿn i'w chroth ein deunydd—i'w gadw,
Wedi ei farw, dan law'n hadferydd.

Ac ni wÿr y cyniweirydd—mwyaf
Ai mewn môr, ai mynydd,
Neu awyr, mae'r corff newydd,
Na pha fath yw'r corff a fydd.

Ein Ion a wÿr yn unig—yn mha le
Mae'i lwch gwasgaredig;
A'i law i drefn o le'i drig—yn berffaith,
Ddaw a hwn eilwaith o'i wedd anelwig.

Er drwy farwolaeth i genedlaethau
Fyn'd yn dorfoedd, llengoedd, yn llaw angau,

I'w difa'n hawdd, a throi'u defnyddiau
 Yn lludw mân, yn llwyd domenau,
 Neu i anelwig bridd yn eu holau,
 A moeth i gynal maeth i eginau :—
 A phe y rhenid cyrff â pheirianau
 Neu, rhwng bwystfilod, milod llym aelïau,
 Neu adar awyr hynod eu rhywïau,
 Geir yn wylltion mewn crog eirwon holltau,
 Daw Ior, o'r holl ddyfnderau—mewn mynyd,
 Wedi daw'r enyd, o hyd i'w rhanau.

Y gronyn roir mewn grwnar,
 I fyw 'n ol, o bridd dwfn âr,
 Nid all gyfodi i dw',
 Na byw fawr heb ei farw,
 A Duw a rydd wedi i ran
 Hwnw ei gorff ei hunan.

Wedi i fawr Auaf du, afrywiog
 Grino y dolydd a'r coed grawn deiliog,
 Rhewi croew ebyr ochrau cribog,
 Ysu'n llygradwy'r rhosyn lliw gwridog,
 Ein gerddi'r Gwanwyn gwyrddiog,—wnant fywâu,
 E gwyd y llyisiau'n gadau lluosog.

Wedi am hir dymhorau—in' aros
 Yn nhir cysgod angau,
 Daw o'r dyfnfedd, culfedd cau,
 Yn Wanwyn arnom ninau.

Newidiwr pob rhyw nodwedd
 Drwy y byd oll ydyw 'r bedd,
 E faidd e—ni fydd haiach,
 A gwneyd ei ol ar gnawd iach,

Yr ireiddiaf, lonaf lanc
 Dry'n wyw, mewn oedran ieuanc,
 Yr hardd wrid newid a wnaeth—mae'r ddelw
 Heddyw yn welw—Ow, Ow, ddynoliaeth!

Rhy wael yw ein marwolion—i aros
 Yn nhir y bywiolion;
 Anedd y bedd yn union,—i'w hebgor,
 A geir yn agor, i'n gwir enwogion.

Ni ellir o hyn allan—ado i neb
 Fod yn ei dŷ 'i hunan;
 Rhyhwyr cael yn y graian
 Le i roi ei farwol ran

Hauir, a bwrir i'r bedd—y mwyaf
 Fel mewn anmharch rhyfedd;
 Yn brudd mae, oer bridd a'i medd—a feddai
 Heibio a fwriai, mae heb ei fawredd.

Tir angof yw y lle trenga,—nid oes
 A'i dŷ fawr ymwela,
 I fyw yn hir, ni fwynha,
 Y fam ei chartref yma.

Hi welir am ei hanwyla'—'n wylaw
 Ar ael ei fedd amla';
 Elen ddwys o galon dda,
 O'r diwedd lwyr adawa'.

Ei maban o liw'r manod—na allai
 Ei ollwng o'i gwyddfod
 Edy'n awr—onid yw 'n od?
 Yn y duoer fân dywod.

Y glana', 'r hardda' ei wrid—fu hoewaf
 A heuir mewn gwendid;
 Ni ddeil ef dranc a'i ddulid—pan y dêl,
 A min ei awel, pob gwedd mae'n newid.

Ni fu'r un, drwy fawr henoed,
 Mor wan, mor hwyrdrwm, erioed,
 Ag yn nydd trwm y gwanâu
 Gan ing arfogion angau;
 Yn ei dŷ symud nid all
 O'i orwedd heb help arall:

A rhai ereill pan yr oero—ei gorff
 A'i gwisg ef ag amdo;
 Ac ereill fydd yn cario—hwn i'r bedd,
 O'i hen gyfanedd, i'w gau ef yno.

Huna yn gorff anianol—agored
 I guriaw 'n wastadol;
 Ond drwy nerth troa yn ol—o'r du laid,
 E ga ei enaid dŷ tra gwahanol.*

Ni welir unrhyw waeledd
 Yn ei ddull a'i newydd wedd,
 Neu aml gur, na moel goryn,
 Neu un o'i wallt yn troi'n wyn;
 Na rhychau angau na 'i ol
 Ar ei wyneb tirionol;
 Anaf ar ei glyw ni fydd,
 Neu wywiant drwy 'r corff newydd;
 Mwy ni fydd ei gam yn fyr
 Na gwaew nac un gwewyr,

* 1 Cor. xv.

Neu weli mewn un aelod,
 Neu yn ei ben wyn yn bod ;
 Deil ei gorff heb anadl gaeth,
 Anmhuredd nac anmhariaeth ;
 Ei olwg byth ni waela .
 Yn ei ol, pylu ni wna ;
 Deil ar burdeb heb wanhau
 I edrych heb ei wydrau ;
 Nid drwy sylldrych gwych y gwel
 Aneirif lygyrn oriel
 Nef, heddyw, ond canfyddir
 Hwyl amlwg â golwg wir ;
 Fel y mae fe wel, mwyach,
 Hwnw'i hun a'i dyg yn iach ;
 A bydd gyffelyb iddaw
 Y dydd ar gwmwl y daw.

Er ei ddwyn mor ddiana'—i'r urddas
 A'r harddwch perffeithia',
 Ei enaid a adwaena
 Yr ail gorff anfarwol ga.

Yr oedd y gwr ar wedd gu—yn dyner
 Dan law ei fam fwyngu ;
 Serchus, gofalus a fu—pawb o'i dras
 Am gael ei addas wir ymgeleddu.

Yn mlaen o dan ymloni—efe ddaeth
 Wrth fodd ei rieni,
 O liw alarch neu lili—yn febyn
 Gwyn, ben felyn, a phawb yn ei foli.

Ei felynwallt fu luniaidd
 Ar ei war modrwy i'w wraidd,

Ond y gwrid yn ei deg rudd
 Roddai wawr ar ei ddwyrudd;
 A deuai ef o'r diwedd
 Yn fwy'i chwim—cryfach ei wedd—
 Yn well ei dw'—'n llaw ei dad—
 I'w ddilyn i'r addoliad—
 I feddwl am gryf addysg,
 I rodio hardd lwybrau dysg;—
 Yn ddyn, yn fuan, e' ddaeth
 I gyraedd mawr ragoriaeth;
 Ond ei rwysg, gan flinder oes,
 Do'i hwn dan wendid einioes,

Ei ruddiau roent arwyddion—o lesgedd,
 Ymlusgai'n ddigalon;
 Ai yn wanach yn union,—o'i aelwyd,
 Ei fwrw a welwyd at farwolion.

Er hyn, drwy'r mawr wahaniaeth
 Y dyn yn *arall* nid aeth,—
 Yr hwn ddechreuai'r einioes,
 Oedd yr un ddiwedd yr oes,
 Heb newid, ran hunanedd,
 Yma un dim ond ei wedd:
 Daw yn ol y *dyn* eilwaith,
 O'i dŷn fedd, wedi hun faith,
 Heb wybod i'w hen babell,
 Dra gwael ond newid er gwell,

Y dyn am byth adwaena—ei hun, drwy
 Holl droion ei yrfa;
 Wed'yn ei hun nabod wna,
 Hwn, eilwaith, y farn ola'!

I wared dyn o'i anwiredd,—a'i ddwyn
 O ddinystr y dyfnfedd,
 Iesu cu, Tywysog Hedd,
 Roes gymod dros ei gamwedd.

Anhyfryd boenau afrif
 Yr ardd un angel ni rif;
 Ei ing ef ni anghofir,
 Na'i ddwys gri na'i weddi wir;
 Pan oedd y gwr, prynwr prid,
 Yn ufydd yn ei ofid
 Ar ei wyneb eirianwawr,
 A'i ddwy lin ar y gwyrdd lawr,
 A dagrau brwd, o gur bron,
 Yn ei liwgar olygon,
 A'i waed yn treiglo wed'yn
 Ar y gwellt drwy'r barug gwyn.

Anian oedd yn llonyddu,—ednod aent
 Dan y dail i lechu;
 Y mor mawr a'i rochfawr ru
 Gan orfod heb gynyrfu.

Awelon yn noswylaw,—heolydd
 Caersalem yn ddystaw,
 Gwyr y llys, er hyn gerllaw,
 A'r bradwr hy' heb wridaw.

Ond â grym yr ochenaid gre'—torid
 Dystawrwydd y nwyfre,
 Miniog loes Gethsemane
 Alwai'n awr, sylw y Ne!

Canys yr oedd y cyni
Mwya'n ol er ein mwyn ni.

Y dodiad drwy frad ar frys—yn nwylaw
Annheilwng Iuddewlys,
Y fanllef—y Rhufeinllys—
Y gwadu llwyr—gwawd y llys.

Y poeredd ar y pur Dduw,
A'r dwyn at Herod annuw;
Y goron o ddrain garw
Mwya' tost a llym eu tw'.

Gosodwyd megys adyn,—y Nef lyw
O flaen mainc Rhufeinddyn;
Drwy'r llysoedd nid oedd un dyn—i'w weled
Yno i'w arbed—pawb yn ei erbyn.

Gwel e'n myned dan ddyled, dan ddolur,
Ein llyw goreudeg, yn lle'i greadur,
Mae fel oen dystaw, dan drwm flin dostur,
Er a ddywasga ei arw ddwysgur;
Clyw e'n gruddfan dan y dur—sy'n rhwygaw,
A'i waed yn llifaw o dan y llafur.

Er hyny llwyr goronwyd—y llafur,
Llefai ef Gorphenwyd,
A llais eglur—y lle siglwyd,—gwnai'r floedd
Gyffro'n y Nefoedd, ac uffern anafwyd.

Llen y deml, grog len, a gaerog luniwyd,
A wnai lwyr agor, hon i lawr rwygwyd,
Y ddaiar lawr yn erfawr gynyrfwyd,
Yna'r crog ellydd a'r creigiau holltwyd,

Dorau'r beddau gryf gaerau agorwyd,
 Ac i fyw wed'yn saint a gyfodwyd,
 I galon y deml gwelwyd,—ni fyn Ior
 O waed ei hallor—ei haur dywyllwyd.

Wedi ei wanu yr hoelion dynwyd
 O'i rudd ddoluriau, ond prudd alarwyd,
 O herwydd y creulon olion welwyd
 O gur a loesau y gwr a lyswyd;
 A'i ruddwawr gorff a roddwyd,—i orwedd,
 Yn ei wael agwedd mewn bedd na halogwyd.

Rhoi fynid y sel Rufeinig—ar faen
 Y cryf fedd naddedig;
 A rhoddi milwyr addig—wrth hwnw,
 Heb ond, i gadw y bendigedig.

Ond y trydydd dydd y daeth
 Gwawr deg a gwardigaeth.

Angel yn awr yn ngwawl Ne'—a'i wisg wen
 Ddisgynai o'i artre';
 Ei wrid oedd a'i hardd bryd e'
 Yn ail i fellten ole'.

Ac wedi iddo esgud ddisgyn—bu
 Drwy y bedd ddaiargryn;
 Swydai â si ei edyn—naturiaeth,
 E barai alaeth i bob rhyw elyn.

Yna symudo y maen siomedig
 Wnai â'i aden fel deilen wywedig,
 Er eu heirf anwar, milwyr Rhufeinig,
 Rai chwerwon ydoedd yn dra chrynedig;

E godai 'r bendigedig—heb aflwydd,
Na lliw gwaradwydd yn anllygredig.

Hon yw y sail ini sydd
Y deuir bawb o dy 'r bedd:
Yr Adgyfodiad a fydd
O'n daiar yn y diwedd.

Ond cyn y dydd, dydd daw Ion,
I alw y marwolion,
Rhaid i'r son am Ion a'i waith,
A'r hwn fu farw unwaith,
Gyraedd pob gwlad a goror,
I droi myrdd ar dir a môr
O druenus dir annuw
I gred iach i garu Duw.

Eilùn dduwiau a'u holion a ddeol
Y gwir am Iesu a'i sain grymusol,
Llwy'r dyn astrus allorau dinystriol
O'u hurdd i'w hysu â gwarthrudd oesol;
E ddaw mwnai yr India ddymunol,
Gemau Senar, a China gamsyniol,
I'w rhoi ar wen allor Ior yn hollol;
Baner yr Oen fydd baner arweiniol
Y byd—tani daw braidd bob bod dynol,
Efo yr Iesu 'n dyrfa arosol,
Ac ni fydd mynydd na maenol—rhagllaw
Na fydd e o honaw yn feddianol.

Gwawria 'r dedwydd Filflwyddiant
A'r byd yn wynfyd a wnant;
Diafol lofruddiol ei frad,
Mewn cadwyn rhwyma 'n Ceidwad,

A bwrir ef, heb aros,
 O'i wŷdd i niwl y ddu nos;
 Diwaelawd lyn hudolion
 Dan folltau taranau 'r Ion.

O dan warth mor brudd, hyd yn hyn,—ei rudd
 Y mae'r Iuddew barfwyn;
 Wylo 'n hallt, a'i wallt yn wyn,
 Mae y gwr llwm ei goryn.

Am Waredydd ddydd a ddaw,
 Brudd adyn mae'n breuddwydiaw.

Ond Iuddewon diau ddeuant—i gael
 Gweled y Milflwyddiant;
 A chredu 'n Iesu a wnant,—gan fawrhau
 Rhinau a loesau yr hwn hoeliasant.

Y genedl oll gân awdl wych,—hed ei swm
 Nes dadseinio 'r entrych,
 Wedi i Ion, o'u du nych,
 Wellâu eu gwawr a'u llewych.

Yna, er mawr ddywenydd,
 Athrylith yn fendith fydd.

E beidia pob gwybodaeth—a rhoi help
 I fawrhau annuwiaeth;
 E gedwir gwir ddysgeidiaeth—heb lygredd
 I faethu rhinwedd a Nef-athroniaeth.

Cymhwysderau, doniau 'r dydd,
 A golud gyda 'u gilydd,

Ddaw o du Iesu a'i waith—a chywir
Wybodau renir drwy 'r byd ar unwaith.—

Wedi amser o lwydd lawer
Ar dduwiolder e ddaw eildo,
O amheuwr, hyf watwarwr,
A diwreiddwr i'w diraddio.

Ein byd i anwybodaeth
Sudda 'n is, â'i wedd yn waeth;
A chyfyd i uwchafiaeth—aflendid
Hyd nes ei newid i nos annuwiaeth.

Megys yr oedd dirmygwyr
Yn nyddiau No 'n eon wr
Yn dal, yn mlaen y diluw
Yn blaid egr i gablu Duw,—
Hyd wawr y farn, rhyw dorf fydd,
O annuwiaid o'r newydd;
A bydd gwir grefydd y groes
A'i ther athrawiaeth eirioes,
Ar adael daiar wed'yn
A'r lliaws, o achaws hyn,
A myned i'r man y daeth
O hono i wlad annuwiaeth.

Ni leiha antur dyn a'i helyntion;
I gyrchu elw, parha gorchwylion;
Bydd yr amaethydd, hyd faesydd meithion,
Yn ceisio aru y cwysau hirion;
Y trafniwr a'i antur fynedion
Drydd longau a'u hwyliâu i'r awelon,
A rhycha 'i agerdd y dyfngrych eigion,
Wrth ddwyn trysorau nwyddau newyddion;

A'r masnachwyr a'u moesau yn wychion,
 Gynygiant o hyd i'r byd ddarbodion;
 Marchnatäir mewn mawr ychain tewion,
 Meirch a milod, a chamelod moelion:
 Pob mwnwr, neu gloddiwr i goluddion
 Daiar a chwely i ddyfnder ei chalon;
 Deil o hyd addysg adeiladyddion,
 A thynant ffurfiau cynlluniau llawnion,
 A bydd yr athronydd, athraw union,
 Yn olrhain natur ddofn fel rhyw Newton,
 Ac yn ei feddwl ryw ddarganfyddion
 Na fu rai o'u heilydd gan farwolion;
 Y milain gerbydwyr, gyrwyr geirwon,
 I'w rhawd, mewn hylldawd, yn tramwy'n wylltion,
 A brwd gynllunwyr pob brad gynllwynion
 Yn eu hannuwiaeth yn para'n ëon;
 Rhai am weryd yn chwilio i'w meirwon,
 A rhai'n priodi ar yr un prydion;
 Yn eu helwch bydd rhai annuwiolion
 Yn gwych, yn helaethwych wleda'n lythion;
 Ac yn y llysoedd, mewn gynau llaesion,
 Yn eu gorchwyliaeth ceir gwyr uchelion,
 Rhwysga breninoedd, luoedd yn loewon,
 Yn eu haur dorchau—chwai red eu heirchion;
 Pob gorchwyl ar hwyl, yr awr hon,—a fydd,
 A gwyr anufydd a geir yn hyfion.

Gyda hyn, y byd gryna,
 Yn brudd oll yn ebrwydd â;
 Yr haul a gwyd y tro ola',—ei liw
 A'i lewyrch glafeiddia;
 O'i lliw a'i dull lleuad â—dan drymlwyth
 Yn y mawr adwyth hon a ymwrida.

E gilia'r ddau o'r golwg,
A'r nefoedd a wisga wg;

A daw o'r cymylau duon—o fellt
Fil myrdd yn derwynion;
Tyrfau, taranau yr Ion,—o'r Nef lys,
A gyraedd wregys a gwraidd yr eigion.

Amaethwr fydd yn methu
A dal gan y cyffro du;
Rhaid iddo ado ei wedd
A'i arad ar ei orwedd;
A rhodda gwyr y rhuddaur;
Ar frys heibio rifo'r aur;
I frad y don ruadwy,
Llongau'r mor ollyngir mwy,
A'u dwylaw mewn du alaeth
Yn arw'u trem ar y traeth;
Masnachwyr, a'u cludwyr clau,
Adawant fasnach deiau;
Mwngloddwyr, lowyr i'r lan,
O'u tywyllwch, dd'ont allan,
Yr aur a gwythi'r arian,
Gloddir adewir i dân;
Adeiladwyr dyludant
Oddiwrth eu celfi ydd ant.

Gwyr y Newidfa gwasgarant—yn llu
O'r lleoedd marchnatant,
Y dirif aur a dyrant,
Dymor oes i'r dim yr ant.

Ocrwr, gaeth rwydwr gweithredoedd—a fydd
Yn falch o'i holl filoedd,

A gyst oddiwrth ei gistoedd,—yn lân,
Ado ei arian ei aur a'i diroedd

Athronwr a feithrina—ei awydd
Am wel'd y ser pella',
A orfydd o'i fyfyrfa—ado 'i waith
A thröa ymaith, arnynt ni thremia.

Diwedda 'r gyriedyddion,—arbedir
Eu cerbydau gwylltion;*
A delir mynedolion,
Yn eu taith, yr enyd hon.

A'r Cenadon, gweision gwir,
Yn ol, gan Dduw Ion elwir.

Rhi' o angylion fry, fry rhwng heuliau
Iach wlad araul y goruchelderau,
Geir am y dwthwn mewn gorymdeithiau,
Yn moli yr Oen sydd aml ei rinau;
Eu cerddi swynawl, cyraedd eu seiniau,
Ddaiarolion, dros fyrdd o orielau;
A bloedd y torfoedd dreiddia fel tyrfau,*
Dringa hyd Orïon drwy eangderau;
Crymu 'n addas y ceir y mynyddau.
Y gwatwarwyr mewn gwewyr a gwaeau,
A'r Udgorn a gân.—Rhwyga 'n lân lenau
Neu wasgawd† engyr‡ tir cysgod angau.
Yn lle cur, a dolur, hyd ei aeliau
Y gwr a wanwyd wisga goronau;
Ei bur wên heulog wna 'r wybr yn olau,
Gyr i ddiflaniad ser gwrdd filiynau;

* Thunder claps. † A covert. ‡ Awful.

Ei holl farnwyr, gwyr gau—gywilyddir,
Ei gam a welir, daw ar gymylau.

Ogofydd, amgaerydd a ymagorant,
Argelau duon i'r golau deuant;
Pyramidiau, hiroesau heriasant,
Anwar rym melltiog yn awr ymholltant;
Ffynonau 'r ddaiar mewn bâr y berwant,
A lluaws y moroedd oll llesmeiriant;
Y tonau 'n eu graddau a gyrhaeddant
Y wybren aethus, a'u llwybrau noethant;
Heddyw mynyddau o'r golau giliant;
Ac ynys ar ol ynys ddiflanant;
Miliynau ar filiynau fileiniant,
O wyr o wragedd, y nwyfre rwygant,
A chriau addig, hwy chwerw waeddant;
O wg y Nefoedd, euogion yfant;
Cymysga y waedd, oer waedd a roddant,
Yn yr awyr, a'r taranau ruant;
Ar y gorfiniog greigiau erfyniant
I'w malurio, a'u cuddio'n y coddiant
O ŵydd loes Iesu o'u bodd lysiasant,—
Er hyny, diau, 'r cerig ni wrandawant.
Y meirwon oesau'n y mor hunasant
Y cudd ddyfnderoedd o'u celloedd collant;
Hen deulu du y diluw adawant
Yn eu lliw gwreiddiol, y lle gorweddant;
Rhyfelwyr, druenuswyr drywanasant
Eu gilydd, am ddihefelydd foliant,
Eu meirwon, gadau mawrion a godant,
Llu gyda y wys o'r lle gwaedasant,
Y gwyrdd ffrithoedd, y gerddi a ffrwythant

Cymoedd, a mynyddoedd mawr eu noddiant,
 Corsydd, creigydd a'r hardd ddolydd ddeiliant;
 A'r cadlasau yn feddau a fyddant.
 O wraidd aelwydydd rhai a ddyludant,
 Llynau, afonydd, rhoi allan fynant,
 Doau o feirwon—mynwentau fwriant;
 E gyrcha 'r Iesu 'r rhai garcharasant.
 Teulu Ion union wenant—rhag mawr swm
 A chriau annwn hwy ni ddychrynant.

Yr Iuddew gablai arwyddion—yr hwn
 Drywanwyd dan hoelion:
 Ei wawd a'i eiriau duon,
 A'i gryf rwysg, gyll ger ei fron,

Ni ameu hwn, am un mynyd,—yn awr,
 Pan wel ei wyneb-pryd,
 Ai efe oedd drwy 'i fywyd—
 Drwy 'i boen, i waredu 'r byd.

Cyfle gaiff y Twrc aflan,—i ganfod
 Gwynfa y saint weithian,
 A'r g'oedd Nef luoedd, daw'n lân—mewn hacrwch,
 Fawredd ei d'wllwch a'i freuddwyd allan.

Gwel'd teulu fawr lu y nwyfre lân—a fydd
 Ryfeddod i'r Pagan,
 Heb ochel, rhyw bris bychan,
 Rydd mwy ar ei dduwiau mân.

Nawf ar len y nwyfre las
 Lawer—a daw Elias
 Yn y corff, ac Enoch gu,
 Rhai fyddant i'w rhyfeddu,

Fel dau o flodau ieuainc
 Sydd fyth wrth yr orsedd fainc;
 Sangent heibio gorsingoedd
 Y Nef lys â llawen floedd
 Heb i ing, heb i angau,
 Roi 'i ddwrn ar yr un o'r ddau.

Hanes bedd Moses a ddaw mwy—i bawb
 Yn beth gwybodadwy;
 O'i waelodion yn weladwy—daw 'r gwr
 Yn llaw Gwardwr yn anllygradwy.

Ffy awdwyr, beirdd, a phroffwydi—dorfoedd
 Dirfawr o'r priddelli;
 Y llu hwn pwy all enwi,
 Ond yr Ion, na d'weyd eu rhi'?

Apostolion a merthyron,
 Wir dduwiolion, fyrdd a welir,
 Yn troi 'n union o argelion
 A gwaelodion bedd a'i gleidir.

Dychymygaf y clywaf y cloion
 A'u hoer rygn aethus drwy egni weithion,
 Er gwae i filoedd, yn tori 'u gafaelion,
 I dynu o'i waelawd annuwiolion;
 Rhag dod i wyddfod yr Ion—carent fedd,
 Rhyw gymau i orwedd dan greigiau mawrion.

Er tori heddwch y beddrod treiddia
 Y floedd drwy 'i 'stefyll tywyll dystawa;
 Tery y wendon, cyraedd trwy India,
 Y Ganges fawr yn orfawr gynyrfa,

Yn ei gwely addoer hon g'wilyddia,
 Weled yr ebyrth drwy lid a reibia;
 Juggernaut greulon ei olion wela
 Ar yr euogion, yn awr a rwyga;
 Gwaed ei offeiriaid i gyd a ffera,
 Syrthiant i g'wilydd y dydd diwedda';
 Y Brahmin ni ddewinia,—ei erchyll
 Areithiau tywyll mawr warth a'u toa.

Adda ac Efa a gyfyd—a saint
 Rif y ser o'r cynfyd;
 Noah fab hyna' 'r hên fyd—adgoda
 O ganol chwalfa eigion lwch eilfyd.

Abel gwyd heb ol ei gur,
 Na dialedd, na dolur;
 Anhawdd iawn fydd i Gain ddu,
 Eon wibiad, wynebu.

Cyrhaeddyd trwy weryd bro Etruria,*
 A hir adawyd, dan leni o'r dua'
 Wna bloedd yr angel nes y cwbl ddringa
 Llychyn at lychyn, er's oesau lecha;
 Tycia 'i rhybudd drwy 'r Aifft ac Arabia,
 Babilon,—ac yn mysg meirwon Palmyra;
 A Chanaan yn wych una—yn y gwaith
 O roi i Ion eilwaith ei rai anwyla'.

Gawr y nef agor a wna—i eigiawn
 Ogof Maes Machpela,
 Ac o hon yr esgyna,—yn nerthol
 I wybr mwy siriol Ab'ram a Sara.

*“ Whose tombs have been opened to let out the secrets of the dead, and to tell a tale of more than two thousand years ago.”

A'u had oll ehed allan,
Holl had Jacob yn mhob man.

I Baul enwog, fel blaenawr
A fu a'i athrylith fawr,
Yn dal drwy ysbrydoliaeth—i hyddysg
Gyhoeddi 'r athrawiaeth,
Bydd gweled buddugoliaeth—ei fawr ffydd
Yn rhyw gân newydd er gwae i annuwiaeth,

Y corff a fu'n goddef cur,
A ddaliwyd dan drwm ddolur
Chwerw, llym y carchar llaith,—labyddiwyd,
A finiog wanwyd yn fwy nag unwaith,

Fu ar y môr ddwfr mawrwyllt,,
O dan wg berw'r don wyllt,
Fu dan loesion cyffion cau,
Wedi hyn mewn cadwynau,
Ac o'r diwedd dan gledd glas,
Gorfiniog y Rhufeinwas,
Ddaw 'n gry' i fyny o'i fedd
Heb ol un llwgr, heb waeledd.

Iob a wel ei Brynwr byw,
Fry 'n hawdd, ger ei fron, heddyw;
O gynfyd fe 'i darganfu
Tra 'n ei 'stormydd dywydd du;
Daw i'w wel'd, â llygaid iach,
Yn y glaer ne 'n eglurach.

Heb un llygredd neu waeledd, na'i olion,
Na gwae 'n un enaid, a'u gynau 'n wynion,
O naws buredig, nid yn ysbrydion,

Yn gryf i ddal bydd gwir grefyddolion;
 A rhengau o olau bur angylion
 A wisga harddwch fydd y gosgorddion
 A wel yr anfarwolion,—yn agos,
 O'u bodd, i'w haros, o'u beddau oerion.

A'r rhai byw, na fu 'n nhy 'r bedd,
 Adewir, wel y diwedd;
 Duwinwr, ar adenydd,
 Parod, i'r cyfarfod fydd.
 E adawa 'r gwr duwiol
 Ei lyfrau 'n rhestrau ar ol.

Rhai fyddant yn rhyfeddu—yr Iawn mawr
 Er ein mwyn a'r gwaedu,
 Dangosant angeu Iesu—nes y del
 Yn y wybr uchel—nid i'w brawychu.

Eu newid oll mewn mynyd awr—a gant
 I ogoniant gwynwawr,
 Mor wych, mor gyflym a'r wawr—eu cipio
 A wneir i uno â'r dorf eirianwawr.

Gwel Adda, mewn goleuddydd,
 Ei had oll, ar yr un dydd,
 Da a drwg, a'u golwg ar
 Wir Dduw holl gyrau 'r ddaiar.

Fe rodde 'r cofarwyddion
 Heibio 'u swydd, mwyach, heb son
 Am lwch y dorf ymlechai
 Dan gryfion gloion tyn glai.

Bydd mawrion lyfnion golofnau—ymddyrechant
 Ac a ymwelant a bro 'r cymylau,

Yn addurn i rinweddau—a'u haeddent,
 A'u hir deilyngent er dial angau,
 Wedi gwir ddarfod eu gwaith—o goffau,
 O gadw 'r enwau, i gyd ar unwaith.

Amrywiawg waith marmor gwyn,—diadfail
 Oddiar fedd adail dderfydd wed'yn,

Yr ywen hên, drwy ei hoes,
 Welai fan olaf einioes,
 A rhoi i lawr ryw fawr lu
 Hyd at ei gwraidd o'i deutu,
 Godir, ddiwreiddir, heddyw,
 Yn y fan, daw 'r meirw 'n fyw.

Amaethydd a fydd a'i fawl,
 A'i floedd yn orfoleddawl,
 Wrth wel'd ei addfed ffrwyth haf,
 Yn niwedd ei gynauaf;—
 Y morwr, ar ddwfr mawrwyn,
 Fu 'n mherfedd y Gogledd gwyn,
 Dro hir, yn ngwlad yr eira,
 Yn rhwym yn nghyffion yr ia,
 Ddyry lef pan ddaw i'r lan,—yn bybyr,
 A rhwyga yr awyr ag oroian;—

Wedi i Israel gael golwg
 Ar y lan, er marwol wg,
 A Pharaoh 'n wyw 'n fferu 'n oer
 Dan orchudd y don erchoer,
 Swn y gân a synai gôr
 Anfarwawl y Nef oror;—

Wedi i'r saint ri' y ser—lwyr esgyn
 Uwchlaw rhwysg marwolder,
 Mwyhau bydd sain anthem ber—y dyrfa,
 Cryfâ 'u Haleluia fel swn dwfr lawer.

Y dydd hwn diwedda anian—ei gwaith
 I gyd drwy 'r pedryfan;
 I benbleth pob peth â pan—gwyd y saint
 Angau o henaint a drenga 'i hunan.

Y ddwy dorf yn y dydd du,
 Dan wybr fydd yn cydwynebu
 Y gwr a wisga 'r goron,
 Dygir hwy i frawd ger ei fron;
 Un heb wrid, heb ofn na braw,
 Ar ei ddilwgr ddeaulaw,
 Y llall, yn mhlith ellyllon,
 Yn rhesau ar aswy hon.

Nid all Satan i d'wllwg—na Herod
 Na Pharaoh a'i gilwg,
 Na Judas gas, rhag ei wg,
 Na Philat, ffoi o'i olwg.

Heb un man i'w derbyn mwy—o afael
 Digofaint ofnadwy,
 Pob peth dry 'n eu herbyn hwy,
 Yn gyfiawn ddydd eu gofwy.

Belsasar anwar yno—a welir
 Yn gan mil mwy gwallgo'
 Nag yr ydoedd tra 'n gwrido,
 Yn ei wledd annuwiol o.

Nabal a Saul wynebant,—er arswyd,
 Ar yr orsedd tremiant,
 A'r dduaf dorf fawr ddeuant;—
 Yn eu gŵydd yn euog ant.

I yru y llu hyll hwn,
 O'i wyneb obry i annwn,
 Ni rydd Ion arwydd unwaith
 O'i rym a'i gryfder ar waith:
 A gwg ei olwg i wae
 Fe yr y rhai 'n i fawrwae;
 Dyga 'i holl saint gydag ef,
 Wedi eu hedryd i'w hadref;
 Fe welir engyl filoedd
 Yno o i flaen â llawen floedd;
 Seiniau eu canau esgynant
 Uwch yr haul, uwch, uwch, yr ant;

Gorseddle 'r frawdle ar frys—o'u golwg
 A gilia 'n anhysbys,
 A Iau lân—Sadwrn a'i lys:—trem ryfedd
 Gant ar ei agwedd ei gant a'i wregys.

Yn hir hwy ni aröant—i dremio
 Ar dramawr ser welant,
 Yn eu hawydd egniant
 Adaw 'r nen, myn'd adre' wnant.

Heibio 'r ser hwy brysurant—a heuliau
 O'u hol a adawant
 Fil a myrdd—yn gyflym ant,
 I ganol gwlad gogoniant.

Bydd yn werth gwel'd prydferthion,
 Llaw a gwaith galluog Ion,
 Drwy 'r bydoedd, luoedd lawer,
 Ucha' sydd goruwch y ser.

Para i 'hedeg all corff ysbrydawl
 Fel y wawr lân, neu y tân melltenawl;
 Daw weithiau i froydd ar daith foreuawl,
 Fu o fawrwerth i'w galon fyfyriawl,
 Car rodio manau 'r cyrau dymunawl
 A gerddai 'n Iesu, rai gwyrddion oesawl;
 Ac o ser i uwch ser yn gysurawl
 A ef i edrych gwaith Duw anfeidrawl;
 Gwel heuliau uwch heuliau, neu uchelwawl
 Mewn nenau, uwch nenau yn enynawl,
 Nes myn'd i ddinas y mawl—lle mae 'r ddor
 Wedi ei hagog i'r dorf waredigawl.

Ond ar ol i'r tân dreuliau—anmhuredd
 Y byd mawr oll drwyddaw,
 Dyna 'r adeg deg y daw
 Ar ei hyd i'w ail rodiaw.

Ni odde 'r creig daneddog—yr angerdd
 A rhwng pob til cydiog,
 A thir crwm a llethrau crog—ddymchwelir
 I ager ysir creigiau hir oesog.

Yn y dydd mawr hwn e dodda—y mwn,
 Y meini caleta';
 Y gallestr lem a golla
 Ei llawn rym, yn llyn yr â.

Uchelion fynyddau chwalant—i'w sail,
 A'r ser mawr a gwympant,

Lloer a haul o'u lle yr ant,
Gruddiau y ddau a dduant.

Wrth i'r tân anrheithio 'r tir—yn ulw
E dry yn lludw raian a lleid-dir;
Ffynon ac afon yfir—yn sychion,
Anmhuraidd wlybion y moroedd leibir.

Ai cryfion wreichion o rod
Rhyw haul a syrth ar waelod
Y dwr, nes rhoi 'r dyfnderoedd—yn ffwrn fel
Eiriasdan ufel cras hyd y nefoedd,

I'w hollol ferwi allan,
Yn fwg, yn d'wllwg, yn dân,
Ynte rhuadwyllt drydan
Ferwa 'r dŵr—rydd fôr ar dân?

Wedi 'r holl gyfnewidion
Ar fyd, byd arall all Ion
O'i fwlwg a'i adfeiliau
Ei greu 'n ol a'i ail grwnâu,
A'i adael er cof wed'yn
Am y tâl dros gymod dyn.

Y corff a fydd a fydd yn rhyfeddawl
Uwchlaw anmhuredd a cholyn marwawl,
E ddeil i weini oesoedd olynawl
Yn awyr deg y fan waredigawl;
Yn dra chynes yr hanes dwyreiniawl,
Y dyroddi yr addewid wreiddiawl,
Arbedu Noah o'r byd annuwiawl,
A Lot o dom y Sodom arswydawl,
Y dwyn o warth y gwared yn wyrthiawl,
Rai a ormesai Pharaoh rymusawl,

Yr agor y môr, a gwawr ymwriawl,
 Y dwr a foddai 'r giwdawd arfeiddiawl,
 Y sain roi arwawd Moesen arwrawl,
 Am ei arweiniad drwy 'r môr ewynawl,
 Ac aml rinwedd y cwmwl arweiniawl,
 Yn y wybr yn nofiaw, 'r bara nefawl,
 Y dwr o'r graig y gallestrgraig rwygawl
 A hir yfai y dyrfa afrifawl,
 Y myn'd i Ganaan y man digonawl,
 Drwy lawr yr Iorddonen hên, ddirwyniawl,
 A thirionwch Rhagluniaeth feithrinawl,
 Hyd yr oesau a'i doniau cydweiniawl
 Adroddir yn fydryddawl—yn ngherddi
 Cywrain niferi y côr anfarwawl;

Ond mwy o'u caniad a'u mawl—rydd y llu
 I fawrâu 'n Iesu ar fryniau oesawl;

I ben a d'weyd ei boenau—ni ddeuant
 Yn mhen myrdd o oesau;
 Yr Iawn a'i aml rinau,—yn dragywydd,
 Fydd yn gân newydd yn eu geneuau.

ARDYSTIAD Y BEIRDD.

Ardystiodd wyth ar hugain o'r Beirdd oedd yn yr Eisteddfod yn erbyn rhoddi y brif wobr am Bryddest yn lle Awdl, yn y modd canlynol:—

“Y PENDERFYNIADAU, &c.”

“*Y gwir yn erbyn y byd.*”

Gwedi i'r Beirdd a'r Llenorion ymgynull yn nghyd am chwech o'r gloch prydawn y dyddiau a nodwyd uchod, [sef, Medi 24, 25, 26, 1850,] mewn ystafell apwyntedig i'r perwyl, yn Rhuddlan, ac i John Richards, Ysw., (locyn Ddu,) gael ei alw i'r gadair, ac i'r Parch. David James, (Dewi o Ddyfed,) gael ei alw i'r is-gadair, ac i Mr. John Forsyth, (Brochwel,) gael ei ddewis yn gofiadur, sylwyd fod pwyllgor Eisteddfod Rhuddlan, yn yr hwn nid oedd dim un Prif-fardd, neu Fardd Cadeiriog, wedi troseddu hen gyfreithiau a defodau Eisteddfodydd Cymru; ac wedi diystyru breintiau 'Beirdd Ynys Prydain,' trwy roddi gwobr y gadair am *Bryddest* yn lle am *Awdl*, a hyny heb ei roddi 'dan osteg a rhybudd cyfreithiawl undydd a blwyddyn,' mewn 'gorsedd gyfarch, a gorsedd hawl;' ac heb awdurdod 'dysgedigion a doethion gwarantedig yn ngorsedd gyfallwy beirdd Ynys Prydain.' O herwydd yr afreoleiddiwch yna, barn yr holl Feirdd cynddrychiol yn y pwyllgor hwn ydyw, mai CALEDFRYN, awdwr yr Awdl oreu, yw y Bardd buddugol, yn Rhuddlan; ac mai efe a ddylasai gael ei gadeirio yno, 'yn ngwyneb haul a llygad goleuni.'

Yna cyfododd y Parch. David James, (Dewi o Ddyfed,) i gynyg y penderfyniad yma:—

“Fod gwrthdystiad wedi ei lofnodi gan bob bardd graddedig sydd yn wyddfodol, i gael ei gyflwyno i'r Llywydd, Arglwydd Mostyn, yn erbyn gwaith Eisteddfod Rhuddlan yn rhoddi y Gadair Farddonol am Bryddest yn lle Awdl, gan ddiystyru hen arferion a defodau Eisteddfodau y Cymry, ac heb awdurdod Prif-feirdd o blaid eu gorchwyl.”

Eliwyd y cynygiad gan y Parch. Joseph Hughes, [Carn Ingli.] a phasiwyd ef yn unfrydol, Hefyd, penodwyd Dewi o Ddyfed,

Carn Ingli, a Chlwydfardd, i gyflwyno'r gwrthdystiad i'r Llywydd, Arglwydd Mostyn, ar y dydd canlynol; ond ar ddymuniad y Parch. Evan Evans, [Ince,] dranoeth wrth y cenadwyr, oedwyd y cyflawniad hyd y 27 dydd."

Y GWRTHDYSTIAD.

"Yr ydym ni sydd a'n henwau isod, y rhai ydym 'Feirdd wrth fraint a defawd beirdd Ynys Prydain,' ar ol gweled dyfarnu Cadair Farddol Gwynedd heddyw am Bryddest yn lle Awdl, yn ddirifol wrthdystio yn erbyn y newyddiant hyn, ac yn datgan nad oes i unrhyw farddganau, ond a gyfansoddir mewn dau neu ychwaneg o'r Mesurau Caethion, hawl gyfreithlawn i Gadair Farddol Gwynedd, Powys, Gwent, na Dyfed."

"Ac yr ydym yn datgan yn mhellach, nad ydyw yn gymhwys i bwyllgor o bersonau na raddiwyd yn Feirdd, ddwyn i fewn unrhyw newyddiant i'r cyfreithiau barddonol; ac mai gan Feirdd yn unig 'mewn gorsedd ddygynull, i'r perwyl hwnw yn benodol, y mae awdurdod i arolygu, cyfnewid, neu wellâu rheolau barddoniaeth Gymreig."

"Yn ngwyneb haul a llygad Goleuni."

Cyflwynwyd i'r Arglwydd Mostyn, Medi 27, 1850, a chafwyd atebiad gan ei Arglwyddiaeth; yn yr hwn yr hysbysai ei Arglwyddiaeth ei ofid "am fod gwahaniaeth barn yn bod yn mysg y beirdd ar bwnc mor bwysig. Na wyddai efe pwy oedd gywir, ond y gobeithiai y byddai i'r farddgan wobrwyedig, a gweithrediaidau yr Eisteddfod gael eu hystyried yn ddiragfarn, gan bawb a weithfawrogant burdeb a llwyddiant ein barddoniaeth genedlaethol, ac y gadewir y pwnc i benderfyniad y frawdoliaeth oreu oll, barn y cyffiedin"!

Haera rhai o'r beirdd sydd o du y Bryddest fod rhyddid i gyfansoddi ar y mesur a fyner, mewn Eisteddfod, o herwydd fod Canon Caerfyrddin yn caniatâu hyny; ond os sylwir ychydig gwelir fod y Ganon yn gofyn "synwyr a phwyll, a *chynghanedd rywiawg a diledryw*." Nid oes unrhyw fath o gynghanedd mewn Pryddest, gan hyny, nid ydyw y Ganon yn caniatâu y rhyddid a gymerwyd yn Rhuddlan.

AWDL ER COFFADWRIAETH

AM Y

PARCH. WALTER DAVIES, M. A.,

(GWALLTER MECHAIN.)

BARDD A HYNAFIAETHYDD RHAGOROL YN EI OES.

—o—
Yr Awdl Fuddugol yn Eisteddfod Rhuddlan.
—o—

TROM Och am Walter Mechain—rydd y wlad,

A grudd wlyb mae'n llefain ;
Hiraeth sy', gwn wrth y sain,
O herwydd un wnai'i harwain.

Y mae'r gwr i'r Cymry gynt,
Fu yn nawdd, fu'n gefn iddynt,
A'i athrylith reolai
Waith y Beirdd, gan noethi bai,
A nodi trwy feirniadaeth,
Y llinell rhwng gwell a gwaeth,

Wedi 'i roi mewn daiar werdd,
Ar ol einioes hiroes hardd ;
Mwy ni chawn emyn na cherdd ;
Wele 'i bin o law y Bardd.

Beirdd ein hoes sy 'n brudd, yn awr,
Ar ol ei roi ar elawr,

A gollwng i dduon gellau—y gro
Grëwr meddylddrychau ;

Er's oesoedd, yr oedd yr iaith,
 Diameu, ar fyn'd ymaith,
 Heb fawr i'w hachub o fedd,
 Na'i hadferyd i fawredd;
 O fîn y tost gyfnod hwn
 Hanai 'r gwr, 'nawr, a garwn;
 Gwir addysg ga'dd o'r gwreiddyn,
 A buan daeth yn ben dyn.

Gwyddai 'r Omeriaith, bêr iaith y Brython,
 Chwalai ei hadail i'w gwych waelodion,
 Adwaenai 'i seiniau, ei dawn a'i swynion,
 A thân ei haruthr we a'i thynion;
 Mynai weled ei manylion—yn hawdd,
 Ei geiriau anhawdd a'i holl gywreinion.
 Hen awdwyr a'u hynodion—ddeonglai,
 Ef a ddeallai 'r t'wyllaf weddillion.

Hynafiaethau ni fethawdd
 O dew niwl ddirnad yn hawdd.

Ac ysgrifau, fu 'n destynau,
 Am hir oesau o ymryson,
 A eglurai, o'i flaen chwalai
 Draw e giliai eu dirgelion.

Chwiliai i wythi yr uchel ieithoedd
 A'u hynod eiriau, hyd eu dyfnderoedd,
 A mynai weled, er trwm anialoedd,
 Yr hyn gynwysai yr enwog gynoesoedd;
 Amryw wëadau cerdd Homer ydoedd
 O dan ei law, adwaenai ei luoedd:
 Awen a dysg Rhufeiniaid oedd—amlwg
 I'w gywiraf olwg, a'u rhyfeloedd.

Rhag ei wel'd mae daiar gau
Rhyngom—mae dan law 'r angau.

Yr oedd enaid barddoniaeth,
Neu awen wir, yn a wnaeth,
A thorai hon drwy iaith rydd
Ein hawenog anianydd.
Beirniadaeth hwn, barn ydyw,
Ni wâd ein beirdd, sy 'n dân byw.

Yn oddaith i gynghaneddion—diwerth,
Neu daiog orchestion;
Y gwr na roddai goron
Glaer y bardd i gler y bon.

Gwir awenydd a goronai—yn llwyr,
A llawryf fe 'i gwisgai,
A gwyneb un gân a bai*
Er bonedd, ni dderbyniai.

Wych un, yn ei gychwyniad,
Isel oedd barddas y wlad,
Yr awen der, o ran dysg,
Yn bruddaidd, heb wir addysg;
O'r hen ddull, rhyw un neu ddau,
O athrylith wir olau,
A wyddent am roi addysg
Y wir ddawn i rai o ddysg:
Ac am roi i Gymru wen
Athrawiaeth y wir awen;

* Ystyrid beirniadaeth Gwallter Mechain ar gyfansoddiadau barddonol, mor ragorol, fel mai prin y dywedid dim, yn gyhoeddus o'r hyn lleiaf, yn erbyn ei benderfyniad. Nid ydyw yr Awdwr yn cofio ond un engraff yn oes y Bardd hybarch, y bu un math o rwgnachiad cyhoeddus yn erbyn ei farn.

A thriniaï bur athroniaeth,
Llwybro 'n hir ei llwybrau wnaeth.

Mawr waith ei hamrywiaethau—deallai;
A dull gweithrediadau,
Egwyddor, ac agweddau—deddfau hon,
O gudd ddirgelion, ddygodd i'r golau.

A'i lewyrch gwnai ef oleuo—pob pwnc
Pob peth rho'i law arno;
Gweler ei waith eglur o,
A'i nodwedd, gan a wado.

Gyda'r prif ddiwygiadau—hyd yr oes
O du 'r iaith a'i breintiau.
Am ei chael i ymwychau—mewn nerthoedd,
Er dal i oesoedd yn ei haurdlysau.

Yr oedd yn Gyfarwyddwr,*
Yn ei Beryf† hardd, yn brif wr.
Puro hon heb un prinhâd
O'i mewn oedd ei ddymuniad,
Na salwch, neu iselwedd,
Ar ei gwisg, i hacru 'i gwedd.
Rhoddai wawr ar farddeiriau
Ereill er eu llwyr wellhau;
Hen feirddion, i fwy harddwch,
Troai oll o'r tyrau llwch;
Huw Morus anghydmorol
Yn ei deml wych deimla 'i ol;
Glân y coethodd Glyn Cothi,
A'i fawr waith ddygodd i fri;

* Director. † One who causes.

Mynai o fedd, y mae'n fyw,*
 Haeddwaith, Canoldref, heddyw,
 Ei farn ef, i fri yn ol,
 Ddoi a'r awen ddireol;
 Dygai elfenau digardd †
 I roi byw 'n awyr y bardd.
 A phurddysg i'n hyfforddi
 Oll i'n hiawn lwyr wella ni.

Troai allan bob troellau—dichwaethiad
 A chwithig ffigyrau;
 Ac i wawd â'i ergydiau—ef o'i wŷydd
 Yrai annedwydd goeg addurniadau. ‡

I galon Awdlau gwelai—o honynt
 Darluniad a dynai,
 A'i bwyntel ef a baentiai
 Awen bur heb yr un bai.
 Ail nawdd roi i lenyddiaeth,
 Yn ei oes, a'i hurddo wnaeth.

Er i'r gwr mawr ei ragorion—am oes,
 Dramwyo iaith estron,
 Ei hen iaith, a thlysnï hon,—heb hoced,
 Hawdd iawn oedd gweled, ddenodd ei galon.

Y hi a'i thân a'i thônau—aneisor
 Oedd nes iddo yn angau;

* Cyfeirir yn y llinellau uchod at argraffiadau newyddion a ddaeth allan o dan olygiad Gwallter Mechain, o waith Huw Morus, Lewis Glyn Cothi (mewn cysylltiad â'i gyfaill Tegid) a'r Psalmiau gan Gwilym Canoldref, sef, Captain William Myddleton.

† Not transgressing.

‡ Gweler ei nodiadau rhagorol yn y Gwyllydydd, ar ol Eisteddfod Gwrecsam ac Eisteddfodau taleithiol ereill.

A hon a ddaeth o'i enau,—ddiweddaf,
Dyma y nesaf, hawdd gwel'd, mewn eisiau.*

Ei dreithiau† golau gwelir
Sy'n llawn dysg neu addysg wir;
Ar Ryddid a'i oreuddawn
Rhoes Wallter ddewrder ei ddawn;
Darlun yw, a darlun oedd,
O erch loesau'r Chwil-lysoedd,
A dinystr eu dirdyniad
A'u mawr lid mewn amryw wlad.

A gyrai olau drwy y Gréalod‡
I luoedd adwaenem o leoedd dinod;
Nid dyrus eiriau, traha a sorod,
Na geiriau fyddai i greu rhyfeddod,
Ond y gair diguro,—dodai'n lân,
Yn ei le'i hunan, mewn goleu hynod.

Cyfanwaith o'r tecaf ini—ydyw
Pob Awdl wnaeth drwyddi,
Heb air, yn ol ein barn ni
Ar ei geiriau'n rhagori.

Ei benillion a'i englynion
A'i gywyddion mewn gwe addas,
Sy'n naturiol oll wrth reol
Yn gyfurddol 'nol teg farddas,§

*“ His last words were uttered in the Welsh Language nearest his heart, and therefore uppermost in extremities.”—*Memoir in the Shrewsbury Chronicle*.

† “ On Agriculture.”—“ On the Life of Man.”—“ On Liberty.”

‡ “ The Cambrian Registry.” “ Cambro Briton ” “ Cambrian Quarterly.” “ Y Greal,” and the “Gwyllydydd” § Of equal rank.

I'r Delyn ei englyn o
 Ai fwyn sain a fyn swyno;
 A'i Lywelyn, Lyw ola'
 Yn bur hir hwnw barha.*

Ei drylawn Awdl ydyw'r darluniadon
 Goreu a welir o faes brwydr greulon;
 Lliwia ryfelwyr a'u holl orfaelion,
 A lludded agwedd eu lladdedigion;
 A dinystr aml o dan eisiau trymion
 Ar feddianau rhyw dorf o ddynion;
 Trefi yn oddaith, twrf y newyddion
 Yn rhoi i ganoedd destyn oer gwynion;
 Nes y mae drych a llewych y llun,
 Y niwl hyd awyr, o'r megnyl duon,
 Cyrff dan draed, yn eu gwaed—ôl ergydion,
 Er c'wilydd i fâr cleddyfau hirion,
 Yn hawdd i'w canfod yn hon,—darlun gwir
 Yw'r drych a welir o frwydr i'w chalon:

Mae'r paentiaid yn baentiad byw
 Coffad un o'n cyff ydyw.†

Mewn Eisteddfod dan nod addurniadawl,
 Gwobrau ei awen a'i ddysg boreuawl,
 Onid ydoedd ef yn awdurdodawl
 O ran ei henaint a'i fri anianawl?‡
 Teilyngai, mynai ein mawl—a phlygem
 Iddo, a rhoddem barch oedd wir haeddawl.

Ni fuesgob yn ei brif wisgoedd,
 Neu brif ynad gwlad a'i goludoedd,

* On the Death of Prince Llywelyn. † On the Death of Sir
 Thomas Picton. ‡ Natural.

Uwch eu parch—hybarch oedd,—dysgawdwr
A gwiw lywiawdwr Gwalia ydoedd.

Ar ei sedd llanwai'r swyddau—a gawsai
Wrth gyson reolau,
Mawr ddyddyn mewn amryw ddoniau—oedd e'n wir,
O'r braidd y gwelir ail i'r bardd golau.

Fel duwinydd, cofleidiai ei enaid
Fanau diogel y ffydd fendigaid,
Fod yn Nuw Ior i fyd o anwiriaid
Iechydwrriaeth lanha bechaduriaid;
Agor ei thrysor wrth raid—a'i daenu
Wnai ef i gwnu i'r Nef y gweiniad.

Ei ddiwydrwydd, er mawredd ei oedran,
Yn ei fyfyrdod, ei nwyf* a'i fawrdan,
I uchel weini, a chwilio anian,
Oedd yn ddiareb—a'i ddoniau eirian
A'i awen ef nid oedd yn wân,—daliai,
Ei gwedd a wellai, ni wisgodd allan.

Ei ddyddiau a ddiweddodd,—yn llawnion
Mewn llanerch a hoffodd,
Yn y tir hwnw torodd—y golau,
A'i amryw wenau ar Gymru hunodd.

Olynai 'r bugail enwog—droes air Nâf
Drysor Ne' odidog,
Y cyfeithiad cyfoethog,—'nol hirnôs,
I iaith y Werinos anllyth'renog.

Enw Mochnant a Phenmachno—bery
Tra bo 'r dwr yn treiglo,

* Energy.

Oes yr Haul a'i asur o,—drwy 'n gwlad lân,
Am Enw Morgan bydd sôn mewn mawrgo'.

Yn mro y gwir-ddysg ein Bardd mawr gerddai,
A'r un addysg a'r Doethawr weinyddai,
Am ei ddihalog ddawn y meddyliai,
A'i fawr ragorion ef a hir garai,
Enw hwn parchu a wnai,—rhoes ei serch,
Ar y wiw lanerch bu'r gwr olynai.

Dylid rhoi maen, maen mynawr—o werth byth
Wrth ben bwrdd yr allawr,
A'i gerfio er cof gwirfawr,
Am wŷr fu eill dau mor fawr.

Rhaid ini, frwd Awenydd,—dy adael
Dan y dudew gaerydd;
Huno gei dan y gwŷdd,—dy awen ddyrch
Hi rodia lenyrch yr ardal lonydd.

Bu yr adeg i Brydydd—gael ei roi
Dan glo 'r arch yn llonydd,
Yn alar drwy 'n heolydd,
Ac Och fawr, ac Och a fydd.

A W D L
AR
W L A D G A R W C H .

TESTUN EISTEDDFOD LLUNDAIN,

1855.

DYN ariangar gâr ei god,—ei galon
A geula ar sorod;
Ei hunan yw, pen ei nod,
Hyd ei yrfa, nes darfod.

Ei aur yn garcharorion;
A'i gul fynwes heb wres bron:
Ni char neb, chwerw iawn yw,
Ceul adyn, cul ydyw.

Ei legach, drwm olygon—anaele
Ni welant brydferthion;
Ni wŷr calonau oerion—am degwch,
Neu, werth Gwladgarwch wrth glod gwirion.

Pa glod fydd cael gwybod gwerth
Ei dda, ar ol byw'n ddiwerth,
A newynu ei enaid,
A'i farw llwm, 'nol crafu'r llaid?

Hir glod geir i'r Gwladgarydd,
Tra rhod haul, tra rhed y dydd;

Un a gâr yn enwog yw ;
 Dyn i'w wlad anwyl ydyw :
 Câr hwn, mewn cywir yni,
 Drwy ei oes, ei daiar hi.

Cariad—Gwladgariad gora'—yn mhob glyn,
 Yn mhob gwlad flodeua,
 O'r De bwynt, hyd oerdeu ia,
 Pegwn oer, pau gwyn eira.

Yr Indiad gâr ei wendon,
 A châr ei dir olcha'r don ;
 Y mae'n nofio, mewn nwyfiant,
 Chwery'n wyllt, hyd ochr y nant.
 A meibion duon y De,
 Hil grwydrol, gar eu hadre' :
 Gwelir hwy mewn galar hallt,
 Yn eu teios, yn tywallt
 Eu holl galonau allan,
 Pan rwygir, gipir y gwan
 O ddwylaw'r fam eiddilaidd ;—
 Y mae ei bron yn blwm braidd.

A'i gwaed yn gwrthergydiaw—yn ei ol
 A'i nerth yn diffygiaw,
 Wedi gwel'd fod rhaid gildiaw,
 Yn llwyr, ei phlentyn o'i llaw.

Y gwr a'i wraig, ar wahan,—a yrwyd,
 O oror eu trigfan ;
 Y tyrwyr a wnant arian,
 O honynt, mwy, a'u plant mân.

Dynion cywir, gwir wladgarol—eu cwyn

Yw pob cenedl wreiddiol,
A'u hawydd, yn feunyddiol,
I dynu i'w gwlad yn ol.

Fe ga ei ffurf wiw goffad,
A'i hystum le, yn wastad,
Ar leni 'r co' 'n arlunwaith,
Gyda lle 'n y llygad llaith.

Yr Iuddew a welwyd yn prudd wylo
Am ei wlad anwyl; aml hedai yno,
O lan Euphrades, oedd loew 'n ffrydio;
Ei su a'i hoenwawr methent ei swyno;
Am ei Ganaan, trwm gwyno,—wnai heb nawdd,
Ei delyn hongiaudd, nid elai 'n ango'.

Ei Saron, a'i Hermon hi;
Ei gwyrddion ochrawg erddi;
Ei dolydd, a'i gwydd deiliog
Ar aelïau y creigiau crog,
A'r gwinwydd, dan ber gynyrch,
Yn dal y grawnsypïau 'n dyrch.

Ei hardd Liban ban a'i benau—mewn ia,
Mewn niwl a chymylau,
O'i nen sy'n rhoi ffynonau,—red beunydd,
Risial afonydd, i'r isel fanau.

Ei Hiorddonen urddunol,
Ara' ddwr, is gwâr y ddol;
Moriah, a'i amrywion,
Y deml wych, oedd dy mawl Ion,
A garai 'n fil rhagorach
Na Babel a'i hawel iach.

Ei Fon oedd harddach, oedd fwy,
 I war enaid Goronwy,
 Nag Amerig a'i mawredd;
 Enw'i wlad oedd iddo'n wledd.

Y mae ereill fu'n morio,—i wledydd
 Goludog wrth deithio,
 Na welent fan i hwylio
 Mor brid a Chymru eu bro.

Nid all cyneswlad y pomgranadau
 A ddyry floedd o aur afalau,
 Grawn y gwinwydd, nac aeron ugeiniau,
 Harddaf, liwiedig erddi o flodau,
 Na mawredd anian, ddwyn serch myrddiynau,
 Oddiar dud didwrf beddrod eu tadau;
 Y Brython, er pob rhithau—ddangosir,
 Ar dda ei frodir, rydd ei fwriadau.

Nid aur fel cnwd o eira,—na chyfuwch
 Ddyrchafiad ag Adda,
 Yr ddyn o egwyddor dda,—yn westfil,
 I droi mwy 'i wegil ar dir a'i maga.

Yr oedd, pan oedd yn eiddil,
 Bethau o werth, byth i'w hil,
 Eu gwybod, er creu gobaith,
 Ynddynt hwy, heddyw 'n eu taith.

Heblaw ei drec a'i bel droed,—y nwydwyllt
 Neidio 'n ysgafndroed,
 A honi bod mewn henoed,
 Yma, pan, nad oedd bump oed.

Y dynwared dyn a'i eiriau,—a'i waith

Yn gwneuthur melinau;
A gosod mân gychod gau
Ar lonydd, farw lynau.

Helyntion dwysion ei daith,
I'w ran, ni ddaeth ar unwaith;
Fe gofia ef ei gyfoed,
A'i dras, a'r lle bu ei droed;
A'i rieni, rai anwyl,
Yn ei hen gartre', yn wyl;
Y bwth, o'r hwn gobeithiodd,
Dd'od o'i fwg, drwy ddiwyd fodd;
Y to o lyfn wellt y wlad;
Eiddew arno 'n addurniad;
Y llawr pridd—a phridd a phren
Ei bared, a'r babwyren
I'w oleuo 'n eigion nos,
Hir oriau, wrth hwyr aros,
Er rhoi, mewn trefn, eglurhad,
Ar ei bwysig ddarbosiad.*

Llenyrch ei rag-gynlluniau,—a'i bryder,

Aidd brwd ei feddyliau,
I dori 'r anhawsderau,
O'i ffordd ni raid eu coffau.

Pont y felin a'r penty,—y rhiwiau,

A rhaiadr y pandy;
Ffraw† dibrin ffrydiau, obry,
Ar eu taith yn pasiaw'r ty.

* A problem.

† Promptness to move.

Chwareufa yr iach wryfon—bochgoch,
 A'r bechgyn llawn calon;
 Yr aelwyd ddigwerylon
 Na chai brad orfrychu bron.

Y plas, ty Yswain y plwy',—oedd yn nawdd
 I wan hen rhag gorddwy*;
 Yr efail, lle bu'r ofwy,†
 Yn ei ddal, am awr neu ddwy.

Anedd y bardd a fu, unwaith,—yn fwy
 Yn ei farn, cyn ymdaith,
 Na braidd neb, na beirdd un iaith,
 A aned am awenwaith.

Y llan a'r Ficar llonydd,—a'i rudd iach,
 Gwr o ddysg ysplenydd;
 Yr hen ywen, o'r newydd,
 A'i gwraidd sad, yn ei gwyrdd sydd.

Y llwch oesau sy'n llechu isod—tan
 Gaddug tew y beddrod;
 Torf ddirif, o rif yr od,—gan angau,
 A llu o wynebau allai nabod.

Yr ysgol gyntaf, a'r osgo—oedd ar
 Ei wedd wrth fyn'd yno;
 Ei arswyd rhag ei wersio,—yn fanol,
 Gan ei huddysgol,‡ uthrol athro.

Yr hwn oedd pob rhai'n ei addef—yn fawr,
 Yn fwy na'r holl bentref;
 Un o ddull Solon, oedd ef,
 Yn edrych, yn ei adref.

* Oppression. † A visit. ‡ Self instructed.

Yr olwg sydd ar Walia—hardd, weddus
 Ar ddydd y gorphwysdra;
 Yr addysg bur a rod-da,
 Yma, heb dwyll, yn mhob da.

Y tywallt ei minteioedd,—ei mil myrdd,
 I demlau mawl cyhoedd;
 Eu lleisiau yn eu llysoedd—yn rymus,
 Eu cerddi nwyfus* yn cyraedd y Nefoedd.

Yr adsain o'r main mynor
 Lle chwâr† mellt lle lluchia'r mor.

A ddeil ar ei feddyliau,—o newydd,
 Am naw deg o flwyddau;
 Y fan hon, hoffa fwynhau,
 Hyd ddiweddiad ei ddyddiau.

Golwg ddrylliog, garegog y creigydd
 Banawg a welir uwch bena 'u gilydd,
 Uthr wg eu haeliau, anferth rigolydd,
 A'u danedd oerion, geirwon amgaerydd;
 Hoff ruad chwyrnion ffrydiau ei chernydd,
 Ei dur feini a dwr ei hafonydd;
 U bain ei milod ar benau 'i moelydd,
 Yr adar gwylltion a grwydra 'i gelltydd;
 Ei gwrdd adeiliau, gerddi a dolydd;
 Gwyrddwawr bryniau gyraedda 'r wybrenydd,
 Iddo, lle rhodio a rydd—ddyddordeb,
 A deil ei wyneb o du 'i wlad lonydd.

Yr olwg geir o aelïau—y Wyddfa
 A'i gwddf ffyrf ar brydiau;
 Niwl gwyn yn anelwig wau—
 Fry 'n dyrchu 'n fawrion dorchau.

* Lively, cheerful.

† To play.

Y wybr uwch ben, len lonydd,—yn ei glas,
 Yn glir fel y wawrddydd;
 Aml fath o gymylau fydd,—drwy 'r entrych,
 Heria eu llewych holl fedr y lliwydd.

Ei thwr a fydd waith arall,
 Mewn niwlen, a'i ben dan ball;*
 Chwai gwmwl ferchyg yma,
 Duo 'r nen a'i odre wna;
 Ei bwys, a rydd, wrth basio,
 Ar ei phen yn myn'd ar ffo;
 Pan godo 'r eildro, ar hynt,
 Ar edyn y rhuadwynt,
 Dros ei chrib ar wib yr â,
 A'r fellten gref a'i hollta,
 Nes bo twrf, am ysbaid hir,
 Rhuadwy drwy y frodir,

Ar led yn croch ddiasbedain—yn gryg,
 Geirwon greigiau 'n llemain;
 Ei ddudarth prudd a'i adain
 Ni phyga mwy ei phig main.

Pelydr o wyneb haulwen—drywanant
 Drwy hwn fel y fellten,
 Neu bwff o wynt nes bo 'i phen
 Yn oleu heb un niwlen.

Cymylau llaith ymaith ant;
 Ar waelod hon ymroliant:
 Wedi 'n frau larpiau ar led
 Ar gil y ceir eu gweled.

* That encloses, as a loose hanging or curtain.

Is ei hael yn yswiliaw—o achos
 Yr uchel fawr gyffraw;
 O'r olwg lwys ar ol gwlaw—geir o'i phen,
 Y wlad yn Eden, i'w gwel'd, i'n hudaw!

Llynau Arfon a'u haml grychdon,
 Lleni llawnion, oll yn llonydd;
 Gwaeddir allan, dan glir huan,
 Ai mor arian yw mor Werydd?

Hon a ddyry fynyddau i orwedd
 Wrth ei godre er eu hanferth gadredd;*
 Moelydd gwarsyth ymyloedd ei gorsedd,
 Yw 'r rhai'n oll wed'yn, a'u cernau llwydwedd;
 Ymwyra yn ei mawredd—er mwynhau
 Golwg ar gernau neu glogau 'r Garnedd.†

Er aros, tan oes gorwyrion,—yn mhlith
 Aml ieithoedd plant estron,
 Iaith ei wlad a'i thylodion,—er pob gwg,
 Os yw o'r golwg, sy nesa' i'r galon.

A hon y ceisiodd enwi—ei angen
 A'i ing yn ei floesgni;‡
 Ei swm wrth ei seinio hi
 Wirionodd ei rieni.

A thrwy 'i hanwyl lythyrenau—y cafodd
 I'r cof argraffiadau,
 Nes dod, drwy fod yn cryfhau,
 I ddal ar ddrychfeddyliau.

A thrwy hon y cadd feithriniad—mynych
 Mewn crefydd a theimlad,

* Strength. † Detached rocks. ‡ A lisping, or faltering.

I godi 'i serch at Geidwad;
Rhoddai hyn iddo ryddhad.

Cofia 'r athrawiaeth a draethwyd—wrtho,
A'r nerthoedd a deimlwyd;
Yr heli ddagrau wylwyd—a'i yni,
Er ei sirioli, roes gwersi 'r aelwyd.

Gwaith y Beirddion dwymna 'i galon,
Yn mro estron ni ymrwystra;
Hed yn union, dros y wendon,
At drigolion gwyllt dir Gwalia.

Mewn teimladau, trydd ddalenau
Yr hen oesau a'r hanesion;
Ni wna mawredd, nac anrhydedd,
I'w wladgaredd ildio 'i goron.

Daw Taliesin, Llywarch, Myrddin,
A Broginin, a'i ber ganiad;
A chaine ddichlyn tanau'r delyn,
I ail enyn ei ymlyniad,

Goronwy fawr a grynai fyd,—a Dewi
Gyda 'i awen danllyd,
Nerth odlau y ddau a ddyd
I'w elf öorth* ail fywyd.

Hiraeth ein Ieuan orwych
Am ei wlad ei drem a wlych.

Ond meddwl wedi am iddo—ei gwel'd,
I gael ynnddi rodio,

* Diligent.

Dry ei ing i dir ango';
Ymwarded rydd am ryw dro.

Balch yw y Sais, yn wr balch sydd,—o'i wlad
Oludog a'i threfydd;
Ysgotiad, mawrhad mwy rhydd,
I'w gaerogwyllt lwm greigydd.

Y Gwyddyl symyl fyn son
Am urddas trem Iwerddon;
Nid rhyfedd ynte'r afael
Mae'r Cymro'n ei gynfro'n gael.

Agora y gwladgarwr,
Yn mhob celf, ddrws yn mhob cwr,

I ddwyn o wyll ddoniau allan,—ei glod
Gludir drwy bedryfan,
Am rod-di 'i oregni ar ran
Ei anwyl wlad ei hunan.

Myn addysg i'w mynyddoedd—golygus,
Drwy golegau cyhoedd;
Myn hi i rwysg, o'r man yr oedd,
O dir ei hiselderoedd.

Ei aur a'i dir, er rhoi dysg,
A rydd, mae'n caru addysg;
O'r maenor, rhydd dir mynwent,
A hyn heb ronyn o rent.

I addoldai, ac ysgoldai,
Hwn a ddeuai yn nawdd ddiwael;
Deil olion rhoddion yr hael,
Heibio i gof, yn mhob gafael.

Mae ysgolion i dylodion
 I'w gwel'd, weithion, drwy'n gwlad ethol;
 Er tylodi, megir ynddi,
 Amryw gawri mor ragorol,

A'r rhai sydd ar orseddau—diysgog
 Mewn dysg a gwybodau;
 Yn mhob galwad, meib golau,
 Yma i Locke sy'n amlhau.

Ail i'r enwog olrheinydd—hynotaf,
 Ceir meib Newton gelfydd;
 Epil hynod, ysplenydd
 Yn tanio o fath Milton fydd.

Ymwela â llom aelwyd—i goethi
 Y gweithiwr gwyneblwyd;
 Pryna faeth, i'r prin ei fwyd,—mewn tlodi,
 Sy'n oesi, 'n gweini, mewn rhyn ac anwyd.

A chyfyd i uwchafiaeth,—heblaw hwn,
 Ei blant a'i hiliogaeth;
 Rhoi i'r pwl feddwl iawn faeth—iach a fyn
 A gyru i newyn hagr annuwiaeth.

Agora fynwes y creig, er i fwnydd,
 Yn eu lle anwerth,* orweddai 'n llonydd,
 Am oesau o'r golau, ar eu gilydd,
 Nes eu pilio, heb ofn un yspeilydd,
 I weled ol haul y dydd,—gwna'u codi,
 Oreurog wythi, fara i'r gweithydd.

Ergydion wnant rwygiadau—grymus
 Drwy gromil mynyddau;

* Without price, or value.

Gwiw fydd cael ogofäü—drwy greigydd,
Agor yn heolydd lwm gornelau.

Wele ganoedd ar hyd y clogwyni
Yn dwyn allan o'u calon dunelli;
A cheir y ceryg, fel beichau'r cawri,
O dan y lluwchion, i'w gwneud yn llechi;
Rhoi gwaith wrth agor gwythi—y creigydd,
A wneir hyd wledydd wnai farw o dlodi.

Yr enwog Fadog a fu—â danedd
Y don yn ymdrechu;
Yspeiliai'r mor, dyfnfor du,
O'i ran er ei ewynu.

Llwybr a dôl geir lle bu'r dyli',—unwaith,
Yn anwar drochioni,
Ar waelod gwely'r heli,
Heb ol llong ac heb ol lli'.

Wele, gardd a dail gwyrddion—geir lle bu
Gorlli' balch y wendon;
Yn lle rhuad, tyrfiad ton,
Emyna adar mwynion.

Drwy osod mawrion dresi,—ceir pontydd,
Amryw heolydd, uwch y mor heli;
Gwyr Mon yn gyru meni,
Ar y llawr, uwch gwar y lli'.

Ac o'r bad i'w cerbydau— yma daeth
Ymdeithwyr uwch tonau;
Olwynion yn filiynau—chwareuant,
Eu llwybr a welant lle bu yr hwyliau.

- Gwir garwr, lesiwr ei wlad,—o'i ogylch,
 Sy'n agor yn wastad,
 Ddegau o ffyrdd haedd goffad,
 I gywirio ei gariad.

I wella a dwyn allan—wir olud
 Athrylith pedryfan;
 Haedda ef, yn ddiwahan,
 Gael enw am ddadgloi anian.

Rhoes ei nawdd, rai oesau'n ol,
 I athronwyr meithrinol.

Chwilient natur i'w chalon,—ei llysiau,
 Eu lles a'u dybenion,
 Awyr a gwres, daiar gron,
 A chŵyl ei chyrff uchelion.

Ei dur, a'i holl greaduriaid,—ei gwellt,
 A'i gwydd, a'r mellt tanbaid,
 A threfn pob peth, sydd wrth raid,
 Drwy anian, ond yr enaid.

Lluniad y corff ddarllenant,—ei ranau
 Cywreinion ddosbarthant,
 Eglurhau 'i ddefnyddiau wnant,
 Ond enaid ni adwaenant.

Heb hwn buasai 'r penaf—o'r paentwyr
 Islaw 'r pwynt iselaf;
 Raphael yn un o'r ffolaf,
 Tywylla'i lwybr dan wybr Naf.

Buasai enaid heb ei swyno—gan
 Gynwaith* gwyich Angelo,
 Yr hwn a fu'n cywreinio—gwynebpryd,
 Iaith, a bywyd, o faen wrth ei bwyo.

E fu ereill, yn forau,—yn morio
 Mewn mawr anturiaethau,
 Drwy oesoedd, er cael drysau—i guddfan
 Daiar a'i seirian, werthfawr drysorau.

Rhaid oedd i'r rhai'n, drwy'u dyddiau,
 Gael rhyw help, er eglurhau,
 I'r golwg y dirgelion
 Oedd ar waith y ddaiar hon.

Yr oedd asio rhyw ddwysir,—ar draws dwr,
 Dros y don, uwch mordir,
 I synu, synu pob sir,
 A aned ac a enir.

Gweled hyn uwch treigladd tonau—roi ben
 Ar bob rhyfeddodau ;
 Yr oes oedd oll yn mawrhau,
 Y pontydd crog a'u pwyntiau.

Ond uno'r ddwy drwy dwnel
 Sydd waith, mewn oesau a ddel
 Ryfeddir—cleddir pob clod,—
 Rhyfaedda'r wyth rhyfeddod.†

Nerth ager yn ngwrtheigion—ragora
 Ar gaerau'r wyllt wendon,

* Cynwaith, gwaith cŷn Angelo.

† Golygir fod Pont Menai yn wythfed rhyfeddod y byd.

Ar hwyliau, ar awelon,—
Rhycha'r dwr a threcha'r don.

Hyd wledydd y dyluda—wyr y byd,
Cerbydau a lusga;
Torf o'i ol o'i chartref â,
Mewn munud, i'r man myna.

Tyr ofod, mae'n dwyn trefydd—a'i amwib*
I ymyl eu gilydd;
O Lundain gain, drwy'n gweunydd,
Draw i Fon, fel un dref fydd.

Eto, rhediad chwai y trydan—cywrain
Sy'n curo pob amcan,
Yn gyfrdo† rhed y gwefrdan,
O dan fôr—ni edwyn fan.

E welid gwir Wladgaredd—a rhyddid
Wrth wraidd pob mawrfrydedd;
Ni ddaw 'r hwn fo'n ddirinwedd,
I roi fawr o'r aur a fedd.

Ac ar hyn mae coronau—yn sefyll,
Ni syfl gorseddfeinciau,
Na gwledydd, er treigladau,
Os bydd hwn heb ysbyddhau.

Beth sy'n codi gwlad o'i thlodi,
Er rhoi iddi le mawreddog,
Yn mhlith gwledydd, mawr eu cynydd,
Un bwy gilydd, ond bygylog,

* A circular course. † Compact.

I glod gwir, ond Gwladgaredd?
Yn eu mysg Prydain a'i medd.

Un a'i rhawd mewn anrhydedd—yw i gyd,
Mae'n gadarn ei gorsedd;
A'n Buddyg, geinfyg ei gwedd,— heb ofnau,
Ie, 'i tharianau yw gwerth a rhinwedd.

O du'i gwlad a'i goludoedd,
Yn dal arf, ein cenedl oedd,
Er's oesau, cyn i'r Saeson,
Yspeilio, na hawlio hon.

Os duon gwysi 'i daiar—yfaï waed
Ein dewraf wyr gwladgar,
Gan guddio, 'n eigion dwfn ar,
Eu hesgyrn oedd ar wasgar.

E welir amryw olion—tra eglur
Lle bu treigl gelynion;
Mynegu am enwogion—wna'n tyrau;
Y mae'r hen gaerau i Gymru'n goron.

Arwydda'r rhai'n ymroddiad—ei harwyr
I herio pob rhuthriad;
Y dur gledd dros dir eu gwlad—a hogynt,
Lu mawr, hwy waedynt heb gael ymwarediad.

Yn nyddiau Bona addig,—a bagad
Fu'n bygwth yn ffyrnig,
Gan waed galon dyfnion, dig,
Fe wridai'r don ferwedig.

Wedi yfed o ufel—Waterloo,
Troi'i liw ddarfu rhyfel,

A'i awch, fel peth i'w ochel;—ond gwelwn
Hwn, a myrddiwn, yn awr, am ei arddel.

O wlad Brydain, lydain ei goludoedd,
Gyrwyd ein llongau, a'n gwyr da'n llengoedd,
I wlad y Dwyrain, a'i chelyd diroedd,
I leinio gwrthun, fileinig arthoedd;
Gorfu i'r blin, erwin yroedd,—mewn ofnau,
Droi yn eu holau draw i'w hanialoedd.

Rhyw fyddin fawr, orfeiddiol—a yrwyd
I'r oror ddinystriol;
Ni fu ddim, ni fydd o'i hol,
Ei harddach byth, ar werdd-ddol.

Banerau, heibio'n araf,
Frithai'r nen, dan heulwen Haf.

Yn y chwa, 'r rhai hyny'n chwiwio,—y meirch
Mewn mawrchwydd yn prancio,
Yr udgyrn yn rhoi adgo'—am frwydyr,
Niwl yn yr awyr, magnelau'n rhuo.

Ar y maes, ni fu grymusach—byddin,
Alluoedd iesin, yn llu addasach.

Safasant hwy, dros fesur,
O ffyddlon, fel dynion dur,
“Ynill, neu, golli einioes,”
Oedd rhydd arwyddair eu hoes.

Magwrydd yr amgaerau—afrywiog
Chwilfriwiwyd yn ddrylliau;
Er rhoi'u gwaed, gwnaent rwygiadau,
Nes troi'n syn y gelyn gau.

Adlewych hynod loew—eu harfau
 Gynhyrfodd fawr sylw;
 Pigion ein dynion o dw',—yn filoedd,
 A gludai foroedd o'u gwlad i farw.

Haint a newyn wnaent niwaid
 A'r baeddu, llygru'n y llaid.

Heb dân y bu y dynion,—heb aelwyd,
 Heb wely'n nhir estron,
 Yn weithwyr haner noethion,—gan bläoedd,
 Wrth y niferoedd, yn syrthio'n feirwon.

Darnau dynion, a meirch cryfion,
 A'u harchollion, mewn erchyllwedd,
 Yn y gwerni ac ornedd*
 Yno i'w gael yn eu gwedd.
 Tawch anadl, a gwaed hadl oedd,
 Yn nofio hyd y nefoedd.

Drwy i gampwyr dewr gwympto—o'u brodir,
 Daeth Brydain i deimlo;
 Agorwyd casgl er gwirio—serch calon,
 Rhanai i weddwon yn ddibrin o'i heiddo.

Enw ei hanwyl Frenines,
 Yn awr, oedd ar ben y rhes;
 A'i deiliaid yn ei dilyn,
 Drwy lawr gwlad, drwy lawer glyn.

Nid dyma 'r gynta' a gaid—o'i rhadol
 Weithredoedd dros weiniaid;
 Agor ei thrysor, wrth raid,—yw'r gorchwyl
 Anwyl, sy'n anwyl swyno'i henaid.

* A frown.

Nid oedd noddi, rhoddi'u rhan,
Yn beichio mawr na bychan.

Llonir calon llu o weddwon,
Gyda'r rhoddion gaed o'r eiddynt;
Bydd yn goron, tra gwlad Brython,
Yma i'n haelion, am a wnelynt.

Am Inkerman fan a fu—dan draed chwyrn
Miloedd o gedyrn, am ladd a gwaedu.

Bydd son hir, a hir barha—y mawr son
Am ol y clwyfo'n Malaclava.

Am awyr y Crimea,—fro waedrudd,*
Am frwydrad† yr Alma,
Am ddyrnod rhyndod yr ia,
A'i gyffiad,‡ bydd hir goffa.

Dynion mawrion fu'n cwympto am oriau,
Drwy hir wastraff, wrth dori y rhestrau,
Byw waed a'i ager hyd eu bidogau;
Gwleddai hefyd eu hirion gleddyfau;
Yn nydd y celaneddau—tewychynt,
A du waed arnynt oedd hyd y dyrnau.

Gwladgariad ei rad rydd—i'r ddaiar gron,
A'i holl drigolion gwar, gwyllt drwy'u gilydd.

Yn lle ffyrdd ceimion, gulion rigolydd,
I yru meni i war y mynydd,
A'r olwynion o dan y torlenydd
Yn bachu, yn glynu mewn siglenydd,

* Reddened with blood. † A battling. ‡ A becoming rigid.

Y march digalon, gwirion dan gerydd,
 O flaen rhoden* ei filain yriedydd,
 Ffyrdd union, sychion y sydd,—yn Nghymru,
 Iach ar i fynu hyd ochr afonydd.

Gado'r allt i gyd ar ol,
 Wneir heddyw, codi 'n raddol;
 A cheir y march yn chwarau
 Dan y ger a'i draed yn gwau.

Gwneud camlasoedd, uwch ben pantoedd,
 Drwy fynyddoedd, oedd drefn addas.

A gyru badau gorwych
 Trwy y sarn, uwch ben tir sych.

Golud goreu Gwladgarwch—a wnaeth hyn,
 A thaenodd brydferthwch
 Er codiad i'r wlad o lwch—ac aflwydd,
 I wir enwogrwydd, uwch gerwin hagrwch.

Hardd borthladdau, morgilfachau,
 I droi llongau draw ollyngwn;
 Rhai i esgor ar eu trysor,
 Rhai i feiddio'r mor orfyddwn.

E wnaeth hwn, drwy don a thir,
 Wasanaeth byth nas enwir:
 Taena, cyrhaedda rhoddir,—yn dewfrith,
 Acw ei fendith i bob cyfandir.

Ei diriondeb drwy'r India—a welir,
 A thros wal fawr China;
 A'i wyneb ef a daena
 Ei wres hyd begwn yr ia.

* A whip.

Y mae genym ugeiniau—o deg wyr
 Gwladgarol drwy'n parthau:
 Rhy anhawdd rhoi eu henwau,
 A'u rhif i'w teilwng fawrhau.

Y Mostyniaid, a'r Fychaniaid,
 Y Miltwniaid, eu mawl taenir;
 Y Powysiaid, a'r Morganiaid,
 Amryw Wyniaid mawr a enwir.

Os myn Saeson fod yn feilchion
 O ragorion gwyr a garynt,
 A son am Nelson a'i hynt
 Ar ddig, arw, wyrdd gerynt.

A bod Wellington yn ben
 Ar enbyd aruthr unben,
 Daw Cymru er mynu hawl,
 I'w dau arwr brodorawl,
 Ei Mon a'i Phicton goffa,—
 Dau na welid yn ola'.—

Ag aur, fe fu'r Gwladgarydd—yn agwrdd
 Gefnogi'r amaethydd,
 I ddwyn ei dir i ddeunydd,—rhag baeddu,
 A swga lynu, mewn rhyw siglenydd.

Tori manwydd, agor ffosydd,
 Dwr rigolydd, drwy ei galon;
 Dwyn gronynau hen briddellau
 Gael i'w grwnau gael gwawr hinon.

Newid ei wedd, gwneud yn dir—hen rosydd
 Anwresog a chorsdir;

Ei faes hardd, fu oesau hir,—dan felldith,
Heddyw â gwenith a ddigonir.

Gwel effeithiau cylchdröadau
Yn ei gnydau egniadol;
A'r ffordd orau i'r gwrteithiau
Roi i'w gwreiddiau faethder graddol.

Rhoi gwobrwyon, mae'n boneddion,
A mawr roddion, am wir haeddiant,
Am drin gerddi, am droi cwysi,
Am arloesi, er mawr lesiant.

Am y cnydau maip a llysiâu,
Ydau gweiriau a ragorant;
Am yr ednod, am y buchod,
Am y milod mwya'u moliant.

Haeledd o galon helaeth—a redodd
Ar hyd maes llenyddiaeth,
I godi gwir ddysgeidiaeth—ein tadau,
A'i dwyn i'r golau o dan argeliaeth;
Troi'u synwyr at ryw wasanaeth—i'r wlad,
Agor ansoddiad gwir hanesyddiaeth.

Dwyn beirdd oedd dan y byrddau—yn llechu
Yn llwch ysgriflyfrau,
I siarad eu tlws eiriau—yn yr iaith,
I fwrw eilwaith amryw gyfrolau.

Bu Myfyr heb ymofyn,
Aur yn ol, yn fawr yn hyn,
Ac Owen Puw, boed can parch
I ddyben y ddau hybarch.

Mewn bri, William Salsbri sydd,
Hed ei glod hyd y gwledydd.

A Morgan fydd mewn mawrgo'—hyd bo haul,
Nid â byth yn ango';
Y gair glan gadd agor ei glo—ganddynt,
A'i roi a wneddynt i'r Cymry'n eiddo.

Yr hygar Ficar a fu—yn wresog,
Drwy ei oes dros Gymru;
Chwalai'r nos—y ddofnos ddu,
Am ei wlad fu'n ymledu.

A Gruffydd drwy rym argraffwaith,,—yn ddewr
O Landdowror, unwaith,
Wnai iddi fyn'd yn oddaith,
Ar ei ôl ef, yr ail waith.

A chododd Charles, drwy 'i ymdrechïadau—doeth,
Gymdeithas y Biblau;
Teimlad Gwladgariad gorau—a'i magodd,
Dyna'i hachosodd i'n dwyn uwch eisiau.

A thyner wythïenau—o'i gwreiddyn
Gyrhaeddant bob parthau;
Gwneir y byd, gan wir wybodau—trylen,
Fu wael dan niwlen, fel Eden olau.

Ni cheir Cymru na'i chariad
Yn ol i un fro neu wlad.

Eisteddfodau'n ddiau ddaeth
I deilwng ail fodolaeth,
I roddi nerth i'n beirdd ni,
A noddi ein llenyddiaeth.

Wrth eu gwraidd, yn nerth a grym,
 Gwelid Iolo ab Gwilym,
 A Jenkyn* ddyn o ddoniau,
 A Burgess† fu'n lles i'w gwellau.

Daeth hanesiaeth, daiarddysgiaeth,
 A thonyddiaeth gwerth eu noddi,
 Areithyddiaeth, darllenyddiaeth,
 A thelyniaeth i oleuni.

Yn Mynwy, le dymunok,—y gwelir
 Argoelion gwladgarol;
 Y Wenwynen gynwynol,
 Yn ei dydd sy'n gwneud ei hol.

Heblaw rhoi nawdd i'r Awen,
 A rhoi gair i'r Gymraeg wen,
 Mae ar ei gwisg Gymreig waith,
 Noddai hen fonedd unwaith.

Mawrion oes ymroi a wnant,
 O du'r achos ymdrechant.

Ail fywyd yn nghelf Awen—a gafwyd
 Drwy gyfoeth dysgywen;
 Troi'n ol, o'r tir, y niwlen,
 Goddai y bardd, guddiai'i ben

Gwelsom, fe gawsom bendefigesau,
 Teulu ethol, oedd bigion taleithiau,
 Oedd wir ddysgedig, mewn heirdd wisgiadau,
 Rhai da eu harchwaeth, yn eu haur dorchau,

* Y Parch J. Jenkin, Kerry. † Esgob Burgess.

Lu uchel o achau—breninoldeb
 I roi eu hwyneb o du'r awenau;
 Sussex—a oes eisiau—nodi y dyn
 Cu, i ail enyn serch ein calonau?
 A'r Dduges eres, orau—fu'n achles,
 Ie, 'n Brenines, mae bri'n eu henwau.

Llundeinwyr, gwyr rhagorol,
 Noddai'n iaith flynyddau'n ol.

Eu dwylaw hwy a'i daliodd—yn addas
 Pan oedd yn mron diffodd;
 Chwalu'r gwyll tywyll a'i todd,—yn ffyddlon
 Wnai y Gwyneddion, enwog a'i noddodd.

Dyddiau'r bardd ydoedd ar ben—oll agos,
 Llewylgai gan angen,
 Nes y daeth, o'r ddunos den,
 Ail lewych ar ael Awen.

Mae'n rhaid cyfri' ei hail godi
 I ddaioni y brifddinas;
 Hi uwch argel, dygai'n uchel,
 Gan ei harddel, ag iawn urddas.

Cefnogrwydd hylwydd i hon
 Roi y dewr Gymrodorion,
 A chodent wyr gwarcheidiol
 Iddi'n nawdd ganmlwydd yn ol.
 Yr Awenydd Goronwy,
 Mewn serch, fu'n eu hanerch hwy;
 Eu haelodau yn wladwyr
 Boneddig, ddysgedig wyr.

A'r rhai'n oll y medru'n hiaith
 Yn ddyladwy'n ddilediaith.
 Ac ar ol y cu wyr hyn,
 Deuai eilwaith i'w dilyn
 Foneddig Wyneddigion
 O du'r hen iaith gadarn hon,
 A'r gwiw ddoeth Gymreigyddwyr,
 Ddyfalaf, enwocaf wyr.

Yn yr un lle, wele wyr—o'r un ach,
 Nid o gywirach aidd fel gwladgarwyr.

Rhoi o'u haur y mae'r gwyr hyn ;
 Daliant hyd fedd i'w dilyn.

Llawer Cymro, ddaeth heb eiddo,
 Yma i chwilio, am wych elwant,
 Gafodd weled, beth oedd nodded,
 Llaw agored, llu a garant,
 Roi o'u help, yn mhob lle'r ant,
 I'w cenedl, ac nis cwynant.

Y dyn haeddol, dinodded,
 A fawrha, a gofia'r ged,
 Dan nawdd hael, i'w wneud yn ddyn,
 A gafodd heb ei gofyn.

Enwogodd aml blinigyn,—na chawsai,
 Er chwysu ei goryn,
 Byth arfod* i ddod yn ddyn,
 O'r lle'r oedd traill† ei wreiddyn.

* Opportunity.

† Circumstance.

Llawer un fu'n gwella'r oes
A'u doniau hyd eu heinioes,

Rhai yn ieithwyr, rhai'n gyfrifwyr,
Rhai'n dduwinwyr o iawn ddoniau;
Peroriaethwyr, adeiladwyr,
A barddonwyr beraidd enau,
Lechasent dan lwch oesau—heb i neb
Nabod eu rhinweddau,
Mwy na gwawr y main gorau—sy'r awrhon
Yn nwnf goluddion duon fwngloddiau,
Heb rwydd help heb ryddhau—o gaethiwed
Y rhai'n i weled eu llwybr yn olau.

Yn nosbarth yr anhysbys—buasent
Dan bwys llafur echrys;
Yn lle bod yn llaw a bys—cyfeiriol,
Ie, 'n darianol enaid yr ynys.

Mae ereill llai na'n mawrion—hynodol
I wneud mân orchwylion;
Y didalent, y dylion,
O wir hil y ddaiar hon.

A hwtiant, a ddwrddiant ddysg,
A'r meddwl am rym addysg.

Ond y dalent sy'n didoli—dynion
A'u dwyn i oleuni,
Sedd ei hoes a haeddai hi,—a noddiant,
Er ei gwych welliant, rhag ei cholli.

Heb Wladgarwch, gwag ddiffaethwch,
Annedwyddwch, a'i nodweddau

Welasid, a chul eisiau
Yn mhob peth, ac yn mhob pau.

Yn ofer gwnaethai Neifion
Gynyrfu neu daflu'i don;
Ofer fuasai hefyd
I haul ban oleuo byd.

Buasai doethineb oesoedd—i'w chael
Yn ei chwsg, a'r celfoedd;
A dyn yn rhyw beth nad oedd—mewn isder,
Wedi'i greu'n ofer, 'nol digio'r Nefoedd.—

Pa ryfedd, ar ol profi'
Awyr fad ein henwlad ni,
Fod rhai a noddai mewn nych,
Erch oernych, a'u serch arni?

Llawer un gerllaw'r anedd—
Ola'i bawb, ael y bedd,
Gadd yma'i wella'n hollol
A'i roi mewn iach rym yn ol.

E gwnodd hon ugeiniau—oedd gwla,
Oedd gul eu gwynebau;
Mawr rif sydd yn ei mawrhau,
Am ei gwerth, am ei gwyrthiau.

I'w chu ddwfr glân, iachâawl,
Ceir myrdd yn cyweirio mawl.

Llawer a droes o'u llwyr dranc,—ai rhyngynt
A'r angau a'i grafanc;
Drwy'i yfed gwrida'r ifanc
A hen ddyn llwyd—hwn ddaw'n llanc.

Gwir Gymro, er crwydro cred,
A gara can gywired,
Nad â ei wlad dawel ef
O'i feddwl—myn gyfaddef
Yn ei blas, un o b'le yw,
Mai, erioed, Cymro ydyw.
Ni welir, mewn un alwad,
Wr o les, heb garu'i wlad.

C Y W Y D D A U .

I'R

PARCH. DAVID MORGAN, LLANFYLLIN,

*Pan ar ei daith drwy Sir Gaerynarfon, yn
Tachmedd, 1844.*

CYFAIST dy ran Forgan fawr
O alaeth cyn dy elawr;
Y daith yn fordaith a fydd,
I'r duwiol drwy fawr dywydd:
Siom ar siom sy yma i'r saint;
Neu gam na wyddom gymaint:
Ton ar don, nid tyner daith,
A gwenwyn a gogoniaith.
Nid oes ond ffugwyr ein dydd
Yn dianc, rhag blin dywydd;
Gwaelion sy'n myn'd heb g'wilydd
Gyda phawb er gwadu'u ffydd;
Yn denu â dau wyneb—
Da ni wnant er denu i neb,
Ond holl gais a llais y llu
Yw lle i ochel a llechu.
Gwell gan ffyddlon Gristion groes,
A danedd gofid einioes,

Na sedd hardd a mynwes ddu,
 Efo rhith yn ei frathu,
 Os ca wen y Secina,
 A nodded Ion ei Dduw da.
 Cei ei nawdd,—dos cynyddda,
 Heria'r don, bydd arwr da;
 Beth yw gwyn, wenwyn annuw,
 Na llid eirth lle bo llaw Duw?
 Ei enw ef i fynu â,
 Er dinystr i Diana.
 Malurir temlau arian,
 Y llecha myrdd yn llwch mân;
 Daw ar ben proffwydwyr Baal
 Dywydd du a dydd dïal;
 Yr egwyddor gyhoeddwyd
 Yn dy waith ganwaith, a gwyd;
 Myn Iesu'n cymwynasydd
 Wel'd ei air yn cael y dydd;
 Ac ef y Sant a'r Cyfiawn
 A'n uchel, yn uchel iawn;
 Na lwfrha, gloewa dy gledd,
 Da Dewi, hyd y diwedd.

PRIODASGERDD IEUAN GWYNEDD.

.....

IEUAN Fardd o awen fwyn,
Y pereiddfardd pur addfwyn.
Gwr enwog a geir ini,
Yn wir frawd, yn wr o fri.
Gwr erioed a gâr yr iaith
Câr ei wlad—nis câr lediaith.
Duwinwr, gwr rhagorol,
Roed i ni o rad yn ol.
Duw fy Iôr wna'i adferyd
O fin bedd i fyw'n y byd;
A thawel Rahel a roes
Er rhanu blinder einioes,
Yn briod syw—ein brawd sydd
Dan y iau fel dyn newydd.
Hiroes, a Duw i'w harwain,
I dir hedd deued i'r rhai'n:
Drwy'r hynt boed iddynt bob dydd,
O galon helpu'u gilydd.
Dalied Ieuan hyd elor,
O du gwaith godidog Iôr;
A thanied dros Frythonwyr,
Yn ngwlad Saeson, estron wyr.
Ni wiw dal ar swm dyliaid
Llan y plwy, sy'n llunio plaid;
Wrth eu swydd sy'n cyfarth ser,
Am damaid mewn camdymer.

Gwyr yw'r rhai'n a geir ar werth,—
 Adewir fel llestr diwerth.
 Dos rhagot, rhagot yn rhydd,
 Os daw'n flinderus dywydd;
 Nid tawel fyd ond tywydd
 I ŵr o farn gywir fydd.
 Caled waith, frawd, coelia di,
 Er ei les i'w arloesi:
 I gyraeddyd y gwreiddyn
 Rhaid cloddio a cheibio chwÿn;
 Yna caiff hen foncyffion
 Efo'r bâl chwalfa i'r bôn;
 Gwirionedd rydd ddirgryniad
 Heb gledd i ffugiant pob gwlad.
 Tery i suddiant orseddau,
 Gwna fedd i bob gorseddd gau;
 A gwel, cyn y del o'i daith
 Babau y byd heb obaith,—
 Pabaeth, a Phusiaeth a'i phen
 O dani yn y donen.
 E ddofir rhwysg cleddyfau,
 Oes hir ni chânt i frashau,
 Ar flaenau bidogau dur
 Ni reda gwaed creadur.
 Rhif y gwllith o eirf glythion
 Ar gnawd, gwâr frawd, gywir fron,
 A fwrir o'u harferiad
 I drin tir, glyndir ein gwlad.
 Yr hen haiarn, o'r newydd,
 Yn ei ol yn drosol drydd:
 Ac o'u ffurf tröir gwaew ffon
 A bwyelli'n ebillion;

Neu bladur gwyneb lydan,
 I dori, medi'r gwellt mân.
 A gyra hyn segurwyr
 I geisio gweithio fel gwŷr;
 I enill arian, unwaith,
 Trwy eu hoes am wneud rhyw waith.
 Maent yn awr mewn tyner wedd,
 Ar i fynu'n rhyw fonedd,
 Yn eu hangen, yn hongio,
 Ar y dreth, er's hir, hir dro.
 Ni roir, gan wir arwriaeth,
 Dim i neb ond am a wnaeth;
 Ni roir aur yn hir lle'r ânt
 I gwnu gwag ogoniant.
 Nid oes ond ar reidusion
 Eisiau eirf yn yr oes hon :
 Tarian i sedd Victoria
 Sydd yn nghalon dynion da.
 Sai' ein hardd Frenines ni
 Yn hawdd heb gledd i'w noddi.
 Heddwch yw'r brif egwyddor
 Fwya' o'r un yn Llyfr Iôr;
 Rhoddi help i gyraedd hyn
 A ddylai pawb, a'i ddilyn.

E N G L Y N I O N ,

AR AMRYW DESTUNAU.

AR ANSICRWYDD BYWYD, A SICRWYDD
MARWOLAETH. *

Duw'n Crëwr, ein tŵr tirion,—ys, unwaith
Roes einioes i ddynion;
Rhagweled, heb argoelion,
Wna ef, yn hawdd derfyn hon.

Yr adeg wan pryd y genir— dyn bach,
Dyna beth ragwyddir;
Oriau'n hoes, boed fêr neu hîr,
Gan un dyn, gwn ni 'dwaenir.

Daw ei yrfa i derfyn—yn y byd,
Heb oedi munudyn;
Yn eu dechrau, dyddiau dyn,
Lwyd wywânt fel blodeuyn.

Bêr oes, yn chwai, heibio'r â,—y boreu,
Yn beraidd blodeua:
A chyn nos gwanychu wna;
Blodau hon gwbl edwina.

* Testun Eisteddfod Cymreigyddion Corwen, mis Medi, 1822, am
y rhai y derbyniodd yr Awdwr wobr.

Oriau sydd fel llifeiriant—rhuadwy
 F'ai'n rhedeg drwy gornant;
 Yr einioes a ddirwyniant;
 Yn ebrwydd oll, heibio'r ânt.

Yn y byd drwy ein bywydau,—erioed,
 Yr ydym yn angau;
 I'w therfyn, oes sy'n nesau;
 Byddwn cyn hir mewn beddau.

Gyrir i byrth y gweryd—ugeiniau
 O ganol eu hiechyd;
 Heb ddim rhagor, pawb o'r byd
 Ro'ir yno ar ryw enyd.

Mae'r einioes, eisioes, yn wir,—yn waelaidd,
 Fel niwl y dyffryndir;
 Neu'r tARTH ddiflana o'r tir,
 Yn gwl, bron, cyn e'i gwelir!

Rhyw fodd, meirw fyddwn,—awn i weryd
 Yn yr awr ni thybiwn;
 Trwy angau'n fuan trengwn;
 Ys, ym yn nôd i loes hwn.

E ddaw y goreu'i ddeall—o'r rhai byw
 I'r bedd fel yr anghall;
 Y naill oes, gael lle i'r llall,
 A dorir i fyd arall.

Enoch, wr aml ei ddoniau—hyloewon,
 Ac Elias, yntau,
 Dyna rasol, dduwiol ddau
 Sengynt ar deyrnas angau!

Nid âi felly, hawdd deall,—wedi hyn,
 Un doeth mwy nag anghall;
 Ond o'r byd yma, drwy ball,
 I weryd aeth pawb arall.

AR WARTH Y CYMRO A GYWILYDDIA ARDDEL IAITH
 EI WLAD.*

Ti, Gymro, wado'th iaith odiaeth,—ydwyt
 Yn nôd o ddifriaeth;
 Nid oes wr o gyflwr gwaeth
 I'w weled, mewn un dalaeth.

Aneisor druenuswaith—yw gwadu
 Ein gwiwdeg Omeriaith;
 Ow, bwrw i lawr bybyriaith
 Lân oll, am eulun o iaith!

Er anwar lid estroniaid,—a'u gwaethaf
 Fygythion melldigaid;
 Yn hyf, safai'n hynafiaid,
 Hoff lu, hyd angau o'i phlaid.

Os oes rhai o'r Saeson—yn ei gwadu,
 Fe gwyd llu o'i meibion,
 Hyd ein tir, a gwadant hon,
 Yn waeth na'r rhei'ny, weithion!

Drwy'r gwledydd, beunydd, heb ball,—er's oesau,
 Mae pob rhyw Sais doethgall,
 Yn parchu'n hiaith geinfaith, gall,
 Diau, cyn d'od i'w deall.

* Testun yn Eisteddfod y Trallwng, Medi 7, 8, 1824, am y rhai y derbyniodd yr Awdwr wobr.

Er rhwystrau, os yw'r estron—yn hoffi
 Ei hamddiffyn, weithion,
 Beunydd, cywilydd calon
 Ydyw i'w hil wadu hon!

Ni wŷyr hwn am fawr o'i rhiniau, —nag am
 Ei gemawg blethiadau;
 Ond cest ti, 'n wir, hir fwynhau
 Rhagorol berdra'i geiriau.

Pan yn faban gwan, gynau, —was dinerth
 Cest hon a'i theg eiriau,
 I ddweyd i'th fam, glodfam glau,
 Erioed, am dori'th reidiau.

Y gadarn Gymraeg odiaeth, —O, arddel
 Mewn urdd a dyrchafiaeth,
 Na ddod hon, iaith ffrwythlon, ffraeth,
 Heibio, er mwyn dy fabiaeth!

Os oes, yn ein hoes gywrain ni, —alon,
 Am weled ei cholli,
 Gwrolion Frython, drwy fri,
 A sai'n addas i'w noddi.

Gwêl, agwrdd gampwyr golygus, —hoff lu,
 Sydd o'i phlaid yn drefnus;
 A bratiog gabldraith Brutus
 Aflêr, a chwelir fel us.

Herwydd, mae'r dydd ar wawrio—ar ein hoes
 Na cheir neb i'w bleidio;
 Yna'i waith a'i enw o,
 Wrthwingwr, syrth i ango'.

MURDDYN TALIESIN.

ENGLYNION A GYFANSODDWDYD GORPH. 1825, WRTH
 LAN LLYN GEIRIONYDD, A MURDDYN TALIESIN,
 YR HWN SYDD GER LLANRHOCHWYN,
 SWYDD GAERYNARFON.

RHYW awel dawel ganol dydd,—geir hyd
 Y goreudeg foelydd ;
 Ac ar wyneb Geirionydd
 Yr haul a belydra'n rhydd.

Melus ddwfr iachus ei rin,—byw araul,
 Mae'n ber fel meluswin ;
 Tawel oesai Taliesin,
 Gywiraf fardd, ger ei fin.

Yn ddiatal tra o'i ddeutu—y b'ai
 Y byd yn terfysgu,
 Rhoi ei ddawn i farddonu,
 Yna'r oedd, yn swm ei ru.

E welir heb hir chwilio—y llanerch
 Lle unwaith bu'n pyncio ;
 Er hyn, ni cheir o hono
 Allan sill o'i hanes o.

Glaswellt sidanwellt sy do—ar hyd llawr
 Ei dŷ llwm i'w guddio ;
 Ei furddyn barchaf erddo,
 Lew fardd, er na welaf o.

Ar y wedd ag yr oeddynt,—acw erioed,
 Mae'r crieg a atebynt

Lais ei gerdd dra melus gynt,—
Annewidiol iawn ydynt.

A W E N Y D D .

AWENYDD a adwaenir—wrth ei gwedd,
Ac wrth y gwaith wnelir ;
Nid yw pob peth a blethir,
O'r un waed a'r awen wir.

Nid rhydd awenydd anian—ydyw swm
Cydseiniaid yn clecian ;
O dinc i dinc yn rhincian,
Mae oer gerdd rhigymwr gwan.

Llwyd wau rhimynau meinion—dienaid,
Dyna wna ynfydion ;
Awen uchel, annichon,
I'r dyn hurt wir adwaen hon.

E ddyrydd ansoddeiriau,—heb ochel,
Nes beichio brawddegau ;
Swm a gwynt, yw'r cwbl sy'n gwau,
Yn ei hyllion linellau.

Gwehilion beirdd, gwaelion byd,—ni wyddant
Rinweddau'r gelfyddyd ;
Ond llarpiant, hacrant o hyd,
Wyneb awen a'i bywyd.

Toraeth ar doraeth dyrant—o eiriau,
Twrw mawr a gadwant ;

Dwyn nerth ein iaith dan warth wnant;
Beirdd o awen bardduant.

Os gallant ddyfeisio gwallau—gofrestr
Neu gyfrif mân feiau,
Rhodreswyr, rhigymwyr gau,
Ni ddaliant ar feddyliau.

Plisgyn yr englyn a rydd—ddifyrol
Wledd fawr i goeg brydydd;
Ni wiw son, nad hyny sydd,
Wrth hwn, yn nerth awenydd.

Rhoi meddwl a grym iddo,—yn ei waith,
Ni wŷr ddim am dano;
Byw ar waeledd a brolio,
Efo thwyll wna ei fath o.

Dwl a dyrus dlawd eiriau—ag arnynt
Glogyrnawg gymalau,
Dyna geir i gyd yn gwau
Yn marddoniaeth myrddiynau.

Mae ereill am ymyraeth—â'r awen
Heb reol na mydraeth,
Ac am rwygo Cymreigiaeth,
A blin droi y cwbl yn draeth.

Heddyw'n mysg prydyddion mân—y bryddest
A'r breuddwyd yw'r cyfan;
Caniad heb deimlad, heb dân,—
Rimynir heb rym anian.

Ceir geiriau, ddegau ddigon,—yn wallus,
 A llinellau lleicion;
 Yn dynwared yn wirion
 Waith y Sais—mae'n aethus son,

Dynwarediad dianrhydedd—yw oll,
 O'i waith, heb ei fawredd;
 Harddwch ia—pruddach ei wedd
 Anghenus na'r gynghanedd.

Yn nwyllaw meddwon halog—bu'r awen
 Dan ei briw'n flinderog;
 Gan wyr llaith o ganwyr llog,
 A ganent am y geiniog.

Difyrwch uwch dyferyn—o ddioid
 Oedd awen boleddyn;
 A chas aeth o achos hyn
 I deilwng fardd ei dilyn.

Awenyddion rhinweddol—yw rhif fawr
 O feirdd sy'n bresenol.
 Bolerwyr, glerwyr y glol.
 I daw sy'n cael eu dëol.

I'R ADAR YN CANU YN NGHANOL CHWEFROR,

1846.

BETH dwyllodd, hudodd yr adar—i gyd,
 At gerdd mor berseingar?
 Min dydd, iach hedydd, uwch âr,
 Rhoi ei gân mae'n rhy gynar.

Mae'r Gauaf,—tymor gwywo,—heb roi'i wisg,
 O bur ia am dano;
 Ni wnaeth rhew diffaeth,—ai do,
 Ar natur ei ran eto?

O riwiau oerion Eryri—y daw
 Y dwr yn wyllt gefulli';
 Yn mhob man syfrdan yw'r si,
 O agenau'r clogwyni.

Ni fu eira ar Ferwyn;—nag oerni
 Ar Garnedd Llywelyn;
 Ni fu copa'r Wyddfa'n wyn;—
 Hin Ionawr oedd yn Wanwyn.

Adar y tô yn heidiau,—na Robin*
 Ar raib wrth ein drysau,
 Ni fu yn hel, gan fwynhau,
 Ei friwsion, dan fawr eisiau.

Canu yr ych, cyn oer ia,—ond tewi
 Wnewch mewn tywydd eira;
 Haeddu'ch mawl nwyfawl, a wna
 Yr Ion, ar yr hin oera'.

Cyweiriwch eto'ch carol,—deulu hardd,
 Tra deil yn hin symol;
 Y mae'n debyg—mae'n dybiol,
 Fod gwyn ia—fod Gaua'n ol.

*Redbreast.

JUBILI Y FIBL GYMDEITHAS.

YN nghanol ein hanghenion—am air Duw,
 Mor deg ac mor brydlon,

Gwnai'r gymdeithas addas hon
Ddiwallu'r rhai oedd ddeillion.

Yn ogonawl, mae'n gweini—uchel swydd
Uwchlaw sect a chulni ;
Nid i ran o'n daear ni,
Ond i'r byd mae'n darbodi.

Agora'n mhob rhyw gyrion—ei monwes,
Mae'i hwyneb ar ddynion ;
Gwyllt, gwâr, bach, mawr, yr awr hon,
Yw arwyddair ei rhoddion.

Dengys i fyd fod angen—y Ceidwad
Ar hil codwm Eden ;
Ni pheidia tra'r Wyddfa wen
Ar ei sail a gwres heulwen.

Ergydia ar bob rhyw geudeb,—gostwng
Gestyll annuwioldeb ;
Ni ddeil coel pagan na neb,
Yn ei hanadl na'i hwyneb.

Cymdeithas y cymdeithasau,—yw hon,
Newyna'r allorau ;
A gwywder ddaw'n gawodau
Drwyddi i'w gwel'd ar dduwiau gau.

Yn gynes iawn bu yn gweini—ei deg
A deugain o flwyddi ;
Dylanwad ei haelioni,
Nid wŷr neb drwy'n daiar ni.

Yn y nef y deuwn ni—i weled
Ol y gwaith wnaed drwyddi,

Pan y caffo'i hamcan hi
Ar unwaith ei goroni.

Ni all enw'i chynllunydd—fyn'd o gof,
Ond gwir barch geiff, beunydd,
Tra Meirion yn Feirion fydd,
A'r eang Lyn rhwng ei lenydd.

YR EIRA YN CHWEFROR, 1853.

“Efe a wnaeth bob peth yn deg yn ei amser.”—PREG.

“Na rwgnechwech megis y grwgnachodd rhai o honynt hwy.”—
PAUL.

ER mor oer y mae'r eira—onid yw
Mor deg yn y Gaua',
A blodyn, wyneb leda,
O dan ei wrid, yn yr Ha'?

Rhag gwllaw twrf mawr a glywir,—rhag eira,
Rhag oerwynt fe gwynir;
Rhag awyr sech, rhag gwres hir—
Rhag hin iach fe rwgnechir.

Cwynir rhag trwm ddryghinoedd—a dirfawr
Dwrf daiargrynfaoedd;
A bwrw wneir mai barn oedd
Y dwr a fu ar diroedd.

Ond anhawdd ydyw honi—heb air Naf,
Mai barn oedd y mawrli'
Hir arnom, mwy na'r oerni—
Gwisg wen, oer, a'n gwasgai ni.

Drwy sychder, oerder, a'i waith—pwy a wŷyr
 Pa haint gedwir ymaith?—
 Er a wlych—caiff awyr laith—
 Na hoffir, ryw iawn effaith.

Amaethwr mewn esmwythyd—hyd ei oes,
 Sy'n dal yn rwgnachlyd;
 Hwn a wel, rhyw hin o hyd,
 I'w boeni ar bob enyd.

Ni wel byth ddigon o waith,—ac ni wel
 Byth gnwd digon perffaith;
 Rhy sal yw'r prisiau eilwaith—
 Rhyw *ry* o hyd—*rhy* yw'r iaith.

Duw a wŷyr sut i wneud orau—wrth droi,
 Wrth drin yr elfenau;
 I ganu'i glod, plygu'n glau,
 Yma i'n Ion, ddylem ninau.

MIS IONAWR, 1856.

A WELWYD ar y wylan—eisiau tir
 Heb fod 'storm mewn unman?
 Neu Ionawr yn ei anian
 Heb eira gwlyb, heb rew glan.

Eira a gwlaw—awyr glir—a niwl oer
 Bob yn ail a welir;
 Ni chawn, er maint achwynir,
 Fawr o haul neu fore hir.

Gwen natur a gawn eto—ac adar
 Y coedydd yn pyncio;

Ca'r lwyd waun a bryniau'n bro
A'r ddol hardd eu hail urddo.

Y nos hir a'i mynwes ia—daw i ben,
A'i dydd byr ymguddia,
O wydd yr haul, rhydd yr Ha'
Wawr arall yn lle'r eira.

DWFR Y CAE COCH, TREFRIW, AC YMWELIAD Y PARCH.
T. PIERCE, LE'RPWLL, A'R PARCH, W. AMBROSE,
PORTH MADOG, A'R ARDAL.

DEUFARDD sydd wedi dyfod—i yfed
O ofer rhag nychdod;
Ar dreigl aeth i'r dwr ryw glod
Na rydd awen i'r ddiod.

Bu hwn i ryw ddybenion—yn rhedeg
Ar hyd oesau meithion;
A'n gwlad syw heb glywed son
Am ei rin i'n morwynion.

Ei bris ni wybu'r oesau—aeth heibio,
Ni thybient fod rhinau
Yn y twll hwn at wellhau
Afiechyd llwydion fochau.

Nid yw ei rin hyd yr ynys—a'i enw
Haner digon hysbys,
Ei deilwng deithi dilys
A fawrhaer, taener ar frys.

Y R O F E R D D Y N .

O F E R W R sy'n myfyrio—am yfed

Mwyfwy tra y gallo ;
Hefyd er maint a yfo,
Ni thyr ei wanc aruthr o.

Er mwydo mewn gormodedd—o ddiiod,

Ni ddaw o'i oferedd,
Deg anhaws rhoi digonedd
I hwn fyth—mae'i safn yn fedd.

Beunydd er bod yn bennoeth—fe lyna i

Gyflawni'i chwant chwilboeth ;
Ac yf bob rhan o'i gyfoeth
Yn ei wanc a'i gefn yn noeth.

Ni welir ei fath mewn haeledd—a dawn

Tra'n ei derm a'i frwysgedd ;
Bydd dranoeth, mewn annoeth wedd
Anfoesol, ar gnoi'i fysedd.

Mewn ffol anfuddiol gyfeddach—anaml

Bydd nemawr un haelach ;
Yn ei sobr fyd, enyd iach,
Ni bydd yr un baweiddiach.

Mae yn adyn llwm niweidiol,—i fyw

Ni fedd unrhyw reol ;
Heno o far yn llenwi'i fol,
Y foru'n edifeiriol.

Heddyw'n froch-fawr gawr gwrol,—y foru

Yn farwaidd brudd-glwyfol ;
Heddyw'n iach—ond trydd yn ol
Foru i'w lun arferol.

Y TYLOD-DY.

Ty i lwydo tylodion,—a'u dysgu
 Y dasg o fyw'n feinion;
 Garw hel i'r fangre hon
 Rai haeddai fod yn rhyddion.

Edrych yn deg mae'i wydrau,—ei gèrig
 Rhagorol a'i furiau;
 Oddifewn mae gruddfanau
 Bâr i ddur galon bruddhau.

 Y WYR Y F.

RHY wael ydyw rhoi Elen—hyd yr âr,
 Gydâ'r wedd annyben;
 Ac onid gwarth gwneud i Gwen
 Weithio dim wrth y domen?

Unrhyw addysg ni roddir—i'w chodi
 Ychydig o'r cleidir;
 A'i meddwl, am y wyddir,
 O'r un werth â'r awen wir.

YR ENGLYN BUDDUGOL AR YR ENFYS, YN
 EISTEDDFOD GWENT YN 1822.

ENFYS yn ddilys a ddyd—iawn arwydd
 Fanerawg i'r hollfyd,
 Na yr Ion, unrhyw enyd,
 Ddwr barn, i orchuddio'r byd.

I DDINAS MAWDDWY.

MAN addas rhwng mynyddau—yw'r Ddinas,
 Hardd enwog ei chaerau;
 Lle dymunol, bywiol bau,
 Yw ei bronnydd a'i bryniau.

I'R FLWYDDYN NEWYDD.

BLWYDDYN newydd sydd yn nesau,—pwy wŷyr
 Pa un wêl ei dechrau;
 Ede' brin yw'n bywyd brau,
 A diddym yw ein dyddiau!

1826.

I'R EIRA YN Y FLWYDDYN 1827.

YN lle'r tywydd rhydd gaem yr ha',—oerni
 Ddaeth arnom y gaua';
 Pur oer yw talpiau yr îa,
 Ac oerwynt rhew ac eira.

MORGLAWDD TRE' MADOG, MEHEFIN 4, 1827.

WELE odiaeth ddôr glöedig,—le muriawl
 I ddal y môr ffyrnig;
 Cadarn forglawdd cauedig
 Drwy dôr y dyfnderau dig.

Dwr hallt ni fedr ei holli,—er ei fod
 Trwy fâr yn trochioni;
 Mae'n forglawdd er ein nawdd ni,
 Er uchelgais croch weilgi.

E R E I L L .

MADOG oedd enwog ini,—trechai hwn,
 Y trochionawg weilgi;
 Ffrwynodd a llywiodd y lli';
 Rheolodd y mor heli.

Newydd ddeddf iddo yw hyn,—rho'i muriau
 I lywio'r mor brigwyn,
 Gwneud i'w ddylif, gefnllif gwyn,
 Er tyrfu, gadw'r terfyn.

Hydref 8, 1831.

I'R OGOF SY GERLLAW TY Y PARCH. D. MORGAN,
 MACHYNLLAITH.

OGO F unig wiw fynwes,—i dawel
 Neillduo rhag gormes;
 Wele ichwi hardd loches,
 Uchel graig i ochel gwres.

Medi 26, 1831.

Y WYDDFA YN ORCHUDDDIG GAN EIRA YN
 NIWEDD EBRILL, 1835.

BETH yw'r llen wen byth o'r llun yna—geir
 Ar goryn y Wyddfa?
 A'i niwl oer o liw eira,
 Ynte llwyd fantell o iâ?

Cen o luwch oer cân lwch eira—chwyddodd
 Nes gorchuddio'i chopa:—
 A cheir, ar ei chwr oera'
 Gwlaw a dŵr yn galed iâ.

Y DIFFYG AR Y LLEUAD CHWEFROR 6,
1841.

Duw Ion â'i law dynai len—ordduol
Nes pruddau y wybren ;
E ddyru'r lwyd ddaiaren
Ei lliw ar rudd y lloer wen.

C L A W D D O F F A.

Y mae anedd-dy y diweddar Barch. R. Roberts, Tan y Clawdd,
wedi ei adeiladu ar sylfaeni clawdd Offa: gwnaed yr Englyn
canlynol iddo, Mehefin 22, 1847.

Ai i lawr yn falurion—y tynwyd
Danedd yr ymryson?
A! 'r hen glawdd, hawdd gwna'r oes hon
Roi adeilad ar d'olion.

EIRA YN MAI, 1851.

EIRA yn Mai! hai, beth yw hyn?—ar gern
Oer Garnedd Llywelyn,
A'i chyrau hyd ei choryn
O'r un wedd gan eira'n wyn.

Y DYDD BYRAF, 1854.

DEUODD bore'r dydd byra'—o'r diwedd,
Cyn hir daw'r dydd hwya';
O'r byr i hir heibio'r â
Oes fer a'r oes fo hira'.

Y GELFYDDYD O DDARLUNIO.

Mwy peth na nemawr gamp yw —rhoi ar lawr
 Wir lun un o'n cydryw,
 Yn ei faint, fel pe bai'n fyw,
 I'w adwaen, pa un ydyw.

Y GERBYDRES, (*Train*).

TORF—a cherbydau'n tyrfu—heibio'n myn'd
 Heb un march i'w tynu;
 Ager yn dod o gorn du—
 Annwn megis yn mygu.

E V A N A S I A N.

Ei ffyddlondeb, heb wahan,—os dengys
 Hi hyd angau'n mhobman,
 Dyfal ofaled Evan
 Gadw'i serch i gyd i Sian.

I'R AGERDDLONG, (*Steampacket*).

AGERDDLONG rwyg y gwyrddli'—a'i gesig
 Yn gwysau aneiri';
 Ni hwyliwyd mewn dwfn heli,
 Un o well hon ar gefn lli'.

Y D D A U S I O N.

SION Mathews sy'n ymwthio,—am y blaen
 Y mae blys mawr arno;
 A Sion Evan sy'n nofio;
 Ynddo'i hun mae'i nefoedd o.

EIRA YN HYDREF.

ONID yw gwawr ein daiar—yn newid
 Yn awr yn dra somgar?
 Y Wyddfa i gyd, wddf a gwar,
 Yn ei gwenwisg, sy'n gynar.

BRYN YR ODYN, LLANRWST.

BRYN yr Odyn sy'n lle swynol—ar ochr
 Iachus a dymunol;
 Ei werdd wawr, ar war y ddol,
 A'i ddwfr rhad sydd hyfrydol.

I OFYN ENGAN I IOAN MADAWG, DROS NAI IDDO.

O'CH haelfryd, fardd uchelfruint,—i Gruffydd
 Gwr a hoffwch gymaint,
 Rhowch Engan fechan o faint,
 Newydd—mae'n un o'ch Neiaint.

CYMRU, CYMRO, CYMRAEG.

MAWRYGA gwir Gymreigydd—iaith ei fam,
 Mae wrth ei fodd beunydd;
 Pa wlad wedi'r siarad sydd
 Mor lân a Chymru lonydd?

DEILDY MR. E. JONES, MINE AGENT, GER BAGILLT.

HYFRYDWYCH ddifyr adail—i'r adar,
 Cor odiaeth y manddail,
 Yw'n ty gwiw, mewn teg wiail,
 Gwedi ei doi gyda dail.

I SMOCIWR WEDI TROI Y BIBELL HEIBIO, YR
HWN OEDD MEWN HIRAETH.

HIRAETH sy bron a'i yru—i ildio
Wrth wel'd pawb yn mygu;
Gwnai mygyn o'r cetyn cu
I'w wael wyneb ail wenu.

I AMSERIADUR, (*Timepiece*).

MESURYDD ein hamserau,—addurnawl,
Hardd ddarn yn llawn perlau;
A'i aur fys, glewfys yn glau,
Dengys ddyfodiad angau!

ANRHEG I'R PARCH. H. PUW, MOSTYN.

NID rhyw ychydig fu'i ymdrechiadau
Ar ran y gwir egwyddorion gorau,
Gweithiodd fe dorodd drwy anhawsderau;
Fe lyn ei addysg dros hir flynyddau;
Dylesid cael aur dlysau,—neu serchog
Anrhegu Puw enwog ag aur gwpanau.

A N E R C H I A D A U,
Y N C Y N W Y S E N G L Y N I O N, &c.,

—o—

I

JOHN EDWARDS, YSW., DINBYCH.*

Fy llon gyfaill, hen gofion—a ddaliant
Fy meddyliau weithion,
Am fy hen dre'—fu'n lle llon—
Am fore fy myfyrion.

Buoch chwi i mi a'm awen—yn nawdd
Pan oeddwn yn fachgen;
Lluaws o oriau llawen
A'u swyn pur aeth dros ein pen.

Wrth olrhain y gywrain gerdd,
Rhagorgamp pur gywirgerdd,
Edrychech yn dra awchus,
Am waith beirdd, am iaith heb us,
Am swm am gwllwm y gân,
Barddoniaeth beirdd o anian.

Oeddych o fawr ogwyddiad—at y beirdd,
Ac at bob sefydliad
Ydoedd am roi gwardiad
Wnaethai les i iaith y wlad.

* Bu Mr. a Mrs. Edwards, yn dirion ac yn garedig neillduol wrth anwyl briod yr awdwr pan ydoedd dan law y meddyg yn Ninbych.

A buoch chwi wedi hyn,
Yn gyfaill heb eich gofyn.

Yn fy mro pan fu mhriod—yn afiach
Dan ofid a thrallod,
Neb mwy cu, ni bu yn bod,
Yn gefn ar y fath gyfnod.

Ni weiniau tirion Wanwyn,
Na llais aderyn o'r llwyn,
Na gweled Dyffryn gwiwlan
I ddal ei gwyw feddwl gwan:
Sirioldeb eich wyneb chwi
A roddodd gysur iddi.

Cyfaill mewn ing fe'i cofir—hyd angau;
Dengys hyn un cywir;
Ond anhawdd, o'r rhai adwaenir
Oll, yw gwel'd y cyfaill gwir.

Gwelwn rai bo'n dysgwyliad—ni wrthynt
Am nerth a chyd-deimlad,
Am gilio pan mae galwad,—
Heb roi help ond fo'n bur rhad.

Onid gwneud egniadau—i'w hybu
Heb rwymedigaethau
Ddarfu chwi'n hir—hir barhau
Mewn iesin gymwynasau.

Eich priod hyglood yn hir—bu hithau
Heb ei bath drwy'r frodir;
Cafwyd hi—byth fe'i cofir,
O iawn werth—yn chwaer yn wir

Ei gweled godai galon—ymröawl
 Fy mhriod dan loesion,
 Iselder neu brudd-der bron
 Torai â'u gwenau tirion,

YMWELIAD A CHAPEL CIL DWRN, GER LLANGEFNI,

Lle y gweinyddai y diweddar Barch. Christmas Evans, wedi
 ymadawiad y gwr hybarch i'r Deheudir.

A! CHRISTMAS, addas weinyddydd,—dros Iôr,
 Dra siriol areithydd,
 Rho wybod, ddewr ohebydd,*
 I b'le 'r aeth dy barabl rhydd?

Y siriol Ynys eirian—a deithiaist,
 Fel doeth fugail gwiwlan;
 Seiniaist i'r eglwysi glân
 Air Ner, fel udgorn arian.

Ond i'r De, troes e' tros Iôn,—er hyblyg
 Barablu'n iaith Sion;
 Pan fudodd difadodd Fôn
 O'i chywraint em a'i choron.

Wedi'i gael i deg wyllo,—Ddeauwyr,
 Rhowch ddiwael barch iddo;
 A gwnewch yn fawr, fawr tra fo,
 Yn ei henaint o hono.

1827.

*Gohebydd yn y Seren y pryd hwnw.

AR YMDDANGOSIAD DARLUN Y PARCH. D. JONES,
TREFFYNON,

Yn yr Eurgrawn Efengylaidd, am Awst, 1828.

DEWI enwog y Duwinydd,—ar lèn
Ddarluniwyd yn gelfydd;
Tadmaeth llon, rhadlon a rhydd,
Arbenig yw'r gwr beunydd.

Drwy y llun hardd y darllenwn—Dewi,
Ei duedd deallwn;
Yn ei foddau canfyddwn
Ei waith ef yn hawdd wrth hwn.

CROESAWIAD I'R PARCH. S. ROBERTS, LLANBRYN-
MAIR, AR EI DDYFODIAD I FON, MAWRTH, 1829.

YN Môn, yn dirion bob dydd—yr erys
Yr eirian Gymreigydd,
Can croeso, er rhodio'n rhydd,
I Samwel, deg resymydd.

DYMUNIAD AM RWYDDHYNT I FRUTUS O LE'RPWLL
I FAGILLT, 1829.

TRA y nawf uwch twrw Neifion—ar wyneb
Yr ewynawg fawrdon
Wrth Frutus olygus lon,
Na wged y dwfn eigion.

I forio mewn difyrwch—ar ei daith
Drwy'r don heb ddim ecrwch,
Eitha' hwyl a thawelwch,
Efo'r gwynt, fo ar ei gwch.

Aed eilwaith at ei deulu—gwiw hylwydd,
 I gael ei groesawu;
 Gwna'i blant bychain cywrain, cu,
 A'i wraig Anne rywiog wenu.

LLYFR DAFYDD IONAWR.

Os IONAWR* a roes ini—yn Meirion
 Un mawr i'w gofnodi,
 Ei loew ddawn ni welodd hi,
 Na Ionawr na phenwyni.

Newydd oedd, ni wywodd hi,—ni wywai
 E'n ei awydd ati,
 Daliai'i nerth, odlai i ni,
 Yn ei henaint yn heini'.

Dilwgr ydoedd pob dalen—a lwybrodd
 Ei oleubryd awen;
 Esgyn i fysg cân nef wen
 Yr ydoedd ar ei haden.

Ei ddihalog feddyliau—a nofient
 Mewn nefol syniadau;
 Tân ei gerdd, at destun gau,
 Ni roe Ionawr aurenau.

Ei daran ef drwy y nen—sy eglur
 Sigla y ffurfafen;
 Llewych y byllt oll uwch ben,
 Rai ebrwydd, daniai'r wybren.†

* Mis Ionawr.

† Golygir yn yr Englyn hwn a'r rhai canlynol, Cywydd y Daran, a Chywydd y Diluw.

Twrf annwfn* dros y terfynau,—damchwa
 Yn dymchwel mynyddau;
 Rhw hydrwyllt y rhaiadrau,
 A moroedd yn ymryddâu.

I fwrw ei helfen farwol—yn ddylif
 Na ddaliai'r creig oesol,
 I lenwi yn olynol,
 A barn Duw, bob bryn a dol.

Hyn oll a geir yn ei waith,—a chriau
 Tra chroewon anobaith;
 Rhai ddaliwyd gan oer ddylaith,
 Dan lid a nerth y don laith.

Dewi a welodd y dyli'—a'i rym
 Ei rwysg mawr yn gefnlli',
 A'i feirwon yn niferi,
 Oer a llwm ar war y lli'.

Noah welodd yn hwylio—ar y dwr
 Uwchlaw'r don a'i chyffro,
 A Iôr Nef i'w arwain o
 Yn nawdd a tharian iddo.

CYDNABYDDIAETH O YMDRECHION DIFLINO
 O. O. ROBERTS, YSW., BANGOR,

Yn gwrthwynebu gorthrwm, a'r cynghorion meddygol rhad a
 gafodd yr awdwr ac ereill ganddo i'r tlawd a'r rheidus.

FY anerch at ŵr o fonedd—rhoddaf
 Gwir haeddai anrhydedd;

* Y dyfnder mawr.

Rhoi'i wyneb o du rhinwedd
A da ei wlad yw ei wledd.

Am ryddid mae ei wreiddyn,—a thori
Llyffetheiriau'r gelyn;
Mawr ei aidd* am roi i ddyn
Ei wir iawnder er undyn.

I'r golwg dyg ddirgelion—anaele
Rhai na wel eu digon;
Noethai'r blaid, arw haid hon,—
Teulu hudo'r tylodion.

Tòri angen rhai'n min trengu—a wna,
A'r noeth mae'n ddilladu;
Iachâu tlodion, lwydion lu,
Yn rhad, a'u mwyn waredu.

Rhoi ei gyngor rhag ingau,—ag arian
I gyraedd cyffuriau;
Lloni y llesg—llawn wellhau
Afiechyd ei lwyd fochau.

A welwyd ei wrolach—yn erbyn
Arbed twyll a sothach?
A fu un o'i addfwynach
I ddwyn o'i boen dlawd ddyn bach?

Ar wared carcharorion—Haydock Lodge,
Oedd wedi'u cloi'n greulon,
Y rhoe fryd ei ddyngar fron,—
Eu gweled doddai'i galon.

* Zeal.

Ar ei ol llawer aelwyd—wylolus
 Drwy'i lafur siriolwyd;
 Gwir degwch a gwawr, dygwyd
 A rhodd ei law, i rudd lwyd.

Hynotaf feddyg natur—a gwr nod,*
 Nid gwr wnaed ar antur;
 Chwilia, er gwella o gur,
 Hyd i waelod y dolur.

Gwelodd lawer o gilwg—a'i ddant hir,
 Am ddwyn twyll i'r amlwg;
 Myn gael, pe bai pawb mewn gwg,
 O'r gwaelod dwyll i'r golwg.

Un o'i fath nid oes yn fyw,—ni welwyd
 Ei ail ef na'i gyfryw;
 Troediwr pob trawsder ydyw
 Ar hyd ei oes Howard† yw.

I ROBERT WILLIAMS, ORIOFYDD, LLANRWST, AM
 WELLA ORIAWR Y BARDD.

Fy oriawr a'm difyrai—hir enyd
 Drwy anhap a rwystrai;
 Amseroedd nis mesurai—
 Anwir noeth haeru a wnai.

* Man of note.

† John Howard, ydoedd un o ddyngarwyr penaf ei oes; ymwelodd
 â charcharau Ewrop, er gweled pa fath driniaeth a gai
 y carcharorion.

Ai'n ddiles—bu dan ddwylo—ac addysg
 Gwyddel, Sais, a Chymro;
 Ni wnaethant i hon weithio
 Fawr o drefn ond am fyr dro.

Robert yw'r gwr a wybu—yr hyn oedd
 Ar hon yn ei drygu;
 Curai bawb, cyweirio bu,
 Fy oriawr, a'i hadferu.

AM ANRHEG O FFFON GOLLEN I GRIFFITH JONES, YSW.,
 GLYNLLEDR, GER LLANRWST.

AM dda ffon amddiffynol—y dylwn
 Dalu diolch haeddol;
 Ffon ydyw a phen hudol—
 O! mor wych, heb ddim ar ol.

Y ffon, wr rhadlon, a rydd—imi help
 Yn mhob rhiw a mynydd;
 Fe lainiaf gwn aflonydd,
 Gwae i fant pob clepgi fydd.

I ANERCH ROBERT AB GWILYM DDU.

BE chwiliem heb ochelu,—am ein hoes,
 Nis mwynhaem trwy Gymru,
 Un llònach i'n llawenu,
 A'i beraidd dant na'r Bardd Du.

Cywreinddeg wiwdeg Awdur—yn naddu
 Cynganeddion eglur,
 Heb drwy'i gathlau, perlau pur,
 Un iota heb ddawn natur.

I CADBEN RICHARD PRITCHARD, CAERYNARFON, AM
ANRHEG O FFON O RIGA.

HEDDYW, ffon amddiffynol—a gefais
Gan gyfaill crefyddol;
Ei rhoddi, fydd dro haeddol,
Er ei fwyn, i'm mab ar f'ol.

Ar yr allt help mawr a rydd—i gyraedd
I goryn y mynydd;
Milwaith haws dringo moelydd
Y Waen Fawr gyda hon fydd.

I GRIFFITH JONES, YSW., GLYNLLEDR.

Pwy ddewrach graffach na Gruffydd,—i wel'd
Pry'n ei wâl yn llonydd?
Pwy yn ail? Pa anelydd
Sicr o'i fare mwy sicr a fydd?

Llaw ddewr yw—os lladda res—o wgus
Lwynogod sy'n ormes;
Nid yw'n lladd, heb wneud un lles,
O wrhydri a rhodres.

THOMAS CADWALADR, MAB MR. R. CADWALADR,
GARTHEN, RHUABON.

I DOMAS boed hir dymor,—na wywed
Ei wedd wrth ymagor;
Yn ei ddydd, doed dan nawdd Ior,
Yn wron yn ei oror.

TEULU Y GWYNYNDY, LLANFAIR, CAER EINION.

Ty o fil, ty hil haelion—uniondeg
Yw'r Gwynyndy tirion,
Ar iachaf, hyfrydaf fron,
Lle gwelir didwyll galon.

JAMES KERFOOT JONES, MAB MR. R. JONES, GYNT
O'R BEE, ABERGELE.

RHAN o'i oes gadd ddechreu yn iach,—a dod
Bob dydd y mae'n gryfach;
Dyddiau dengwaith dedwyddach
Eto boed i Kerfoot bach.

TEULU YR ELEPHANT AND CASTLE, DREFNEWYDD;

Wyresau y diweddar Fardd enwog Mr. John Thomas,
Pentre'r Foelas.

Y FWYN Efa ar fin afon—erys,
A'i chwiorydd mwynlon;
Ni fu tair fu'n fwy tirion,
O hil well, drwy'r ardal hon.

MRS. HUGHES, PRIOD Y PARCH. R. HUGHES,
TRALLWM, YN CHWAREU PIANO.

I'w wel'd ni fydd anhwylder—dan seiniau,
Dan swyn y fath fwynder;
Hana 'i dawn a'i chên dyner,
Iachus hi, o wlad uwch ser.

MERCH MR. E. STAFFORD JONES, LERPWLL.

YN Alice fwyn na weler—un achos
 O nych na dim gwywder;
 Einioes hir iddi rodder
 O dan nawdd ac aden Ner.

I MR. A MRS. RICHARDS, O HASTING ST., LLUNDAIN.

YN hollol o hyn allan,—i law Iôn
 Cyflwynwch eich baban;
 Cofiwch drwy'r boen a'r cyfan,
 Am roi help i Mary Ann.

AR ENEDIGAETH MERCH Y PARCH J. ROBERTS,
 LLANBRYNMAIR.

Ni anfonwyd un fwynach—o law Duw,
 Na blodeuyn tlysach;
 Sarah gaffo oes hirach
 Yn y byd, na'i brawd John bach.

I MR. OWEN JONES, GORWYR Y DIWEDDAR MR. J.
 THOMAS, O BENTRE'R FOELAS, 1847.

HANAI o odiaeth iawn awdur—awen dêg
 Ei hen daid oedd loewbur;
 Dawn bardd, disgyned yn bur,
 I hwn eto'n ddawn'n natur.

I M R. H U G H T H O M A S,

Yr hwn sydd, yn y swydd, o arwain Pregethwyr y Methodistiaid
o Lanrwst i Bethel, er ys blyneddau.

ARWEINYDD pererinion—ydyw Hugh

Hyd ei oes yn ffyddlon;
Cofir yr hen frawd cyfion,
Drwy y sir, wedi'r oes hon.

I M R. R. D. MORGAN, GRACE CHURCH STREET,
LLUNDAIN, AR ENEDIGAETH EI FAB.

YN mhob modd ac yn mhob man—rhoi addysg

Sy well rhodd nag arian;
Dyna rowch i Dewi'n rhan;
A Duw Iôr fyddo'i darian.

R. T. GRIFFITHS, MAB G. GRIFFITHS, YSW., LLUNDAIN.

Iechyd, a'r bri goruchaf—doed iddo,
A'r dedwyddwch penaf;
A'i rieni tirionaf,
Dyno'u hil, dan aden Naf.

ENGLYN A ANFONWYD MEWN LLYTHYR AT MR. JOHN
FOULKES, GRAIG, DINBYCH.

CEWCH ar fyr lythyr helaethach—na hwn,

A hanes amgenach;
Dyna bwt i Ioan bach
I aros cael un hirach.

CROESAWIAD ARGLWYDD DINORBEN, 1844.

CAN croeso i rodio 'i fro wen,—a hirglod

I Arglwydd Dinorben;
Gwr o les, gar roi 'lusen,
I'w oes o bawb, ef sy ben.

ENGLYNION,
YN CYNWYS
ANERCHIADAU PRIODASOL.

PRIODAS Y PARCH. THOMAS PIERCE, LERPWLL,
MAI 4, 1827.

ORDEINIAD Crëwr dynion,—pur ydyw
Priodas gyfreithlon;
Cyraedd godidog goron,
Hynod yw cael myn'd i hon.

Chwithau ystyriwch, weithion,—yr amod
A'r rhwymau pwysfawrion,
Eich oesiad, yn dra chyson,
Fo wrth Air a Chyfraith Iôn.

Heb Och gwnewch gyd-ddwyn beichiau—o galon
A'ch gilydd drwy'ch dyddiau;
Na wnewch, ffyddlon, ddoethion ddau,
Ymadael â'ch amodau.

Y PARCH. W. AMBROSE, PORTH MADOG, GOR. 24, 1839.

DRWY einioes heb arw driniaeth,—neu groes,
Na grym profedigaeth,
Gwel, anwyl law Rhagluniaeth,
Drwy nawdd Ior i d'arwain ddaeth.

Tarian hon eto'r un wedd,—fo ichwi,
 Dan faich byd a'i lygredd ;
 Byw'n anwyl, heb anhunedd,
 Eich dau y boch hyd y bedd.

Y PARCH. R. PARRY, CONWY.

FRAWD unol, frwd awenydd,
 Doniau ffel, brawd yn y ffydd,
 Da genyf dy deg anerch,
 Yn gynnes o eigion serch,
 Gyda'th gymen asen wyl,
 Bur, dyner Briod anwyl ;
 Dau ydych sy'n bâr dedwydd,
 Iôr a'i law a baro lwydd ;
 Arweinier chwi hir enyd,
 Drwy fawr barch, drwy fôr y byd.

Y PARCH. R. WILLIAMS, (HWFA MON.)

HWFA enwog a fynai—i'w fynwes
 Y fenyw a hoffai ;
 Pa ellyll, pwy a allai
 Fwrw ei fod ef ar fai ?

Os dewisiad o'i asen—a wnai ef,
 Pwy all wneud dim amgen ?
 Fe wnaed a wnaed yn Eden
 Gan ddyn pur gan Adda'n pen.

Yn ei aelwyd na weler—hyd eiloes
 Yn dal ond mawr hoffder ;
 Iesu fo drwy ei oes fer
 Yn taenu'i edyn tyner.

Y PARCH. EVAN EVANS, ABERMAW.

IOR a ddichon roddi iechyd,—a rhoi
Hir oes iddynt hefyd ;
Ei wyneb e'n eu bywyd
Gwenu bo—a gwyn eu byd.

Y PARCH. T. EDWARDS, LLANDDEINIOLEN.

DAU un enaid, dau un anian,—fyddont,
Un feddwl ac amcan ;
Iddynt hwy, mwy, yn mhob man,
Duw fo'n dŵr, Duw fo'n darian.

I MR. J. WILLIAMS, CAERYNARFON, (IOAN MAI).

DAU unwyd o gydanian,—dau erioed
O wir werth yn mhobman ;
Dau a geir o du y gân
Ydyw hi a'r brawd Ioan.

I IOAN MACHNO.

DAU a welir mewn dolen—nad yw'n boen,
Dan eu baich yn llawen ;
Hir oes i'w hawddgar asen
Aros y bo'n ras i'w ben.

Er iddo ef gyraeddyd—Amerig
Dros y môr mawr enbyd ;
Ni welodd yn anwylyd,
Naddo ferch, mewn Newydd fyd.

Drwy gariad, dau yw'r gorau—dau yn un,
 Saif dau'n well dan groesau ;
 Hyd yr oes hyfryd yw'r iau
 Mewn ing—mae'n dda'n min angau.

I THOMAS WILLIAMS, CAERYNARFON.

I DOMAS fwyn ei dymer,—a Catherine,
 Cythrudd na fo'n amser ;
 Yn hyd y fain ede' fer,
 I'w wel'd y bo'u hanwylder.

I'R PARCH. J. EVANS, LLANSANTFFRAID,
 (I. D. FFRAID.)


IOAN a'i Anne a unwyd,—i gwlwm
 Dwy galon a ddygwyd ;
 Can fawl, awenyddawl nwyd,
 I brydydd a briodwyd.

TALIESIN O EIFION.

TALIESIN—beth a dal tlysau—o aur
 Wrth un o'r prif emau ?
 Un fo ddoeth, yn ufuddhau
 I'w gwr, yw'r prif dlws gorau.

Na sonier ond am un syniad,—un serch
 Fo'n sail cydymdeimlad ;
 Oes hir, heb unrhyw sarhad,
 Ichwi bellach, heb balliad.

ENGLYNION GALARNADOL.



Y PARCH. SAMUEL EVANS, SOAR, MERTHYR TYDFIL.

Yr hwn a fu farw Mehefin 27 1833, yn 56 mlwydd oed.

GWR enwog o arweinydd,—da i'r Saint,
Dros ei oes, oedd beunydd ;
Un doniawl fel Duwinydd,
Awdwr ffel—pleidiwr y ffydd.

Ond dringodd uwchlaw tir angen,—i fewn
I fynwes Nef addien ;
Yn y llu, cân yn llawen,
Am ras pur mawr Iesu'u pen.

Colled ar golled a gawn—o symud
Samuel Feddyg rhadlawn ;
Goralar a saeth greulawn,
Cledd dwys, ydoedd claddu dawn.

O'i ôl y mae ei anwyliaid—gwedi
Eu gado'n ymddifaid ;
Ond er hyn i drueiniaid,
Ei nerth a rydd Iôn wrth raid.



Y PARCH. D. STEPHEN, BRYN MAWR.

A yw Dewi'r gwr duwiol—yn gorwedd
Mewn gweryd yn farwol ?
O'i dy unig, y doniol
Athraw ni thry yn ei ol.

Yr anedd lle bu tirionwch—wywa
 Dan wewyr a thristwch ;
 Dy olau guddia dulwch ;
 Athraw y lle aeth i'r llwch.

Mor felus i amryw floedd—seiniai
 Wrth son am y Nefoedd ;
 Yn y dwr, drwy'r dyfnderoedd,
 Tynu ar hynt yno'r oedd.

Y PARCH. D. ROBERTS, DINBYCH.

GWR Duw'n ei oes a'i gred yn iach—ydoedd,
 Gweinidog disothach ;
 Ni chloes y bedd, achles bach,
 Ar wyneb ei dirionach.

I EUAN GWYNEDD.

PRUDD-DER heb sŵn pereidd-dant—geir o hyd,
 Dagrau hallt a lifant—
 Drwy wân iechyd, drwy nychiant,—i'r dwfn fedd
 Ai Ieuan Gwynedd yn ei ogoniant.

I Ieuan rhoe'r Awen rydd—ei llawryf,
 Llwy'r wisgai'i arleisydd ;
 Ei fawr ddawn, fore ei ddydd,
 Er ei glod, synai'r gwledydd.

Ei wlad, ei genedl, a'i iaith,—a garai
 Y gwron yn berffaith ;
 Gwell co' am dano a'i daith—fydd gweithiau
 Ei Awen a'i eiriau nâ mynorwaith.

Fe wir gloes y “Llyfrau gleision,”—â'i law
 Dilëodd holl olion
 Y brathiad,—y brathiad bron
 I grefydd a'n gwyryfon.

Un ewyllysgar mewn llesgedd—oedd ef
 I ddâl o du rhinwedd;
 Arferai, mewn gwir fawredd,
 Ei law a'i bin, ar ael bedd.

Nid mewn niwl, ond manylwaith—rhagorai'r
 Gwron yn y ddwyiaith;
 Drwy oleuni, darlunwaith,
 Natur oedd yn fyw trwy'i waith.

Pwy esyd allan y pwysi,—rhosyn,
 Yn ngwres haul a'r lili;
 Gwlith mân, dwfr syfrdan a'i sî—fel Ieuan?
 Anian ei hunan rydd Ieuan ini.

Y creigydd gwyllt yn crogi—ar wâr cwm,
 Rhaiadrau'r certh lethri,
 Yr Aran a'r Eryri,
 A sî'u neint ddengys i ni.

Y daran yn ymdòri,—y gwlaw mawr,
 Goleu mellt yn fforchi,
 Dialgar frâd y weilgi,
 Yn ei lawn nerth welwn ni.

Dagrau ar ruddiau gwir weddwon—a chwyn
 Ochenaid y caethion,
 A'r gweiniaid a'u mawr gwynion—mewn lludded,
 Fu, wrth eu gweled, yn frath i'w galon.

Ei Dduw, ei wlad, a'i ddiwedd—enillai
 Yn hollol ei duedd ;
 A chan boen ar erchwyn bedd,
 Yn wastad y bu'n eistedd.

Nychdod, cyn dyfod i'w dw',—a ddaliodd
 Y meddyliwr glöew,
 Er hyn ei fri a'i enw—fydd ar led,
 Hyd ei ymwarded o dŷ y meirw.

MARWOLAETH Y PARCH. D. RHYS STEPHEN,

Ac ereill o Weinidogion y cysegr, yn 1852.

RHIFWYD gan angau rhyfedd—un arall,
 Hwn yrwyd i'r dyfnfedd ;
 Gwaglw m yw Dê a Gogledd,
 Athraw o barch aeth i'r bedd.

Dewi enwog adwaenid—fel gwron,
 Fel gwir garwr rhyddid ;
 Dynoethi tori pob tid,
 A garai—fe'i mawr gerid.

Ieithwr a'i ragoriaethau—oedd Dafydd,
 Difwlch ei wybodau ;
 Dyn llawn oedd, iawn ei ddoniau,
 Mwy 'i *Wir* ddysg na nemawr ddau.

Duwinydd na adwaenir—un o'i uwch
 Na'i well ni ddangosir ;
 Ei fawredd a glodforir—
 Sa'i ar ei ol amser hir.

Ambell un mawr, mawr am oes—y ceir ef,
 Ansicr yw o eiloes ;
 Derfydd ei ddawn—dawn od oes—
 A'i enw gyda'i einioes.

Ond Dewi fu'n fri i'r fawr iaith,—fu'n dŵr,
 Fu'n darian mor berffaith,
 Bydd e fel yn byw ddwywaith—
 Byw'n ei oes, a byw'n ei waith.

Ei ran o boenau'r einioes—a gafodd,
 A gofid a'i dromloes ;
 Ond galar na dig waewloes
 Mwy ni ddaw—mewn newydd oes.

O daer angau fel y dringodd—at wŷr,
 I'w tori fe frysiodd ;
 Pedwar* o werth o'n pau drodd—heblaw fo
 I'w syn oer ogo'—Sion a rwygodd !

Aeth Daniel dawel a diwyd—i'r bedd,
 Gwr o barch drwy'i fywyd ;
 A Morgan—dyma ergyd—gwr ffyddlon,
 O dan ei goron roed yn y gweryd !

Enwog Ieuan a fu'n gwywo—yn hir,
 Tra'n aros ei amdo ;
 A Thegid aeth i'w ogo',
 Er ei ddysg a'i fawredd o.

Blwyddyn na bu hil Adda—yn gwel'd
 Ei gwaeth yw hon yma :

* Y Parohn. Daniel Jones, Llanllechid : Morgan Howell : Evan
 Jones, (Ieuan Gwynedd) : J. Jones, (Tegid), M. A.

Yn boenus pawb a'i henwa—y flwyddyn
Y cwmpai'r gelyn bencampwyr Gwalia.

Hunwch, fy mrodyr anwyl,—yn araf,
Gwna ereill eich gorchwyl,—
E rwygir bedd ryw egwyl,
Cewch godi i gyd, cewch gadw gwyl.

RICHARD JONES, LLWYNGWRIL.

Byw ar daith y bu'r doethwr—heb Efa,
Heb ofal na dwndwr;
Yn mhob lle, 'i gartre' wnai'r gŵr,
Yn ngalwad Efengylwr.

Onid aeth hwn i deithiau,—tra unig,
Trwy Wynedd a Deau?
Ni welid e'n ei hwyliu,
Yn hen ddyn, yn un o ddau.

Ei gyfaill, ni raid gofyn,—oedd ei ffon,
Cerddai ffwrdd fel llencyn;
Anhawdd oedd cael yr hen ddyn
I ofalu am filyn.

Mae dwthwn ei ymdeithiad—wedi dod
Hyd at ei derfyniad;
Pwy ga ei ffon?—pa goffad
Sy ar ol yr Israeliad?

Dyn Duw a'r wlad yn dewis—ei wel'd oedd,
Ar ol ei daith ddeufis;
Er tramwy llawer trimis,
Ni wnai hyn ei enw'n is.

Nid elai i ardaloedd—i dywallt
 Duon chwedlau filoedd ;
 Pan ddeuai i dai, nid oedd
 Athrodwr.—Athraw ydoedd.

Mae ereill mewn ymyraeth—yn mhob rhwyg
 Mae eu prif ragoriaeth ;
 Nid elai ef drwy'r dalaeth
 I droi a gwneud rhwyg yn waeth.

Y PARCH. MOSES PARRY, DINBYCH.

A MOSES! mae ei eisiau,—yn Ngwynedd,
 Yn nghanol y llwythau ;
 Rhwydd iawn ei beraidd ddoniau
 Bu yn ei oes heb wanhau.

Un melus oedd—am leshau—yr ydoedd
 Holl rediad ei ddoniau ;
 Ffol arferion gweigion, gau
 A fwriodd heibio'n forau.

Rhoi ei hun i'w Ior a'i waith—yn ufudd
 Wnai ef ddechreu'i ymdaith ;
 Bu'n wyliwr byw iawn eilwaith,
 Ar y mur am dymor maith.

I'r ieuanc yr athrawodd—a'r henwr
 Mewn rhinwedd a ddysgodd ;
 O air Ior hael, oreu rhodd,
 I'r enaid iawn gyfranodd.

Meithrinwr mwy athronol,—o'i gryfach,
 Ar grefydd brofiadol,
 Ni adawai'r dyn duwiol,
 Yma i ni'n un man o'i ol.

CAWRDAF.

Ni fu nemawr fawr o'i fwy—i'w weled
 Ar ol dydd Goronwy;
 Ow! mae awdwr y Meudwy
 Wedi myn'd—ni cha'i wel'd mwy.

Un o'i fath marw ni fydd—yn ei waith
 Cawn ei wel'd o'r newydd;
 Deil ei waith tra bo'r iaith rydd
 A Gwalia wrth ei gilydd.

PRIOD Y PARCH. W. ROBERTS, BLAENAU GWENT.

Gwilym dy doi â galar—a gefaist,—
 Hir gofi'th wraig hawddgar;
 O'i deol i bridd daiar,
 Ing i'w hil fydd hyn fy nghâr.

Ow! ei myn'd oedd myn'd a mwynder,—a myn'd
 A merch fawr ei gwylder;
 Wylo fydd—nid egwyl fer,
 Am dani, fel mam dyner.

Ni welwn, er hir wylo,—ara' wen
 Ar ei hwyneb eto;
 Gair ni ddyd, o gryd y gro,
 Na chyngor o lwch ango'.

Ydoedd anwahanadwy,—rhoes i ti
 Ar ystorm gynorthwy;
 Trwm, trwm fydd meddwl tramwy
 Ar ei hol yn llawer hwy.

Un dawel mewn blin dywydd—ydoedd hi,
 O duedd ddoeth beunydd;
 Gwel heddyw, fel goleuddydd,
 Wlad y daith o wlad y dydd.

Boddlona, bydd lawenach,—o herwydd
 Dy aros wna mwyach,
 I gyraedd gwlad ragorach,
 Lle mae'r hin a'r lle mor iach.

MISS ELIZA ANWYL, DOLGELLAU, GORPH. 6, 1847.

HARIET ga'dd ei hadferu :—Eliza,
 Lwys wrth geisio'i helpu
 Gollodd yn llwyr bob gallu
 Yn llaid oer y cefnlli' du.

Dig awr gymysgedig yw,—ni fu ing
 Cyfyngach na'i gyfryw;
 Yn more'i hoed marw ydyw,—
 I'r nef aeth—a'i chwaer yn fyw.

UNIG FERCH R. AB GWILYM DDU,

Tach. 3, 1834, yn y ddwyfed flwydd ar bymtheg o'i hoed.

EIN Iôr biau roi bywyd,—a'ch daliodd
 Dan eich dolur aethlyd;

Er y boen o fyn'd o'r byd,
Hygaraf ferch i'r gweryd.

Rhyw hynodawl seren ydoedd,—ei gwawr
Ragorai ar filoedd :
Dwyrain drwy'r äangderoedd,
I awyr uwch nag yr oedd.

Cofio ei holl gyfeillach,—a'i bywyd,
Na bu un o'i decach,
A ddyrydd, yn ddieiriach,
Golyn noeth, i galon iach.

Drwy boen, hi a adawai'r byd—marwol,
Yn more ieuenctyd ;
O'i ddu ing, ca'dd ddiengyd,
Tan y gwys, o'r tonau i gyd.

Sain ei thôn, swm ei thanau,*—bur eirioes,
Beroriaeth aml leisiau ;
Yr holl gerdd a'r allai'i gwau,
Ostyngwyd† gan drwst angau.

MAB Y PARCH. ELLIS HUGHES, PEN Y MAIN.

Yr hwn a fu farw yn 5 mlwydd oed.

Ni ymholaf am Ellis—William Hughes,
P'le mae er's dros ddengmis?†
Ni ddeuai, pe cai'i ddewis,
O wlad yr haul, i dir is.

* Yr oedd Miss Williams, yn beroryddes ragorol. † Preg. xxii. 4.

‡ Yr oedd yr awdwr yn dygwydd bod yn Mhen y Main, tua
deng mis ar ol ei farwolaeth.

MRS. ROBERTS, LLANBRYNMAIR.

MAM—a thyner fam a fu—i ddau ŵr
 Sydd o werth i Gymru :—
 Ca'dd daith drwy'r glyn, dyffryn du ;—
 Aeth i weled ei theulu.

MR. G. WILLIAMS, CAERYNARFON.

URDD ei anian farddonol,—synhwyrus,
 Sy'n awr yn fwy nefol ;
 Ni adawai, un duwiol,
 Yr ochr hyn ond parch ar ol.

MRS, HUGHES, TREFRIW.

Yr hon a ymadawodd â'r fuchedd hon Ebrill, 1840; yn 49 oed.

MAWR wylo herwydd marwolaeth,—hon sydd,
 Loes yw i'r gym'dogaeth ;
 I'r bedd oer heibio ydd aeth,
 I orwedd er ein hiraeth.

Troediai hi, hyd hwyr ei dydd,—o ochyr
 Achos y Gwaredydd ;
 Draw ffoes, ac awdwr ei ffydd
 Fu 'i rhan, a'i phrif arweinydd.

O hyd, ei bywyd, tra bu,—un gyfiawn,
 Gofir yn y teulu ;
 Wrth y gair, athrawiaeth gu,
 Yr oedd yn ymarweddu.

Rhoi'i hachos yn llaw'r Goruchaf—wnaeth hi,
 Cyn ei thywydd garwaf ;
 A chai nerth breichiau ei Naf
 I'w dal y munud olaf.

MARWOLAETH JANB, MERCH Y PARCH. T. PIERCE,
LERPWLL.

WEDI y boen, yr enaid bach,—duwiol,
Adawai'r corff afiach;
A ffoes i wlad hoffusach,
O'n daiar ni, adre'n iach.

Y DIWEDDAR JOSEPH JONES, YSW., CAERYNARFON.

EI genedl garai yn gynnes,—ei iaith
Bleidiai ef, heb rodres;
Bu'n llenwr, wladwr o les,—ac wrth raid,
Rhoes ef i weiniaid ddrws ei fynwes.

Ei fath fel hynafieithydd—pwy welir?
Pa ail fel craigddysgydd?*

Enwai amrywiol haenydd
Y pridd rhwym fel y pridd rhydd.

A thaenawl wythïenau—y ddyrys
Ddaiaren a'i mwnau
Ddeallodd, a phriddellau
Aur hon a wnai eglurhau.

* Geologist.

BEDDERGRYFF.

Y DIWEDDAR BARCH. JOHN ELIAS.

A'i law, a'i ddull rhyw luoedd—a swynai,
Nes enill tyrfaoedd ;
Tra o'i flaen, tarawai'i floedd
Trwy eneidiau, taran ydoedd.

Gyrai y mellt â grym mawr—i wibio,
Gau obaith wnai'n llwydwawr ;
Twyll darfai, cestyll dirfawr,
Arwr llym, fwriai i'r llawr.

Am ei olwg, a'i ymweliad—â Sir,
Rhedai'r son drwy deirgwlad ;
Yn ei enw eneiniaid
Swynol oedd—synai y wlad.

Yntau a'i enaid yn taniaw—welid,
A'i olwg mewn cyffraw,
Troai fe'n brudd trwy ofn a braw,
Annuwionion i wylaw.

Dygai werth gwaed bendigaid—ei Brynwr,
Ger bron euog enaid ;
Ato i'w lys, o'r tew laid,
Tan nawdd Ion tynodd weiniaid.

Mor dawel y mae'r diwedd—i'r golwg;
 Mor gul ydyw'r anedd;
 Rhedlif y mawr hyawdledd
 Synai y byd sy'n y bedd.

Y PARCH. GRIFFITH HUGHES, GROESWEN, MORGANWG,

TYNERWCH—tân ei eiriau,—drwy'i einioes,
 Wrth drin athrawiaethau,
 A gyraeddodd bob graddau,
 Yn ei nerth, heb brin wanhau.

Yr hyawdledd fu'n rhedli'—am hiroes,
 Fu'n gwneud mawr ddaioni,
 Heibio'r aeth, ni cheiff ddim bri,
 Mewn tywyll fedd, mae'n tewi.

Y PARCH. J. BREESE, CAERFYRDDIN.

ENWOG weinidog Ion ydoedd,—at Grist
 A'i groes dygai filoedd;
 Ei lawn ef ei destun oedd,
 A'r lle i'w fawr alluoedd.

GWEINIDOG IEUANC.

YN ei einioes lan, union,—bu'n ganwyll,
 Bu'n gweini'n dra ffyddlon;
 Yn fore aeth at feirwon,
 Aeth a'i wddf yn ngwaith ei Ion.

MR. ROBERT OWEN, LLANRWST, PREGETHWR GYDA'R
TREFNYDDION.

GWR i Dduw, gwir weddiwr,—diameu,
Roed yma 'n y pentwr;
Llafurus fel llefarwr,
Fu yn ei oes, gyfiawn wr.

MR. JOHN ROBERTS, DINBYCH, Y CANTOR.

HYD lan y bedd, dilynodd—yr Iesu,
A'i ras a ganmolodd;
Yna, 'i enaid, pan hunodd,
Aeth i fyd sydd wrth ei fodd.

PRIOD YR AWDWR,

Yr hon a fu farw Chwefror 28, 1855, yn 59 mlwydd oed.

UN oedd fu'n wraig rinweddol,—yn goron
I'w gwr, yn fendithiol;
Mae ei henw dymunol
Yn barchus, serchus o'i hol.

EI MAB, WALTER MORGAN GRIFFITH,

Yr hwn a fu farw Mai 8, 1841, yn 19 mlwydd oed.

Ei einioes yn ei Wanwyn—a wywai
Yr awel fel rhosyn;
Yma mae 'i lais a'i emyn
Tan glo yn tewi 'n y glyn.

MRS. JONES, GWEDDŴ Y DIWEDDAR BARCH. T.
JONES, DINBYCH.

RHOES i Iôn hir wasanaeth,—a'i law ef
A'i cynhaliai 'n helaeth;
Mae'n awr—a ni mewn hiraeth,
Yn mro Nef—nid marw wnaeth.

MRS. JONES, ABERCAIN, LLANYSTUMDWY.

WELE'r bedd anedd unig—y llecha
Ei llwch cysegredig;
Ei chlod sydd ucheledig,
Na ro droed ar le'i hir drig.

ELINOR, GWRAIG MR. RICHARD THOMAS, BETHESDA,
GER BANGOR.

Os i dŷ'r bedd, dros dro bach,—y gwthiwyd
Yn gaeth, y corff afiach,
Yr enaid, i gyfrinach
Dirion Ior, aeth adre'n iach.

Ei hoer lwch, ar ol hir lechu,—eilwaith,
Welir yn dadebru;
Daw i'r lan, gyda rhyw lu,
O urddasol braidd Iesu.

JANE ROWLANDS, CAERYNARFON.

Ei chŵys yn hardd a chyson—a dynai
O dan anfanteision;
Mewn hedd, o'r anedd oer hon,
Daw'n chwaer o dan ei choron.

ANNE WILLIAMS, AELOD YN Y TABERNACL,
LLANRWST.

ANNE a wyddai'r man iddi—roi ei phwys
Drwy ffydd mewn caledi;
Ddiwedd oes, arwyddodd hi,
Fod Ion a'i fraich gref dani.

GWRAIG DDUWIOL.

ELIN aeth i le na wel,—na galar,
Na gelyn, na rhyfel;
Angau neu ddu ing ni ddel,
Ar duedd y fro dawel.

RHIENI MR. JONES, GYNT O'R BEE, ABERGELE.

DAU oeddynt a'u nodweddiad—yn deilwng,
Yn dal yn dda'n wastad;
Eu hanrhydedd a'u rhodiad,
Uchel oedd, yn mharch y wlad.

MERCH IEUANC.

YN gynar yn ei gwanwyn—y gwywai
Ei gwawr fel blodeuyn;
O'r bedd oer rhybudd yw hyn,
Daw 'th yrfa di i'w therfyn.

MERCH MR. E. GRIFFITH, ANGLESEY HOUSE,
CAERGYBI.

UN hardd oedd, ond hir ddyddiau—ni welodd,
I'w nol y daeth angau;
Mewn hedd aeth, er cael mwynhau,
Anfarwol fyd yn forau.



PLANT MR. DAFYDD THOMAS, BETHESDA.

MAE Eliza uwch trwm loesion—angau,
Dringodd fynydd Sion;
A Huw ei brawd ger ei bron,
Yn ngolwg yr angylion.

A thrwy ing a thir angau—aeth Ema
Yn ei thymor hithau,
Yno i wir lawenhau,
Hyd lenyrch aur delynuau.



CHWE' PHLENTYN, HUGH ROWLANDS, CAERYNARFON.

Sef tri Mab a thair Merch a fuont feirw o bedwar mis i ddeng
mlwydd oed.

O'r un rhieni yr hanym,—yn dri mab,
Ac yn dair merch oeddym,
Yn more oes, yma'r ym,
O amryw oed—meirw ydym.

MERCH MR. JOSEPH PARRY.

7, Elizabeth Street, Liverpool, yr hon a fu farw Chwefror 6,
1851, yn 6 mlwydd oed.

RHY anhawdd i'w rhieni—yma oedd,
Meddwl am fod hebddi,
Nes o'i bodd ehedodd hi,
O'r glyn i dir goleuni.

 DWY EFFEILLES.

Bu un farw yn flwydd, a'r llall yn flwydd a diwrnod oed, plant
Mr. W. Parry, Glofasnachwr, Caerynarfon.

DDWY chwaer deg, cyd-ddechreu y daith—i'r byd,
Drwy boen a gaent unwaith;
Caent wedi, wedi byr waith,
O fewn dim gyd-fyn'd ymaith.

Y wisg o gnawd ddiosgynt,—a dringo
Gyda'r engyl wnelynt;
Bodau ail cerubiaid ynt,
Ai nid angylion ydynt?

 TRI WILLIAM.

TRI blodeuyn gwyr teg wedd—o un llin
Sy'n llonydd gydorwedd;
Tri William bach trwy waeledd
Iawn eu buch* sy mewn un bedd.

* Bywyd.

PLENTYN DWY FLWYDD OED, A FODDODD YN AFON
SAINT, CAERYNARFON.

HWN yn ddwyflwydd hunodd,—i fynwes oer
Afon Saint y syrthiodd;
Trwy angau dyfrllyd trengodd—
Draw aeth i fyd wrth ei fodd.

MABAN.

YN dirf fe ddaeth i'w derfyn—y mwynder,
Cyn myn'd arno'n Wanwyn;
Ow! deol tlws flodeuyn
I bridd.—Beth a barai hyn?

MR. GRIFFITH, DINBYCH, TAD CLWYDFARDD.

AI yn y bedd hwn y byddi—yn unig?
Mae'n anhawdd dy golli;
Ar ei lan oer wylwn ni
Ar dy ol ffrydiau heli.

Y llaw enwog fu'n llunio—cywreinwaith,
Ceir hon wedi gwywo:
Dengys ei fedd, anedd o,
Athrylith wedi ei threulio.

DWY EFELL R. ROBERTS YSW., NORTH AND SOUTH
WALES BANK, DREFNEWYDD.

AR UNWAITH dros fyr Wanwyn—ymagor
Wnaent megis blodeuyn;
A'u rhoi i lawr dan glawr y glyn
A wnaed yr un munudyn.

AR FEDD MAB MR. ELIAS ROBERTS, COEDMOR.

Y DIWAEL hardd flodeuyn—fu luniaidd,
 Ddiflanai fel gwyfyn;
 Einioes aeth heibio yn syn;
 Ow! rhoddi'i fath i'r priddyn.

TAD Y PARCH. T. ROBERTS, NEWMARKET.

Ei benaf hoffder beunydd—oedd enaid
 Barddoniaeth a chrefydd;
 I rai bach, dan y gro, bydd,
 Chwith rhoi'r fath wych athrawydd.

GWR A GWRAIG.

GWR a gwraig dan gareg roed—i huno,
 Ar hon bydd ysgafndroed;
 Ni hunodd gwraig mewn henoed,
 Na phur wr, mwy hoff erioed.

ELIZA BACH.

Ei gruddiau a'u gwawr addien—a wywodc
 Awel codwm Eden;
 Deuai 'n ebrwydd, dan wybren,
 Oes bach Eliza i ben.

AR FEDD GWR IEUANC YN LLANBEBLIG.

AI mewn âr yma yn wyw—y gorwedd
 Blaguryn o'i gyfryw?
 Ar lan ei fedd, hyd heddyw,
 Ameu yr ym a'i marw yw.

GWRAIG A FU FARW O'R FRECH WEN, AR
ENEDIGAETH DYN BYCHAN.

A! fy maban gwan, ddydd geni,—diao,
Adewais i oesi,
Y *Frech wen* fawr ei chyni,
A'i naws hell, ddyg f'einioes i.

DYN IEUANC.

AMNAID Iôn, mewn munud awr,—agora
Gaerydd y daiarlawr;
Daw eilwaith o lwch dulawr,
O farw 'n fyw, i'r farn fawr.

MAM A'I DAU BLENTYN.

Pwy a roddwyd yn y priddyn—yma,
Ai mam a'i dau blentyn?
Er huno, bob yn ronyn,
Tyr y wawr ar y tri hyn.

GWRAIG RINWEDDOL.

YMA yn unig, mewn anedd—dywyll,
Yn dawel y gorwedd,
Un a roed mewn anrhydedd,
A gwir barch, dan gaer y bedd.

GENETH.

YN fore 'i rhan anfarwol—adawodd
Ei diwyg daiarol;
Aeth i'r Nef, ond ni thry'n ol
Hyd fore'r dydd adferol.

GWR A GWRAIG.

GWR enwog mewn gwir rinwedd—mawr ei werth
 Yma roed mewn priddfedd.
 A'i briod fwyn, addfwyn wedd,—
 Mam garem, yma gorwedd.

ARALL.

Ei ber oes yn llwybrau Iesu—roes hi,
 Ar sail ei fawr allu,
 A'r Ion yn tirion wenu,—
 Hyd ael y bedd ei dal bu.

ARALL.

I FAWREDD, eto, 'n forau,—er y cwsg
 Yn nhir cysgod angau,
 O'i argelion, i'r golau,
 Daw ei chorff wedi 'i iachau.

ARALL.

Duw oedd ei grym, cododd y groes—o'r byd
 A'i fawr boen aeth eisoes;
 Un hynod fu'n ei heinioes,
 Y mawr waith wna'i'n more'i hoes.

CRISTION DYFAL.

YN dawel iawn a diwyd—heb ei ail
 Bu ef yn ei fywyd;
 Mawr ofal, gym'rai hefyd,
 A llwyr boen er gwella'r byd.

CANIADAU RHYDDION,

AR AMRYW DESTUNAU.

Y GWANWYN.

NID oes dim ia ar war y llyn,
Na rhew ar fryn na mynydd;
Blodeuog yw briallu'r fron,
A gwyrddion ydyw'r coedydd;
Datodwyd clo y nant a'r ia;
Fe dreigla yr afonydd.

Y ddaiar sydd yn wych ei gwedd,
A'i hagwedd yn llawn bywyd;
Ei chwysau'n barod sydd i waith
Ar ol hin laith ac anwyd;
Fe ddaeth y Gwanwyn ar ei dro
I'w deffro a'i dadedfryd.

Er gwywo'i gwedd, a cholli'i phryd,
A dwyn ei chlyd fantelloedd,
Wrth fod mewn llafur trwm dros ddyn
Bob blwyddyn am ganrifoedd;
Mewn gwawr mor newydd ag erioed
Cadd er ei hoed ail wisgoedd.

Fe'i gwelir, yn y Gwanwyn gwyrdd,
A myrdd o'i hepil meirwon,
Yn dod i'r lan, a'u lliw yn iach,
A'u gruddiau bach yn gochion;

A rhai yn wyn, rhai'n wyrdd, rhai'n frith,
Yn dewfrith hyd ei dwyfron.

Ni fydd na maes na dol na bryn
Y Gwanwyn heb friallu,
A'r rhei'ny, ar bob dyn a'u gwel,
Os heibio'r el, yn gwenu;
A'r adar mân, ar frigau'r pren,
Yn llon uwch ben yn canu.

Y gw lith o berl fu'n llechu'r nos
Yn mynwes y rhosynau,
Fydd yn ffarwelio'n llwyr yn awr,
Ar doriad gwawr y borau,
Gan fyn'd i'w taith, i'r nef uwch ben,
Ar amnaid haulwen olau.

Y mae holl natur dan ei hurdd,
Mae'n wyrdd bob bryn a chlogwyn;
Mor brydferth ydyw'r ddol a'r fron,
Mae meillion ar y dyffryn;
Ac O, mor hardd a fyddai'r byd
Pe bai o hyd yn Wanwyn.

Fe glywir tyner lais y gog,
Ar lwyni brigog gwyrddion;
A thwit, twit, twit, y wenol fwyn,
Aderyn sy'n dwyn hinon;
A llu y goedwig yn gytun
O un i un mewn calon.

Bydd pawb o'r mwya' i'r lleia' oll,
Heb goll yn adeiladu;

Pob un a'i fan a'i ddull ei hun,
 Heb un yn croes ymdynu;
 Rhai'n uwch, rhai'n is, rhai'n wych, rhai'n wael,
 Ond pawb am gael lle i lechu.

Y GOG.

GYDYMAITH hoff y Gwanwyn gwyrdd
 Rhown iti 'n awr gan croeso;
 Natur â dail a drwsia 'th ffyrdd,
 Mae'r goedwig am dy wrando.

Pan ddelo llygaid hardd y dydd
 I fritho 'r dolydd gwyrddion,
 Dy lais a glywir, mewn odl rydd,
 O'r perthau 'n seinio 'n rhadlon.

A oes ryw ser uwch ben rhyw fan
 A gyfarwydda 'th lwybrau;
 Gan nodi beunydd it' bob rhan
 O'r flwyddyn a'i thymorau?

Fwyn ymwelyddes gyda thi,
 Croesawn amser blodau;
 Pan fo'r holl adar yn ddi ri'
 Yn lleisio o blith y cangau.

Yr ysgol lanc wrth grwydo 'i hun
 Ar hyd y maes am flodau,
 Rhydd lam, wrth sain dy nod tra chun,
 A gwna'r un don a thithau.

A manau ereill y gwnei di
 Ymweled yn feunyddiol;

Rhyw Wanwyn eto genyt sy
I'th fwyn groesawu 'n siriol.

Dy berth yn wastad sydd yn werdd,
A'th wybren heb frycheuyn ;
Nid oes dim tristwch yn dy gerdd,
Na Gauaf yn dy flwyddyn.

Pe gallwn hedeg, hedeg wnawn,
I'th ganlyn drwy 'r holl wledydd,
A'th gwmni hyfryd a fwynhawn
Er mwyn cael Gwanwyn beunydd.

Y BLODAU.

FLODAU tlysiion, pa'm y syrthiwch,
Chwithau newydd dd'od i'ch harddwch ?
Nid yw'ch tymor wedi pasio,
Gellwch aros gronyn eto.

Newydd golli ôl y Gauaf
Ydyw'r coedydd sy brydferthaf ;
Mae'n ymddangos fod brys arnoch,
Ai nid erys un o honoch ?

Gresyn i chwi dd'od i'r amlwg
A myn'd ymaith oll o'r golwg ;
Beth yw unwaith yn y flwyddyn
I gael syllu ar flodeuyn ?

Rhai o honoch wisgodd allan
Cyn cyraeddyd eu llawn oedran ;
Ai cip olwg a geir arnoch,
Wedi'r dysgwyl hir am danoch ?

Mae'r clogwyni llwyd a'r creigiau
 O'r un agwedd drwy'r blynyddau ;
 Chwithau'n cilio mewn un noswaith,
 Ni cheir golwg arnoch eilwaith.

Rhai o'r dail sydd yn ymledu
 Welant Hydref heb waethygu ;
 Chwithau'n cilio ddechreu'r Gwanwyn,
 Nid oes Hydref yn eich blwyddyn.

Gwelir ambell ddeilen unig
 Galan Ionawr yn y goedwig ;
 Gwywwch chwithau ar deg hinon,
 Newydd gael eich gruddiau'n gochion.

Pwy ond Duw allasai'ch deffro
 O gwsg Gauaf a'ch hardd wisgo?
 Ol ei fys a welir arnoch,
 Pwy all wadu'i ofal trosoch?

Tebyg ydyw'r einioes ichwi,
 Mae prydferthwch hono'n colli ;
 Syrthia lluaws mewn babandod,
 Cyn cael profi Gauaf trallod.

Llanciau gwridog a gwyryfon
 Ddifa angau â'i awelon ;
 Cwypa'r rhei'ny i'r priddellau,
 Wedi gwywo'n ail i chwithau.

Gwerthfawr ydyw pob rhyw ddeilen
 A'r mân flodau ond eu darllen ;
 Dysgant bawb i wel'd mai diwedd
 Ddaw i bob peth er ei fawredd.

Os dymunwn i'n golygon
 Weled coedydd bythol-wyrddion,
 Ac os hoffwn gael arogledd
 Blodau tlysion yn ddiidiwedd,

Rhaid cyfodi o'r byd yma
 I'r tir hyfryd sy'n orphwysfa;
 Ni ddaw gwywder gwedd na marw
 I awyr-gylch y tir hwnw.

Y DDEILEN DDIWEDDAF.

DYWED p'le mae'th hen gymdeithion,
 Nid oes heddyw un yn fyw;
 Golwg wael sydd arnat tithau,
 Wedi newid mae dy liw;
 Mae dy ruddiau wedi gwywo,
 Yr wyt drwot oll yn grin;
 Syrthio wnei, a syrthio 'n ebrwydd,
 Dan chwa farwol Gauaf blin.

Cydchwarëaist, yn yr awel,
 Gyda 'r rhai o'th flaen a aeth;
 Yfaist wlith a gwres yr haulwen,
 Gwyrdd a fuost yn llawn maeth;
 Ofer heddyw i'r haul godi,
 Er gweinyddu dim i ti;
 Nid all gw lith na gwlaw 'th adferu
 Na dy ddwyn yn ol i ni.

Gwelaist ereill gadd gydgychwyn
 Yn myn'd oll o un i un;
 Tithau 'n hongian ar y gangen
 Yna ar dy ben dy hun;

Mae'n llawn bryd i tithau gychwyn
 Er gwneud lle i'r rhai a ddaw ;
 Gwanwyn eto byth ni weli,
 Er fod hwnw bron gerllaw.

Ni fydd son am danat tithau
 Mwy na'r dail aeth gyda'r gwynt ;
 Dy le 'n ddystaw a gymeri
 Yn y briddell megis cynt ;
 Gelli fod yn gymorth bychan
 I wyrddlesni 'r rhai a ddel ;
 Pa athronydd all dy nabod
 Pa fferyllydd byth a'th wel ?

Oni welwn beth yw einioes,
 Os edrychwn ar y dail ?
 Nid oes ini hir flyneddau,
 Ar y ddaiar mae ein sail ;
 Nid yw dynion oll ar unwaith
 Yn myn'd byth i dy y bedd ;
 Er hyn marw wna 'r rhai hynaf ;
 Trecha angau 'r iacha'u gwedd.

DIWEDD Y CYNHAUAF.

TYMORAU ehedant,
 A blodau a wywant,
 A dail a orweddant
 Ar hyd y llawr ;
 Medelwyr a ganant,
 Yd addfed a gludant,
 Adar ehedant
 Dros y mor mawr.

Ar frys daw'r llym Aua',
 Ei wynt a ysgythra,
 Pob peth o'i flaen rwyga,
 Daw'n dywydd du;
 Wrth dân goleuedig,
 O friwydd o'r goedwig,
 Bydd sionc a methedig,
 Yn llechu'n ty.

Ar fyr yr ymlithra
 Fel hyn yr oes hwya',
 Fe dderfydd yr yrfa,
 Gwywa'r hardd wedd;
 Dy Wanwyn di ddarfu,
 Mae'th Haf dithau i fynu;
 Down toc i auafu
 I dy y bedd.

Y BEDD.

FEL y gwywa dail y goedwig,
 Gan lem awel Gauaf du,
 Y diflana blodau einioes,
 Nerth ac egni ymaith ffy;
 Y wreichionen fywiol heda,
 Gad y babell farwol hon,
 At Dduw'r barnwr y cyfeiria
 I ymddangos ger ei fron.

Y mae'r corff, yn awr, yn barod
 I'w roi i orwedd yn y bedd,
 Yno syrth mor oer a'r ddaiar
 Lynca i fynu 'i bryd a'i wedd;

Byth ni thala neb ymweliad
 I mi yn fy naiar gell,
 Ond y pryfaid sy'n ymlwybro
 Drwy ororau'r ardal bell.

Er i glir belydrau'r haulwen
 Gael eu saethu dros y byd,
 A'r goleuni gael ymdywallt
 Ar y ddaiar fawr i gyd,
 Ni thrywanant drwy gysgodion
 Trymllyd angau yn y bedd;
 Ond tywyllwch sy'n teyrnasu
 Yno byth heb newid gwedd.

Yno colla'r llaw wywedig
 Ei medrusrwydd a'i holl rym,
 I reoli yr ysgrifell,
 Ni wna air, na nod, na dim;
 Pob gohebiaeth a ddarfydda
 Gyda dyffryn galar mwy;
 Pob amcanion a droir heibio,
 Gorphwys wnafl yn iach heb glwy'.

Pebai i elyn creulawn gwaedlyd
 Ddod i sathru ar fy medd,
 Gyda chalon lawn eiddigedd,
 A golygon melltiawg wedd,
 Cysgu'n dawel a gorphwyso,
 Wnawn yn mynwes daiar glyd,
 Er holl rym ei gynddeiriogrwydd,
 A'i ddichellion ef i gyd.

Nid bloeddiadau lluoedd daiar
 Wedi'r brwydrau mwya'i gyd;

Na chorn angel allai dreiddio
 Drwy y nef o fyd i fyd;
 Na dirgrynfa y pegynau,
 Siglai'r byd o ddarn i ddarn,
 Allai' neffro yn y beddrod;
 Cysgu wna' hyd fore'r farn.

Ond ni chaiff fy ymadawiad
 Unrhyw effaith ar y byd;
 Haul a lleuad byth ni phallant
 A gweinyddu iddo o hyd;
 Y sêr tanbaid, yn eu cylchoedd,
 Ymsymudant fry uwch ben,
 Fel hardd berlau ymddysgleiriant,
 Dawnsio wnant yn entrych nen.

Y rhaiadrau gwyllt ewynawg,
 Ruant wrth ymfwrw i'r aig;
 Rhuthrant allan mewn cynddaredd,
 Golchant ddanedd garw'r graig;
 Yr afonydd a furmuran,
 Ac a lithrant hyd y ddol,
 I eigionau glasfor bwriant,
 Eu holl ddyfroedd yn ei ol.

Mynwes dyfnfor a ymchwydda
 A'r clogwyni ylech y don;
 Mellt ymwibiant, rhua'r 'stormydd,
 Sigla t'ranau'r ddaiar gron:
 Y llafurwr drina'r cwysau,
 Meda'i ffrwythydd yn ei bryd;
 Ei gynlluniau dyn y pensaer,
 O'i wych adeiladau drud.

Llenwi'r goedwig ddeiliog acw
 A wna'r adar gyda'u cân;
 Dyrchu moliant eu Creawdydd,
 A'i glodfori oll yn lân;
 Minau'n llechu dan yr ywen,
 O dan gwrlid daiar werdd,
 Heb fy symud gan un gallu
 Na mwynhau perseiniol gerdd.

PRYF Y BEDD.

PRYF y beddrod wyf sy 'n llechu
 O dan orchudd daiar werdd;
 Dyma 'nghartref, lle dystawa
 Holl beroriaeth merched cerdd;
 Imi rhoddwyd agoriadau
 Llygredigaeth y fro lawn;
 Rhag d'od ataf, plygai'r balchaf
 Ar ei liniau'n isel iawn:
 Hawlio'r wyf bob un ddaw'n agos
 I 'nherfynau ar fy nhaith;
 Byw yr wyf fel ymerawdwr,
 Ar fy ngorsedd oer a llaith.

Trigo'r wyf mewn rhwysg unigol
 Yn y dystaw feddrod du;
 Nid oes eisiau un deyrnwialen,
 Llurig ddur, na chostfawr blu;
 Galarwisgoedd mewn angladdau,
 Addurniadau ty y bedd,
 Sydd i mi, fel blodau beunydd,
 Yn parhau heb newid gwedd:

Tegwch ieuanc a ddaeth yma
 Ataf fi, er's oesau maith ;
 Byw yr wyf fel ymerawdwr,
 Ar fy ngorsedd oer a llaith.

Y tywysog a'r cardotyn
 Sydd i mi yn ddau'r un fath ;
 Rhyddhau'r caethwas o'i gadwyni
 Wnaf pan ddel i'w dy dwy lath ;
 Nid wy'n prisio yn mha leoedd,
 Ar y môr ai ar y tir,
 Ai o wely neu esmwythfainc,
 Yr â dynion i'r daith hir :
 Cydnabyddir fy nheyrnwialen
 Ddu gan feirwon o bob iaith ;
 Byw yr wyf fel ymerawdwr,
 Ar fy ngorsedd oer a llaith.

Fy nghusanau oer a wesgir
 Ar deg rudd y wryf lon ;
 A fy mhen a ro'f i orphwys
 Ar ei hesmwyth, glaerwen fron ;
 Dygant hi mewn priodaswisg
 Wen fel eira ataf fi ;
 Bloddest wnafl yn ddidosturi,
 Hyd nes blinaf arni hi ;
 Gan na ddengys oerfelgarwch
 I 'nghynygion a fy ngwaith,
 Yn y man lle'r wyf yn frenin,
 Ar fy ngorsedd oer a llaith.

Gwledda wnafl ar y gwefusau
 A lefarent gynt mor rydd ;

Yfed wnaf yr oer wlith hwnw
 Adawodd angau ar ei grudd;
 Mae yr hyf, y gwan, a'r gwrol,
 I fy ngallu'n plygu'n awr;
 Nid oes yn y pentwr tywyll
 Neb yn fach na neb yn fawr:
 I fy mhalas arwain angau
 Holl deuluoedd daiar faith;
 Byw yr ydwyf fi fel brenin,
 Ar fy ngorsedd oer a llaith.

Gwrando bryfyn, sy'n ymffrostio
 Yn dy rwysg ac yn dy waith,
 Gelli fod yn rhy hyderus
 Ar dy orsedd oer a llaith;
 Mae rhyw ddiwrnod bron a gwawrio
 Pan agorir pyrth y bedd,
 Dyna'r pryd, mewn goruchafiaeth,
 Bwrir dithau i lawr o'th sedd:
 Dadsylfaenir dy lywodraeth,
 Chwelir d'ymerodraeth fawr,
 Iesu'n unig fydd yn frenin
 Drwy y Nef a'r ddaiar lawr.

COLLI PLENTYN.

A YDYW'r Nef yn gwel'd y dagrau hyn,
 Dywallta'r fam, uwch ben ei phlentyn gwyn?
 Ydyw, y mae, o'r Nef disgynai'r saeth,
 A'r Nef a all wellau yr archoll wnaeth.

DYFERYNAU YR YSGRIFELL.

DYN.

RHYW ddyfrglynch ar wyneb y dòn a ganfyddir ;

BYWYD.

Pelydryn o oleu mewn bedd a ddiffoddir :

ENWOGRWYDD.

Gwreichionen ddysgleiriol yn mhell sy 'n tywynu ;

CYFOETH.

Ffynonell pob drygau a gofal sy'n nychu ;

HYFRYDWCH.

Pelydryn o haulwen yn fuan a basia ;

CARIAD.

Boreuffrwd o'i chofio, y dydd a oreura ;

FFYDD.

Rhyw angor ollyngwyd tu draw i fro angau ;

GOBAITH.

Rhyw seren unigol uwch anial yn golau ;

TOSTURI.

Rhyw ffrydlif yn rhedeg o wir ffynon cariad ;

BIBL.

Arweinydd i ardal o hedd heb ddiweddiad ;

CREFYDD.

Agoriad a egyr y pyrth i'r wlad nefol ;

ANGAU.

Arf miniog sy'n tori holl rwymau daiarol ;

DAIAR.

Anialwch a deithia yr holl bererinion ;

BEDD.

Rhyw dy i orphwyso, lle derfydd helbulon ;

ADGYFODIAD.

Deffroad pur ebrwydd o gwsg a llonyddwch ;

NEFOEDD.

Gwlad lawn o lawenydd, goleuni a dedwyddwch.

BYWYD DYN.

TEBYG iawn i syrthiad seren,
 Neu fel eryr ar ei aden,
 Neu wawr blagur ar eu ddechreu,
 Neu arianaidd wlith y boreu,
 Neu i wynt gynyrfa'r dylif,
 Neu'r crychferwad ar y cefallif
 Yw dyn:—a'r golau a fenthycir
 Iddo, gyll, gan nos fe'i llyncir;
 Peidia'r gwynt, a sai'r crychferwad,
 Cladda'r Gwanwyn bob blaguriad,
 Sych y gw lith a'r seren gollwyd,
 Yr eryr aeth—a dyn anghofwyd.

AMSER.

YR amser *oedd*, aeth heibio,
 Nid ellir ei fwynhau;
 Yr amser *sydd*, mae genyt,
 Defnyddia'r moment brau:
 Nid yw'r *dyfodol* amser,
 Gall beidio gwawrio i ni;
 Yr amser sy'n *bresenol*
 Yw d'unig amser di.

YR OLYGFA YN YR HEOL.

EISTEDD wnaethum yn hamddenol,
 Edrych ar yr heol fyw,
 Fath lu cymysg o wynebau
 Welai 'm llygaid o'r ddau ryw;
 Rhai'n ddifrifol, rhai'n bryderus,
 Rhai'n feddylgar, rhai'n wag iawn;
 Rhai yn hen, a rhai yn ieuanc,
 Dan bob math o deimlad gawn.

Mae'r gwrthddrychau 'n para i symud,
 Heibio 'r ant o 'mlaen i gyd ;
 Gwahaniaethant, cyfnewidiant,
 Dygant newydd wedd o hyd ;
 Fath ddangoseg syn ofnadwy
 Dd'ai i'r golwg o bob coll,
 Pe bai 'r wyneb yn dadguddio
 Gweithrediadau 'r meddwl oll.

Y mae rhai mewn siomedigaeth,
 Ereill feddant obaith cryf ;
 Rhai yn wylaidd, rhai yn ofnus,
 Ereill sydd yn eithaf hyf ;
 Y llythyrddy ddygodd doraeth
 O newyddion i'r rhai hyn ;
 Newydd da wnaeth rai yn siriol ;
 Newydd drwg wnaeth rai yn syn.

Dichon fod yn mhlith y dyrfa
 Welai 'n pasio draw o hyd,
 Rhai am dwyllo, rhai am yspail,
 Rhai am godi i sylw 'r byd :
 Ambell fenyw wedi 'i siomi,
 Calon hon ar fyn'd yn ddwy ;
 Gwryf arall mewn gobeithion,
 Fel yr ewig yn llawn nwy'.

Yntau'r cybydd sydd yn pasio,
 Am ysglyfaeth mae ei fryd ;
 A'i gydwybod fel maen melin ;
 Calon hwn sy'n llawn o'r byd ;
 Yn eu plith, mae ambell wladwr,
 Calon hael ac esmwyth fron ;

Sychwr dagrau yr amddifaid,
Gwr wna 'r fynwes drist yn llon.

Mae'r cribddeiliwr yn y dyrfa,
Gwr a gydia faes wrth faes ;
Cuddio 'r twyll sydd yn ei galon
Wna, dan orchudd gwyneb llaes :
Caria ffug yn lle gwirionedd ;
Ceisia dwyllo Duw a dyn ;
Ond dangosir yr angenfil,
Eto, yn ei liw ei hun.

Mae'r ffug gyfaill yna 'n rhywle,
Fratha fron yr hwn sy'n frawd ;
Gan wneud aberth o bob rhinwedd,
A throi pob peth oll yn wawd ;
Gwertha hwn y cyfaill'goreu,
Er mwyn codiad iddo 'i hun ;
Ni adnabu gyfeillgarwch—
Caru 'i hunan y mae'r dyn.

Mae y gwr a dwng i'w niwaid
Acw yn y dyrfa fawr ;
Hwn wna aberth o'i gysuron,
Er gwneud lles i ddyn ar lawr ;
Nid yw ef yn chwit chwat meddal,
Deil yr un mewn dwr a thân :
Mae 'n ei feddiant drysor gwerthfawr,
Calon a chydwybod lân.

Mae'r dialgar wedi pasio
Sydd yn gwynu yn ei wawr,
Pan y rhwyga 'i rith dduwioldeb,
Ar ol procio 'i falchder mawr :

Mae ei syched fel dywalgi,
 Dim ond gwaed a ddofa 'i lid ;
 Mae ei fron yn ddu fel uffern,
 Dan ei wen a'i fwyndra'i gyd.

Yntau 'r epa cenfigenllyd
 Sydd yn methu myn'd yn fawr,
 Er ymgodi ar stryd fachau,
 Ar ei drwyn sy'n syrthio i lawr ;
 Er ymgripio ar ysgwyddau
 Rhai sy'n fwy nag ef ei hun ;
 Còryn ydyw ar y Wyddfa ;
 Trefna natur le pob un.

Mae y bychan yn anfoddlon
 Am nad ydyw'n llawer hwy ;
 Ond waeth iddo ymfoddloni,
 Bychan fydd—nid â'n ddim mwy ;
 Mae y beirniad hungrëedig,
 Sydd yn dringo i'r orsedd fawr,
 Heb i neb ei alw iddi,
 Newydd basio mewn rhwysg cawr.

Meddwl mae gwastadu'r bryniau,—
 Ond rhy galed mae'n eu cael ;
 Gomedd plygu ar ei archiad
 Mae y Wyddfa wedi'r draul ;
 Deil ei phen uwchlaw'r cymylau,
 Llwhch a dail a droella'r gwynt ;
 Metha gael y wlad i gredu
 Mai meddyliau uchel ynt.

Mae'r eiddigus yn y dyrfa,
 Sydd yn digio wrth y byd,

Am na welant bethau ynddo
 Sydd o'i gyraedd oll i gyd ;
 Sut y gall awyren esgyn
 Heb ddim ager yn ei chod ?
 Sut y gall y wadd ehedeg,
 Heb ddim esgyll ganddo'n bod ?

Yntau'r cyfaill ffals dau wyneb,
 Cyfaill y diwedda' o hyd ;
 Cyfaill pawb—ond nid gwir gyfaill,
 Ni fedd gyfaill yn y byd ;
 Canmol pob un yn ei wyneb,
 A lladd arno yn ei gefn ;
 Dyna wna'r hwn nad yw'n gyfaill ;
 Byth ni châr wel'd neb drachefn.

Mae'r ymgeisiwr uchelfrydig,
 Am holl barch a chlod y byd,
 Fu'n gwneud grisiau o'i gyfeillion,
 Gan eu canmol am ryw hyd ;
 Ond anghofwyd ganddo'n hollol,
 Wedi iddo gael ei nod,
 Acw'n mhlith y dorf yn rhywle
 Yn pysgota parch a chlod.

Mae'r ymyrwr yn y fintai
 Fyn gael hanes pob dyn byw,
 Sy drwy'i oes yn ngerddi ereill ;
 Iddo'i hun dyeithryn yw ;
 A'r enllibiwr cul ei fynwes,
 Sydd yn gwledda ar bob bai ;
 Dawn na rhinwedd ni chydnebydd,
 Ond er ceisio'u gwneud yn llai.

Dacw yntau y didalent
 Sydd yn chwenych bod yn fawr,
 Rhaid yw dal hwn yma i fynu,
 Onidê fe gwympa i lawr :
 Pwff rhai ereill a'i cyfododd,
 Fel barcutan uwchlaw'r byd,
 A phan beidiant hwy a phwffian,
 Daw i'w safle yn ei bryd.

Mae y glwth a'r meddw yntau,
 Dau sy'n gwneuthur duw o'u bol ;
 Dau sy'n myn'd drwy'r byd yn ddiles,
 Dau sy'n llawn o wynt a brol,
 Gyda'u gilydd yn y fintai,
 Nid oes neb a'u penau'n uwch ;
 Pan yn son am feiau ereill,
 Maent hwy'u hunain fel y lluwch.

Dacw drem y rhith bregethwr,
 A fu unwaith yn wr mawr,
 Ond ei falchder a'i melldithiodd,
 Gan ei dynu'n llwyr i lawr :
 Gwaedodd calon llawer Cristion,
 Pan y collodd ef ei draed ;
 Ond efe sy'n wyneb galed,
 Er yn gorwedd yn ei waed.

Mae fel alltud yn ei ardal—
 Yn ei wlad a'i dy ei hun ;
 Mae'n ddyeithryn yn ei gartref ;
 Nid oes neb wrth hwn a lyn ;
 Pan y rhega—cofio'i weddi
 Y bydd rhywun yn y fan ;

Pan y meddwa—cofio'i gyngor
Bydd rhyw frawd neu hen chwaer wan.

Mae yr hen wrthgiliwr yntau
Draw yn myn'd yn wegil syth ;
Adde'i fai erioed pwy'i clywodd,
Na phwy eto a'i clyw byth?
Rhywrai ereill ddarfu bechu,
Mae efe o hyd yn lân,
Er ei fod bob cam mae'n gerdded
Yn gwynebu tu a'r tân.

Tyn i lawr ei holl gynghorion,
D'wed mai celwydd oedd ei ffydd ;
Tynga'n awr yn lle gweddio,
Er mwyn selio'i ddiwedd prudd :
Golcha ymaith bob argraffiad
Oedd ar feddwl ei blant bach,
Yn nghylch crefydd a phob rhinwedd ;
Crefydd eilw'n freuddwyd gwyrach.

Dacw'r cyfrwys, fwyn gyfreithiwr,
Nad oes diwedd ar ei wanc,
Sydd yn denu'r gwan i'w faglau,
Ac yn cydio fel y cranc ;
Cri ymddifaid sy'n ei glustiau,
Dagrau gweddwon olchai'i lawr ;
Gwaed trueiniaid ar ei lwybrau
Welir fore y farn fawr.

Mae'r coeg feddyg na cha'dd addysg—
Meddyg fu yn 'treio 'i law,'
Ar gyrff dynion gwir ddiniwaid,
Dan ei gyllill oedd mewn braw,

Yn myn'd heibio yn fawreddog,
 Fel y penaf yn y plwy' ;
 Ac yn pwffio ei gyffuriau,
 Er ymddangos beth yn fwy.

Dacw 'r gwr dau fath o bwysau,
 I'w wel'd yn y dyrfa draw :
 Gwr sy ganddo gryn ddylanwad
 Ar ei glorian gyda 'i law ;
 Gwr sy'n gwerthu gwael ysbwrial
 A llwch aflan yn lle blawd ;
 Gwr sy'n fwyn a theg yr olwg,
 Pan yn twyllo 'r dyn tylawd.

Mae 'r celwyddwr dau wynebog
 Yn y fintai fawr gerllaw ;
 Lluniwr celwydd caboledig—
 Ddywed gelwydd heb ddim braw :
 Yntau 'r pwffiwr digydwybod
 Sy'n ad-dalu am ei barch,
 Drwy frol wag yn nghylch rhinweddau
 Rhai a'i codent ar ei farch.

Nid yw 'n prisio beth a dd'wedo,
 Tra bo'n derbyn rhyw lesâd ;
 Gall hwn droi ei bin a'i dafod
 Fel y myno, am fawrhad ;
 Hunan elw, hunan enw,
 Hunan barch, a hunan glod ;
 Er pob parch a roir i ereill,
 Dyna'r marc a dyna'r nod.

Mae'r amaethwr calon galed,
 Anwybodus am bob peth,

Ond am 'drin a throi,' a gwasgu—
 Talu rhent a thalu treth
 Yn y dorf, a'i feddwl bychan,
 Caled wrth ei weithwyr yw ;
 Gwell y gŵyr am gaib a throsol
 Nag am deimlad dynol ryw.

Dacw 'r rhith offeiriad gwagsaw
 Sydd yn orthrwm, sydd yn dreth ;
 Fyn ran fawr o firwyth y ddaiar
 Ond ni ddywed byth am beth ;
 Haera'i fod yn fab i Aaron,
 Ac y gall ail eni plant ;
 Prawf ni roes o ffydd na rhinwedd,
 Os nad ffydd yw porthi chwant.

Gwelaf fab i hen broffeswr,
 Oedd yn dduwiol yn ei ddydd,
 Wedi 'i lusgo gan ei chwantau,
 Y mae'r olwg arno 'n brudd ;
 Mae yr addysg gafodd gartref
 Wedi 'i throi i wawd i gyd ;
 Dagrau 'r fam a gweddi 'i phriod
 A'u gofalon ar bob pryd.

Dacw 'r Pharisead cyfiawn,
 Sydd yn lân o'i ben i'w draed ;
 Gwr rhy santaidd i gael crefydd,
 Ac i'w olchi yn y gwaed :
 Ond mae un sy'n well na llawer,
 Wedi 'i droi o'r fyddin hon ;
 Gwr heb ddichell yn ei ysbryd,
 Heb euogrwydd dan ei fron.

Y MUD A'R BYDDAR.

PA galon na theimla dros fyddar a mud,
 Sy'n nghanol perseiniau heb glywed dim byd?
 Yn ofer y sua'r afonydd i'r rhai'n;
 Y dyfnder, er rhuo, ni chlywant ei sain.

Y daran a rwyga yn erchyll uwch ben,
 Pan wisgir â phrudd-der wynebpryd y nen,
 All drystio nes taro'r greadigaeth â braw,
 Y byddar ni wybydd—mae'n dawel gerllaw.

Peroriaeth yr adar a leisiant o'r llwyn,
 Wrth oglais y dymer, sy'n meddu'r fath swyn,
 Mae ef yn ei chanol, heb gael rhan o'r wledd,
 Yn byw mewn dystawrwydd mor ddystaw a'r bedd.

Y delyn a'r dympan—ni wŷyr beth yw'r rhai'n,
 Yn mro'i amgyffredion—ni fu math o sain;
 Ynfydrwydd i Handel, pencerddor y byd,
 Oedd meddwl effeithio ar fyddar a mud,

Ni chlywodd lais tyner ei fam wrth ei drin,
 Na'i chanau diniwaid pan oedd ar ei glin;
 Y *lullaby* swynol, ni wyddai am hyn;—
 Pan fo pawb yn siriol edrycha fe'n syn.

Llais trist a swn llawen sy'r un iddo ef;
 Ni wŷyr fod llew'n rhuo, na'r oen yn rhoi bref;
 Llais ceiliog ben bore, llef gwyliwr yr hwyr,
 A rhybudd yr awrlais o'i gyraedd sy'n llwyr.

Cael clywed hyawdledd pen campwyr yr oes,
 I'r mud ac i'r byddar, un gobaith nid oes.

O'r traeth rhag y llanw nid all llais ei droi,
Na chyd-floedd miliynau ei ddychryn i ffoi.

Ni chafodd y fantais o glywed gair Duw,
Na sain y lleferydd sy'n dwyn meirw'n fyw;
Ni chlywodd am Nefoedd, nac uffern a'i gwae;
Yn ymyl digonedd mewn eisiau y mae.

Mae'r enaid yn berffaith, a'r teimlad yn fyw,
Ond ar y galluoedd ni weithir drwy'r clyw;
Am ddefnydd y tafod a'r clustiau nis gŵyr,
Rhaid agor y meddwl drwy'r llygaid yn llwyr.

Aeth miloedd o'r Cymry oedd fyddar a mud,
Heb weled un cynyg at addysg, o'r byd;
Darpariaeth sy'n ymyl ein gwladwyr, yn awr,
Pwy beidiai roi cymorth mewn gorchwyl mor fawr?

Mae diwrnod yn dyfod y clyw ef Fab Duw,
Pan gyfyd y meirw o'u beddau yn fyw;
Ni fydd mud a byddar na dall yn y farn,
Gwybyddir y ddedfryd gyhoeddir bob darn.

GOGONIAN T Y FILWRIAETH.

DYRCHAFU'N llais a wnawn i gyd,
I foli'n harfau drwy'r holl fyd,
Am ladd gelynion dyn a Duw,—
Mae llai o'r rhai'n yn awr yn fyw.

Caed calon gref a nerthol fraich;
Ni theimlai neb y gwaith yn faich;
Caed help i ddal a 'nelu'r dryll;
Rhoed help i'r magnel rwygo'n hyll.

Clodforwn am a gadd eu lladd,
 O'r isel ac o'r uchel radd;
 Y rhai fu'n gorwedd yn eu gwaed,
 Ac ereill fathrwyd o dan draed.

Heb fam na thad, na mab na merch,
 I ddangos iddynt unrhyw serch;
 Er gwaeddi'n groch 'doedd neb i'w gael
 I rwymo'r briw i sychu'r ael.

Ond chwys a gwaed ddyferai lawr,
 Gan rym y boen a'r artaith fawr;
 Y genau'n gras, gan syched llym,
 Y llais yn wan, yn colli'i rym.

Rhyw feddwl prudd un waith a ddaeth,
 Beth os i uffern dân yr aeth
 Eneidiau'r cyrff oedd hyd y llawr,
 Yn ddrylliau mân, mewn erchyll wawr?

Ond beth dal hel meddyliau prudd,
 A Phrydain wedi cario'r dydd?
 Os aethant hwy i uffern dân,
 Cadd hi glodforedd mawr a mân.

Gwrandawer cri y weddw dlawd,
 A'i phlant bach mân—maent o'r un cnawd;
 Ond beth yw cri deng myrdd fel hon
 Wrth floddest meistres tir a thon?

Bu'r gelyn cas yn canmol Duw
 Am help i ladd a chadw'n fyw;
 Arswydem ni wrth feddwl fod,
 Gan hwn y wyneb i roi clod.

O du yr iawn, ymladdai'n gwyr,
 Wrth rwygo'n ddewr â'r cleddyf dur;
 Rhydd pawb drwy'r wlad dystiolaeth lawn
 Fod Lloegr beunydd ar yr iawn.

Ni fydd ein gwyr mewn nwydau drwg,
 Cynddaredd ddofn, na rhaib na gwg,
 "Ond lladd er mwyn gogoniant Duw,
 Er agor ffordd i'w deyrnas wiw."

Pan lysg ein gwyr aneddau'n llwyr,
 Pan fathrant wlad fel bleiddiau'r hwyr,
 Cydwybod lân sy gan bob rhai
 O'n byddin ni, heb arnynt fai.

Mae'r bai yr ochyr draw o hyd;
 A ni'n ein lle'n mhob cwr o'r byd;
 Wrth losgi tai a rhwygo plant,
 A gollwng rhaff i bob rhyw chwant.

Rhoi maesydd yd yn sarn dan draed,
 Gorchuddio gwlad â chnawd a gwaed,
 Pa ddyn all ddweud nad ydyw hyn
 Yn orchwyl iawn—nad Duw a'i myn?

Mae'r holl offeiriaid drosto i gyd,
 A'r mawrion mwyaf yn y byd;
 "C'lomenod" gwael heb galon yw
 Y rhai fyn gadw pawb yn fyw.

Mae'r byd yn llawn—pob gwlad a thre',
 Rhaid chwynu rhai, i'r lleill gael lle;
 Heblaw'r "gogoniant" sydd yn bod,
 Yn nglŷn â'r gwaith, a'r bri ar clod.

Os cymer dyn ei ladd fel dyn,
 Wrth ymladd dros ei wlad ei hun,
 Caiff glod gan yfwyr gwin a bir;
 Bydd hyny'n glod a bery'n hir.

Gwneir llawer gwledd, er mwyn y bol,
 I son am hyn, ac adrodd lol;
 Bydd rhai, o wir lawenydd pur,
 Yn meddwi'n hyll o barch i'n gwyr.

Bydd hyny'n enw ac yn barch
 I'r milwr gladdwyd heb un arch,
 Na wŷr y craffa lle mae'i fedd,
 Na'r erchyll ddrych oedd ar ei wedd.

YR ADERYN SYMUDOL.

ADERYN hoff, diniwaid yma ddaeth,
 O wlad yr ia, i geisio nawdd a maeth.
 Ei wlad ei hun sy gallestr iddo ef,
 Dan orchudd trwm o ia yn grawen gref.
 Dysgwylia fod gwlad Prydain yn wlad rydd;
 Pan dery'i droed ar hon mai rhydd a fydd;
 I gael mwynhau pob gwig, pob cors, pob llyn,
 Heb haeniau tew o rew, neu eira gwyn.
 Deisyfu dim o gynyrch neb ni wna,
 Boddlon a'i hun yn rhywfan na bo ia;
 Hyd lynoedd pell o olwg pob rhyw ddyn,
 Neu gorsydd dwfn, difyra ef ei hun:
 Ond yn lle hyn ei erlid ga'n mhob man,
 Gan gludwyr dryll—pob math mewn tref a llan;
 Gwna pawb yn hyf ar y dyeithryn hwn,
 Wyr ragor rhwng y bigfforch hir a'r gwn.

A'r crefftwr main i geisio'i saethu ef,
 Os metha'i nod dyrchafa'n groch ei lef,
 Er fod y gwr am drin ei 'arfau' 'n well,
 Anela'i ddryll, ond mynych mae'n rhy bell.
 A mab y ffarm sydd yn orchestol iawn
 Hyd dir ei dad yn cario'i ddryll yn llawn,
 Heblaw y llu o goeg segurwyr tre'
 Ar ddyddiau gwyl a'i helant yn mhob lle.
 Lofruddion hyll, paham cydunwch chwi
 I ladd y gwan ddaeth am ein nodded ni?
 Dyeithryn yw sy'n mhell o dir ei wlad,
 Heb nabod neb, heb ganddo fam na thad.
 Rhowch iddo nawdd, ar dywydd blin fel hyn;
 Ni fydd yn hir heb adael cors a llyn,
 Gael iddo ddweud, 'nol iddo fyn'd i'w wlad,
 Mai yma bu drwy gael eich caniatad.
 Fe ddichon fod cydmares hwn ar ol,
 Mewn hiraeth llawn—rhowch iddo fryn a dol.
 Trueni fydd ei ladd mewn estron wlad;
 Rhowch heibio'r dryll, a cheisiwch well mwynhad,
 Nag wrth wel'd gwaed creadur bach mor fwyn,
 Sydd wedi do'd i'ch gwlad i ddweud ei gwyn.
 A thithau'r dyn yn gyflogedig sydd
 I ladd drwy hawl heb ddeigryn ar dy rudd,
 A oes dim modd rhoi teimlad dan dy fron,
 A'th droi at waith yn lle'r gyflafan hon?
 I'r bonedd wyr, nid gwaith boneddig yw,
 Fod llaid a gwaed hyd wisgoedd y fath ryw.
 Hwylent fod uwchlaw'r fath chware plant
 A throedio cors a myn'd drwy fryn a phant,
 Am ddyddiau hir, bob blwyddyn gyda'r wawr;
 Nid hardd yw'r gwaith i rai fyn fod yn fawr.

Edrychent ar gigyddio ieir neu foch
 Yn warth i wyr o fri, o waed mor goch;
 Faint well yw lladd aderyn a phig hir,
 Na lladd y da, neu'r ieir sydd ar y tir?
 Ac wedi lladd, nid ydyw'r budd ddim gwerth
 Y ganfed ran o'r draul ar aur a nerth.
 Ceir gweled dryll gan hogiach mân di farf,
 Sy'n chwydd i gyd wrth drin yr enbyd arf.
 Meddyliant fod, arwyddion o wr mawr,
 Mewn cario dryll, er dychryn rhai ar lawr.
 Os ydyw lladd yr anifeiliaid mwyn
 Ar fryn a dol, neu'r adar ar frig llwyn,
 Yn waith nad oes un arch yn neddfau'r Nef
 Yn ei wahardd, nac yn ei feio ef,
 Ni ddylid gwneud y peth mewn bost neu fâr,
 I foddio nwyd dynionach haner gwâr;
 Na'i fod yn rhan o wyl ynfydion hyll,
 Sy'n 'treio' u llaw' wrth ddysgu trin y dryll:
 Mae'r grechwen fawr, a'r fonllef greulon, iach,
 A roir wrth wel'd dystrywio'r adar bach,
 A'r plu ar chwal yn hedeg gyda'r gwynt,
 Yn profi pa'm cymerwyd y fath hynt.
 Nid lles yw'r pwynt y cyrchir ato ef,
 Ond rhoi boddhad y mae i'r duedd gref
 At waed a lladd sy mewn rhan fawr o'n rhyw;
 Un naws a bâr yr Indiaid gwylltion yw.
 Nid boddio'i nwyd, ond tori'i gwanc mae'r arth,
 A'r llew wrth ladd nid yw yn myn'd dan warth
 Sy'n toi y dyn sy'n llarpio gwaith ei Dduw,
 O ran mwynhad, pan allai'u godde'n fyw.

CWYN DAFYDD EVANS,

CAERYNARFON,

Yr hwn a gollodd ei olwg yn Nghloddfa Matilda, ger Llanberis,
drwy daniad ergyd, Medi 25, 1848.

DYN wyf fi fwynhaes ei olwg
Am flynyddau'n ddigon amlwg;
Gwelais wyneb natur brydferth
A'i hamrywiaeth yn ddiraffferth.

Gwn am liwiau'r coed a'r dolydd,
Ac am dreigladd yr afonydd;
Bum wrth ben y rhosyn gwridog
Yn rhyfeddu'i wawr ardderchog.

Creigiau diphwys fum yn ddringo,
A'u hysgythredd fedrwn rwygo:
Codi ngolwg i'r ffurfafen
Bum i weled gwen yr haulwen.

Syllu bum ar ser yn dorfoedd,
Ac ar wyneb Lloer y nefoedd;
Ffurfiâu'r adar wyf yn gofio,
Wyn a defaid yn cydbrancio.

Meirch a gwartheg ar y dolydd,
Welais ganwaith hyd y broydd;
Llongau'n hwylio o flaen awelon
A'm difyrent ar yr eigion.

Gwyneb siriol fy ngwraig anwyl
A'm llawenodd lawer egwyl;
Golwg ar fy mhlant a'u llonder
Yrai ymaith drallod lawer.

Uwchlaw'r cyfan, gwel'd dalenau
 Geiriau glân yr ysgrythyrau,
 Roes ddyddanwch i fy meddwl,
 Dan bob gwasgfa, dan bob cwmwl.

Bu'n ddifyrwch i fy nghalon
 Weled wyneb fy athrawon,
 Tra'n cyhoeddi geiriau'r bywyd
 Dan ddylanwad nefol ysbryd.

Ond tywyllwch sy'n gorchuddio
 Erbyn heddyw'r byd oll drosto;
 Rhagor rhwng y clir foreuddydd
 A'r nos dywyll ni wel Dafydd.

Ofer imi ydyw'r Gwanwyn ;
 Ofer lliwiau y blodeuyn ;
 Ofer dysgwyl am wel'd eto
 Yr hardd rosyn yn ymwrido.

Gwelais ffrwythau peraidd anian,
 Ar y coedydd draw yn hongian ;
 Ni chaf bellach ond eu teimlo,
 A dal pwysi rhwng fy nwylo.

Ni chaf olwg ar y creigiau
 Yn dyrchafu i'r eymylau ;
 Gardd a'i blodau sy'n ymguddio,
 Coedwig werdd ni welaf eto.

Ni chaf olwg ar waith natur
 Yn y tir, y mor, na'r awyr ;
 Nac ol llaw'r Creawdwr nefol
 Yn llywyddu'r 'storm aruthrol.

Clywaf swm y corwynt grymus;
 A chynyrfiad taran frochus;
 Gwel'd y mellt yn fforchog wibio
 Drwy'r ffurfafen ni chaf eto.

Pe bai 'ngwraig ar wely angau,
 A fy mhlant mewn blin gystuddiau,
 Golwg arnynt ni chaf mwyach;
 Rhaid boddloni i'r drefn bellach.

Gweled wyneb fy athrawon,
 Wrth gyhoeddi rhyddid caethion,
 Na gwel'd dalen o'r gair dwyfol,
 Ni chaf eto yn dragwyddol.

Gweled Iesu gaf â'r meddwl,
 Drwy bob caddug drwy bob cwmwl;
 Ac yr ydwyf yn gobeithio
 Cael rhyw olwg gliriach arno.

Syndod imi gael fy mywyd
 Pan y rhwygai'r graig ddychrynlyd;
 Llaw Rhagluniaeth oedd yn gwyllo
 Rhag i hon fy llwyr falurio.

Ces fy nghlyw, fy nhraed, a 'nwylo,
 A fy synwyr i ymlwybro;
 Beth a dalaf i Ragluniaeth
 Am ei nawdd a'i gofal helaeth?

Gweled llawer cyfaill imi
 Wnaeth i 'nghalon drist ymloni;
 Ni chaf bellach ond eu clywed
 Imi'n cwyno fy mawr golled.

Siglo llaw yw'r holl gyfarchiad
 Allant roi yn mhob amgylchiad;
 Gafael ynwyf er fy nhywys
 Rhag im' droi i ffordd beryglus.

I WENOL

A nythai wrth ffenestr ystafell wely Tref Dderwen, Llansantffraid,
 yn Mechain, Mehefin 24, 1856.

Y WENOL dlos, arosa yn dy nyth,
 'Does neb a ddaw i'th aflonyddu byth;
 Mae'r teulu mwyn sydd yn y ty yn byw
 Yn caru'th wel'd—yn caru dy hoff ryw.

I'th gywion dod bob nawdd a help o hyd,
 Cyn myn'd o'r wlad i ardal werdd a chlyd;
 Ac os doi 'n ol i Gymru lân ryw dro,
 Bydd yr hen nyth i'w gael dan gwr y to:

Neu, os daw'r 'storm i'w ddryllio 'n ddarnau fil,
 Cei ail wneud lle i fagu dy hoff hil.
 Mae yn y ty rieni'n magu plant,
 Rhai sy'n llawn serch croesawant lawer cant.

Mae'r drws yn rhydd a'r cerbyd gwych a'r march
 I weision Ior i'w cyrchu mewn mawr barch;
 Boed nawdd y Nef i'r teulu dedwydd hwn,
 Na foed eu hoes yn flinder nac yn bwn.

ANWYBODAETH.

Y GWIR arwyddion o anwybodaeth
 Yw ffoledd, balchder a rhodesiaeth;
 Codi eu trwynau 'n uwch mae deillion
 Na'r rhai feddant eu golygon,

HEDDWCH A RHYFEL.

RHYFEL.

TREF heb ddynion, pentre 'n oddaith ;
 'Mwrdwr,' treisio, dystryw, anrhaith ;
 Rhoi dyn i ladd dyn na adwaena ;
 Wylo, ochain, eisiau bara ;
 Atal masnach, ymarfogi
 A chleddyfau 'n lle ysgrifelli ;
 Mathru'r cynyrch, lloggi'r teiau ;
 Dyma Ryfel ! Pwy na'i hwtiai ?

HEDDWCH.

Tref yn brysur, pentref dedwydd ;
 Maesydd ffrwythlawn heb ddim aflwydd ;
 Gwraig yn gwenu, plant yn siriol ;
 Cana'r gweithiwr yn feunyddiol ;
 Cynhauaf da, a ffermydd prysur ;
 Cledd yn rhydu, gynau'n segur ;
 Darfu gwag ogoniant brwydrau ;
 Dyma Heddwch ! Pwy na'i ceisiai ?

 Y CYFERBYNIAD—MAES Y GWAED A
 CHARTREF.

Er blinder er archoll, er syched a newyn,
 Rhaid gado'r clwyfedig yn 'sglyfaeth i'w elyn ;
 Heb neb i gyd-deimlo ond rhai fo'n cydfarw,
 Mae mam a thad anwyl o'r cyraedd i'w galw.

Myrdd,myrdd,sydd yn ochain--maellu yn ymffrostio ;
 Y clychau a genir—mae'r gweddwon yn wylo :
 Mae cyrff lladdedigion yn ymborth cwn gwancus ;
 A hwythau'r penaethiaid mewn gwledd orfoleddus.

Fe lenwir maes rhyfel â gwaedd rhai yn marw,
 Mae miwsig llon gartref a dynion yn feddw:
 Mae'r fwltur ar aden uwch ben maes y frwydyr,
 Ond llosgi coelcerthi mae'r rhai fu'n orchfygwyr.

Goleuant ffenestri, magnelau sy'n dartsain,
 Ni wylant am golli eu dynion eu hunain:
 Fe wisgir â llawryf yr arwr buddugol,
 Ond mathrir cyrff drylliog rhai syrthiodd yn farwol.

Yr arwr ddaeth adref heb golli un aelod
 Yn ngolwg yr ardal fydd byth yn rhyfeddod:
 Yr adyn a gollodd ei aelod neu'i synwyr
 Sy'n byw ar drugaredd neu help ei gydwladyr.

Fe sonir am fawredd gogoniant enillir,
 Anghofir bywydau'r trueiniaid a gollir:
 Fe lwythir y penaeth â theitlau a mawredd—
 Y dyn roes ei fywyd ni wyddir lle gorwedd.

HEDDYW AC YFORY.

HEDDYW, mae dyn yn wych ei wedd
 Ag aur caiff ei ddilladu;
 Wedi'i amdoi'n ngwisg y bedd
 Y bydd cyn nos y foru.

Heddyw, ymbortha wrth ei chwant
 Ar ddanteith mae'n ei garu,
 Wedi syrthio i'r dwfn bant
 Yn farwol bydd y foru.

Heddyw, mae mewn parch is rhod,
 Yn cael ei anrhydeddu;

Islaw anrhydedd parch a chlod
Cardotyn bydd y foru.

Heddyw, codi mae e'n wych,
O esmwyth wely manblu ;
Gorwedd wna yn wael ei ddrych,
Mewn gwisg o blwm y foru.

Heddyw, ei dŷ, er bod yn fawr,
Sy 'n llai nag mae 'n chwenychu ;
Wedi colli 'i rym a'i wawr,
Heb fwthyn, bydd y foru.

Heddyw, mae gweision wrth ei byrth,
Yn barod i'w was'naethu ;
Ei holl ogoniant eto syrth,
Heb neb y bydd y foru.

Heddyw, mae 'n hardd fawreddog un,
A phob peth i'w ddyddanu ;
Rhyw welw wedd, arswydus lun,
Fydd arno cyn y foru.

Nid ydyw oes y mwyaf llon
Ond dyrnfedd bach neu funud ;
Ar begwn gwan y foment hon
Y troa ein holl fywyd.

SEL HEB WYBODAETH.

TYB y cyfaill gwan, diniwaid,
Sy'n gwneud duw o'i sect ei hun,
Yw fod pob dawn a phob gallu,
Wrth ei enwad ef yn nglyn ;

Y dyn mwyaf o'r sect hono,
 Yw'r dyn mwyaf drwy'r holl fyd;
 Dyna'i feddwl *ef* am dano;—
 A raid ini blygu i gyd?

Pan yn brolio ei gyfeillion,
 Rhydd yn enw'r wlad ei farn,
 Fel pe b'ai ei dyb e'n mhobman
 Yn dderbyniol oll bob darn:
 Synu mae fod neb yn ameu,
 Nad gwirionedd yw'r ystwff;*
 Ond mae'r wlad yn deall, bellach,
 Ragor rhwng gwir glod a phwff.

Nid oes eisiau paentio'r lili,
 Na rhoi golchiad ar aur pur;
 Nid oes eisiau rhoi strydfachau
 O dan draed ein penaf wyr;
 Ond er cuddio twyll neu waeledd,
 Gallai paent wneud rhyw lesâd;
 Er ei ddwyn i fwy o sylw,
 Ac er dallu rhan o'r wlad.

Wedi'r codi, wedi'r brolio,
 Mae gan bawb o'r wlad eu barn;
 Ni fu hon am ungrwr eto
 Oll yn gyfan fel un darn;
 Y mae Paul, ac mae Apolos,
 Ac mae Cephas eto'n fyw;
 P'le mae'r dyn all nodi'r penaf,
 Yn anmhleidgar—pa un yw?

* That forms a lift or rise.

Y LLENCYN DALL.

RHOWCH wybod beth yw goleu'r wawr,
 Peth na cha'i 'nawr ei weled,
 Beth yw bendithion llygaid dyn,
 I lencyn dall, rhowch glywed?

Am bethau welwch'r ych chwi'n son,
 Y mawrion ryfeddodau ;
 Yr ych chwi'n dweud mai claer uwch ben
 Tywynna'r haulwen olau.

Teimlo 'i rym a'i ddirfawr wres
 Yn gynnes yr wyf finau ;
 Ond gwneuthur nos na dydd i'r dall
 Nis gall ef a'i belydrau.

Fy nydd a'm nos wy'n wneud fy hun,
 Wrth gysgu neu wrth ddeffro ;
 Pe gallwn fod yn effro o hyd,
 Cawn ddydd o hyd heb beidio.

Ag ochain trwm y clywaf chwi
 Yn cwyno i mi fy ngholled ;
 Ond hawdd im' oddef colled fawr,
 Sy'n mhell uwchlaw'r amgyffred.

Na foed i'r hyn, i'm byth, na ddaw,
 Ddystrywiaw 'nghysur dibrin ;
 Er bod yn ddall heb wawr un dydd,
 Mor ddedwydd wyf a brenin.

Os yn Mab Duw y mae fy nghred,
 Caf weled draw mewn eilfyd,
 Fwy nag a wela llygaid neb,
 Sef wyneb fy anwylyd.

ANERCH

I MRS. JONES, A MISS ELIZA EVANS, MAES TEG,

MORGANWG, 1855.

DEDWYDDWCH ichwi beunydd,
Ar hyd y flwyddyn newydd;
Yn siriol bo'ch dan nawdd eich Duw,
Ddwy odiaeth, yn byw'n ddedwydd.

Caed Mrs. Jones, a'i phriod,
Eu cadw uwchlaw trallod;
A nerth i fyw o dan yr iau,
A'i rhwymau 'n ol yr amod.


Eliza fo'n cynyddu
Mewn rhinwedd a phob gallu;
Yn addurn hardd o fewn y fro,
Hyd fyth y bo heb fethu.

Mae ganddi lwybrau llithrig,
I'w tramwy dros ychydig;
Rhoed byth ei phwys ar Iesu'i phen,
Sy'n Geidwad bendigedig.

DAGRAU YN SYCHU.

MAE tri pheth a sych yn fuan
Yn mhob rhyw, ac yn mhob oedran;
Dagrau plant, a dagrau meddwon,
Dagrau rhith grefyddwyr deillion.

CANIADAU CREFYDDOL.



SYLWEDD Y CYSGODAU.

HAD y wraig oedd Crist o'r cynfyd,
Ac ar hyn bu myrdd yn byw ;
Ac fe roed cysgodau tywyll
I egluro dydd Mab Duw ;
Bustych ieuainc a aberthid,
Ac ŵyn blwyddiaid rif y ser ;
Teirw, geifr, a glan ddurturod,
Ac offrymau ffrwythydd per.

Aur ac arian creadigaeth,
Meini onix, sidan glas,
Llian main, a lleni porphor,
Er rhagddangos trefniant gras ;
Bwch diangol, tir neillduaeth,
Dwfr rhedegog, a mor tawdd ;
Tusw isop a golchiadau,
Darllen hyn nid oedd yn hawdd.

Gwaed mewn cawg, taenellu'r llyfrau,
Olew santaidd oedd mewn bri ;
Clych wrth odre yr offeiriad
I ragddangos ein Crist ni ;

Myn'd i'r cysegr santeiddiolaf,
 Llenwi'r lle ag arogl darth ;
 Gwaed daenellid ar blant Israel
 Er mwyn ceisio tynu'u gwarth.

Ond nid oedd y rhai'n ond cysgod,
 Cysgod gwan o bethau i fod ;
 Ni ddangosid Crist yn eglur
 Er cael mana o liw'r od ;
 Arch a llechau, trugareddfa,
 A cherubiaid hardd eu drych ;
 Urim, Thumim, a dwyfroneg
 Oeddynt dywyll, er mor wych.

Codid proffwyd ar ol proffwyd
 I'w gyhoeddi ef a'i ddydd ;
 Rhei'ny'n gwel'd o bell ei eni,
 Wrth ddefnyddio drychau ffydd ;
 Ond o'r diwedd daeth yr amser
 I'w wel'd ef mewn isel ddrych ;
 Wedi ei eni heb un llety ;
 Gyda'i fam yn llety'r ych.

Syned Nefoedd, syned daiar,
 At olygfa o fath hon,
 Gwel'd Creawdwr yr angelion
 Yma'n faban ger eu bron ;
 Taenu'r Gogledd ar y gwagle,
 Rhwymo Orion a wnaeth ef ;
 Crogodd ser yr uchelderau,
 Rhoddodd fod i haul y nef.

Mae'r anialwch maith a'r creigiau
 Ger ei fron yn crynu i gyd ;

Mellt ni ruthrant heb ei genad
 Hyd derfynau eitha'r byd;
 Gallu'r t'wllwch, uffern obry,
 A'r cythreuliaid sy'n ei law;
 Pan lefara crea ddychryn
 Drwy ororau'r byd a ddaw,

Eto teithiodd heibio i fydoedd
 O ardaloedd gwynfyd pell,
 I ddyfnderoedd tlodi dynion,
 Er eu dwyn i gyflwr gwell;
 Aeth i'r draul i gyd ei hunan,
 A dyoddefodd angau loes;
 Y cysgodau ffoent o'r golwg
 Pan fu farw ar y groes.

Y DISGYNIAD AR SINAI.

Ei fantell ewmwl oedd,
 A mellt a'u fflamgoch wawr,
 A'i brif gyhoeddwr ef
 Oedd galarm udgorn mawr:
 Ac adsain groch y daran gref,
 Yn rhuo'n drwm nes siglo'r nef.

Ar asgell corwynt daeth,
 A'r mynydd, rhag ei wg,
 Amdowyd hyd ei frig,
 A thyrech o dan a mŵg,
 Pan y disgynai'r cadarn Iôr
 Sy'n rhodio gwynfrig donau'r môr.

A! fe lefarodd ef,
 A'r ddaiar oll oedd fud;

A dystaw, fel y môr,
 Pan baid ei gyffro i gyd ;
 Neu, fel gwna'r nos ddystewi cerdd,
 Yr adar yn y goedwig werdd.

Fe roes ei gyfraith lem
 Mewn tanllyd air o'i law ;
 A holl genedloedd byd
 A grynent oll gan fraw,
 Wrth glywed llais gorch'mynol Duw
 Fel taran gref wrth ddynol ryw.

I'r ddaiar daeth, drachefn,
 O'r Nef mewn agwedd dyn ;
 Tra dirmygedig oedd,
 Fe'i darostyngai'i hun ;
 Newidio'r goron fflamlyd wnaeth,
 Am goron ddrain, er prynu'r caeth.

Y gyfraith hōno roes
 A gadwai'n awr ei hun ;
 Agorai'r ffordd i'r Nef,
 I edifeiriol un ;
 Aberthu'i fywyd wnaeth yn Iawn,
 Gael rhoi i'r ddeddf foddlonrwydd llawn.

Daw eto yr ail waith,
 O'i flaen pob gorsedd syrth,
 A bydd pob man mor fud
 A'r bedd, a'i ddystaw byrth ;
 Neu rhaid ei adde'n Arglwydd mawr
 Pawb oll—os clywir llais yn awr.

Ymsigla'r nef a'r llawr
 Hyd eu canolbwnc hwy ;
 A'r greadigaeth oll,
 I fywyd llawer mwy
 A gwyd—a dygir hon i gyd
 Ger bron Jehofah, barnwr byd.

POB PETH YN LLEFARU AM DDUW.

Mi syllais ar y graig
 Mewn eira byth sy'n nghudd ;
 Ac ar y blodyn tlws
 Wrth odre hon y sydd ;
 A'r clogwyn aruchel, a'r isel flodeuyn,
 Eill dau a ddadguddiant Hollallu diderfyn.

Fe glywais ru y mor
 A'i dwrf yn codi braw ;
 A'r ffrwd yn araf iawn
 Yn myn'd i'w wely draw ;
 A'r mor mawr a'r ffrydlif yn nghyd a fynegant
 Am Dduw eu Creawdwr o hyd tra'r ymroliant.

Gofynais i'r haul claer
 Dywynai ganol dydd,
 A'r ser fil myrdd y nos
 Yn gloewi 'r nen y sydd ;
 A'r ser oll a'r haulwen y wers yma ddysgant
 Mai gan Dduw eu golau i gyd oll dderbyniant.

Fe welais y pryf bach
 Yn myn'd drwy dom a llaid ;
 A dyn ger bron y Nef
 Yn codi 'n syth a gaid ;

Ac eto y pryfyn a'r dyn sydd yn gwisgo
Ol llaw eu Creawdydd, efe fu'n eu llunio.

Fe dreiddiais galon dyn,
Teimladau 'r enaid drud,
A chefais ateb gwir
I'r gofyniadau i gyd,
Y rhai mewn acenion difrifol ddywedant
Mai o Dduw y daethant, mai at Dduw dychwelant.

DYODDEFAINT CRIST.

Bu ar ei wyneb hardd,
Yn drist wrth oleu'r lloer,
Yn chwysu yn yr ardd
Ei waed ar noswaith oer;
Dolefai'n gryf, a'i ddaagrau'n lli,
Dan ddirfawr bwys fy meiau i.

Yr heilltion ddafnau gwaed
A gochai'r eira gwyn;
Cadd boen o'i ben i'w draed
Cyn hongian ar y bryn;
Angelion Nef ryfeddai'n awr,
At ing a chwys ein Ceidwad mawr.

Y cusan oedd yn loes
Mwy llym na'r hoelion dur;
Deddf dafnau chwerw roes
Yn nghwpan Meichiai pur;
Pwy fesur byth yr ing a'r brath
Drwy'i enaid glan—ni bu ei fath?

Ni welodd lloer y nen
 Olygfa ail i hon ;
 Fe siglai'r nef uwch ben,
 A chrynodd daiar gron ;
 Ar agor oedd i lyncu'n fyw
 Elynion creulon Crist ein Duw.

Bu wed'yn, yn y llys,
 Dan boeredd, gwarth a chur ;
 Ac ol y gwaedlyd chwys
 Ar hyd ei ruddiau pur ;
 Ac ar ei ben rhoed coron ddrain,
 Oedd ddyfnach loes na'r bicell fain.

Ar groesbren hoeliwyd ef,
 Yn nghrog rhwng nen a llawr ;
 Pryd hyn fe dduai'r nef,
 Cynyrfodd uffern fawr ;
 Ond cafodd ef drwy rin ei waed
 Alluoedd uffern oll dan draed.

Os crynodd Sina i'w sail
 Pan roddes ddeddf o'i law ;
 Pan drengodd Adda'r ail
 Fe lanwyd byd â braw ;
 Fe guddiai'r haul ei wyneb trist
 Rhag edrych ar ddyoddefaint Crist.

YN Y BYD GORTHYMDER A GEWCH.

Os cefais fy nghyfran o boenau,
 Wrth deithio ffyrdd geirwon y byd,
 Pe gallwn fyn'd drwyddynt hwy eto,
 Cael llai, ni ddymunwn un pryd ;

Pe gallwn i gyraedd porth angau,
 Sy'n dywyll, hyd lwybr heb ddraen,
 Mor dlawd, ac mor isel y gallwn,
 Gyfarfod y byd sydd o 'mlaen.

Mae grasau fel tân cyneuedig,
 A lysg mewn oer awyr yn llym ;
 Yr hwn o dan belydr yr haulwen,
 Ddiflana, a dderfydd yn ddim ;
 Nid ydwyf yn caru gofidiau,
 Pwy garai fawr boen calon friw ?
 Pwy eto faidd wrthod y gwpan
 Fesurodd doethineb fy Nuw.

GWAED YR OEN.

Ff agorwyd ffordd gyfreithlon,
 Trwy waed yr Oen,
 I ryddhau trosedd wyr caethion,
 Trwy waed yr Oen ;
 Gwelir miloedd wedi'u golchi,
 Draw yn glanio tir goleuni,
 Heb frycheuyn chwaith na chrychni,
 Trwy waed yr Oen ;
 Peraidd bynciant haleluia
 Am yr Iawn roed ar Galfaria ;
 Cofiant byth eu llwyr ddiangfa,
 Trwy waed yr Oen.

CARIAD DUW.

Mae Cariad Ior yn destun gwych
 I fynych son am dano ;
 Ni fydd tragwyddol Nefoedd Duw
 Yn ddigon i'w egluro.

Y CYNHAUAF, 1831.

CORONODD Duw y flwyddyn hon
 A'i dirion drugareddau;
 A moliant, a gogoniant per,
 O! llanwer ein calonau.

Hawdd iawn fuasai i Dduw Ion
 Ein taro'n llym a mallder;
 Ond yn lle hyny caem fwynhau
 Ei drugareddau lawer.

Oerni a gwres, y gwynt a'r gwlaw,
 Sydd iddaw yn genadon;
 Defnyddio'r rhai'n a all ein Rhi
 Er cosbi ei elynion.

Ond yr elfenau roes ein Ner
 Yn dyner i gydweini,
 Er llenwi'r ddaiar â mawr lwyth
 O bob rhyw ffrwyth eleni.

ETO.

I Dduw'r cynhauaf, santaidd Fod,
 Ag uchel lais dyrchafwn glod;
 O'r dolydd oll, ei fawl a dardd;
 Y gwyrddlas fryn, a'r dyffryn chwardd.

Y goedwig a ddyrchafa'i llef,
 Gan ddwyn ei theyrnged iddo ef;
 Y ffrydiau grisial llawenhant,
 A chanmol Duw yn uchel wnant.

Cyflawnder mawr arlwyodd Duw
 Ar gyfer pob creadur byw;

Chwi feirch, ac ychain, defaid, wŷn,
Rhagluniaeth a'ch cofleidia'n fwyn.

Yr adar bach, nesewch heb fraw,
Jehofah mawr agora'i law ;
Coronodd ef y flwyddyn hon
A'i fendith, a'i ddaioni yn llon.

Coed firwythau per, a thir yr ardd,
A wisgodd ef â thrymlwyth hardd.
Y gwinwydd, a'r grawn sypiau per,
Dyrchafant glod yr Arglwydd Ner.

Agorodd ddrws i'r isel tlawd,
Grawn yd bob math o'i 'stordai gawd ;
Ei wynt a'i wlaw, ei wlith a'i wres,
A wnaent eu gwaith oll er ein lles,

A, ddyn ! tydi sy bella'n ol
O dalu'r parch—pa'm 'rwyf mor ffol ?
Deffroed, deffroed, holl ddynol ryw
I roddi clod i'r Arglwydd Dduw.

PENILLION

A gyfansoddwyd erbyn y Gynadledd o Weinidogion, yn
Nghaerynarfon, Rhag. 1. 2, 1841.

I

Yr Arglwydd bia'r ddaiar gron,
A'r bobloedd oll breswylant hon,
Darparu mae i'r rhai'n i gyd,
Bob angenrheidiau ar bob pryd.

Gall droi'n ei ol y newyn du,
 O'i flaen, y pla, a'r haint, a ffy ;
 A'i lin, a'i wlan, mae'n gwisgo'r noeth ;
 Pwy ddarpar fel Rhagluniaeth ddoeth ?

 2

TEYRNASU byth mae'r Arglwydd Ion,
 Tylodion fe'u hamddiffyn :
 Down at ei borth, a'n cwyn wrth raid,
 Drueiniaid, ef a'n derbyn.

Rhag pla, rhag haint, rhag newyn du,
 Gall drefnu llwyr ymwarded :
 Rhown bawb ein hachos ger ei fron,
 Cawn ganddo dirion nodded.

 3

GWRANDAWA'r Ion ar gwyn y gwan,
 Mae'r Iesu'n eiriol ar ei ran ;
 Gall wlawio bara fry o'r Nef ;
 Fe wel ein cam, fe glyw ein llef.

Beth ydyw cyngor dynol ryw,
 A'u rhwymau caeth o flaen y Duw,
 All droi'r Iorddonen yn ei hol ?
 Dyrysu wna'u hamcanion ffol.

Na rown ein pwys ar fraich o gnawd,
 Mae'r Iesu mwyn i'r gwan yn frawd ;
 Cydoddef all â'n gwendid ni,
 Fe sych ein dagrau, gwrendy'n cri.

MAE gan Naf 'stordai yn ddi ri'
 I hwyr ddigoni gweiniaid :
 Llawnderau dirfawr fel y mor
 Sy gan ein Ior bendigaidd.

A nerth ei fraich, a'i gadarn law,
 Gall ddrylliauw iau'r gorthrymydd ;
 O! d'wedwn bawb ein cwyn wrth Dduw,
 Ef ydyw ein Gwaredydd.

AM DRUGAREDDAU TYMOROL AC
 YSBRYDOL.

(*EMYN PLENTYN.*)

O'R nifer mawr ar hyd ein tir
 A welir o dylodion !
 Pa beth a dalaf fi i'm Nêr,
 Am lawnder o gysuron ?

Ni haeddais fwy na hwy o ddim,
 Ond rhoddodd Duw im' hyny ;
 Mae genyf ymborth, pan mae rhai,
 Hyd ddrysau'r tai, bron rhynu.

Pa rif o blant o ddydd i ddydd
 Y sydd a'u crwyn yn noethion ?
 Minau o'm pen i'm traed yn glyd
 Ar rewlyd ddyddiau oerion.

Pan nas gall rhai ddweud yn mha le
 Bydd eu gorwedde am noswaith,
 Mae genyf gartref eithaf clyd,
 A gwely hyfryd glanwaith.

Pan mae rhai plant yn cael o'r bru
 Eu dysgu i wneud pob drygau,
 Fe'm dysgir i, O Arglwydd Iôn!
 I rodio'n ol dy ddeddfau.

Ai'th ddoniau yw y rhai'n i mi,
 Fy Rhi, goruwch pawb arall?
 Gan hyny 'th garu'n well na hwy
 Y byddaf mwy yn ddiball.

EMYN ANGLADDOL GWRAIG
 RINWEDDOL.

TRIST meddwl rhoi'i chorff i'w lwyr gau
 Dan gaerau a barau y bedd;
 Hi fudodd o gyraedd pob loes,
 Gorphenodd ei heinioes mewn hedd;
 Caiff orphwys yn mynwes y bedd.
 Nes gadael ei gwaeledd i gyd;
 Perffeithio ei phabell, ryw ddydd,
 Yn hollol, wna Barnydd y byd.

I'w llwch, ni ddaw tristwch, un tro,
 Ac ni cheiff ei blino gan bla;
 Ei henaid ger bron Duw'n ei lys
 Ei foli e'n hwylus a wna:
 Gadawodd y ddaiar o'i bodd,
 Aeth ymaith, gorphenodd ei phoen;
 Trwy'r anial ei chysur a'i nerth
 Oedd gwledda ar aberth yr Oen.

Daw'r diwrnod i'w hynod ryddhau,
 Pan egyr y beddau heb oed;

Ni welwyd fath adeg a hon
 Na thebyg arwyddion erioed ;
 Cyfodir y saint o'u hir drig,
 Mewn gwedd anllygredig a grym ;
 Gadawant byrth angau a'r bedd
 Heb ofni'i ddigllonedd tra llym.

TY YR HIR GARTREF.

NID dyma'r tir y byddai'n hir yn byw,
 Rhydd angau'i wys—ei drem arswydus yw ;
 Fy mhabell frau a'i seiliau, diau, dyr,
 A'n wael ei gwedd, i dy'r oer fedd ar fyr,


Gwna'r bedd ei ol, pob siriol wyneb syrth ;
 Does tegwch gwiw yn bod o fewn i'w byrth ;
 Ty'r annrhefn mawr, a'r dirfawr d'wllwch du ;
 Pruddglwyfus yw, pob golwg arno sy.

Ond tyr y wawr, a chwalfa fawr a fydd,
 Ar ogofâu'r priddellau trwm ryw ddydd ;
 Adgodiad gwych, yn harddwych mewn llawn hedd,
 Gaiff plant Duw Ion, er bod yn eigion bedd.

CYFLYMDRA AMSER.

MAE amser yn rhedeg, un wedd a llifeiriant ;
 Ei droellawg olwynion wrth neb ni arosant ;
 A ninau a gipir drwy'r byd a'i oferedd,
 I ail hanfodolrwydd mewn hirfyd diddiwedd :
 Y mae pob munudun yn dweud, wrth fyn'd heibio,
 Yn iach it' gydymaith, ni'm gweli byth eto.

M A R W N A D A U .



GALAREB A GYFANSODDWDYD AR FARWOLAETH Y
DIWEDDAR

BARCH. CHRISTMAS EVANS.

GYFAILL anwyl, i b'le'r aethost!
A oes gobaith dy wel'd di?
Mawr yw'n hiraeth am dy gwmni,
Tywallt miloedd ddagrau'n lli';
Siwrnai hirach nag arferol
Ydyw'r siwrnai farwol hon;
Siwrnai i gladdu pob blinderau,
A gofidiau rwygai'r fron.

Wrth wneud cynllun o dy deithiau
Heibio i'r hen gyfeillion cu,
Prin dysgwylliaist weled angau
Yn dy gwrdd â'i arfog lu:
Teimlo'i ergyd ar làn Tawy,
Ge'st yn farwol dan dy fron;
Cwmpodd angau gawri nerthol,
O dy flaen, ar lànau hon.

Harris enwog, a'i fab Ieuan,
Iwan hefyd aeth i'r bedd;
Wrth derfynu oes y rhai'ny
Ca'dd mewn brasder drochi'i gledd;

Gwisgo prudd-der trwm hyd heddyw
 Mae'r wlad eto o'u hol hwy;
 A dy gwympo dithau i'r beddrod
 Sydd yn ail ddyfnhau y clwy'.

Mordaith esmwyth ge'st i groesi
 Nes cyraeddyd draw i'r làn;
 Iesu mawr, yr Archoffeiriad,
 Yno'n dàl dy enaid gwan;
 Llestyr gyfa dan ei hwyliau
 Aeth i fewn i'r porthladd pell,
 A'r angylion yno'n barod
 I'th groesawu i'r wlad well.

Pa beth oedd yr olwg gyntaf
 Dynai'th sylw yn y Nef?
 Ai myn'd heibio i bawb a wnaethost
 At ei ystlys anwyl ef!
 Mynu gweled ol yr hoelion
 Yn ei ddwyllaw ef a'i draed,
 Er cael testun newydd yno
 Byth i ganu am y gwaed.

Soniaist lawer am Galfaria,
 Am y frwydr fwya' erioed,
 Pan ga'dd Iesu ag un ergyd
 Ddreigiau uffern dan ei droed;
 Heddyw gweled y Gwr hwnw
 Gei mewn urdd a pharch a bri;
 Dyro wybod, am un munud,
 Beth, yn awr, yw'th deimlad di?

Bu'n calonau 'n llosgi ynom,
 Wrth dy glywed lawer gwaith,

Yn trin aberth y Cyfryngwr,
 Trwy rym dawn a dynol iaith;
 Ond fe hoffem gael cip olwg
 Arnat ti wrth orsedd Nef,
 A dy glywed, heddyw, 'n datgan
 Gwerth ei angau poenus ef.

Ydwyt bellach wedi'th danio
 Wrth gael golwg heb un llen,
 Ar y person mawr anfeidrol
 Brofodd angau ar y pren;
 A raid aros heb dy glywed,
 Yn darlunio dim o'r wledd,
 Nes i angau, brenin dychryn,
 Ddwyn ein cyrff i byrth y bedd?

Pa gyfeillach ge'st ag Adda,
 Yn nghylch codwm Eden draw,
 A'r addewid dirion hòno,
 A afaelodd yn ei law;
 A roes Noah iti hanes
 Am ddrygioni yr hen fyd,
 A'r ddarpariaeth hynod gafodd
 I'w waredu ef mewn pryd?

Beth mae'r Patrieirch yn ddywedyd
 Am yr aberth mawr a gaed?
 Pa beth ydoedd eu teimladau
 Cyn i'r Iesu roi ei waed?
 Beth oedd natur cenadwri
 Moses ac Elias gynt,
 Ar ben Tabor, gyda'r Iesu,
 Cyn gwynebu'r farwol hynt?

Gweli Rowlands fawr Langeitho,
 Roberts, Clynog, gryf ei ffydd;
 Lewis Rees, a Richard Tibot,
 Cawri enwog yn eu dydd;
 Y ddau Williams, Watts, a Doddridge,
 Doctor Owen, dreiddiwr llym,
 Whitfield danllyd, Wesley dyner,
 Dafydd Morris fawr ei rym:

Andrew Fuller, Joseph Harris,
 Booth, a Herring ddoniol iawn,
 Dafydd Jones o Aberteifi,
 Robert Hall, a'i lestyr llawn;
 Charles o'r Bala, Jones o Ddinbych,
 Roberts, gynt o Lanbrynmair,
 A mil myrdd o dduwinyddion,
 O'r radd uchaf, yna gair.

Rhyw gyfeillach bur sy rhyngoch
 Wedi cyraedd tir eich gwlad,
 Pawb yn canu am yr uchaf
 Am yr iechydwriaeth rad;
 Pob gwahaniaeth wedi darfod,
 Neb mewn golwg ond efe,
 Roes ei fywyd ar Galfaria,
 I'w aberthu yn eich lle.

Beth yw trefn eich cymanfäoedd,
 Yn yr ardal lonydd fry?
 Beth yw'r pynciau drinir genych,
 Ger bron torf angylaidd lu?
 Ai nid hoff yw troi dalenau
 Llyfr arfaethau y Duw mawr,

Darllen pethau oedd yn ddyrys,
Tra'r ymdeithiech ar y llawr?

Llawer cwlwm fethech ddatod
Sydd yn awr yn hollol rydd;
Troion dyrys dwfn Ragluniaeth
Welwch oll yn ngoleu'r dydd:
Hoff yw genyt CHRISTMAS enwog,
Fry o ganol rhai'n i gyd,
Gael cip drem dros furiau'r ddinas
Ar dy deithiau yn y byd.

Cofi byth y diwrnod hwnw
Teimlai d'enaid ryddid llawn,
A'r gorfoledd lanwai d'ysbryd
Wedi gorphwys ar yr Iawn;
Pan ddystawai t'ranau Sinai
Yn ngruddfanau angau'r groes,
Ac y cefaist le i anadlu
Trwy roi'th bwys ar farwol loes.

Cofi byth yr hen awelon,
Gefaist ganwaith yn y byd,
Wrth gyhoeddi aberth Iesu,
A gwerth mawr ei angau drud;
Nes y llefai dynion ganoedd,
Am eu bywyd yn yr Iawn;
Tân gorfoledd lanwai d'enaid
Wrth bregethu'i drysor llawn

Gweinidogaeth danllyd, effro,
Ydoedd genyt ar y llawr;
Llawer ergyd fel daeargryn
Ro'ist er siglo bach a mawr;

Dawn i doddi'r galon galed
 Drwy ddylanwad ysbryd Duw;
 Sobri'r gwamal wnae'th leferydd,
 A sirioli Sion wiw.

A! mor nerthol dy ddychymyg,
 Aden angel feddai hwn,
 Dringai i uchel wlad y gwynfyd,
 Chwiliai bob parth o'r byd crwn;
 Cyfoeth natur a yspeiliai,
 Casglai flodau o bob gwlad;
 Troes hwynt oll er gosod allan,
 Fawrwerth iechydwrriaeth rad.

Dan astudio trefniant achub
 Yr ymlwybrai i làn y bedd,
 Newid gwlad, nid newid gorchwyl,
 Ga'dd wrth fyn'd i wlad yr hedd;
 Yn ei wisgoedd cysegredig
 Yr wynebai angau du,
 Dan ei goron, diangai adref,
 I ardaloedd gwynfyd fry.

Chwith i Gymru gladdu'i gwron,
 Un o'i chawri enwog iawn;
 Cofiai fechgyn y diwygiad,
 Dull eu hoes, a nerth eu dawn;
 Marwor tanllyd oddiar eu hallor,
 Daniai'i enaid ef drwy'i oes:
 Wedi'i gladdu, beth wnawn bellach?
 Un o'i gyfryw ef nid oes.

Dyma ddiwedd y dawn hwnw,
 Roe y wlad i gyd ar dân;

A ddisgynai fel gwynt nerthol
 Nes gwnai i'r goedwig blygu'n lân ;
 Un o udgyrn canrif arall
 Ydoedd CHRISTMAS, ar ei hynt,
 A adawyd in' fel engraff
 Beth oedd doniau Cymru gynt.

Tynu sylw tywysogaeth
 Wnai ei ddawn lifeiriol gref ;
 Pwy'n fwy addurn i gymanfa
 Ar esgynlawr nag oedd ef
 Yno traethai am oludoedd
 A mawr gyfoeth angeu loes,
 Nes gwnai'n dwym galonau miloedd
 Wrth nesâu at odre'r groes.

Anhawdd byth fydd im' anghofio
 Grym ei feddwl, nerth ei ddawn ;
 A'r difyrwch gefais ganwaith
 Yn ei gwmni siriol iawn ;
 Ei sylwadau darluniadol
 Oeddynt natur bur bob un ;
 Ei hyawdledd annherfynol
 Oedd arbenig iddo ei hun.

Pe cawn gyraedd Abertawy,
 Wylwn ddeigryn ar ei fedd ;
 Bydd yn chwith im' dramwy heibio
 Heb gael golwg ar ei wedd ;
 Sw'n llifeiriol ffrwd ei ddoniau
 A ddystawodd yn y glyn ;
 Gorwedd mae mor fud ag ereill,
 Anerch neb o'r bedd ni fyn.

Y dwfn-dreiddiawl lygad tanllyd
 A chwareuai yn ei ben,
 O'r hwn ffrydiai hidl ddagrau,
 Wrth goffâu am Grist ar bren ;
 Hwnw gollodd ei fywiogrwydd,
 Darfu'n llwyr ei siriol wawr ;
 Mae'i law gywrain fu'n ysgrifenu
 Wedi fferu yn y llawr.

Ebenezer,* gyfaill hawddgar
 Aeth yn fuan ar ei ol ;
 Bron na chawsant gydfyn'd adref,
 A chan engyl eu cyd nol ;
 Buont yma ar y ddaiar
 Yn gyfeillion agos iawn,
 Ond yn Salem, uwch law gofid,
 Mae'r gyfeillach yn fwy llawn.

Rhaid i ninau frysio atynt,
 Nid yw'r oes i hir barhau ;
 Er pob trafferth a helyntion,
 Diwedd ddaw i'n dyddiau brau ;
 Gweddw Evans sy'n drallodus,
 Am ei chydmar siriol wedd ;
 Teulu hawddgar Ebenezer
 Wyla'n hallt ar lan ei fedd,

* Mr. Ebenzer R. Jones, mab i'r Parch. Daniel Jones, o Le'rpwl, gwr ieuanc gobeithiol iawn, yr hwn oedd gyfeillgar dros ben â Mr. Evans, ac oedd yn Abertawy ddydd ei gladd-edigaeth; bu yntau farw yn fuan ar ei ol, er mawr alar i'w anwyl deulu, ac i lu o gyfeillion, ac yn mhlith ereill i'r awdwr.

MARWOLAETH MR. JOHN HUXLEY,

Pregethwr parchus gyda'r Trefnyddion Calфинаidd yn nhref
Caerynarfon, yr hwn oedd un o brif gyfeillion yr awdwr
am lawer o flynyddau, a barai gyfansoddiad y gân hon.

O, GYFAILL, O gyfaill! rhinweddol,
Wyt heddyw mewn llawer gwell byd,
Dy alar, dy ofid, a'th dristwch,
A'th boenau sy drosodd i gyd;
Pa olwg, pwy welaist ti gyntaf,
'Nol croesi y dwr i'r lan draw,
Ai angel, ai'r Iesu ei hunan,
Afaelai yn fwyn yn dy law?

Beth yw dy syniadau di bellach,
Am fawredd gogoniant y llys?
A ydym ni'n gofyn cwestiynau
Am hyny ar ormod o frys?
Ai Nefoedd yn ol dy ddychymyg,
Yw Nef y gogoniant a'i bri?
Ai ynte tu draw i amgyffred
Mae pob peth ddatguddiwyd i ti?

A gefaist ti hamdden i edrych
O'th gwmpas, ar engyl a saint?
Beth dd'wedodd hen Batrieirch y cynfyd
Wrth wel'd i ti gael y fath fraint?
A fu dim ymddyddan mwyn rhyngot
Ag un o'r dysgyblion fu'n 'r ardd?
A ydyw dweyd hanes y Nefoedd
Yn beth sydd yn cael ei wahardd?

P'le'r eistedd y Prynwr fu'n golchi
Dy enaid yn lân yn ei waed?

A welaist ti ôl y dur hoelion
 Yn nghledrau ei ddwyllaw a'i draed?
 Sut goron yw coron yr Iesu,
 A gafodd yn lle coron ddrain?
 Pa effaith ga'dd gweled yr ystlys
 Drywanwyd â blaen picell fain?

A ydwyt ti'n nabod cyfeillion
 Oedd yna o'th flaen yn y wlad?
 A gefaist ti amser i'w cyfarch,
 'Nol cyraedd at orsedd dy Dad?
 Ai ynte a lyncwyd yn hollol
 Dy galon, dy feddwl, a'th fryd,
 Wrth syllu ar berson anfeidrol
 D'anwylyd—Iachawdwr y byd?—

Un ateb ni chlywaf oddiwrtho,
 Ei adael yn llonydd sydd well?
 A throi at wrthdrysychau nes atom,
 Mae'r ardal lle triga'n rhy bell:
 Dysgwylir nad ydyw'r ysgariad
 Fu rhyngom i fod yn hir iawn;
 Ond eto nid hawdd gollwng gafael
 O gyfaill, oedd gyfaill mor lawn.

Blyneddau, blyneddau laweroedd,
 Bu'i ysgwydd yn dŷn dan yr arch;
 Yn onest o du'i egwyddorion
 Y safai drwy anmharch a pharch;
 Ni cheisiai byth ryngu bodd dynion,
 Nag offrwm wrth allor y cnawd;
 Yn hytrach na hoelio'i gydwybod,
 Goddefai waradwydd a gwawd.

Fe gafodd ei ran fel pob Cristion .
 O gynen tafodau a chroes ;
 Fe gafodd ei Arglwydd, er hyny,
 I gynal ei feddwl drwy'i oes :
 Fel derwen y safai'n y ddryghin,
 Heb blygu, heb wyro o'i le ;
 "Drwg ddynion na thwyllwyr" nid allent
 Wneud niwaid i golofn mor gre'.

Fe soniodd gryn lawer am Iesu,
 A'r dagrau yn gwlychu ei rudd ;
 Ei galon a doddwyd â'i gariad,
 Ei aberth oedd bywyd ei ffydd ;
 Ond beth all fod teimlad ei enaid
 Wrth weled pob peth fel y mae,
 Ar fryniau gwyrddleision Caersalem,
 Lle nad oes na gofid na gwae ?

Arweiniwyd ef ganddo a'i Ysbryd
 Drwy daith yr anialwch bob cam ;
 Mae bellach yn gweled mai uniawn
 Oedd pob peth a dybiai e'n gam ;
 Os ydoedd ei ysbryd yn tanio
 Wrth feddwl am Iesu'n y byd,
 Beth raid fod ei serch erbyn heddyw,
 Mewn gwlad o ddedwyddwch i gyd ?

GALAR CADBEN W. HUGHES,

CAERYNARFON,

Ar ol ei frawd, Mr. Thomas Hughes, Morwr, yr hwn a fu farw yn
Brazil, Mehefin 10, 1852, yn 19 mlwydd oed.

CHWITH yw genyf, frawd anwylaf,
Golli golwg arnat ti ;
Teithiaist foroedd mawrion llydain,
Cilio wnest o'n cyraedd ni ;
Gwelaist ryfeddodau 'r dyfnder,
Teimlaist rym y gwynt a'r don,
Yn ymrolio fel mynyddau
Nes brawychu'th dyner fron.

Cest dy gludo gan y gwyntoedd
Draw yn mhell o dir dy wlad,
Nes y glaniaist mewn tir estron,
Lle nad oedd na mam na thad ;
Wedi 'th daro gan y clefyd,
Pwy oedd yno 'n dal dy ben ?
Pwy a dd'wedodd ffarwel wrthyt
Cyn ehedeg uwch y nen ?

O ! na chawsw'n fod yn agos
Cyn i'th lygaid orfod cau,
Gael im' wrando 'th eiriau olaf,
Er y b'aswn yn tristau ;
Sychu 'r chwys oddiar dy wyneb,
Cyn i'th enaid fyn'd i'w daith ;
Gwlychu 'th wefus gyda 'r bluen,
Gwylio drosot amser maith.

Gwel'd dy fedd, er gwlychu 'r tywyrch
 Gyda 'm dagrau hallt yn lli',
 Roisai imi fawr dawelwch,
 Gan na chawswn mo'not ti ;
 Ond fel arall yr ordeiniwyd
 Gan y Duw sy'n llywio 'r byd ;
 Doethach imi dewi heddyw,
 Gwneud yn iawn mae ef o hyd.

Yr oedd gwel'd dy gist a'th wisgoedd
 Wedi dyfod yma' n ol,
 Fel yn creu rhyw obaith ynof
 Nes braidd loni 'nghalon ffol ;
 Ond yn fuan argyhoeddwyd
 Holl syniadau 'm meddwl prudd,
 Mai hyn yma gawn ni weled,
 Hyd yr adgyfodiad ddydd.

Cafodd angau lawer cyfle
 I dy dori, 'mrawd, i lawr ;
 Pan y nofit mewn peryglon,
 Uwch ben tonau 'r eigion mawr ;
 Ond nid dyna drefn Rhagluniaeth,
 Rhaid oedd iti fyn'd i'r lan ;
 Rhaid oedd sefyll yn ei wyneb,
 Wedi cyraedd estron fan.

Cawsai'th gorff ei gadw'n hollol
 Yn ngwaelodion dwfr y mor,
 Mor ofalus ag mewn beddrod,
 Gan law fawr alluog Ior ;
 Ond dy osod gest i orwedd
 Dan dywarchen yn y bedd,

Clywi lais y Barnwr cyfiawn
Yn dy alw ar ei wedd.

Cwsg yn dawel yn y beddrod,
Deuwn ninau ar dy ol,
Gan lwyr adael byd siomedig
A'i deganau ysgeifn ffol ;
A dysgwyliwn dy gyfarfod,
Uwch yr haul ar fryniau hedd,
Mewn ardaloedd nad oes ofni
Gwyneb angau du na'r bedd.

PA BETH YW BARDDONIAETH?

POETRY is the art of expressing or illustrating ideas, arguments, characters, situations, moral essays, emotions and events, in clear, melodious, and powerful language, such as will place the subject in a new light, and is fitted to impress the minds of an audience, and to be remembered.

Rhyme, which is a handcuff to an inferior poet, he who is a master of his art, wears as a bracelet.—
SIR WALTER SCOTT.

Y MAE yr holiad uchod wedi cael ei ofyn lawer o weithiau, ond heb gael ei ateb yn foddhaol, hyd' yma, yn nghyfrif amryw a honant eu bod wedi talu rhyw sylw i'r wyddoniaeth farddonol. Y mae hyn i'w briodoli i fesur mawr i'r amrywiaeth barn sydd yn mysg dynion yn nghylch y mater. Yr ydym wedi darllen golgygiadau amryw ar y pwnc.

Prydyddiaeth, medd un,* os na chymerir mesur na ffurfiau rhyddiaith i fewn, yw y rhan hono o lenyddiaeth sydd yn cyfeirio at unrhyw beth sydd uwchlaw sylw neu syniad cyffredin, a pha beth bynag sydd uwchlaw pethau cyffredin yn ein profiadau, a'n meddylddrychau.

Y mae meddyliau rhai dynion yn ymroddi yn gwbl i ffurfio syniadau cywir am y pethau sydd yn bod mewn gwirionedd yn eu hymyl, ac am ddull eu bodolaeth, gan resymu yn gywir yn nghylch hyny. Y mae gan y frawdoliaeth hon ei llenyddiaeth, ond nid oes dim yn ddillyn, nac yn ddyrchafedig yn perthyn iddi:—traethodol hollol ydyw eu dull. Y mae llawer o ddynion gwyddoniaethol, ac athronyddol yn perthyn i'r dosbarth hwn yn gwbl: ac y mae llawer o ddynion cyffredin o ran eu meddyliau nad ydynt yn myned yn ddim uwch o ran eu syniadau na chyflawni y cylch o ddyledswyddau y maent hwy i fyned drwyddynt. Nid oes yn meddiant y cyfryw ddim o natur meddylddrych, ac o ganlyniad nid ydynt yn gallu ei fwynhau pan gynygir ef iddynt. Nid ydoedd Newton yn gweled dim yn Shakspeare, o herwydd nad ydyw efe yn profi dim, a cholffarnodd cyngor Greenock y gelfyddyd o farddoniaeth, am na byddai yn cynrchu elw fel y gwyddoniaethau ereill. Byd go farw a dilewyrch fuasai ein byd ni, pe buasai wedi ei ymddiried yn hollol i'r rhai na wyddant ddim am farddoniaeth, ac ydynt heb brisio dim am wybod am dani.

*Chamber's Journal.

Y mae y dosbarth yma yn gyffredin yn rhai na thwyllasant ddyn o geiniog erioed, ac na roisant geiniog i neb erioed; yn rhai nad ydynt byth allan o'u hysbryd, na byth yn eu hysbryd; yn rhai nad ydynt byth yn crio, na byth yn chwerthin; eneidiau pa rai sydd wedi eu doddi ar wastadedd difywyd, nid ydynt byth yn tori, na byth yn myned oddiar y rhail; ond y maent o'r naill ben i'r llall—o'u cryd i'w bedd—yn parhau i ymsiglo yn mlaen yn bur araf, a phur sicr; pur farw, ond yn nhresi y byd yn bur fuddiol o ran casglu a thyru.

Nid ydyw y bardd goreu yn grewr fel y dywedir; nid ydyw efe ond yn gweled ac yn teimlo yn ddwysach nac ereill. Y mae efe yn edrych o'i gwmpas ar ryfeddodau y greadigaeth; y mae efe yn treiddio i fewn i gelloedd y galon ddynol, ac y mae pob peth yn llefaru wrtho ef am rywun rhyfeddol o ran ei wybodaeth a mawr o ran ei gariad. Nid yn unig y mae yn rhaid i'r bardd weled yn is nag ereill, ond y mae yn rhaid iddo deimlo can ised ag y mae efe yn gweled; rhaid iddo ef weled nid yn unig fod y peth yn wir, ond rhaid iddo deimlo ei fod felly; ac onide pa beth bynag y gall fod ynddo ei hun, neu i arall, nid all fod yn brydyddiaeth iddo ef.

Y mae a wnelo cydmarieth lawer â barddoniaeth; megis y cydmarir boch goch i rosyn; gwddf gwyn i lili; neu y dywedir fod y ser fel blodau y nen; a blodau y ddaiar fel ser. I'r math yma o farddoniaeth y perthyn yr arallegol. Bu y dull hwn yn gwneud i fynu y rhan fwyaf o ystorfa rhai o'r beirdd Seisnig am amser. Edrychir ar DAITH Y PERERIN, yn perthyn i'r dosbarth hwn. Y mae pechod yn cael ei gyffelybu i faich, yr hwn sydd yn gwasgu ar ysgwyddau y Cristion, nes y mae yn myned at droed y groes. Y mae pangfa o ysbryd isel yn cael ei bersonoli fel cawr anobaith yn gafael ynddo, ac yn ei fwrw i garchargell.

Wrth sylwi yn gyffredin, canfyddwn fod llawer iawn o bethau mewn celfyddyd a natur yn rhy fawr ini i'w deall a'u hamgyffred. Er fod un miliwn yn beth hawdd ei gynwys yn y meddwl, ond nid allwn yn hawdd ffurfio meddylddrych am fyddin o filiwn. Y mae y fath fyddin yn destun rhyfeddod, ac yn destun barddonol. Gallwn yn hawdd ddychymygu pa faint yw milldir, ond nid all neb ffurfio dychymyg am bellder Sirius, ugain miliwn o filiynau o filldirau; Dyma yw yr aruchel (*sublime*) y sonir cymaint am dano; sef, peth sy tu hwnt i unrhyw feddwl allu ei amgyffred. Y mae gan hyny yn rhyfeddod. Gellir crynhoi prydyddiaeth i'r aruchel a'r hardd, neu y prydferth. Y mae yn eynwys pob peth

sydd oddiallan i'n profiad, a thu draw i'n meddyliau cyffredin. Nid oes dim barddoniaeth yn symudiadau dynion yn eu gorchwylion cyffredin. Nid oes neb yn teimlo dim yn ei gelfyddyd yn farddonol. Nid ydyw pethau i'w golygu yn meddu cymeriad barddonol ond pan edrychir arnynt yn wrthddrychol, ac yn y pelder; pan y mae rhyw gynorthwy er eu gwneud yn effeithiol yn rhagfeddianiad y meddwl, neu pan y mae y celfyddydwr llythyr-enol yn gwneud y fath ddetholiad o honynt, ac yn eu dwyn ger bron y llygad gyda'u gilydd, nes y pwysant yn effeithiol arnom. Nid ydyw profiadau cyffredin mewn bywyd yn farddonol ond pan fyddo rhywbeth anarferol ynddynt. Y mae marwolaeth y gweithiwr tylotaf yn farddonol. Y mae dychweliad bachgenyn i'w gartref, ar ol mordaith hir, yn farddonol. Y mae yr iaith a arferir gan y personau iselaf, pan fyddont yn llefaru dan effaith cynyrfiad, yn farddonol. Rhaid ini ar yr un pryd beidio meddwl mai bod yn anghyffredin, neu yn hynod, yn unig, yw bod yn farddonol. Y mae lluoedd o feddylddrychau anghyffredin yn ehwerthinus ac isel. Rhaid i'r egwyddor o harddwch fod wrth wraidd prydyddiaeth. Y mae y prydydd yn teimlo prydfferthwch naturiol a moesol. Y mae blodau gwasgaredig ar hyd wyneb y ddaiar, gogoniant y ffurfafen, nos a dydd, diniweidrwydd plentynawl a menywol, ysplenydd-der golygfaoedd celfyddydol, gerwinder golygfaoedd ac echryslonrwydd maes y gwaed, yn tynu ei sylw; ac nid ydyw yn colli golwg ar arafwch, gweddeidd-dra, uniondeb, gwirionedd, a phurdeb. Y mae y pethau hyn yn dyfod yn ddefnyddiau i'w gelfyddyd, ac o'r cyfryw bethau y mae barddoniaeth wedi ei chyfansoddi, er pan y mae wedi gwawrio gyntaf yn mysg dynion gwareiddiedig.

Gallai fod rhywun yn barod i ofyn i ba beth y mae barddoniaeth yn dda. Gellir ateb ei bod yn un peth yn ddyddorol, ac yn yr ail le yn coethi, ac yn dyrchafu y meddwl drwy y darluniau y mae yn roddi o'r hyn sydd uwch law y cyffredin yn uchel ac yn hardd yn y byd naturiol a moesol.

Y mae llawer o wahaniaeth barn yn mhlith dynion gyda golwg ar yr hyn sydd yn farddonol. Y mae rhai yn gwadu nad oes dim barddoniaeth mewn peth y mae ereill yn ei weled yn farddoniaeth i gyd. Gwedir yn bresenol nad ydyw llawer o ddarnau o waith Pope yn farddoniaeth, er eu bod yn cael eu cydnabod yn gyffredinol yn farddoniaeth o radd uchel, yn ei oes ef; ac yn cael eu cydnabod eto gan y rhan fwyaf. Yr achos o'r gwahaniaeth barn yma yw ysbryd pleidiol, neu un ochrog. Y mae llawer yn tueddu

yn bresenol i edrych mwy ar y syniadau, nag ar yr iaith a'r dull y gosodir y syniadau hyny allan drwyddynt. Y mae ereill am gyfyngu barddoniaeth at ryw un dull o farddoni. Nid oes dim yn farddoniaeth yn nghyfrif un, os na bydd yn arucheledd i gyd; na dim a foddia y llall, os na bydd yn deimlad i gyd; ond pe cymerai y cyfeillion hyn dipyn o bwyll gallent gytuno; oblegid y mae arucheledd a theimlad, prydferthwch a nerth, mewn barddoniaeth. Gellir galw barddoniaeth yn wirionedd wedi ei ysbrydoli gan deimlad, ac wedi ei auadlu i ffurfiau o harddweh ac arucheledd. Ceir mwy o goethder a theimlad yn gyffredin mewn barddoniaeth nag a geir mewn dim arall; yr hyn y mae y rhan fwyaf o'r rhai na wyddant ddim am farddoniaeth yn hollol amddifad o honynt. Gwrandawer ar ddau yn llefaru, sef, un heb farddoniaeth yn ei enaid, a'r llall sydd yn ei feddu, a sylwer pwy a effeithia fwyaf ar y teimlad, ac a ddyrchafa fwyaf ar syniadau yr enaid.

Gallem dybio wrth wrando ar rai yn son am farddoniaeth nad oes ond un math yn bod, sef, yr "aruchel"; ond y mae y rhai hyny yn groes iawn i syniadau Syr Walter Scott, yr hwn a ddifynwyd yn nechreu y traethawd hwn, a'r hwn sy'n awdurdod uchel. Dywed ef:—

Barddoniaeth yw y gelfyddyd o amlygu neu egluro meddylldrychau, rhesymau, cymeriadau, sefyllfaoedd, traethodau moesol, symudiadau a dygwyddiadau, mewn iaith glir, beroriaethol a grymus, yr hon a esyd y gwrthddrych mewn goleu newydd ac sydd yn gymwys i effeithio ar feddyliau gwrandawyr ac i gael ei chofio.

Dyna fel y dywed y gwr hwn, ac y mae pob peth a addefir yn farddoniaeth gan ddynion deallus yn y wyddoniaeth, yn cyfateb yn hollol i'w ddarluniad yn mhob iaith adnabyddus.

Pan gychwynodd yr awdwr ei yrfa farddonol, yr oedd y gynganedd a'r mesurau caethion, fel y gelwir hwynt, mewn bri mawr. Ni edrychid ar neb a honai ei hun yn brydydd Cymreig y pryd hwnw, os na fyddai yn deall y gelfyddyd o gynganeddu i raddau helaeth; ond dodid ef i lawr am rigymwr, gan nad beth fyddai ei alluoedd mewn ystyriaethau ereill. Golygid fod gallu cyfansoddi Englyn yn ddifai yn ddi gon o gymwysder i ddyn i gael ei ollwng i blith y beirdd, a'i gydnabod yn un o honynt. Gan fod rheolau barddoniaeth Gymreig mor hynod Gymreig o ran ei natur, a chan na feddai y rhan fwyaf o ymgeiswyr am yr anrhydedd barddonol, lawer o fanteision i gael addysg mewn ieithoedd heblaw iaith eu mamau, gellir tybied yn naturiol nad oedd sylw ymgeiswyr ieu-

hinc yn cyraedd nemawr bellach na chyleh yr iaith Gymreig, a chyleh ei barddoniaeth, yr hon a ystyrir y buraf a'r ardderchocaf yn y byd gan y beirdd yn ddiwahaniaeth, a chan bawb ereill nad oeddynt yn gynefin â gwaith beirdd estronol! Yn mhen ychydig flynyddau ar ol i'r awdwr ac ereill o'i gyfoedion gael eu haddef yn feirdd wrth fraint a defod beirdd ynys Prydain, yn Eisteddfod Caernarfon, yn Medi, 1821, bu cynwrf yn mhlith rhai o'r dosbarth ieuengaf o'r beirdd yn y Gogledd yn erbyn y mesurau; ac ysgrifonwyd amryw lythyrau gan CARWR RHYDDID, (Ieuan Glan Geirionydd), yn y *Gwyllyddydd*, i'w gwrthwynebu, y rhai a atebwyd gan GUTYN PERIS ac ereill. Pa fodd bynag, enill tir yn raddol a ddarfu yr ystyriaeth nad ydyw barddoniaeth i'w chyfyngu i lythyrenau, geiriau, a mesurau yn unig; ac anturiodd rhai o'r beirdd gyhoeddi cyfansoddiadau yn y gynganedd a chylymau dipyn llacach arnynt, a meddyliau dipyn eangach, sef, mwy, o 'grebwyll', ynddynt, nag oedd yn ngwaith yr hen feirdd; ond yr oeddynt ar yr un pryd yn cadw golwg ar reolau barddoniaeth y gynganedd.

Aeth yr hen feirdd oedd wedi eu swyno â thwrf cydseiniaid, ac a dybient y gynganedd gaethaf yn hanfodol anhebgorol i farddoniaeth, i chwerwi yn aruthrol yn erbyn y newydd-beth hwn; ac i ddyweud nad oedd y cyfryw a'i dilynai ddim yn feirdd; neu, os oeddynt nad oeddynt ond yn yr ail neu y trydydd dosbarth; nad oedd neb yn deilwng o'r enw bardd heb iddo ofalu am y cylymau a'r caethi-wed penaf yn ei gynganeddion; ac os nad oedd yn gampwr yn y cymeriadau a holl orchestion llythyrenol a chynganeddol y Gerdd Dafod. Er yr holl amharch a dywelltid ar y beirdd ieuainc, cymeroedd yr awdwr ei le yn mysg y rhai a garent ddiwygiad, ac oeddynt yn golygu fod barddoniaeth i'w chael mewn cynganedd-eddion heb fod yn bencerddawl, ac mewn mesurau rhyddion; ond ffaelodd efe hyd yma a gollwng ei afael o'r gynganedd, gan addef nad oes barddoniaeth i'w chael ond yn y cyfansoddiadau rhyddion yn unig. Goddefodd erlidigaeth yn y pen cyntaf o'i oes am addef fod barddoniaeth mewn llinellau heblaw y gynganedd fwyaf caeth; ac y mae yn goddef erlidigaeth yn y pen diweddaf o'i oes am honi fod barddoniaeth o'r iawn rywogaeth i'w chael yn y gynganedd, ac mai nid yn y bryddest y mae y cwbl yn hanfodi!

Nid ydoedd yr awdwr heb ganfod yn fore fod ymgais yn mhlith llawer o addolwyr y mesurau caethion i dywyllu cyngor, ac i gael gan y wlad gredu fod rhyw ddyfnderoedd a chywreindeb mawr yn y darnau barddonol nad oedd y werinos yn gallu eu deall; ac

nid ydyw efe heb ganfod eto fod llawer o ymdrech yn mhlith addolwyr rhyddid y bryddest, na feddant fawr o athrylith, i roi argraff ar feddwl y wlad fod rhyw arucheled, a rhyw odidawgrwydd anghydmareol o olwg y werinos yn y bryddest; ac mewn gwirionedd mai canu rhydd hollol yw barddoniaeth. Gall yr awdwr honi ei fod ef, yn mhlith y rhai cyntaf, os nid y cyntaf oll drwy y wasg, i ddangos y twyll a arferid gan addolwyr cynganeddion drwy y geiriau llanw a ddefnyddient; ac fod eisiau i bob gair gael rhyw swydd yn mhob llinell; ac nid ydyw wedi petruso mynegu ei farn fwy nag unwaith, na dwywaith, mai nid aur pur yw pob peth sydd yn ymrithio yn Nghymru yn y dyddiau hyn, dan enw pryddest. Y mae efe wedi bod hefyd yn lled lawdrwm ar rai o'r ymhonwyr rhagfarnlyd sydd ar y maes pryddestol. Ar yr un pryd y mae yn mhell ofeddwl nad oes rhai pethau prydfferth ar lun pryddest wedi ymddangos yn y Gymraeg; ond y mae efe heb ei argyhoeddi eto fod dim campwaith yn rhagori ar yr Awdl, wedi ei gael hyd yn hyn, a chymeryd pob peth i ystyriaeth: ac y mae yn ffael gweled y rhai sydd wedi cymeryd at y bryddest, yn ddiweddar, yn eu hen ddyddiau, wedi cyfansoddi dim sydd yn rhagori ar orchestion bore eu hoes yn y gynganedd. Y mae genym, y mae yn wir, lawer o ddynewared y Saeson, ond dynwarediad salw ydyw, heb ddim o yni, o goethder, na chrebwyll y Saeson. Buasai amryw ddarnau pryddestol Cymreig yn y dyddiau hyn, yr ymfrostir cymaint ynddynt, fel gwir farddoniaeth, wedi eu hysgrifenu o fodolaeth, neu wedi eu rhwygo yn gareiau a'u gollwng gyda phedwar gwynt y nefoedd, pe buasant wedi ymddangos yn yr iaith Seisnig. Y mae meddwl am y dasg o ddarllen llawer o'r pryddestau Cymreig yn arswydus; oblegid nad oes ynddynt ddim i dynu dyn rhagdo.

Anialwch gwag erchyll yw llawer o honynt, na fuasai un o bob mil o drigolion y dywysogaeth yn meddwl myned drwyddynt byth, nac yn meddwl dim am danynt, oni buasai fod braint lythyr sect yn nglyn wrth rai o honynt, na ryw gastiau wedi eu chwareu gydag ereill; er mwyn eu dwyn i sylw: ac eto wedi y cwbl nid ydynt ar gof na llafar gwlad; ond y maent yn cael llonydd perffaith tu fewn i gloriau y llyfrau yr argraffwyd hwynt ynddynt, heb neb yn meddwl aflonyddu ar eu mawreddogrwydd na'u hysplenydd-der! Nid felly y mae barddoniaeth o'r iawn ryw yn mhlith unrhyw genedl. Y wlad wedi'r cwbl sydd i benderfynu tynged pob peth, ac nid unrhyw un dosbarth o ddynion. Dymuniad yr awdwr yw gadael y ddau ddull o farddoni ar y maes, a

gadael i amser benderfynu pa un i'w fabwysio yn gyffredinol. Nid ydyw efe yn gallu canfod unrhyw ddaioni yn debyg o ddeilliaw drwy groes dynu. Os ydyw pleidwyr y bryddest yn tybio fod y genedl yn cael cam drwy fod rhai yn parhau i ddyweud fod barddoniaeth mewn awdlau, ac nad ydyw y bryddest yn debyg o fyned a'i lle yn fuan, gweithier egwyddor y pryddestwyr allan drwy ddyfod a rhywbeth i'r golwg fyddo yn rhagori ar awdlau. Rhoddwn i fynu yn union pan welom ragoriaeth; ond nid cyn hyny. Nid ydym ni wedi ein hargyhoeddi eto fod y pryddestwyr yn gyffredin yn deall pa beth a feddylir wrth y gair 'crebwyll,' am yr hwn y soniant gymaint. Y mae y Doethawr Puw yn dyweud am dano mai dyfais ydyw. Eglurhad BARDDAS arno yw ei fod yn cael ei alw felly am waith awen yn creu pethau sydd yn bodoli ac yn dygwydd gyda golwg ar ansawdd natur, a rheswm, er na byddo iddynt fodolaeth mewn gwirionedd ac o angenrheidrwydd. Y mae hyn yn dangos na thal dychymygion tu allan i gylch natur a rheswm ddim, er fod hyny wedi cael ei gynyg ini yn ddiweddar, yn lle barddoniaeth bur a diledryw. Y mae barddoniaeth yn cyfranogi yn lled helaeth o ansawdd ffugchwedl. Y mae yn hono gymeriadau a all fod, a chan bob un ei orchwyl yn yr hanes, a hwnw yn naturiol i bob un. Y mae gan *Uncle Tom's Cabin* ei Domas, Haley, Eliza, Harris, Aunt Chloe, Shelby, Eva, Topsey, Miss Ophelia, St. Clare, a Legree, &c. Nid ydis wrth ddarllen y llyfr yn golygu fod y personau a enwir yn bodoli mewn gwirionedd; ond nid ydis yn gweled dim yn cael ei wneud na'i ddyweud gan y naill na'r llall nad ydyw o fewn cylch natur; oblegid dynion o wahanol fathau ac ansoddau yn cael eu gosod allan yw y cwbl; ac y mae pob un yn llefaru ac yn gweithredu fel y buasai rhywun arall o blant Adda yn gwneuthur yn yr un amgylchiadau a than yr un deddfau: ond pe clywsem awdures *Uncle Tom's Cabin* yn son fod Eliza yn ehedeg; Harris yn cerdded ar donau y mor; Aunt Chloe yn creu ymborth yn lle ei barotoi; Eva yn dal Jupiter yn un llaw a Mercury yn y llaw arall; a Haley neu Legree yn gallu cyrchu deng mil yn y flwyddyn o wyr Affrig heb gwch na llong; dim ond galw arnynt o bellafoedd y ddaiar, buasem yn debyg o ameu a fuasai yr awdures yn ei phwyll. Dychymygion celwyddog mor ddisail ac mor wirionllyd a'r rhai hyn sydd yn cael eu cynyg mewn llaws o'r pryddestau yn yr oes hon, yr hyn a eilw yr awdwyr yn 'grebwyll'; ac am na chymradwyr y fath wylltineb afresymol, dywedir am y gwrthwynebwyr nad oes ganddynt ddim 'crebwyll' yn eu gwaith; ac o gan-

lyniad nad ydynt yn feirdd o 'athrylith.' Beir beirniad, weithiau hefyd am na byddai yn barnu prydestau gweigion Cymreig fel pe byddai yn beirniadu rhyw orchestgamp o eiddo y Saeson, hen neu ddiweddar. Nid ydyw yr awdwr wedi dygwydd bod o ran ei syniadau yn cydreddeg â'i gydoeswyr, ar amryw o bethau a ystyriai rhai, y mae ganddo ef barch mawr iddynt, yn bwysig; ac efallai, ei fod ef eto yn debyg o farnu yn groes i'r rhan fwyaf ar farddoniaeth; ond gan mai rhydd i bawb ei farn a'i lafar, anturia fynegu ei syniadau. Nid ydyw efe wedi canfod dim sydd yn galw arno newid y syniadau a ymddangosasant yn y Drych Barddonol, nac i farnu yn wahanol i'r sylwadau sydd yn nechreu yr erthygl hwn; ond y mae efe yn meddwl ychwanegu at y sylwadau hyny, drwy honi mai y Bibl, neu farddoniaeth y Bibl, yw yr unig safon perffaith i ni wybod pa beth yw barddoniaeth. Y mae y Bibl yn arweinydd sicr, a gorfydd i bob glin blygu ger ei fron. Y mae y Bibl drwyddo yn llyfr o ffugurau prydfferth, ac y mae ei eiriau a'i feddyldrychau yn farddonol. Y mae wedi defnyddio anifeiliaid y goedwig,* blodau y maes, ser y nefoedd, ac elfenau natur at ei wasanaeth; ond pa bryd y gwelwyd y Bibl yn gwneud cam â ffugur erioed? neu yn ddireswm yn ei ffugurau? Y mae ei lew yn dirmygu tywod y diffaethwch, yr ewig wyllt yn llamu dros y mynyddau, yr oen yn cael ei arwain i'r lladdfa yn fud, yr afr yn ffoi i'r diffeithwch, y rhosyn yn blodeuo yn Saron, y lili yn plygu ei ben yn y dyffryn, y pren afalau yn ymgyrmu dan ei lwyth, y graig fawr yn gysgod mewn tir sychedig, y dyfroedd yn llawenhau y sychdir, y lloer a'r seren fore, Carmel yn y mor, Tabor yn y mynyddau, y gwllith o groth y wawr, yr enfys yn amgylchu yr olygfa, y daran yn llais Duw, y gwynt a'r daiargryn yn gamrau iddo, i gyd yn naturiol ac yn hardd. Nid oes ynddynt ddim i boeni y glust, ddim i archolli y chwaeth, na dim i glwyfo rheswm. Y mae y cyfan tu fewn i gylch gwirionedd. Y mae yr holl ffugurau yn weddaidd; ac y mae y darllenydd cyffredin yn gallu dilyn yr ysgrifenydd santaidd. Ond pan drown i chwilio am yr arucheledd, y crebwyll, a'r athrylith, y sonia rhai prydestwyr Cymreig am danynt, yr ydym yn ffaelu yn ein byw a'u canfod yn eu gwaith: ond yn hytrach y mae eu geiriau fel plwm, a'u meddyliau fel ia. Nid ydynt yn addysgu, yn boddhau, nac yn effeithio. Byddai yn ddigon bychan talu cyflog i ddyn am ddarllen eu gorchestion. Y mae ynddynt fwy o eiriau llanw hefyd yn ol yr herwydd, nag sydd yn

* Gilfillan.

yr awdlau mwyaf cyffredin; ac nid ydynt yn dyfod yn agos iddynt o ran coethder iaith na dullwedd, egni meddwl, nac amrywiaeth. Rheffynau hirion ydyw y cyfryw, yn gyffredin, na ehostiodd i'r awdwyr na llafur na dyfaliad wrth eu llunio. Dim ond gollwng allan, heb reol na threfn, feddyliau amrwd ac annaturiol, heb un math o wirionedd yn sail iddynt, gan ddysgwyl i'r wlad fod mor wirion a'u llyneuo a chredu mai ffrwyth 'crebwyll,' ydynt; ac fod rhyw arucheledd anfesuradwy ynddynt i'r rhai sydd yn deall ac yn amgyffred barddoniaeth o'r iawn ryw! Yr ydym wedi amlygu lawer gwaith yr hoffem weled pryddest yn ateb i'r darlun o'r hyn y dylai pryddest fod gan ei haddolwyr; ond yr ydym yn ofni y gorfydd i'r genedlaeth hon fyned heibio heb ini gael hyny; canys nid oes neb pryddestwyr ar y maes, yn breseuol, a ddichon gyflawni y fath orchestgamp. Y mae yn hawdd i wyr y bryddest son wrth bobl na thalasant fawr o sylw i farddoniaeth, pa beth a ddylai fod mewn barddoniaeth; yn debyg fel y byddai yr hen feirdd yn cyfrif eu bysedd ac yn son am ddirgelion a champusrwydd englyn, wrth gymdeithion na wyddent ddim rhagor rhwng englyn ag *abracadabra*; ond gwneuthur y peth nes argyhoeddi y genedl ar unwaith yw yr unig ffordd ydym ni yn ganfod i ddyfod a'r byd i newid ei farn. Y mae pryddestwyr yn gwrthwynebu y gynganedd gyda'r fath ffyrnigrwydd fel pe na byddai dim yn bod mewn sain a chlorianiad geiriau yn perthyn i farddeniaeth. Yr ydym ninau yn honi fod llawer iawn a wnele sain a chlorianiad geiriau â barddoniaeth. Dywed un awdwr fod Milton yn chwareu ar ei fesur fel ei organ. Ei fod yn dwyn allan gyda bys beiddgar bob nodyn ardderchog ac amrywiaethol, weithiau gydag effaith aruthrol, gan dafu rhinciad o anghydgoriad o fyr barhad i chwydd llawn y beroriaeth. Y mae bardd, nad ydyw yn annheilwng i'w feirniadu ef, yn difynu y llinellau lle y mae angeu yn bygwth Satan wrth byrth Uffern—

“ Back to thy punishment
False fugitive! and to thy speed add wings,
Lest with a whip of scorpions I pursue
Thy ling'ring—or with one stroke of this dart,
Strange horror seize thee, and pangs unfelt before.

ac yn dyweud, y mae llaw celfyddydwr yn cael ei theimlo drwy bob symudiad o'r frawddeg hon; yn enwedig, tua'r diwedd, lle yr ymddengys ei bod yn gafael yn ngwddf y darlennydd; y mae y *straccato* caled yn sefyll, sydd agos a dwyn ymaith yr anadl, wrth geisio seinio yr *or*, “neu gydag un ergyd â'r bicell hon,”

ac yn cael ei ddilyn gan ffrwydriad swm yn y linell ddiweddaf fel gollyngiad ergydion magnelau trymion.*

Yr oedd Shenstone yn teimlo ei glust yn cael ei boddhau bob amser â geiriau megis *watery* y rhai sydd yn ddau sill, ond yn meddu llawnder tri. Os astudir Shakspeare gyda manylrwydd cyffelyb, deallir holl gwmpas a nerth yr iaith Seisnig.

Y mae Dryden yn cyfaddef ei rwymedigaethau i gydgordiad swm am ei gynorthwyo i gael meddylddrych; ac y mae rhai o ddarluniau mwyaf gorchestol Spenser yn ymddangos fel rhai wedi tyfu o angenrheidiau ei fesur. Y mae Warton yn difynu rhwymiad Furor gan Guyon:—

“With hundred iron chains he did him bind,
And hundred knots, which did him sore constrain;
Yet his great iron teeth he still did grind,
And grimly gnash, threatening revenge in vain:
His burning eyes, whom bloody streaks did stain
Stared full wide, and threw forth sparks of fire;
And more for rank despight, than for great pain,
Shakt his long locks coloured like copper wire,
And bit his tawny beard to show his raging ire.”

Oni buasai y mydriad gorchestol, buasai raid ini fod heb amgylchiadau bywiog y 5, 6, a'r 8 linell yn y darn blaenorol. Byddai Shenstone yn arfer a dyweud, ac y mae profiad yn cadarnhau ei ddywediad, mai y llinellau barddonol, y brawddegau rhyddieithol, ac hyd yn nod yr adnodau o'r Ysgrythyrau a gofir ac a adroddir fynychaf yw y rhai a deimlir fwyaf peroriaethol ar y glust.

Nid ydyw y cyfansoddiadau y byddwn yn troi atynt gyda mynychiad serohog a'u teilyngdod pereiddseiniol yn llai dyddorol na'u delweddu. Os oes cymaint o bwys yn cael ei osod ar gloriantiad geiriau, mydriad, a pheraidd sain, yn Saesonaeg, a ydyw yn rhyfedd fod y Cymro a'i ymlyniad mor gryf wrth bereiddsain y gynganedd? Y mae hon yn y Gymraeg wedi bod yn foddion, yn ddiau, i'r bardd gyraedd llawer meddylddrych, megis y bu y cydgordiad i Dryden. Y mae genym niferi o feddylddrychau na welasid mo honynt, oni buasai y gynganedd Gymreig; a chan fod newid mesurau a dullwedd barddoniaeth, yn aflonyddu y glust, nid ydym yn synu dim fod y bryddest Gymreig mor anmhoblogawl hyd yma, a'r englyn a'r awdl mor dderbiniol. Y mae clustiau y werin wedi cynefino cymaint â swm, ac â phertrwydd englyn, neu ddwy linell o gywydd, fel y cymer amryw oesau, y

* Willmott.

mae lle i feddwl, cyn y daw canu penrhydd hallol ddibris o bob rheol i gadw eu lle.

Y mae yn anhawdd iawn rhoddi cymeradwyaeth i'r rhai a ragorasant yn y gynganedd, ac a gyraeddasant eu gorsafoedd presenol drwy eu gorchestion yn y gynganedd yn unig, pan y gwelir hwy yn gwneud pob peth a allant i daflu y gynganedd i warth. Pa beth a ddaethai o rai sydd yn sefyll yn uchel fel beirdd, yn bresenol, pe taflasant eu dirmyg ar gynganedd a mesur yn nghychwyniad eu gyrfa farddonol? Y mae yn hawdd iawn ini ddarllen eu tynged, sef, y buasant o'r golwg yn llwyr, wedi eu claddu yn fyw er eu holl ragoriaethau meddyliol. Gwneud llinell farddonol yn gywir a gododd awydd ynddynt am wneud englyn; a gwnend englyn a gododd awydd ynddynt am wneud cywydd ac awdl; ac wedi enill gydag englyn, cywydd, neu awdl, dygodd hyny hwynt i'r golwg, a marciodd hwy allan fel dynion o athrylith; ac yn raddol enillasant ddylanwad fel beirdd. Nid teg, gan hyny, ynddynt hwy yw diystyru y moddion, ie, yr unig foddion a'u dygodd hwy i sylw; canys heb y moddion hyn, buasant yr awrhon mor ddiddylanwad yn y byd barddonol ag yw y pryddestwyr, na ddaethant yn uwch na phryddestwyr erioed, ond ydynt yn y cyntedd nesaf allan yn cyfarth, ac yn ceisio dirmygu y rhai sydd wedi enill iddynt eu hunain radd dda yn nheml enwogrwydd. Peth anmhrifodol yw i ddyn droi ei gefn ar ei gyfaill a'i gwnaeth ef y peth ydyw.

Y mae rhai o'r dynwaredwyr Cymreig yn dynwared y Saeson mor lwyr nes y maent yn copio eu gwallau yn gystal a'u rhinweddau, gan feddwl fod hyny yn orchest! Yr oedd pregethwr pur poblogawl mewn tref yn Neheudir Cymru, flyneddau yn ol, a chando law wedi gwywo; ac yr oedd yn gorfod dal hono, fel y gellir tybio, mewn ffordd annaturiol; a chymaint oedd awydd un pregethwr ieuanc am fod yn bregethwr poblogawl fel y dynwaredai y pregethwr poblogawl hwnw, yn ei lais, yn ei ystum, ac hyd yn nod yn naliad annaturiol ei law! Felly y mae ein dynwaredwyr ninau yn dynwared y rhai sydd yn dduwiau yn eu golwg yn mhlith y Saeson a'r Cymry, yn musgrellni eu hiaith, gerwinder eu chwaeth, a thywyllwch eu syniadau; ac ymfrostiant yn eu gwendid: ond os â rhywrai i bwyntio allan eu diffygion a'u hanghysonderau, dywedant, nad ydynt yn meddu 'crebwyll', nac 'athrylith'; 'mai dynion o dalent ffurfiol ydynt'. Nad ydynt ddim yn 'broffwydi', ond meistriaid; nad ydynt ddim yn 'feirdd' ond 'celfyddydwyr'. Dyna y ffordd a gymerir yn y dyddiau hyn i

fyddaru gwerinos gan ddynion a fynant gael eu cydnabod yn feirdd, ac yn arweinwyr yr oes.

Nid ydym yn rhyfeddu fod cymaint o egni yn cael ei wneud o du'r bryddest, canys y mae yn haws ei chyfansoddi fil o weithiau nag awdl; ond y syndod yw nad oes ond ychydig iawn o'r prif-feirdd a allasant feistroli y gynganedd yn ei holl ddulliau, a'r iaith yn ei holl neillduolion a'i hamrywiaethau, wedi bod yn fwy ffafrol i'r bryddest nag i'r awdl yn Nghymru. Y mae genym ychydig eithradau, y mae yn wir, ond yn gyffredin, yn mhlith dosbarth eiddil, arwynebol, a diathrylith, a chwenychent fod yn feirdd 'yn ol braint a defod', ac a fethasant a chyraedd pen bryn Parnassus, y mae y bryddest yn fwyaf cymeradwy. Pa un o'r prydestwyr broliog a gyfansoddodd ddeuddeg englyn difai erioed, heb son am awdl? Pe gwelsem gampwyr yn y gynganedd fel Dewi Wyn, Gutyn Peris, Dafydd Ionawr, a Robert ab Gwilym Ddu yn troi i ganmol y bryddest yn fwy na'r awdl, buasai y mater yn teilyngu mwy o sylw nag ydyw pan nad oes ond dynion cyffredin na ragorasant erioed, mewn cywydd nac englyn, ac na wyddir prin pwy ydynt, am droi yr awdl heibio yn llwyr. Onid ydyw yn ddigon hawdd gweled mai ar eu ffordd hwy i gyraedd enwogrwydd fel beirdd y mae yr awdl? Wedi'r cwbl onid oes i bob cenedl ac iaith ei neillduolion a'i dull priodol ei hun? Ac oni wyr pob un sydd yn arfer sylwi yr anhawsder sydd i gael gwahanol genedloedd i synied ac i osod allan eu syniadau yr un fath? Dywed un mai lleisiau meddwl cenedl yw ieithoedd. Ac fod hinsawdd yn effeithio llawer ar iaith. Fod yr engraff ryfeddaf o iaith wedi cael ei llunio gan hinsawdd i'w chanfod yn Ynysoedd Mor y De; fod pennodau cyfain o'r Testament Newydd yn yr ieithoedd hyny heb gydseiniaid yn diweddu eu geiriau. Na fedd y Roeg fynyddig ddim o sain yr Ionic feddal. Fod y Saxoniaith yn bwrw allan arswydolrwydd y fforestydd lle y tyfodd yn ei geiriau byrion, sarug, a difrifol. Ac onid oes rhywbeth yn iaith y Cymry a'u barddoniaeth yn cydweddu mor hollol a'u gwlad ac a'u harferion, fel nad ellir byth ei ddileu na gosod dim byd Seisnig yn ei le? Byddai mor chwith gan y Cymro roddi lle y delyn i *guitar* yr Yspaenwr, neu i *bibroch* Ucheldiroedd yr Alban ag a fyddai ganddo roddi lle yr awdl i'r bryddest. Y mae yr iaith yn Gymreig, y gynganedd yn Gymreig, a'r awdl yn Gymreig; nid ydyw y bryddest eto wedi eistedd ar y genedl, nac wedi cael lle yn ei mynwes; ond edrychir arni gyda chymaint o amheuaeth ac o eiddigedd ag yr edrychir ar Wyddel, neu Eidal-

ydd a ddelo i'n terfynau. Y mae yn newyddbeth, ac yn newyddbeth annaturiol ac anghymeradwy o ran ei sain a'i hystum. Yr un peth yn ein barn ni, fyddai cael gan y Saeson dderbyn y pedwar mesur ar ugain ag a fyddai cael gan y Cymry dderbyn y bryddest yn lle yr awdl, yn y dyddiau presenol.

Y mae iaith a gwisg yn rhywbeth, ac onide i ba beth yr elir i drafferth i astudio iaith a ffugurau, chwaeth ac arddull? Y mae llawer o feddyliau mor ddibynol ar yr iaith y maent wedi eu gwisgo ynddi, fel y collent haner eu prydfferthwch pe gwisgid hwy mewn dull gwahanol. Y mae genym ninau lawer o ddarnau barddonol pe'u dihetrid o'u gwisg, a ymddangosent yn isel, er nad ellir eu gosod allan mewn rhyddiaith mor gryno, mor darawiadol, nac mor nerthol ag y maent yn y gynganedd. Er engraff, pe tynid yr englyn hwn o'i wisg,

“Ac i'r ffon yr ymfoddlonwyf—bellach,
A chan bwyll yr elwyf:
Blino wrth rodio 'r ydwyf,
Llusgo ar ol—llesgau 'r wyf;”

ni edrychai y meddylddrych ond cyffredin, megis, “Rhaid imi foddloni i'r ffon bellach, a chymeryd yn araf; yr wyf yn blino wrth bob peth, ac yn llusgo yn wanlyd ar ol.” Y mae y dull y mae y bardd wedi ei gymeryd yn gosod y peth allan yn gryno, yn gryf, ac yn hawdd ei gofio. Pa beth ond y wisg farddonol sydd yn peri cymaint o gymeradwyaeth i Gywydd y Farn Fawr, o waith Goronwy? Nid ydyw y meddyliau yn newyddion, na'r mater yn ddyeithr; ond y mae agos y cwbl y mae efe wedi ei fynegu yn hawdd i'w casglu wrth ddarllen yr Efengylwyr; ond eto y mae rhyw newydd-deb i'w weled ar y mater, wrth ddarllen y Cywydd, a hyny o herwydd ei fod wedi ei ddodi mewn gwisg farddonol.

Yr un sylweddau yw y cerig pan yn dyrau gwahanol yn ymyl yr adeilad a phan fyddont yn y mur; ond y mae rhagor mawr rhyngddynt yn eu sefyllfaedd diweddaf a phan ddygwyd hwy gyntaf o'r gloddfa. Felly y mae geiriau, yr un sylweddau ydynt pan y penodir arnynt gyntaf yn y meddwl, neu yn y geirlyfr, a phan fyddont yn y linell neu y llinellau; ond y mae eu gosodiad cywrain yn eu lleoedd priodol yn peri iddynt ymddangos yn wahanol iawn.

Onid oes genym wahanol ieithweddau neu arddulliau (*styles*) yn cael eu harfer wrth ysgrifenu, megis, y Gryno, y Wasgaredig, y Gref, y Wan, yr Eglur, y Sych, y Ddillyn, y Brydferth, y Flod-

euog, y Syml a'r Angerddol, ond ni fydd mabwysiwyr y Gryno am ddileu y Wasgaredig; na mabwysiwyr yr Eglur am ddileu y Brydferth, neu y Flodeuog; paham gan hyny y ceisia y rhai sydd a'u tuedd at y gân rydd ddileu yr awdl? Onid gwell ibob un wneud ei oreu yn ei ddull naturiol ei hun? Os na fedd prydestwr athrylith a medrusrwydd i gyfansoddi awdl, maddeuwn iddo am aros gyda'r peth y gwyr fwyaf am dano. Ymdrechod ragori yn ei gylch ei hun, ac na fydded mor ffol a thybio y cymer y byd ei wastadhau gan fympwy.

Y mae yn syndod meddwl fod cynifer o feirdd i'w cael at bob testun yn y dyddiau hyn. Os oes coel i'w roddi ar arwyddion yr amserau, rhaid i do neu ddau o'r prydestwyr, sydd yn meddwl nad oes dim barddoniaeth ond yn eu rhimynau penrhydd hwy, fyned i ffordd yr holl ddaiar, cyn y lleddir y gynganedd. Ni wyddom ni pa sawl to ar ol hyny fydd raid ei gladdu cyn y cyraedd y brydest le yr awdl, a'r penill le yr englyn.

Y mae y gynganedd a'r awdl yn dlysach fil o weithiau eto na'r rheffynau pen bawd a gynygir yn eu lle gan ryw ddynion na wyddant ddim mwy am y gynganedd, a gwir farddoniaeth, nag a wyddant am y ffordd oddiyma i Seren Sior.

Y mae yr awdwr wedi ymdrechu darparu ar gyfer pob dosbarth yn y casgliad hwn, ond y rhai sydd wedi eu dallu â rhagfarn.

Pa fodd bynag y mae efe yn foddolawn i'w waith sefyll neu syrthio yn ol barn y diragfarn a'r dysgedig o'i gydwladwyr. Nid ydyw am ymdrafferthu yn nghylch ei dynged, oblegid y mae yn sicr o gyfiawnder oddiar law y dosbarth hwnw, gan nad pwy a an-foddlonir. Y mae cael cymeradwyaeth un Walter Mechain, un John Blackwell, un Tegid, un Ieuan glan Geirionydd, neu un Ieuan Gwynedd, i ddarn o farddoniaeth yn fwy o bwys yn ei olwg ef na phe byddai mil o ryw fath o ddynion wedi ymfyddino i'w ganmol a'i gymeradwyo. Y mae yn y gwaith hwn amryw ddarnau a gymeradwywyd gan y gwyr hybarch a enwyd; ac y mae hyny yn calonogi yr awdwr i'w ollwng drwy y wasg, gan hyderu ar yr un pryd, nad oes ynddo ddim a duedda, mewn un modd, i adael argraff anmhriodol ar feddwl neb o'i ddarllenwyr, na llinell y cyst iddo oblegid ei thuedd, ei galw yn ol ar wely angeu.

YR AWDWR.

LIST OF SUBSCRIBERS.

ANGLESEY.	
J. Richards, Esq. Bron Menai, (Iocyn Ddu), 6 copies.	Mr. J. Hughes, Junior, do.
R. Williams, Esq. Treban.	— O. Parry, Currier, do.
J. Hughes, Esq. (Ieuan Alaw), Llanerch y medd.	— J. Forsyth, (Brochwel), do.
W. Evans, Esq. Surgeon. do.	— W. Aubrey, Bookseller, do.
J. Lloyd, Esq. Surgeon, Llangefni	— W. Humphreys, Bodynolwyn.
Rev. H. Owen, Rectory, Llanerch y medd.	— S. Owen, Bodsuran.
— W. Griffith, Holyhead.	— J. Hughes, Pen yr Orsedd.
— W. Thomas, Beaumaris.	— O. Pritchard (Gaian) Ty'n Llan, Llandrygarn.
— W. Jones, Amlwch.	— W. Parry, (Walsall Staffordshire).
— J. Roberts, Llanerch y medd.	— E. Parry, Currier, Llangefni.
— R. E. Williams, Llanddeusant.	— J. W. Jones, Bookseller, Amlwch, (Cowlydon), 3 copies.
— J. Jones, Cemaes.	CAERNARVONSHIRE.
— J. Hughes, Borth.	D. Williams, Esq. Bron Eryri, 4 copies.
Mr. H. Thomas, Engineer, Holyhead.	O. O. Roberts, Esq. M. D. Bangor
— E. Griffith, Anglesey House, do.	G. Griffith, Esq. Bron y Garth, Porth Madog.
— J. Tyrer, Beaumaris.	R. Thomas, Esq. Plas Du, Pwllheli
— H. Williams, Ty Hen, Llanbeulan.	Jon. Jones, Esq. Caernarvon.
— T. Williams, Treban.	H. B. Davies, Esq. Surgeon, (Cuhelyn Mon), Pen y Groes.
— R. Roberts, do.	Rev. W. Jones, Vicar of Nevin.
— O. Williams, Treferwydd, Llandrygarn.	— H. Hughes, (Tegai), 6 copies.
— W. Jones, Factory, Cymunod.	— W. Ambrose, Porth Madog.
— R. Roberts, Tyddyn Harri, Llanfaelog.	— R. Parry, Conwy (Gwalchmai)
— J. Evans, Ty 'n y Berllan, Bryngwran.	— R. Thomas, Bangor.
— R. Jones, Tan y lan, Llanddeusant.	— D. Roberts, Caernarvon.
— H. Jones, Draper, do.	— J. Davies, Henryd.
— R. J. Pryse, Llanrhuddlad, (Gweirydd ab Rhys).	— E. Stephen, Dwygyfylchi.
— S. Roberts, Cefn Coch.	— D. Jones, Llanengan.
— J. Griffith, Plas Cemlyn.	— E. Evans, Pisgah.
— O. Hughes, Pen yr Orsedd.	— G. Parry, Caernarvon.
— T. Parry, (Llanerchudd), Llanerch y medd.	Mr. R. Jones, Bethesda, 24 copies
	— R. Hughes, Ebenezer, 12 do.
	— R. Hughes, Bangor, (Robin Wyn), 20 do.
	— W. M. Hughes, do. (Gwawdrydd), 6 do.
	— W. Hughes, do. (G. Mon), 6 do.

- Mr. O. B. Hughes, Trefriw, 6 do.
 — J. Williams, Agent of the Welsh Insurance Society, 6 do.
 — R. Williams, Dwygyfylechi, 6 do.
 — J. Williams, Porth Madog, (Ioan Madog), 6 do.
 — R. Williams, Bard, do.
 — J. Williams, Bookseller, Caernarvon, 2 do.
 — D. Griffith, (Clwydfardd), do.
 — J. Hughes, Watchmaker, do.
 — D. Harries, Cord wainer, do.
 — J. Evans, Jun. Chandler, do.
 — E. Roberts, (Ieuan Glan Cadnant), do.
 — G. Pritchard, Bangor st. do.
 — H. Jones, Mariner, do.
 — D. Jones, Printer, do.
 — D. Morgan, Baker, do.
 — R. Rowlands, Cabinet Maker, do.
 — R. T. Roberts, Tailor, do.
 — J. Jones, Baker, do.
 — H. Thomas, Cabinet Maker, do.
 — R. Hughes, Shipwright, do.
 — W. Parry, Coal Merchant, do.
 — O. Owens, Shipwright, do.
 — R. B. Owen, Draper, do.
 — Edwin Lloyd, Surgeon, do.
 — H. Rowlands, Carpenter, do.
 — W. Rowlands, Painter, do.
 — R. Lewis, Jun. Cordwainer, do.
 — W. M. Jones, (Fferyll Fardd), do.
 — J. O. Griffith, (Ioan Arfon), do.
 — J. Jones, (Ioan Glan Menai), do.
 — T. Hughes, Segontium Terrace, do.
 — W. P. Williams, do.
 — M. Hughes, Felin Heli.
 — W. Owen, Quay, Trefriw.
 — D. Williams, Clerk, do.
 Mrs. Jones, Hendre' Rhys Gethin Bettws.
 Mr. T. Jones, Glyn Lledr, do 2 copies.
 — H. Charles, Betws.
 — J. Jones, Tan yr Allt, do.
 — W. Williams, Waterloo Bridge, do.
 — D. Hughes, Gelli, do.
 — D. Jones, do.
- Mr. D. Thomas, Coach & Horses, Bethesda.
 — O. Roberts, Draper, Pen y Groes, Llanllyfni.
 — W. Williams, Currier, Bangor,
 — D. Williams, Ty Ddewi, Dinorwig.
 — R. Owen, Llandudno, (Bardd Machno).
 — J. Roberts, do. (Ioan Llech).
 — R. Williams, Painter.
 — D. Roberts, Joiner, do.
 — B. Williams, do.
 — W. Roberts, Gardener, do.
 — T. Rowlands, do.
 — W. Griffith, Fron oleu, do.
 — E. D. Jones, Glanau Cegin, Glasinfryn.
 — J. T. Jones, National Provincial Bank, Pwllheli.
 — O. Roberts, Trefriw.
 — Captain R. Owen, Vale of Conway.
 — J. W. Davies, Grocer, High st., Pwllheli.
 — R. Williams, Coal Merchant, Trefriw.
 — Evan Ellis, Printer, Pwllheli.
 — J. Davies, Chronicle Office, Bangor.
 Capt. W. Hughes, Porth Madog.
 — W. Humphreys, do.
 — C. Williams, do.
 — M. Roberts, Schooner 'Louisa.' do.
 — J. Roberts, do.
 — M. Jones, do.
 — J. Roberts, do.
 — J. Jones, do.
 Mr. R. Owen, do.
 — O. Morris, do.
 — T. Jones, do.
 — D. Lloyd, do.
 — E. Evans, do.
 — J. Jones, do.
 — W. Timothy, do.
 — O. Griffith, do.
 — M. Richards, do.
 — J. Lewis, do.
 — M. E. Morris, do.
 — W. Prichard, do.

Mr. W. Owen, Porth Madog
 — J. H. Williams, do.
 — O. Hughes, do.
 — W. E. Morris, do.
 — T. Rae, do.
 — W. Lloyd, do.
 — R. Owen, do.
 — J. E. Roberts, do.
 — O. E. Roberts, do.
 — H. Owen, do.
 — E. Hughes, do.
 — R. J. Pritchard, do.
 — E. Evans, do.
 — W. Owen, (Asaph), Ty fry,
 Penrhyn, do.
 — D. Evans, (Dewi Deudraeth),
 Yr Efail, do.
 — T. G. Williams, Smith, do.
 — W. Griffith, Ship and Boat
 Builder, do.

DENBIGHSHIRE.

R. Jones, Esq. Abergel, 12 Copies.
 J. Edwards, Esq. Denbigh.
 W. Elias, Esq. Abbey, Llanrwst.
 J. Jones, Esq. Dinorben, St. George
 R. Cadwaladr, Esq. Garthen Hall.
 W. E. Hughes, Esq. Surgeon, 2
 copies.
 Rev. E. T. Davies, St. George, 6
 do.
 — R. Williams, Brymbo, (Hwfa
 Mon), 6 do.
 — D. Price, Denbigh.
 — W. Lloyd, Wern.
 — W. Roberts, Pentre'r Foelas.
 — H. Ellis, Llangwm.
 — R. Roberts, Llanrwst.
 — J. Evans, Llansantffraid, (I.
 D. Ffraid).
 Mr. J. Jones, King's Head, Aber-
 gele, 12 copies.
 — T. Jones, Painter, Llangollen,
 (Taliesin o Eifion), 12 do.
 — T. Davies Watch and Clock
 Maker, Llanrwst, 12 do.
 — E. Owen, Llansantffraid, 3 do.
 — G. Jones, Swan, Llanrwst, 6 do
 — R. Williams, Watchmaker, do.
 6 do.
 — W. Jones, Timber merchant, do

Mr. H. Owen, Llanrwst, 6 do.
 — J. Edwards, Cyffdy, do.
 — W. Jones, Bethel, do.
 — I. Owen, Clerk, do.
 — J. Jones, Collector, do.
 — W. Jones, Grocer, do.
 — R. Williams, (Trebor Mai), do.
 — E. Williams, (Llithrig Arfon).
 do.
 — H. Roberts, Melin y Coed, do.
 — W. Williams, Shoemaker, do.
 — W. Lloyd, Draper, do.
 — H. Thomas, Bridge St. do.
 — H. Jones, (Alban Grwst), do.
 — W. Harker, Nant, do.
 — H. Roberts, Gwyllt Isaf, do.
 — R. Feichney, do.
 — W. Owen, Groesffordd Berth
 Ddu, do.
 — W. Jones, Tablan Llanddoged
 Mrs. Jones, Ffynon Newydd.
 Mr. D. Pierce, Ty'n y Celyn, do.
 — R. Hughes, (Glan Collen),
 Llangerniw.
 — T. Ellis, North Wales Asylum,
 Denbigh.
 — R. Foulkes, Draper, do.
 — D. Cadwaladr, Brymbo.
 — J. Jones, Rhuabou Colliery.
 — D. White, Rhos Cottage.
 — J. Jones, Machine House, do.
 — D. Owens, Jun. Aberderfyn,
 do.
 — R. Owen, Rhos.
 — J. D. Jones, C. M., British
 & Foreign School Ruthin.
 Cymdeithas Lenyddol Pentre 'r
 Foelas.
 Mr. Jared Jones, do.
 — J. Jones, do.
 — M. Owen, Foelas.
 — D. Jones, Maes y Murddyn.
 — R. Thomas, Cottage.
 — D. Roberts, Hafod Elwy Inn.

FLINTSHIRE.

Rev. A. Francis, Rhyl.
 — T. Roberts, Newmarket.
 — H. Pugh, Mostyn, 3 copies.
 Mr. J. Williams, Post Office, Rhyl
 6 do.

- Mr. M. Jones, Greenfield, Holywell, 6 copies.
 — E. Jones, Bulkeley,
 — A. J. Brereton, Mold, (Andreas o Fon), 6 copies.
 — Job Bowen, C. E., Surveyor, Holywell.
 — J. E. Jones, do.
 — E. Gratton, London House, Bagillt.
 — R. Gratton, do.
 — J. Lloyd, Trelluniau.
- MERIONETHSHIRE.
- R. Roberts, Esq. Surgeon, Ffestiniog.
 Rev. O. W. Jones, Llanymawddwy.
 — M. D. Jones, Bala.
 — O. Evans, Maentwrog.
 Mr. G. Jones, Bookseller, Bala, 6 copies.
 — Mr. J. Roberts, Manchester House, Tan y grisiau, Ffestiniog, 4 copies.
 — E. Jones, (Ieuan Ionawr), 2 do.
 — J. Roberts, Vaults, Bala, 2 do.
 Mrs. Parry, do.
 Mr. E. Jones Printer, Dolgellau.
 — W. Griffith, do. do.
 — W. Davies, do. do.
 — I. Jones, do. do.
 — E. Edmunds, Chemist, do.
 — J. Williams, Draper, do.
 — L. Humphreys, do.
 — J. Hughes, Bron y Graig, Corwen.
 — H. Roberts, Dee Bank, do.
 — R. P. Roberts, Glynalwen, Sawing Mills.
 — R. Roberts, Ty'n y Cefn, do.
 — R. Jones, Draper, do.
 — J. Parry, Stag's Head, do.
 Miss Pritchard, Harp Inn, do.
 Mr. J. Owen, Dolfanog, do.
 — O. Owen, do.
 — H. Owen, do.
 — R. Owen, Fron Heulog.
 — R. Jones, (Eos Wyn), Pant y Maes, Dinas Mawddwy.
 — E. Williams, Pentref, Troed y Gadair.
- Mrs. A. Griffith, Dwysbren, do.
 Mr. E. Wynne o Wyrfaï.
 — D. Williams, Cwm Bowydd.
 — O. Jones, Bethania.
 — R. Thomas, Bookseller, do. 2 copies.
 — R. Williams, Plas Isaf, do.
 — R. P. Jones, Pen y Gelli, do.
 — J. Williams, Bron y Manod, do.
 — H. Jones, Bryn Caled, Llanuwchllyn.
 Miss Evans, (Elen Egryn), Llan-dderfel.
 Mr. R. Edwards, (Derfel Meirion)
 — G. Griffiths, (Gutyn Ebrill), Llwyn Talcen, Brithdir.
- MONTGOMERYSHIRE.
- E. Jones, Esq. Land Agent, Llanfyllin, 6 do.
 J. Jones, Esq. Gwynydy, Llanfair Caereinion.
 R. Roberts, Esq. North & South Wales Bank, Newtown.
 J. Hughes, Esq. Cwm Carnedd, Llanbryn-mair.
 Rev. D. Morgan, Llanfyllin.
 — S. Roberts, M. A. Llanbryn-mair.
 — W. Roberts, Pen y Bont Fawr
 — R. Hughes, Welshpool.
 — D. Evans, Penarth
 — E. Thomas, Meifod.
 — H. Rees, Llanidloes.
 — C. Jones, Llanfair Caereinion.
 Mr. R. Griffith, Draper, Newtown, 6 copies.
 — C. R. Jones, Llanfyllin.
 — M. Jones, Draper, Llanrhaidr yn Mochnant.
 — E. O. Jones, Draper, Welshpool
 — J. Thomas, Dolobran.
 — J. Baxter, Melin y Rhyd.
 — E. Thomas, Mount, Llanfair.
 — E. Peat, Bryn Derwen, do.
 — T. G. Jones, Llansantffraid, near Oswestry.
 — J. Breese, (Ioan Llanbryn-mair), Llanbryn-mair, Dol Fach
 — R. Davies, Fron, (Mynyddog), do.

Mr. H. Breese, (Huw Medi), Llanbrynmair.
 — E. Hughes, Dolydan, do.
 — J. R. Jones, Ty Mawr, do.
 — R. Evans, Braichodnant, do.
 — R. Evans, Blaen y Cwm, do.
 — T. Bebb, Pen y Ddol, do.
 — R. Evans, Dafarn Newydd, do.
 — E. Vaughan, Hafod, Llanfair Caereinion.
 — Owen, do.
 — Theodore, Doctor, do.
 — D. Morris, Gardener, do.
 — John Davies, Skinner, do.
 — Edwards, Grocer, do.

MONMOUTHSHIRE.

D. S. Lewis, Esq. Bryn Mawr.
 Rev. T. Rees, Beaufort, 6 copies.
 — W. Jenkin, Bryn Mawr, 3 do.
 — W. Roberts, Blaenau.
 — E. Hughes, Pen y Main.
 Mr. D. Griffith, Rumney, 6 copies
 — S. Owen, Bryn Mawr.
 — D. Williams, Beaufort.
 — J. Jones, Contractor, do.
 — D. Edmunds, do.
 — D. Morgan, do.
 — W. Jones, do.
 — T. Gwallter Price, (Cuhelyn).
 — E. Jones, Bryn Mawr.
 — W. Lewis, Agent, Cwmsany.
 — E. W. Jones, (Gwerydd Wylt), Rumney.

GLAMORGANSHIRE.

R. Evans, Esq. Maes Teg.
 Rev. J. Davies, Aberaman, 6 cop.
 — J. Thomas, Glyn Nedd, (Ieuan Morganwg), 6 do.
 — J. Jones, Maes Teg.
 Mr. W. Williams, Stag Inn, Aberdare, 6 Copies.
 — M. Thomas, Llwyni, 6 do.
 — T. Morgan, do. 6 do.
 — R. Evans, Saron, do. 6 do.
 — J. Jones, Boat Builder, Rhydfelen, Pont y Pridd, 6 do.
 — D. Morgan, Pant Drain, Caerphily, 7 do.
 — E. Williams, Groeswen, 2 cop.

Mr. W. Cosslet, do (Gwilym Eilian), 6 do., Groeswen.
 — D. Lewis, Pant Teg, 6 do.
 — T. Thomas, Dyffryn Isaf, do. 6 do.
 — T. Isaac, do.
 — W. Protheroe, do.
 Mrs. Lewis, Hendredeni, do.
 — D. T. Williams, Merthyr, (Tudfulyn).
 — J. Mathews, Neath.

CARMARTHENSHIRE.

Rev. D. Rees, Llanelli.
 — J. Williams, New Castle, Emllyn
 Mr. W. Edwards, Student Carmarthen College.
 — J. Jenkins, Salutation, Cwmanaman, Llanelli.

RADNORSHIRE.

Mr. W. R. Jones, Draper, Rhaiadr.

CARDIGANSHIRE.

Mr. D. W. Joshua, New Quay.

ENGLAND.

J. Jones, Esq. 68 Gibson Square, London.
 W. Jones, Esq. (Gwrgant).
 G. Griffith, Esq. Examiner's Office do.
 E. G. Salisbury, Esq. Chester.
 J. A. Lloyd, Esq. do.
 Mr. J. Griffith, Walworth House, London.
 — J. Richards, do.
 — J. Jones, Lambeth Walk, do.
 — R. J. Aubrey, Grosvenor Square do.
 — J. Price, (Ioan Machno), Chester, 6 copies.
 — W. Williams, Staley Bridge, (Creuddynfab), 6 do.
 J. Jones, Esq. Mentmore Leighton Buzzard, (Talhaiarn).
 — Peter Williams, Hanley, (Pedr Mostyn), 4 copies.
 — J. Evans, Grocer, Oswestry, 6 do.
 — W. Owen, Forsyth, London.

- | | |
|---|--|
| Mr. J. Owen, Drover's Arms,
Chester, 6 copies, (Iago). | Miss Williams, Liverpool. |
| — D. Meredyth Evans, Waterloo
House, King's Cross, London. | Miss Jones, do. |
| I. Lloyd, Esq. Blackburn, (Cyn-
ddelw). | Mr. D. Roberts, do. |
| Mr. D. S. Jones, Birmingham,
(Delta Glan Aeronia). | — J. Jones, do. |
| Rev. J. Thomas, Salop. | — D. Roberts, Commercial Tra-
veller, do. |
| — J. Jones, do. | — T. Jones, Southwell st., South-
well Terrace, do. |
| — J. H. Hughes, (Ieuan o Leyn),
West Hartlepool. | — G. Owen, Bethel, do. |
| — H. E. Thomas, Birkenhead. | — R. Price, do. |
| — J. Thomas, Erskine st, Liver-
pool, 2 copies. | — B. Owen, do. |
| — T. Pierce, do. | — J. Jones, do. |
| Mr. H. Hughes, (Gethin), do. 12
copies. | — E. Roberts, do. |
| — J. Thomas, 2 Seymour st.,
London Road, (Josephus Er-
yri), do., 2 do. | — J. Bryan, do. |
| — J. Pughe, Bookseller, 80 Tithe
Barn st., do. 6 copies. | — T. Edwards, do. |
| Rev. J. Roberts, 13 Parliament
Terrace, do. (Minimus). | — W. Hughes, do. |
| Mr. J. Pritchard, 25 Olive st.
Windsor, do. | — R. Lewis, do. |
| — D. Jones, do. | — J. Williams, do. |
| — R. Roberts, do. | — R. Williams, do. |
| — R. Parry, do. | — T. Owens, do. |
| — E. Foulkes, do. | — W. Williams, do. |
| — O. Williams, do. | — J. Roberts, do. |
| — O. Hughes, do. | — L. Jones, do. |
| — J. Morris, do. | — E. O. Ellis, Artist, do. |
| — J. Evans, (Ioan Lleiviad), 30
Formby st. do. | Rev. R. Evans, Manchester,
(Trogwy). |
| | Mr. J. Davies, Salford, do. |
| | — D. R. Griffith, do. |
| | — P. Griffith, do. |
| | — T. P. Griffith, do. |
| | — H. Jones, do. |
| | — E. Pugh, do. |
| | — R. Jones, do. |
| | — J. Jones, do. |
| | Rev. J. Gwilym Roberts, Horn-
castle. |

